# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Fideo Gynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2021
Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Llinos Madeley**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2019 - 2020 (i gynnwys materion yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar addysg)

(09.15 - 10.45) (Tudalennau 1 - 229)

Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd EM - Estyn
Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol - Estyn
Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol - Estyn

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
CYPE(5)-01-21 - Papur 1

## Egwyl

(10.45 - 11.00)

## 3 Sesiwn dystiolaeth ar effaith COVID-19 ar addysg gyda chynrychiolwyr o'r undebau llafur

(11.00 - 12.15)

Eithne Hughes, Director - Cyfarwyddwr - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)
Laura Doel, Cyfarwyddwr - Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru

Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi - Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Mary van den Heuvel, Uwch Swyddog Polisi Cymru - Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Neil Butler, Swyddog Cenedlaethol Cymru – Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Rosie Lewis, Trefnydd Rhanbarthol, arweinydd ysgolion, Cymru – UNSAIN
Nicola Savage, Trefnydd Rhanbarthol Undeb GMB, Rhanbarth Cymru a'r De Orllewin

## 4 Papurau i'w nodi

(12.15)

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch yr Adroddiad Hawliau Plant: y camau nesaf

(Tudalennau 230 - 232)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 1

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gymwysterau Cymru yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2020

(Tudalennau 233 - 234)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 2

### 4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020

(Tudalennau 235 - 239)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 3

### 4.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020

(Tudalennau 240 - 247)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 4

**4.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddarparu Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y Cyfyngiadau Symud**

(Tudalen 248)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 5

**4.6 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 249 – 251)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 6

**4.7 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch penodi Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

(Tudalen 252)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 7

**4.8 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i hawliau plant yng Nghymru**

(Tudalennau 253 – 255)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 8

**4.9 Llythyr gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2020**

(Tudalennau 256 – 259)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 9

**4.10 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

(Tudalen 260)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 10

**4.11 Llythyr gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ei ymddeoliad**

(Tudalen 261)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur i'w nodi 11

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.15)

## 6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2019 – 2020 a COVID-19: trafod y dystiolaeth

(12.15 – 12.25)

## 7 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Trefn Ystyried – cytundeb cyn trafodion Cyfnod 2

(12.25 – 12.30) (Tudalennau 262 – 267)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur preifat

## 8 Ystyried blaenraglen waith y Pwyllgor

(12.30 – 12.45) (Tudalennau 268 – 270)

Dogfennau atodol:
CYPE(5)-01-21 – Papur preifat

## 9 Addysg Heblaw yn yr Ysgol – trafod yr adroddiad drafft [GOHIRIWYD]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

CYPE(5)-01-21 - Papur 1

Adroddiad Blynyddol Estyn



# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

2019-2020

Estyn

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2-3 | Cynnwys |
| 4-13 | Rhagair |
| 14-112 | **Adran 1: Sylwadau ar ddeilliannau arolygu sectorau – rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020** |
| 14-23 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 24-35 | Ysgolion cynradd |
| 36-47 | Ysgolion uwchradd |
| 48-51 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 52-56 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 57-61 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 62-65 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 66-69 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 70-74 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 75-81 | Gwasanaethau addysg llywodraeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 82-84 | Colegau addysg bellach |
| 85-91 | Dysgu yn y gwaith |
| 92-99 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 100-102 | Addysg gychwynnol athrawon |
| 103-107 | Cymraeg i Oedolion |
| 108-109 | Gyrfaoedd |
| 110-112 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |
| 113 -169 | **Adran 2: Ymateb i bandemig COVID-19 - Mawrth i Awst 2020** |
| 114 -115 | Amserlen 2019-2020 |
| 116 -127 | Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020 |


## Canllaw i'r adroddiad

**Adroddiad eleni yw'r 28ain adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi yng Nghymru yn olynol ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 ei gwneud yn ofynnol llunio'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys:**

**Rhagair y Prif Arolygydd**

**Adran 1:** Adroddiadau sector unigol am y canfyddiadau o arolygiadau a gynhaliwyd rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020

**Adran 2:** Adran thematig yn canolbwyntio ar ymateb y sector addysg a hyfforddiant i bandemig COVID-19 rhwng Mawrth ac Awst 2020

**Mae Atodiad 1** yn rhoi trosolwg o'r fframwaith arolygu a nodiadau am y geiriau, yr ymadroddion a'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad.

Mae **Atodiad 2** yn amlinellu cyfres o siartiau sy'n dangos deilliannau arolygu Estyn ar gyfer 2019-2020.

Mae **Atodiad 3** yn cynnwys dolenni at y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 128 -169 | **Adroddiad thematig ar ymateb sectorau i bandemig COVID-19 - Mawrth i Awst 2020** |
| 129 -139 | Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir |
| 140 -146 | Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) |
| 147 -149 | Lleoliadau meithrin nas cynhelir |
| 150 -155 | Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid |
| 156 -159 | Ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol |
| 160 -165 | Addysg a hyfforddiant ôl-16 |
| 166 -167 | Cymraeg i Oedolion |
| 168 -169 | Addysg gychwynnol i athrawon |
| 170-179 | Atodiad 1: Trosolwg |
| 180-186 | Atodiad 2: Deilliannau arolygu 2019-2020 |
| 187-201 | Atodiad 3: Cyfeiriadau |

# Rhagair

Daeth misoedd olaf blwyddyn academaidd 2019-2020 â heriau i addysg yng Nghymru nas gwelom mo'u tebyg mewn cenedlaethau. Cafwyd nifer o heriau, a'r rheiny'n rhai cymhleth ac annisgwyl. Newidiodd pandemig y COVID-19 fywydau pobl, cafodd effaith aruthrol ar economïau, ac amharwyd yn fawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adolygu safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru o Fedi 2019 hyd at fis Mawrth 2020, pan fu'n rhaid i ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill gau oherwydd y pandemig (ac eithrio i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol). Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnig disgrifiad cynnar o'r modd y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ymdopi â'r cyfnod clo ac ymdrechu i gefnogi disgyblion a myfyrwyr a darparu parhad dysgu ar eu cyfer o bell. Mae'r rhagair hwn yn amlinellu'r cefndir ac yn adlewyrchu ar yr hyn a ddysgwyd o'r argyfwng ac ar rai goblygiadau i'r dyfodol.

Cyn y cyfnod clo, roeddem wedi arolygu rhyw dair rhan o bump o'r darparwyr yr oeddem wedi cynllunio i ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae'r dystiolaeth o'r arolygiadau hyn ac ymweliadau eraill yn dangos patrwm tebyg i flynyddoedd diweddar, gyda rhai gwelliannau bychain yn cael eu atgyfnerthu ac arfer galonogol yn dod i'r amlwg mewn sectorau a oedd gynt yn tanberfformio. Mae safonau'n dda mewn wyth o bob deg ysgol gynradd ac yn hanner yr ysgolion uwchradd. Un nodwedd fwyfwy cyffredin yn ein hysgolion gorau yw'r ffordd y maent yn cynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr gwydn ac annibynnol y rhoddir dewisiadau iddynt ynglŷn â sut a beth maent yn ei ddysgu, tra bod ysgolion eraill heb ddatblygu cyd-ddealltwriaeth eto ymhlith eu staff o ran beth mae dysgwr annibynnol yn ei olygu. Mae ein hadroddiad thematig diweddar ar **Wydnwch** yn rhoi mwy o fanylion ac arweiniad ar y mater hwn. Mae ysgolion llwyddiannus yn creu ymdeimlad cymunedol a pherthyn fwyfwy hefyd, ac yn datblygu medrau dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth bersonol yn eu disgyblion. Mae safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn dda ar draws llawer o ddarparwyr ôl-16. Mae'r meysydd i'w gwella yn y sectorau hyn yn ymwneud â hunanwerthuso yn rhoi gormod o bwyslais ar ddata deilliannau dysgwyr heb rhoi ystyriaeth ddigonol i ffynonellau gwybodaeth eraill.

Mae'r cyfnod clo wedi bod yn adeg anodd i ddysgwyr a'u teuluoedd, ac fe wnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill roi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles eu dysgwyr, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a meddyliol. Ymatebodd ysgolion a darparwyr yn gyflym a gweithio'n hyblyg gyda gwasanaethau cymorth i leihau risgiau i ddysgwyr. Fe wnaethant hyrwyddo canllawiau iechyd cyhoeddus, rhannu cyngor gyda rhieni a dysgwyr, a chynnwys tasgau'n ymwneud â lles yn y gweithgareddau dysgu yr oeddent yn eu cynnig. Rhoesant gynnig ar amryw ffyrdd o gynnal perthnasoedd ac ymdeimlad o gymuned ymhlith dysgwyr, trwy gadw mewn cysylltiad, ac mewn rhai achosion, drwy sefydlu cyfleoedd iddynt ryngweithio â'i gilydd. O ganlyniad i roi blaenoriaeth i les dysgwyr, roedd llawer o ysgolion a darparwyr yn falch o wydnwch dysgwyr a'u hagwedd at waith pan ddychwelont am gyfnod byr i'r ysgol, coleg neu ganolfan hyfforddi ar ddiwedd y flwyddyn.



**Meilyr Rowlands**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Rhagair

Fe wnaeth ysgolion, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ganolbwyntio'n benodol ar les dysgwyr bregus. Nodont y rheiny yr oedd angen cymorth ychwanegol a chyswllt rheolaidd gan wasanaethau allanol arnynt, gan gynnwys y rhai yr oedd eu hymgysylltiad â dysgu yn arbennig o isel. Fe wnaethant sicrhau bod disgyblion cymwys yn derbyn prydau am ddim, neu dalebau neu daliadau. Darparodd rhai becynnau dysgu gydag eitemau fel creonau, pensiliau, ac adnoddau i ddatblygu medrau mathemategol ar gyfer plant a chanddynt fawr o adnoddau gartref. Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion arbennig ar agor ar gyfer disgyblion arbennig o fregus trwy gydol y cyfnod hwn, a chadwodd unedau cyfeirio disgyblion gyswllt agos â'u dysgwyr. Parhaodd bron yr holl ysgolion a cholegau annibynnol ar agor i ddarparu cymorth ar gyfer lles ac addysg dysgwyr ar y safle neu trwy ddysgu o bell.

Yn gyffredinol, datblygodd ysgolion ymwybyddiaeth fwy miniog o'r modd y gall bregusrwydd disgyblion effeithio ar eu cymhelliant, ymgysylltiad a dysgu yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, cydnabu staff mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn gyflym nad oedd llawer o ddisgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn adnabod y cartref fel amgylchedd dysgu, tra bod gweithgareddau ar-lein yn anhygyrch i raddau helaeth i ddisgyblion eraill ag anghenion cymhleth. Darparodd staff ddarpariaeth deilwredig ar gyfer dysgwyr gwahanol er mwyn bodloni'u hanghenion penodol, er enghraifft, trwy drefnu fideos gan therapydd lleferydd ac iaith i gynorthwyo rhieni gydag arferion cyfathrebu gartref. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion arbennig annibynnol sy'n addysgu disgyblion dydd roi mesurau ar waith i gefnogi'u lles, a chadwont mewn cysylltiad â disgyblion a'u teuluoedd trwy alwadau ffôn, y cyfryngau cymdeithasol neu ymweliadau â'r cartref.

Un nodwedd arbennig o'r cyfnod hwn oedd yr angen i ddarparu dull digidol o ddysgu ar gyfer y mwyafrif a oedd yn astudio gartref. Er ymdrechion sylweddol gan ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth ganolog i ddarparu cyfarpar a chymorth ychwanegol, roedd lleiafrif o ddysgwyr dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at gyfarpar gyfrifiadurol addas neu ddiffyg cysylltedd digonol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r cyfnod hir a dwys hwn o ddefnyddio technoleg ddigidol wedi golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr ac athrawon wedi gwella eu medrau digidol yn sylweddol. Roedd cryn amrywiaeth o ran pa mor wybodus a phrofiadol yr oedd ysgolion ac aelodau staff unigol gyda thechnoleg ddigidol cyn y cyfnod clo. Roedd ysgolion a oedd wedi buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ar ddysgu digidol ar gyfer staff cyn y cyfnod clo mewn sefyllfa well na'r rheiny nad oeddent wedi buddsoddi yn hynny. Newidiodd ysgolion eu patrymau darpariaeth oherwydd dros gyfnod bu gostyngiad mewn cymorth gan rieni a daeth llawer o ysgolion i'r casgliad bod lanlwytho gwaith bob dydd yn anhylaw a symudont at ddarparu tasgau tymor hwy. Mae staff wedi dysgu o'r profiad hwn ac o'r ymchwil sydd ar gael. Bellach, maent yn deall mwy am ddysgu digidol ac maent mewn sefyllfa well i ddarparu dysgu digidol neu gyfunol pan fydd yr angen yn codi eto. Mae'r ddealltwriaeth fanylach hon wedi arwain hefyd at werthfawrogiad gwell o'r modd y gallai dysgu digidol ategu addysgu a dysgu traddodiadol yn y dyfodol, er enghraifft, i wella'r dysgu ar gyfer dysgwyr mwy abl, i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i ddarparu dysgu i'r rheiny sy'n colli'r ysgol am ba reswm bynnag.

# Rhagair

Buan y symudodd darparwyr ôl-16 i roi dysgu o bell ar waith ar draws eu holl raglenni, a hyfforddi staff i gyflwyno ar-lein. Defnyddiont amryw lwyfannau dysgu ar-lein, a chynnal cyrsiau medrau ar-lein. Adroddodd darparwyr am gysylltiad da gan y rhan fwyaf o ddysgwyr, ond roeddent yn pryderu ynghylch lefelau ymgysylltu ymhlith grwpiau penodol, fel dysgwyr medrau byw'n annibynnol, dysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), a dysgwyr hŷn a dysgwyr eraill bregus. Nid oedd mynediad at liniadur addas na chysylltiad rhyngrwyd, na man addas i weithio gartref gan lawer o'r dysgwyr hyn. Er i ddarparwyr fenthyg offer a darparu cymorth ariannol, mae'r her i'r holl ddysgwyr gael mynediad at yr adnoddau y mae eu hangen arnynt yn bodoli o hyd.

Nodwedd arall o'r cyfnod hwn oedd y cynnydd yn y cyfathrebu gyda dysgwyr, rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Adolygodd llawer o ddarparwyr eu dulliau o gyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr dysgwyr i weld sut gellid eu gwella, a dechreuont ddefnyddio mwy o negeseuon fideo gan arweinwyr ysgol, cylchlythyrau, ac apiau i rannu gwybodaeth bwysig. Yn fwy nag erioed, roedd ysgolion eisiau meithrin perthynas dda â rhieni a oedd wedi ymgymryd yn uniongyrchol ag addysg eu plant ac yn eisiau gwybod gymaint ag y bo modd am beth i wneud a beth i'w ddisgwyl o ran cynnwys, dulliau addysgu, asesu ac adborth. Fel gyda materion digidol, roedd ysgolion yn amrywio cyn y cyfnod clo o ran pa mor ddatblygedig oedd y perthnasoedd a'r sianelau cyfathrebu hyn gyda theuluoedd. Lle'r oedd perthnasoedd yn llai datblygedig, roedd amser cyfyngedig o dan bwysau'r cyfnod clo i feithrin dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â disgwyliadau, yn enwedig mewn perthynas â manteision ac anfanteision mathau gwahanol o addysgu a dysgu ar-lein, fel ffrydio byw. Mae ein hadroddiad thematig diweddar ar **Ysgolion cymunedol** yn rhoi mwy o fanylion ac arweiniad ar feithrin perthynas â theuluoedd.

Mae athrawon ac ymarferwyr wedi gweithio'n galed yn ystod y cyfnod anodd hwn i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael gofal ac yn derbyn rhywfaint o barhad yn eu dysgu. Fe wnaeth yr heriau ychwanegol yn sgîl y pandemig roi cryn bwysau ar benaethiaid ac uwch arweinwyr eraill i flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau cyflym heb lawer o amser i ystyried opsiynau yn fanwl, ac weithiau effeithiodd hyn ar eu lles. Roedd sicrhau lefelau staffio priodol i gydbwyso parhad dysgu yn ogystal â gweithredu eu hysgol fel hyb gofal plant yn her i lawer o arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion llai, lle'r oedd colli ychydig aelodau staff i warchod neu salwch yn gwneud gwahaniaeth mawr. Roedd nifer y penderfyniadau logistaidd y bu'n rhaid i arweinwyr eu gwneud wedi golygu bod monitro gwaith disgyblion ar y dechrau yn canolbwyntio ar wirio nifer y tasgau a gynigiwyd a faint oedd wedi'u cwblhau, yn hytrach nag ar werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Cynyddodd llawer o ddysgwyr yr amser cynllunio, paratoi ac asesu a oedd ar gael i athrawon i gydnabod y gwaith ychwanegol yr oedd ei angen i gynllunio dysgu o bell. Hefyd, trefnont ddysgu proffesiynol ychwanegol ar gyfer staff, er enghraifft wrth ddefnyddio llwyfannau digidol neu ar gyfer delio ag ymgysylltiad disgyblion neu brofedigaethau. Er hynny, mae angen dysgu proffesiynol pellach o hyd ar y rhan fwyaf o athrawon i ddefnyddio dulliau dysgu digidol a dysgu cyfunol yn effeithiol.

# Rhagair

Wynebodd arweinwyr heriau yn y sectorau ôl-16 hefyd, gan gynnwys darparu gweithgarwch ar draws nifer o safleoedd. Cynhaliodd y darparwyr hyn gyfathrebu mewnol da gyda staff, ac yn aml roeddent yn cysylltu'n fwy rheolaidd na chyn y cyfnod clo. Cyfarfu arweinwr coleg â'i gilydd ddwy neu deirgwaith yr wythnos trwy gydol y cyfnod clo i gynllunio a rhannu profiadau ac ymatebion. Bu arweinwyr coleg ac arweinwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gytuno ar ganllawiau ar gyfer dulliau gweithio diwygiedig wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio. Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, roedd gan y rhan fwyaf o gadeiryddion partneriaethau gyfrifoldebau mewn awdurdodau lleol hefyd. Un fantais i hyn oedd ei fod yn galluogi cydlynu cefnogi'r dysgwyr sy'n oedolion mwyaf difreintiedig ac wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Lle'r oedd cyflogwyr yn ailagor, rhoddwyd ystyriaeth gan arweinwyr darparwyr dysgu yn y gwaith i'r modd y gallent gynnal ymweliadau ac asesiadau yn y gweithle yn ddiogel wrth gydymffurfio â rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.

Gweithiodd gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn flaengar i gefnogi'u cymunedau dysgu. Darparont gyngor, gan addasu canllawiau Llywodraeth Cymru mewn llawer o achosion i adlewyrchu anghenion lleol ac i ddarparu cymorth ymarferol a werthfawrogwyd yn fawr. Ceir enghreifftiau o swyddogion llywodraeth leol yn gweithio'n benderfynol i gynorthwyo arweinwyr ysgol i fodloni'r heriau cadw'u cymunedau ysgol yn ddiogel ac yn iach. Roedd awdurdodau lleol yn defnyddio'u staff yn greadigol yn aml i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion wrth weithio gyda dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd. Er enghraifft, buont yn ymweld â chartrefi, yn dosbarthu parseli bwyd, ac yn cynorthwyo hybiau gofal plant. Roedd llu o enghreifftiau o weithwyr ieuenctid yn defnyddio technoleg ddigidol i ddarparu cymorth ac arweiniad i bobl ifanc bregus. Lle bo modd, parhaodd swyddogion awdurdod lleol, ysgolion a lleoliadau, a phartneriaid aml-asiantaeth i gynnal o bell asesiadau statudol o anghenion addysgol arbennig a'r broses adolygu blynyddol. Gweithiodd consortia rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gynorthwyo neu arwain rhaglenni parhad dysgu. Darparont arweiniad i ysgolion ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, a chynigiont ddysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, fe wnaethant ddatblygu storfeydd adnoddau a arbedodd amser i athrawon.

Dadleuwyd bod y cyfnod clo wedi effeithio ar ddisgyblion iau yn arbennig am fod y cyfnod o darfu ar addysg, yn gyfatebol hwy ar gyfer y dysgwyr hyn. Bu rhai lleoliadau meithrin nas cynhelir yn gweithio'n galed i gefnogi plant a'u teuluoedd, er bod y strategaeth genedlaethol ar gyfer parhad dysgu ar gyfer y grŵp oedran hwn yn llai eglur nag ar gyfer ysgolion. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn heriol i leoliadau ac mae wedi amlygu breguster ariannol y sector. Tra bod ysgolion (a gynhelir gan awdurdodau lleol) wedi gallu parhau i gyflogi staff, gan gynnwys staff meithrin, fe wnaeth llawer o leoliadau meithrin nas cynhelir roi rhywfaint o'u gweithlu, neu'u gweithlu cyfan, ar ffyrlo. Nid yw cyfran o leoliadau wedi ailagor eto ac mae pryderon ynghylch llai yn manteisio ar leoedd addysg gynnar o bosibl, a bydd hyn yn ychwanegu at bryderon am hyfywedd y lleoliadau.

# Rhagair

Bu'n gyfnod pryderus i ddisgyblion hŷn hefyd wrth iddynt wynebu ansicrwydd ynghylch arholiadau a chwblhau'u hastudiaethau heb yr asesiadau arferol ar ddiwedd cwrs.  Roedd yr her yr haf hwn o ddyrannu graddau i ddysgwyr Safon Uwch, TGAU a dysgwyr galwedigaethol heb sefyll arholiadau neu gael asesiadau galwedigaethol terfynol mor anodd yng Nghymru ag ydoedd mewn mannau eraill.  Bob blwyddyn, caiff graddau arholiadau eu safoni, ac roedd y rhan fwyaf o sylwebwyr wedi cytuno y byddai cynnal deilliannau graddau gweddol gymharol ar gyfer y garfan hon o ddysgwyr yn osgoi codi graddau ac yn osgoi unrhyw awgrym bod y broses yn un llai trylwyr eleni, a allai roi'r garfan dan anfantais yn y tymor hwy.  Mae digwyddiadau haf 2020 yn awgrymu bod angen adolygu'r modd yr aseswn wybodaeth, dealltwriaeth a photensial dysgwyr yn gyffredinol.  Mae arholiadau yn ddull effeithiol ac effeithlon o asesu rhai categorïau sgiliau, ond mae'n bryd ailystyried sut gallai dulliau asesu eraill, gan gynnwys profion a thasgau safonedig, gwaith cwrs wedi'i gymedroli ac asesiadau athrawon, neu bortffolios o waith myfyrwyr, gyfrannu at ddarlun cyflawn o gyflawniad myfyrwyr hefyd.

Yn y sectorau ôl-16, er i staff weithio'n hyblyg i ddarparu adborth i ddysgwyr ar y gwaith roeddent wedi'i gwblhau ar-lein, y brif her oedd blaenoriaethu cymorth i ddysgwyr gwblhau asesiadau ymarferol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.  Ers dechrau'r pandemig, mae prentisiaid dysgu yn y gwaith wedi'u rhoi ar ffyrlo neu wedi'u diswyddo ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu, ond prentisiaid mewn cwmnïau bach y sector preifat ym meysydd trin gwallt a harddwch a lletygarwch ac arlwyo sydd wedi'u heffeithio fwyaf.  Mae'r pandemig yn cynnig cyfle i roi ffocws o'r newydd ar y modd y gall darparwyr yn y sectorau ôl-orfodol weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgwyr 16-19 oed yn y cyfnod pontio rhwng yr ysgol, coleg, gweithle a'r brifysgol.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi gweithio'n ddygn i gynorthwyo plant nad yw eu rhieni yn siarad Cymraeg er mwyn cynnal ac ymestyn eu medrau iaith yn ystod y cyfnod clo.  Yn yr achosion gorau, defnyddiont lwyfannau ar-lein, drwy Hwb yn aml, i ddarparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion, er mwyn hyrwyddo medrau llefaredd yn benodol.  Er enghraifft, fe wnaeth staff recordio'u hunain yn darllen storïau Cymraeg ac yn canu rhigymau er mwyn i ddisgyblion barhau i glywed Cymraeg llafar.  Darparodd ysgolion arweiniad i rieni i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau, brodyr a chwiorydd a siaradwyr Cymraeg eraill.  Cyflwynodd Mudiad Meithrin amser cylch dyddiol ar-lein yn Gymraeg i gefnogi'r dysgwyr ieuengach, a chynhyrchont ganllawiau i gynorthwyo rhieni â datblygiad Cymraeg eu plentyn gartref.  Er hynny, mae rhieni di-Gymraeg plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn bryderus ynglŷn â'u gallu i gynorthwyo dysgu'u plant.  O ran Cymraeg i Oedolion, fe wnaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyflymu gwaith i lansio cyrsiau dysgu cyfunol a chyrsiau ar-lein.  Er enghraifft, ffrydiodd wersi i ddechreuwyr yn ddyddiol, gan ddenu 2,000 o ddysgwyr.

# Rhagair

Roedd gan Gymru rai manteision wrth ddelio â'r argyfwng o ran bod ganddi lwyfan digidol cenedlaethol sefydledig (Hwb) ar gyfer ysgolion, traddodiad cynyddol o gydweithio rhwng cyrff addysg, a system addysg deg a chanddi ffocws ar les disgyblion. Serch hynny, fel mewn gwledydd eraill, roedd graddfa'r her yn golygu y bu'n rhaid datblygu polisïau ac arferion yn gyflym iawn ac ar fyr rybudd ar lefel ysgolion, awdurdodau, rhanbarthau a lefel genedlaethol. Mae'r ffaith y gwnaed hyn mewn modd cydweithredol yn cadarnhau cryfder cynyddol rhyng-berthnas ein sefydliadau addysg.

Mae'r cyfnod clo yn cynnwys goblygiadau ar gyfer paratoi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar yr un llaw, bu oedi mewn gweithgarwch diwygio, yn enwedig i ysgolion a oedd eisoes wrthi'n paratoi ar ei gyfer. Ar y llaw arall, mae'r cyfnod o ddysgu gartref wedi golygu bod ysgolion wedi gorfod meddwl o'r newydd ynglŷn â beth sydd wir ei angen ar ddisgyblion. Maent wedi meddwl eto ynghylch sut mae disgyblion yn dysgu a beth gellid ei ddarparu orau iddynt i'w helpu wrth ystyried cyd-destun eu cartref. Fe wnaeth y cyfnod tair neu bedair wythnos pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol yn rhannol ar ddiwedd y flwyddyn orfodi arweinwyr i feddwl sut gall addysgu wyneb yn wyneb hyrwyddo orau y medrau dysgu-i-ddysgu sydd eu hangen ar ddisgyblion i ymdopi â dysgu o bell. Mae hyn oll wedi arwain at well dealltwriaeth o sut i ddatblygu plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr annibynnol, gwydn a llawn cymhelliant i ddysgu, sef uchelgais graidd y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r pandemig wedi cyflwyno'r angen a'r cyfle i ddarparwyr ddatblygu ac arloesi. Sefydlwyd rhwydweithiau i ymarferwyr rannu adnoddau a syniadau, gan gynnwys yn Gymraeg. Gellid dadlau bod yr elfen o ailfeddwl a fynnodd y cyfnod clo gan ysgolion, law yn llaw ag ymgysylltiad dyfnach â theuluoedd a gwasanaethau cymorth, wedi rhoi ysgolion mewn lle gwell i gyd-greu gweledigaeth gyffredin gyda'r rhanddeiliaid hyn ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r heriau a grëwyd gan y pandemig yn amrywiol a chymhleth, ac yn cynnwys gofalu am les corfforol a meddyliol dysgwyr, darparu parhad dysgu gan ddefnyddio dulliau digidol, cyfathrebu mwy gyda theuluoedd, gofalu am anghenion dysgwyr bregus a dan anfantais, a delio ag arholiadau a chymwysterau. Hefyd, mae'r pandemig wedi effeithio ar grwpiau gwahanol o ddysgwyr mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys y plant ieuengaf, y rhai ag arholiadau, disgyblion sy'n symud o'r cynradd i'r uwchradd neu'n mynd trwy gyfnodau pontio eraill, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, plant gweithwyr allweddol, a dysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Yn ystod y cyfnod cymharol fyr hwn, fe wnaeth disgwyliadau a gofynion ddatblygu a newid hefyd. Aeth yr argyfwng drwy gyfnodau gwahanol – o'r cyfnod clo cychwynnol i barhau â dysgu trwy ddulliau digidol, i ailagor yn rhannol a pharatoi ar gyfer ailagor yn llawn, tra bod llawer o ysgolion yn gwasanaethu fel hybiau gofal plant yn ogystal. Mae'r heriau hyn wedi mynnu bod staff ar draws y system addysg yng Nghymru yn gweithio mewn ffyrdd newydd. Mae arweinyddiaeth gryf, gyda mewnwelediad clir i anghenion datblygiadol a lles staff, wedi bod yn hollbwysig. Lle gwelsom arloesi, roedd yn aml yn adeiladu ar raglenni dysgu proffesiynol blaenorol ar gyfer staff yr oedd darparwyr wedi'u rhoi ar waith at ddibenion eraill, ond roedd yn golygu eu bod mewn sefyllfa well yn awr i ddelio â'r pandemig.

# Rhagair

Yn gyffredinol, mae unigolion a'r system addysg a hyfforddiant yn ei chyfanrwydd wedi ymateb yn dda i'r heriau hyn, a gwelwyd mwy o werthfawrogiad o waith y proffesiwn addysgu a phwysigrwydd addysg a dysgu gydol oes. Mae llawer i'w ddysgu o'r profiad hwn a bwriedir i'r adroddiad blynyddol hwn gyfrannu at nodi'r arfer dda a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod anarferol hwn. Mae heriau sylweddol yn parhau o hyd, gan fod canfyddiadau cychwynnol ar gyfer tymor yr hydref hwn yn awgrymu y gallai llawer o ddisgyblion fod wedi llithro'n ôl yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft. Bydd helpu dysgwyr, yn enwedig dysgwyr bregus a dan anfantais, i ddal i fyny yn orchwyl mawr i'r system addysg a hyfforddiant i'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr ac i gyhoeddi ein canfyddiadau mewn cyfres o adroddiadau ar ein gwefan.

# Rhagair

## Canllawiau ac adroddiadau thematig Estyn yn ymwneud â'r pandemig COVID-19

### Canllawiau

- Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19
- Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar draws ysgolion a gynhelir ac UCDau
- Cameos a syniadau ar barhau â busnes ysgol yn ystod Covid-19
- Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol
- Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o UCDau
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion uwchradd
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID_19 – dulliau o ysgolion arbennig
- Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) – hydref 2020
- Gwaith ymgysylltu:  Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020

# Rhagair

## Canllawiau ac adroddiadau thematig Estyn yn ymwneud â'r pandemig COVID-19

### Adroddiadau thematig

- Adroddiad thematig Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol a deunyddiau hyfforddi
- Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau annibynnol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19
- Adroddiad thematig Gwydnwch dysgwyr - meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion a deunyddiau hyfforddi

### Postiadau blog

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEau) – sut gall ysgolion gefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau anodd?
- A yw eich ysgol yn un sy'n rhoi teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith?
- Gan fod dysgwyr bellach wedi dychwelyd i ysgolion a cholegau, pa ran rydym ni wedi'i chwarae a sut bydd ein rôl yn newid yn y dyfodol?
- Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol
- Beth gall ysgolion ac UCDau ei wneud i gryfhau gwydnwch disgyblion?
- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi addysgu a dysgu yn ystod argyfwng COVID-19

### Cyhoeddiadau y cyfrannodd Estyn atynt


- Mewn cydweithrediad â'r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GwE Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol
- Mewn cydweithrediad â'r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GwE Modelau Dysgu Cyfunol

# Rhagair

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

Yn 2019-2020, fe wnaethom gydnabod rhagoriaeth y darparwyr hynny a gyflawnodd farn 'ragorol' ym mwyafrif eu barnau arolygu.

| | |
|---|---|
| **Meithrinfeydd nas cynhelir** | Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd<br>Alphabet Playgroup<br>Puddle Ducks (South Wales) Limited<br>Cylch Meithrin Penparc<br>Cylch Meithrin Ynys Y Plant Felinfach<br>Ysgol Feithrin Sant Aubin |
| **Ysgolion cynradd** | Ysgol Gynradd Tŷ-du<br>Ysgol Gynradd Talsarnau<br>Ysgol Tregarth<br>Ysgol Gynradd Gellifedw, Abertawe<br>Ysgol Fabanod Bedwas<br>Ysgol Gynradd Nant Y Parc<br>Ysgol Gynradd Oakfield<br>Ysgol Gynradd Ynys Y Barri<br>Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas<br>Ysgol Feithrin Cogan<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Casmael<br>Ysgol Gynraedd Gymunedol Glasllwch<br>Ysgol Gynradd Penllergaer<br>Ysgol Bro Carmel<br>Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Philip Evans<br>Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands<br>Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon |
| **Ysgolion uwchradd** | Ysgol Brynrefail |
| **Ysgolion arbennig annibynnol** | Teresa House<br>Ysgol Bryn Tirion Hall |
| **Colegau arbenigol annibynnol** | Coleg Elidyr Cymunedau Camphill |
| **Cymraeg i Oedolion** | Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain |
| **Ysgolion arbennig** | Ysgol Bryn Derw<br>Ysgol Portfield |
| **Dysgu yn y sector cyfiawnder** | Carchar y Parc |



# Adran 1

# Sylwadau ar ddeilliannau arolygu sectorau – rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020

1

## Cyd-destun

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu addysg gynnar ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed weithiau. Mae pedwar ar bymtheg o'r ddau ar hugain awdurdod lleol yn darparu addysg gynnar, naill ai mewn ysgol a gynhelir neu drwy leoliadau nas cynhelir, sy'n cynnwys darparwyr gofal dydd llawn a gofal sesiynol. Mae awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn darparu addysg gynnar mewn ysgolion yn unig, tra bod Powys yn darparu addysg feithrin mewn lleoliadau nas cynhelir yn unig. Er nad yw awdurdodau lleol sy'n darparu addysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir yn cynnal y lleoliad, maent yn gyfrifol am ariannu hawl i addysg gynnar a darparu cymorth i sicrhau bod y lleoliadau'n darparu addysg y cyfnod sylfaen o ansawdd da.

Yn Ionawr 2019, dechreuodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygu lleoliadau addysg nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed ar y cyd, gan ddefnyddio fframwaith arolygu cytûn. Mae gofyniad arnom ni i arolygu addysg gynnar, ac mae gan AGC y ddyletswydd i arolygu ansawdd gofal yn y lleoliadau hyn. Mae'r arolygiadau hyn ar y cyd yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir i'r holl blant hyd at 12 oed, ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir. Mae'r fframwaith arolygu newydd yn cynnwys chwe thema mewn tri maes allweddol: mae themâu 1 a 2 yn ystyried deilliannau plant, mae themâu 3 a 4 yn ystyried pa mor dda mae ymarferwyr yn cyfrannu tuag at y rhain, ac mae themâu 5 a 6 yn ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth o ran sicrhau deilliannau da i blant.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed



Mae nifer y lleoliadau sy'n cynnig addysg ran-amser wedi gostwng eto. Yn Ionawr 2020, roedd oddeutu[1] 546 o ddarparwyr addysg mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion ar gyfer plant tair neu bedair oed.  Mae'r nifer hon wedi bod yn gostwng er 2010, pan oedd dros 700.  Fe wnaethom arolygu 52 o leoliadau yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn.  Mae rhyw draean yn lleoliadau bach, lle ceir llai na chwech o blant tair neu bedair oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg.  Yn y lleoliadau hyn, nid yw arolygwyr yn adrodd ar ddysgu plant (thema 2), er mwyn osgoi adnabod plant unigol.

## Lles

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae safonau lles yn parhau yn dda o leiaf ym mhob lleoliad bron, ac yn rhagorol mewn ychydig ohonynt. Lle ceir safonau lles rhagorol, mae plant yn dangos lefelau eithriadol o annibyniaeth, cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu.  Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar dasgau ac maent yn hynod hyderus wrth ddewis gweithgareddau y maent eisiau eu gwneud.  Mae'r plant hyn yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, gan gynnwys cymryd cyfrifoldebau am dasgau ac arferion bob dydd.  Er enghraifft, mae plant yn gwisgo'u ffedogau eu hunain i helpu paratoi ffrwythau yn ystod amser byrbryd, yn arllwys diodydd i'w cyfoedion ac yn gwaredu gwastraff bwyd yn y bin compost.  Maent yn dangos parch at ei gilydd ac yn helpu'u ffrindiau i ddatblygu'u medrau cyfathrebu a gweithio mewn tîm.

Lle mae lles yn dda, mae bron bob plentyn yn ymdawelu'n gyflym pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, ac maent yn rheoli'u hymddygiad eu hunain yn dda.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth dda o arferion ac yn dangos medrau annibynnol cadarn a pharch at eraill, fel gwisgo'u cotiau yn annibynnol a chwarae ar y cyd wrth wneud crymbl Gruffalo yn y gegin fwd. Maent yn datblygu ystod dda o fedrau cymdeithasol, yn barod i rannu, ac yn cymryd eu tro gyda ffrindiau yn ystod gweithgareddau chwarae.


Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae plant yn deall pwysigrwydd hylendid da, a sut i gadw'n heini ac iach.  Maent yn dewis eu ffrwythau eu hunain amser byrbryd, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol pwrpasol a chwarae yn yr awyr agored.  Mewn llawer o leoliadau, mae plant yn deall pwysigrwydd gofalu am eu dannedd drwy ddefnyddio brws dannedd yn annibynnol i lanhau eu dannedd.

## Dysgu

Mae dysgu yn dda neu'n well mewn dros naw o bob deg lleoliad lle'r adroddwn farn ar gyfer dysgu.  Mae hyn yn uwch na'r ganran a nodwyd y llynedd.  Mewn lleoliadau lle mae dysgu yn dda neu'n rhagorol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.  Maent yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol.

[1] Mae nifer y lleoliadau nas cynhelir sydd wedi cofrestru gyda phartneriaethau lleol i ddarparu addysg yn codi a gostwng yn aml yn ôl p'un a yw plant tair oed a hŷn yn mynychu'r lleoliad a threfniadau i ariannu'r ddarpariaeth yn lleol.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed



Yn yr ychydig leoliadau lle mae dysgu yn rhagorol, mae bron yr holl blant yn gwneud cynnydd cryf neu gryf iawn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn aml yn dangos lefelau uchel o ganolbwyntio ac ymgysylltu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod o fedrau i safon uchel ac yn eu defnyddio'n hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn datblygu medrau llythrennedd cynnar cryf, yn trafod materion yn hyderus o flaen eu cyfoedion ac yn ymateb i'w gilydd yn aeddfed gydag ystod o eirfa estynedig. Un nodwedd gyffredin ymhlith yr holl leoliadau lle mae dysgu yn rhagorol, yw bod y rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol effeithiol iawn. Maent yn ymdrin â gofod yn eithriadol o dda pan fyddant yn rhedeg yn yr awyr agored ac yn dangos medrau cybwyso a chydsymud cryf, er enghraifft wrth daflu peli at dargedau a reidio beiciau heb sadwyr. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau echddygol manwl yn dda, gan ddefnyddio offer fel sisyrnau, brwshys, plicwyr a sbatwlâu yn fedrus yn ystod gweithgareddau bob dydd.

Mewn lleoliadau lle mae dysgu yn dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio'n hyderus â phlant eraill wrth iddynt chwarae ac yn egluro pethau gyda mwy a mwy o hyder gan ddefnyddio dysgu blaenorol yn dda, er enghraifft wrth egluro nad yw eu calon yn eu bol, ond yn hytrach yn eu brest. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar oedolion ac ar eu cyfoedion, yn enwedig wrth drafod storïau, dilyn trefniannau dawns a chreu ystumiau i ganeuon cyfarwydd.

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, mae llawer o blant nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau gwrando a siarad cryf. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio cystrawennau sylfaenol, ymadroddion cyffredin ac ystod gynyddol o eirfa yn dda i sgwrsio ac ymuno mewn caneuon a hwiangerddi. Mewn ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg lle mae dysgu yn ddigonol, mae cynnydd y rhan fwyaf o blant wrth ddatblygu'u medrau siarad a gwrando yn Gymraeg yn araf. Maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau sylfaenol gyda chymorth, ond mae eu hymatebion yn gyfyngedig iawn.

Mae'r rhan fwyaf o blant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn datblygu medrau darllen cynnar cadarn. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac mae llawer yn gwybod sut i ddal llyfr y ffordd gywir, troi'r tudalennau ac ailadrodd storïau yn eu geiriau eu hunain. Mae llawer ohonynt yn adnabod llythrennau cyfarwydd yr wyddor, yn enwedig llythyren gyntaf eu henwau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwneud marciau ac yn arbrofi'n hyderus gan ddefnyddio ystod o offer a chyfarpar, er enghraifft wrth greu darluniau i ddangos cywion hwyaid yn deor o wyau neu wrth greu hunanbortreadau gyda phensiliau lliwio. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ddiben ysgrifennu, ac mae llawer yn dangos rheolaeth gynyddol ar offer ysgrifennu a gwnânt ymdrechion da i ffurfio llythrennau o'u henw. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu llythrennau y gellir eu hadnabod yn glir.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae safonau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn parhau i wella. Yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn, mae plant yn datblygu gafael da ar yr iaith trwy arferion dyddiol a phrofiadau dysgu pwrpasol. Maent yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml, fel golchi dwylo a thacluso, ac maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ynghylch sut maent yn teimlo. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio cyfarchion cyfarwydd yn briodol ac yn mwynhau canu caneuon a rhigymau Cymraeg. Maent yn adrodd rhifau i ddeg gyda chymorth, ac yn enwi llawer o liwiau. Mewn ychydig o leoliadau, mae plant yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy digymell yn eu dysgu a'u chwarae, er enghraifft trwy ddweud wrth ymarferwyr eu bod am baentio pili-pala yn yr ardal grefftau, a thrwy ofyn am ffrwyth yn Gymraeg amser byrbryd.

Mewn lleoliadau lle mae dysgu yn dda, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif yn gywir i bump o leiaf mewn cyd-destunau gwahanol, gyda phlant mwy abl yn cyfrif i ddeg a thu hwnt. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio'u medrau cyfrif yn dda i gyfrif cnau castan yn yr ardal awyr agored wrth gasglu gwrthrychau naturiol ar gyfer collage yr hydref, neu wrth gasglu cynhwysion ar gyfer y gegin fwd. Mae plant mwy abl yn defnyddio ystod ehangach o fedrau mathemategol i ddatrys problemau mwy cymhleth, fel adio dau rif at ei gilydd i gyfrif nifer y coesau ar ddau fwystfil bach. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geirfa fathemategol yn briodol ar draws ystod o brofiadau dysgu. Lle mae dysgu yn dda, mae llawer o blant yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft casglu'r nifer gywir o eitemau naturiol yn ardal y goedwig a'u trefnu i greu patrwm ailadroddus. Maent hefyd yn cymhwyso'u medrau datrys problemau yn effeithiol, wrth awgrymu meini prawf i ddidoli'u heitemau yn ddail, hadau a brigau. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r ystod lawn o gysyniadau mathemategol, gan gynnwys siâp a mesur, yn ddigon da, ac nid ydynt yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon yn naturiol nac yn hyderus yn eu chwarae.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae plant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda i wella'u dysgu ac i ddatblygu'u medrau cyfathrebu. Maent yn defnyddio camerâu digidol, teganau electronig a chyfrifiaduron llechen yn hyderus i ddatblygu'u hiaith a'u datblygiad mathemategol. Er enghraifft, mae plant yn tynnu llun o wlithen yn yr ardal awyr agored ac yn defnyddio'r ddelwedd i drafod ei nodweddion gyda ffrindiau. Yn gynyddol, mae mwy o blant yn pwyso gorchmynion ar gyfer teganau rhaglenadwy gyda chymorth gan oedolion, sy'n helpu atgyfnerthu'u dealltwriaeth o rifau, gofod, cyfarwyddiadau a dilyniannau. Mewn ychydig o leoliadau, mae plant yn datblygu medrau rheoli llygoden priodol ar gyfer paentio llun ar y cyfrifiadur.

Mewn llawer o leoliadau, mae plant yn datblygu'u medrau corfforol yn dda gan ddefnyddio'r ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn effeithiol. Maent yn dangos medrau echddygol bras cryf wrth gydbwyso ar estyll, dringo dros deiars a chropian trwy dwneli yn yr ardal awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau echddygol manwl cadarn, er enghraifft wrth osod pegiau ar ddraenogod cardfwrdd i greu sbigynnau. Mewn ychydig o leoliadau, mae plant yn datblygu mwy o hyder ac yn dechrau cymryd risgiau pwyllog yn eu dysgu trwy ddefnyddio offer mwy cymhleth fel dril neu forthwyl, er enghraifft i wneud tyllau mewn pwmpen, gyda chymorth oedolyn.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Mae llawer o leoliadau yn darparu ystod addas o weithgareddau a phrofiadau dysgu i ddatblygu medrau creadigol plant. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau cyfleoedd i fynegi'u hunain trwy gerddoriaeth, dawns a chelfyddyd arall. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio gwrthrychau glan môr fel tywod, gwymon a cherrig crwn i wneud collage deniadol.

## Addysgu ac asesu

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros naw o bob deg lleoliad a arolygwyd eleni, gydag arfer ragorol mewn rhyw un o bob deg lleoliad. Yn y lleoliadau lle ceir arfer ragorol, mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau dysgu hynod ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron yr holl blant yn eithriadol o dda. Mae bron pob un yn cynnwys plant yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Un nodwedd gyffredin yn y lleoliadau hyn yw eu defnydd helaeth o'r gymuned leol i gefnogi dysgu. Maent yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb ac yn gwahodd ymwelwyr i rannu profiadau gyda'r plant. Er enghraifft, wrth ddysgu am fywyd môr-ladron, fe wnaeth plant o leoliad gwledig fwynhau ystod o brofiadau cyffrous ar drip i'r traeth lleol. Fe wnaethant fwynhau'r cyfle i deithio ar fws lleol, gwisgo fel môr-ladron, casglu cregyn a 'cherdded y planc'!

Mewn lleoliadau lle ceir darpariaeth dda, mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth eang o brofiadau dysgu pwrpasol, sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn ysgogi diddordeb plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu yn seiliedig ar wir ddiddordeb plant mewn corynnod sy'n cynnwys mynd ar helfa pryfed a chorynnod yn yr ysgol goedwig, a chreu gwaith celf diddorol yn seiliedig ar weoedd pryfaid cop. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn datblygu medrau cyfathrebu plant yn dda, gan ddefnyddio profiadau go iawn yn aml i ysgogi plant i chwarae rôl, a'u hannog i siarad a chynnal sgwrs gyda phobl eraill. Maent hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd cyffrous i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ysgrifennu at ddibenion gwahanol, fel ysgrifennu labeli ar gyfer bylbiau cennin Pedr y maent yn eu plannu, neu gofnodi'u rysáit ar gyfer pei pwmpen yn y gegin fwd.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o leoliadau cyfrwng Cymraeg yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg plant ac yn cynorthwyo'r rheiny sy'n newydd i'r iaith yn effeithiol. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer datblygu medrau iaith plant yn gynyddol, ac nid ydynt ychwaith yn atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa yn drwyadl. Nodwn bwysigrwydd datblygu medrau iaith cynnar plant mewn cyfres o astudiaethau achos yn 'Caffael yr iaith Gymraeg', sydd i'w gyhoeddi yn nhymor y gwanwyn 2021 (Estyn, 2021).

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau rhifedd plant drwy ystod o brofiadau dysgu ymarferol diddorol. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o ardaloedd dysgu awyr agored i wella datblygiad mathemategol plant, er enghraifft drwy gasglu dail lliwiau gwahanol a'u gosod mewn grwpiau yn ôl eu lliw a'u maint. Mewn lleoliadau lle nad yw'r cynllunio ar gyfer rhifedd mor gryf, nid yw ymarferwyr

**Cylch Meithrin Ynys Y Plant Felinfach**

Mae'r profiadau dysgu diddorol yn y gymuned leol y mae Cylch Meithrin Ynys y Plant yn eu darparu, yn cyfoethogi dealltwriaeth plant o'u hardal leol ac yn eu helpu i ddatblygu ystod eang o fedrau yn llwyddiannus.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer yr ystod gyfan o gysyniadau a thestunau mathemategol, fel mesur a siâp. Yn ogystal, mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd digon heriol i blant ddatrys problemau yn annibynnol. O ganlyniad, nid yw plant yn y lleoliadau hyn yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol bob amser, ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i atgyfnerthu'u medrau a'u gwybodaeth.

Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae datblygiad medrau Cymraeg plant yn parhau i wella. Mae llawer o ymarferwyr yn cefnogi datblygiad iaith Gymraeg plant yn llwyddiannus. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r iaith yn ddigon cyson gyda'r plant nac yn eu hannog i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn ystod eu trefn arferol ddyddiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer defnyddio TGCh i ddatblygu medrau cyfathrebu plant wedi gwella eleni. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol i blant ddefnyddio offer TGCh ar draws llawer o feysydd dysgu er mwyn gwella'u profiadau a'u galluogi i siarad am eu dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio 'bwrdd golau' i archwilio lliw, patrwm a gwead, ac yna'n defnyddio cyfrifiadur llechen i dynnu lluniau o'u creadigaethau a thrafod eu gwaith gydag eraill.

Yn gyffredinol, mae llawer o leoliadau yn cynllunio i ddatblygu medrau creadigol plant drwy ystod addas o brofiadau. Gwneir defnydd cynyddol o'r awyr agored gan ymarferwyr i annog plant i archwilio drostyn nhw'u hunain a bod yn greadigol, er enghraifft drwy dynnu lluniau ar hen gynfasau gwely gan ddefnyddio mwd a brwshys paent. Mewn ychydig iawn o leoliadau, mae ymarferwyr yn galluogi plant i gael blas o gerddoriaeth a chelf o bob cwr o'r byd, fel pan fyddant yn gwrando ar opera ac yn edrych ar baentiadau arlunwyr enwog. Mae hyn yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r plant. Mewn ychydig o leoliadau, fodd bynnag, mae ymarferwyr yn tueddu gorgyfarwyddo gweithgareddau. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i archwilio ac arbrofi, ac i wneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn â'r deunyddiau y maent eisiau eu defnyddio.

Mae llawer o leoliadau yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau corfforol plant. Yn yr enghreifftiau gorau, mae lleoliadau wedi creu ardaloedd dysgu awyr agored i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu medrau cydsymud a hyder plant, fel swingio o ganghennau coed, cropian trwy dwneli neu neidio i mewn i'r afon fwd. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol plant yn ddigon da. Nid ydynt bob amser yn ystyried y gwahanol gyfnodau mewn datblygiad plant wrth gynllunio gweithgareddau corfforol.

Yn y lleoliadau lle ceir yr addysgu mwyaf effeithiol, mae disgwyliadau uchel gan ymarferwyr o'r plant. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o gwricwlwm y cyfnod sylfaen a sut mae plant ifanc yn dysgu. Mae ymarferwyr yn defnyddio'u dealltwriaeth o alluoedd plant i gynllunio ar gyfer y camau nesaf wrth iddynt ddatblygu medrau. Maent yn holi ac yn herio meddwl plant, gan ymestyn eu dysgu a'u hysgogi i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ystyriol. Mewn lleiafrif o'r lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn dechrau cysylltu cynllunio profiadau dysgu gyda phedwar diben y cwricwlwm newydd.

# **Crynodebau sector:**
# Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Lle ceir addysgu da, mae ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant ac yn deall y gweithgareddau dysgu y maent yn eu mwynhau fwyaf.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodelau rôl iaith da ac yn annog plant i ddatblygu ystod ehangach o eirfa yn ystod eu dysgu.  Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn deall pa bryd i adael i blant ddysgu drostyn nhw'u hunain a phryd i ymyrryd i gefnogi neu ymestyn eu dysgu.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn modelu chwarae a dysgu ac yn annog plant i ymuno a rhannu eu syniadau.  Defnyddiant ddulliau asesu effeithiol i asesu datblygiad a chynnydd plant, ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.  Mewn rhyw un o bob deg lleoliad, mae ymarferwyr yn gorgyfarwyddo'r dysgu ac nid ydynt yn gadael i blant ganfod pethau drostyn nhw'u hunain nac i ddatblygu eu syniadau eu hunain.  Ar ychydig iawn o achlysuron, nid yw ymarferwyr bob amser yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth am gynnydd neu gyfnod datblygu plant i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu.  Er enghraifft, caiff plant eu hannog i ysgrifennu mewn llyfrau ysgrifennu neu ar daflenni gwaith cyn iddynt ddatblygu'r medrau echddygol bras a manwl sydd eu hangen i reoli pensil.

## Gofal a datblygiad

Mae llawer o leoliadau yn sicrhau safonau gofal, cymorth ac arweiniad da ar gyfer eu plant.  Mae ymarferwyr yn cynorthwyo eu medrau annibynnol a'u medrau hunangymorth yn dda drwy ystod o arferion a gweithgareddau dyddiol defnyddiol, gan gynnwys amser byrbryd.  Mae llawer o leoliadau yn hyrwyddo deiet a ffordd o fyw iach drwy ystod o weithgareddau yn cynnwys amser byrbryd, a thrwy ddysgu sut i ofalu am eu dannedd.  Maent yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol yn yr awyr agored ar gyfer eu plant sy'n helpu datblygu medrau corfforol plant yn dda.  Mae hyn hefyd yn galluogi ymarferwyr i gynllunio profiadau dysgu a chyfleoedd chwarae pwrpasol i ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'u cymuned, eu diwylliant a'u credoau eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill ledled y byd.  Er enghraifft, mae plant yn ymweld â rheilffordd leol i ddysgu am hanes y chwarel lechi leol ac i ddatblygu dealltwriaeth well o'u cymuned leol.

Eleni eto, nodom ddiffygion pwysig yn ymwneud â diogelu mewn ychydig o leoliadau.  Yn y lleoliadau hyn, nid yw ymarferwyr ac arweinwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu yn ddigon da.  Nid yw arweinwyr mewn ychydig o leoliadau yn sicrhau bob amser bod asesiadau risg priodol ar waith i ddiogelu plant a staff. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw arweinwyr bob amser yn cadw at arferion recriwtio diogel wrth gyflogi staff.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae safonau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg lleoliad, ac yn rhagorol mewn ychydig o dan un o bob deg o'r rheiny a arolygwyd eleni.  Mewn lleoliadau lle ceir arweinyddiaeth dda, mae arweinwyr yn pennu gweledigaeth a chyfeiriad clir, yn ogystal â disgwyliadau uchel iddyn nhw'u hunain ac eraill.  Maent yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl staff ac yn sicrhau bod pawb yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.  Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith y lleoliad ac yn annog staff i weithio fel tîm i fodloni'u gweledigaeth ac amcanion a rennir.  Un nodwedd nodedig ymhlith yr ychydig iawn o leoliadau rhagorol a arolygwyd eleni yw arweinydd a

### Meithrinfa Ddydd Osbourne Lodge

Mae'r amgylchedd dysgu ac adnoddau dengar a chyfeillgar i blant ym Meithrinfa Ddydd Osbourne Lodge yn cefnogi datblygiad y plant ieuengaf yn effeithiol iawn.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd

Mae'r weledigaeth gref a'r cymorth effeithiol i ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr yn adeiladu gwaith tîm llwyddiannus, ac yn arwain at safonau uchel cyson a phrofiadau dysgu ysgogol ym Meithrinfa Cae'r Ffair.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

brwdfrydedd arweinwyr ac ymarferwyr tuag at eu gwaith, gan ymdrechu i ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau oll lle gall plant ddatblygu a ffynnu. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn y lleoliadau hyn yn cyfrannu'n llawn at fodloni anghenion plant, gan arwain at safonau uchel o ran lles a dysgu ar draws y lleoliad.

Mewn lleoliadau effeithiol, mae arweinwyr yn gweithredu'n dda ar ddeilliannau eu prosesau hunanwerthuso i wella darpariaeth a safonau. Maent yn gwrando'n fanwl ar gyngor a barnau pobl eraill, gan gynnwys rhieni ac athrawon ymgynghorol, i'w helpu i nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Eleni eto, yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol, mae arweinwyr yn canolbwyntio'n finiog ar fonitro a gwella ansawdd addysgu a dysgu, ac maent yn annog yr holl ymarferwyr i gymryd cyfrifoldeb am wella'u perfformiad eu hunain. Fodd bynnag, mae prosesau hunanwerthuso a gwella yn feysydd i'w gwella mewn lleiafrif o leoliadau a arolygwyd eleni. Yn y lleoliadau hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn yn ddigon effeithiol i nodi'u cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mewn naw o bob deg lleoliad, mae arweinwyr yn cynorthwyo ymarferwyr i wella perfformiad eu staff yn dda trwy bolisïau ac arferion arfarnu a goruchwylio. Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol, mae arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn yn hynod effeithiol i nodi cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol sy'n bodloni anghenion ymarferwyr. Maent yn cysylltu anghenion proffesiynol ymarferwyr â blaenoriaethau'r lleoliad er mwyn datblygu gwaith y tîm cyfan. Er enghraifft, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff, sy'n eu hannog i gefnogi'i gilydd a modelu arfer effeithiol yn ystod sesiynau. Maent yn mesur effaith yr hyfforddiant ar ddeilliannau plant, ac yn parhau i wneud newidiadau i gyfateb i hynny, gan arwain at welliannau mewn medrau Cymraeg plant. Mewn lleoliadau llai llwyddiannus, nid yw arweinwyr yn gweithredu eu polisïau rheoli perfformiad yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi targedau ar gyfer gwella i'r holl staff nac yn adolygu eu perfformiad mewn modd amserol. Mae'r diffygion hyn yn effeithio'n negyddol ar ansawdd cymorth a hyfforddiant a ddarperir i staff ac ar ansawdd y ddarpariaeth yn y lleoliadau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gwarcheidwaid, ac yn eu hannog i gymryd rhan lawn yn nysgu eu plant. Mae arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, yn cynnwys athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol a chynrychiolwyr sefydliadau ambarél sy'n cefnogi'u gwaith, fel partneriaeth Cwlwm[2]. Maent yn defnyddio'r cymorth ac arweiniad hwn yn dda i helpu adolygu gwaith y lleoliad ac i helpu ymarferwyr gyda'u gwaith. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio unigolion a sefydliadau yn y gymuned leol i wella profiadau dysgu plant. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth plant o'u cymuned leol a rôl pobl sy'n byw yn eu plith. Er enghraifft, yn sgil cyswllt â fferm leol, daeth y ffermwr â phorchell i'r lleoliad fel bod plant yn gallu arsylwi a mesur faint yr oedd yn tyfu dros gyfnod.

**Meithrinfa Gofal Dydd Tiny Tots – Malpas**

Mae sesiynau ymgysylltu â rhieni ym Meithrinfa Gofal Dydd Tiny Tots yn gwneud y gorau o fedrau rhieni ac arbenigedd staff i ehangu dyheadau a phrofiadau plant, a chreu ethos meithringar cryf yn y lleoliad.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

[2] Cwlwm yw'r bartneriaeth o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru: Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Fe wnaeth hyn ddatblygu iaith a dealltwriaeth fathemategol plant, yn ogystal â'u haddysgu am waith y ffermwr ac am ofalu am anifeiliaid. Yn y lleoliadau mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau bod cysylltiadau cryf â'u hysgolion lleol i helpu plant pan fyddant yn symud ymlaen at y cyfnod nesaf o'u haddysg. Yn aml, mae plant yn ymweld â'r ysgolion ar sawl achlysur i gymryd rhan mewn digwyddiadau fel sesiynau cerdd a symud gyda'r plant iau, ac i gyfarfod â'u hathro newydd yn ystod eu tymor olaf yn y lleoliad. Mae staff o'r ysgolion yn ymweld â'r lleoliadau yn rheolaidd, er enghraifft i ddarllen storïau i'r plant ac i drafod eu hanghenion gydag ymarferwyr.



Mewn llawer o leoliadau, mae arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau i blant i gynorthwyo'u dysgu. Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau yn yr ardaloedd awyr agored yn gynyddol dda i alluogi plant i archwilio a darganfod drostyn nhw'u hunain. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr mewn un o bob pum lleoliad bob amser yn cynllunio beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio ardaloedd awyr agored i ddatblygu gwybodaeth a medrau plant.


Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn rheoli'u cyllid yn dda ac yn dod yn fwy medrus o ran sut maent yn ariannu'u gwaith, er enghraifft drwy wneud cais am grantiau a thrwy drefnu digwyddiadau gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau sydd wedi'u lleoli ar safleoedd ysgol yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig i wella dysgu'r plant, gan gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau datblygiad corfforol ar y cyd â disgyblion ysgol a phlannu llysiau a blodau yng ngardd yr ysgol. Pan fydd lleoliadau'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn effeithiol, mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant buddiol ac mae arweinwyr yn prynu adnoddau defnyddiol i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, mae ychydig o leoliadau yn mynychu hyfforddiant i nodi a darparu ymyrraeth ar gyfer plant sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith cynnar. Fodd bynnag, mewn lleoliadau lle nad yw arweinwyr yn defnyddio'r Grant mor effeithiol, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r cyllid i fodloni anghenion plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn ddigon da. Mae ychydig o awdurdodau lleol yn parhau i gadw Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar i ariannu hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer eu lleoliadau, ond nid ydynt bob amser yn targedu hwn yn ddigon da i ddatblygu anghenion lleoliadau unigol, gan gynnwys anghenion proffesiynol ac anghenion hyfforddi ymarferwyr.

## Gweithgarwch dilynol

Yn ystod y flwyddyn, rhoesom farnau rhagorol mewn rhyw un o bob chwe lleoliad a nodom arfer effeithiol iawn mewn ychydig dros chwarter y lleoliadau a arolygwyd. Yn y lleoliadau hyn, mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'u staff ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw. Mae hyn yn helpu'r lleoliadau hyn i gynnal safonau uchel o ran dysgu a darpariaeth dros flynyddoedd lawer.

O dan ein fframwaith arolygu ar y cyd ag AGC, gall lleoliadau fynnu gweithgarwch arolygu dilynol ar ôl arolygiad, naill ai gan AGC, neu gennym ni, neu gan y ddwy arolygiaeth. Pennir hyn gan y meysydd y mae angen eu gwella. Eleni, canfuom fod angen gweithgarwch dilynol adolygu cynnydd neu welliant â ffocws ar ryw un o bob pum lleoliad yn dilyn arolygiad ar y cyd.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed





Mae angen adolygu cynnydd ar oddeutu un o bob saith lleoliad. Mae angen eu monitro ar y cyd neu gennym ni ar fymryn islaw un o bob deg. Yn y lleoliadau hyn, mae ansawdd y ddarpariaeth yn amrywio gormod ar draws grwpiau oedran gwahanol ac nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion datblygol plant. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr yn gwerthuso gwaith ymarferwyr yn ddigon da i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion yr holl blant, nac i adnabod meysydd pwysig i'w gwella. Mewn ychydig iawn o leoliadau cyfrwng Cymraeg, nid yw arweinwyr yn cefnogi datblygiad medrau iaith Gymraeg ymarferwyr yn ddigon da i gynorthwyo datblygiad iaith plant yn effeithiol.

Mae angen gwelliant â ffocws ar ychydig iawn o leoliadau eleni ac maent yn cael eu monitro gan y ddwy arolygiaeth. Yn y lleoliadau hyn, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau pwysig i gadw plant yn ddiogel ar waith a bod yr holl ymarferwyr yn eu dilyn yn gyson. Yn ogystal, nid ydynt yn cynnal eu safle na'u hadnoddau i safon ddigon uchel.

Eleni, fe wnaethom ymweld â phedwar lleoliad y nodwyd gennym fod angen monitro gan Estyn neu welliant â ffocws arnynt o dan y fframwaith arolygu blaenorol. Canfuom fod pob un o'r lleoliadau hyn wedi gwneud cynnydd digonol ac nad oes angen eu monitro mwyach.

Ar y cyd ag AGC, fe wnaethom ymweld â dau leoliad yr oedd angen gwelliant â ffocws arnynt o dan y fframwaith arolygu ar y cyd newydd. Canfuom fod y ddau leoliad hyn wedi gwella a'u bod bellach yn cydymffurfio â rheoliadau i gadw plant yn ddiogel. Roedd un ohonynt wedi gwneud cynnydd cyflym iawn wrth wella'r amgylchedd a'r ddarpariaeth, ac nid oes angen gwelliant â ffocws arno mwyach. Mae angen monitro'r lleoliad arall ymhellach i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion yr holl blant sy'n mynychu'r lleoliad.



Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd


1

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 1,234 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 13 yn llai nag yn Ionawr 2019, pan oedd 1,247 (Llywodraeth Cymru, 2019d). Fe wnaeth nifer yr ysgolion cynradd sy'n gweithio fel ffederasiynau gynyddu eto, gyda 96 o ysgolion yn gweithio mewn 48 o ffederasiynau erbyn hyn. Mae nifer y disgyblion ysgolion cynradd wedi gostwng o 275,478 yn Ionawr 2019 i 272,006 yn Ionawr 2020. Eleni, fe wnaethom arolygu 108 o ysgolion.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

## Safonau



Fel y llynedd, mae safonau'n dda neu'n well mewn rhyw wyth o bob deg ysgol gynradd.  Mae cyfran yr ysgolion a chanddynt safonau rhagorol wedi parhau'n debyg hefyd, ar ryw un o bob deg ysgol.

Mewn ysgolion lle mae safonau'n dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o leiaf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.  Yn yr ychydig ysgolion lle ceir safonau rhagorol, mae'r holl grwpiau disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu eu medrau ac yn eu gallu i'w cymhwyso mewn cyd-destunau newydd.  Mewn ysgolion gwannach, mae gormod o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, nad ydyn nhw'n gwneud digon o gynnydd dros gyfnod.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando.  Mewn ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd â lefelau uchel o anfantais gymdeithasol, yn aml mae medrau siarad disgyblion yn llawer gwannach na rhai disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig.  Gydag ymyriadau wedi'u targedu'n ofalus, mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cyflym wrth wella'u medrau siarad.  Tra bod y cynnydd hwn i'w groesawu, fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yn parhau trwy gydol blynyddoedd yr ysgol gynradd a thu hwnt.  Fel arfer, nid oes gan ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig ystod geirfa mor eang â'u cyfoedion i'w defnyddio, a chaiff hyn oblygiadau hirdymor o ran eu dysgu a'u cynnydd. Er enghraifft, wrth ddarllen, gallai'r disgyblion hyn feddu ar y medrau i ddehongli'r llythrennau a darllen gair allan ar goedd, ond nid ydynt yn deall ystyr y gair hwnnw nac yn gweld sut mae'n cyfrannu at y frawddeg gyfan.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion yn siarad gyda hyder sy'n datblygu, ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau gan eu hathrawon a chyfraniadau gan eu cyfoedion.  Maent yn adeiladu'n dda ar y medrau hyn wrth iddynt symud drwy gyfnod allweddol 2, gan siarad gyda mwy a mwy o eglurder ac, yn yr ysgolion gorau, gyda geirfa sy'n ehangu ac sy'n fwy cywir.  Erbyn Blwyddyn 6, maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gefnogi'u dysgu ym mhob pwnc, ac yn cyfrannu at gyflwyniadau a pherfformiadau.

Mae safonau darllen yn dda mewn rhyw wyth o bob deg ysgol gynradd.  Yn yr  oedran cynnar, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth bod geiriau yn cyfleu ystyr.  Maent yn dal llyfrau yn gywir ac yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau a chliwiau lluniau i ddarllen testunau syml.  Maent yn dechrau mwynhau storïau, y profiad o ddarllen, a chael pobl eraill yn darllen iddyn nhw.  Mae disgyblion yn dechrau cymhwyso'u medrau darllen i'w helpu i ddysgu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud i gyfnod allweddol 2; er enghraifft, maent yn cip ddarllen a llithr ddarllen testun gwybodaeth i nodi ffeithiau perthnasol a fydd yn eu helpu i ysgrifennu adroddiad.  Mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion yn caffael medrau darllen mwy datblygedig, fel y gallu i gasglu ystyr o ymddygiad cymeriad mewn testun.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



Yn yr ysgolion hynny lle ceir safonau siarad a gwrando a darllen cryf, mae disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddylanwadu ar eu hysgrifennu. Trwy gyfoeth ac amrywiaeth o ddarllen, a chyfleoedd cyson i ymgysylltu â thrafodaethau â'u cyfoedion ac oedolion, maent yn caffael geirfa gryf a gwybodaeth am batrymau iaith. Defnyddiant hyn i greu gwaith ysgrifennu ffeithiol difyr a dychmygus, fel hysbysebion llawn perswâd ac adroddiadau manwl. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o nodweddion ystod o destunau ffeithiol, nid oes digon yn datblygu'r gallu i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig. Mewn rhyw wyth o bob deg ysgol, mae safonau atalnodi, sillafu a gramadeg yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion gorau, mae gormod o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau gyda'r medrau ysgrifennu sylfaenol hyn. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ailadrodd camgymeriadau mewn darnau gwaith dilynol. Nid ydynt, fel mater o drefn arferol, yn hunangywiro camgymeriadau nac yn ymateb i sylwadau ysgrifenedig athrawon i wella ansawdd eu gwaith.

Mewn llawer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu'r Gymraeg. Yn yr ychydig o ysgolion cryfaf lle mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gwerthfawrogi fel rhan o ethos yr ysgol, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog, a phwysigrwydd y Gymraeg i'n hunaniaeth genedlaethol. Yn yr ychydig achosion hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg, gan ei defnyddio'n rheolaidd y tu allan i wersi Cymraeg penodol ac fel rhan o fywyd bob dydd yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad Cymraeg yn briodol, ond cyfyngedig yn aml yw'r cynnydd a wnânt rhwng y cyfnod sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2. Er enghraifft, maent yn siarad am beth maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a hefyd ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, ond heb lawer o fanylion ychwanegol yn aml na soffistigeiddrwydd datblygedig mewn cystrawennau. Mewn rhyw dair o bob deg ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu defnydd annibynnol o'r Gymraeg i lefel ddigon uchel ac maent yn or-ddibynnol ar awgrymiadau iaith yn cael eu darparu gan eu hathrawon i sgaffaldio'u hysgrifennu a'u sgyrsiau.

Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae safonau mewn mathemateg yn dda neu'n well. Yn y dosbarthiadau ifancaf y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dechrau caffael dealltwriaeth sylfaenol o rifau a chyfrif drwy ymuno â chaneuon a rhigymau. Maent yn ymarfer eu medrau wrth archwilio gweithgareddau'n annibynnol yn eu hamgylchedd dysgu, gan gynnwys yn yr awyr agored. Maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddatrys problemau syml, fel archwilio faint o fathau gwahanol o deganau anifeiliaid y maent yn gallu eu harnofio ar rafft cyn iddi suddo. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn defnyddio ystod o strategaethau i wneud cyfrifiadau syml, yn gweithio gydag ystod o fesurau gan ddefnyddio unedau safonol, ac yn dechrau dweud faint o'r gloch yw hi. Yn yr ysgolion cryfaf, mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn annibynnol i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn y cyfnod sylfaen yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn annibynnol i ystod ddigon eang o weithgareddau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau cyfrifo addas

# Crynodebau sector:
Ysgolion cynradd

gan ddefnyddio pedair rheol rhif i ddatrys problemau, ac maent yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o fedrau mathemategol ehangach.  Er enghraifft, maent yn dysgu mesur onglau yn gywir gan ddefnyddio onglydd, ac yn adnabod y gwahaniaeth rhwng onglau sgwâr, aflem a llem.  Maent yn deall y berthynas rhwng canrannau, degolion a ffracsiynau ac yn cyfrifo ffracsiynau yn gywir.  Eleni, rydym wedi gweld ychydig o welliant yng ngallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd gwahanol o'r cwricwlwm.  Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cynllunio'r daith a wnaeth faciwîs o Lundain i Gymru, ac yn cyfrifo nifer y bysiau a'r trenau yr oedd eu hangen.  Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae gallu disgyblion i gymhwyso medrau rhifedd yn annibynnol ac yn hyfedr ar draws y cwricwlwm yn parhau yn faes i'w wella.

Mae safonau mewn TGCh yn parhau i wella ac maent yn gryf mewn llawer o ysgolion.  Mae disgyblion yn defnyddio TGCh i gefnogi'u dysgu mewn ystod o feysydd ar draws y cwricwlwm.  Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i greu graffiau bar er mwyn archwilio sut maent yn gwario'u harian poced.  Yn yr ysgolion gorau, mae disgyblion yn cyfuno ystod o fedrau TGCh i ymchwilio i, a chyflwyno, gwybodaeth.  Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn ymchwilio i achosion ac effaith tanau llwyni, ac yn ysgrifennu rhaglenni syml i ddangos sut gellid defnyddio robotiaid i helpu i fynd i'r afael â nhw.  Yn yr ychydig ysgolion lle mae medrau TGCh yn wannach, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau yn gyson wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac nid ydynt yn datblygu ystod ddigon eang o fedrau TGCh, yn enwedig wrth ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau creadigol priodol wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau annibynnol yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored.  Er enghraifft, maent yn defnyddio deunyddiau naturiol i greu darluniau yn yr ardal goedwig, neu'n creu patrymau cerddorol gyda chyllyll a ffyrc, a photiau a phadelli.  Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn adeiladu'n dda ar y profiadau cynnar hyn er mwyn parhau i ddatblygu eu creadigrwydd yng nghyfnod allweddol 2.  Yn aml, gwneir hyn drwy ymgysylltu â phartneriaid allanol, fel artistiaid lleol, gyda disgyblion yn dysgu am eu technegau ac yn ymweld â'u stiwdios.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles disgyblion yn parhau i fod yn gryfder mewn ysgolion cynradd ledled Cymru, ac maent yn dda neu'n well ym mron pob ysgol, ac yn rhagorol mewn rhyw un o bob pum ysgol.

Lle mae safonau lles yn uchel, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ac yn bwrw at eu gwaith gyda diddordeb a brwdfrydedd.  Maent yn awyddus i ddysgu cysyniadau newydd ac i ddatrys problemau, boed yn gweithio fel unigolion neu mewn grwpiau.  Maent yn rhannu eu barnau yn hyderus ac yn ategu'r barnau hyn gyda rhesymau ystyriol, er enghraifft wrth awgrymu sut i oresgyn her benodol.  Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n gydwybodol i gwblhau tasgau.  Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan oedolion a chyfoedion, ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu o gamgymeriadau.

# Crynodebau sector:
Ysgolion cynradd

Lle mae safonau lles yn rhagorol, mae disgyblion yn datblygu fel dysgwyr annibynnol o oedran cynnar.  Maent yn trosglwyddo dysgu o brofiadau blaenorol i oresgyn problemau a heriau newydd.  Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gwerthuso'u cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion yn arbennig o dda.  Maent yn datblygu ystod eang o strategaethau sy'n eu galluogi i wella'u dysgu eu hunain, ac yn dangos gwydnwch wrth fynd i'r afael â heriau.  Fodd bynnag, yn oddeutu hanner yr ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol disgyblion yn parhau yn faes i'w ddatblygu.  Yn **Metacognition and Self-Regulated Learning**, mae'r Education Endowment Foundation (2018a) yn gwneud saith argymhelliad i helpu datblygu'r medrau hyn.

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn dechrau dylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm ond, yn gyffredinol, ni roddir digon o ddewis iddynt o ran sut neu beth maent yn ei ddysgu.  Er enghraifft, nid ydynt fel mater o drefn arferol yn dewis sut byddent yn hoffi cyflwyno'u gwaith na datrys problem benodol.

Mae ymddygiad disgyblion yn gyson dda yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd.  Mae'r safonau ymddygiad hyn, law yn llaw â pherthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a rhwng disgyblion ac oedolion, yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn trin pobl eraill â chwrteisi a pharch.  Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu amrywiaeth ac yn deall gwerth dysgu gan a gyda'r rheiny sydd â ffydd neu ddiwylliannau gwahanol.  Yn gynyddol, mae disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru yn datblygu dealltwriaeth dda o **Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (1989).

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.  Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is na disgyblion eraill, ac mae'r data'n dangos tuedd sy'n gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf.  Hefyd, mae'r grŵp hwn o ddisgyblion yn fwy tebygol na'u cyfoedion hefyd o fod yn absennol o'r ysgol yn barhaus.  Mae absenoldeb yn rhwystro cynnydd, ac mae hefyd yn sefydlu patrwm o beidio â mynychu a allai waethygu yn ystod addysg uwchradd.

Mae grwpiau llais y disgybl gan bron pob ysgol, fel cynghorau ysgol ac arweinwyr digidol, er bod effeithiolrwydd y grwpiau hyn yn amrywio'n eang.  Mewn lleiafrif o ysgolion, mae grwpiau llais y disgybl yn cael dylanwad iach dros fywyd a gwaith yr ysgol ac yn sicrhau gwelliannau, er enghraifft i ddealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.  Mewn ysgolion lle mae grwpiau llais y disgybl yn llai effeithiol, ceir diffyg ymreolaeth a dealltwriaeth o'u diben.  Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn or-ddibynnol ar oedolion i drefnu'u cyfarfodydd, a dim ond gwahaniaeth cyfyngedig a wna'r newidiadau sy'n deillio o'u gwaith.

Mae dealltwriaeth dda gan bron pob disgybl o bwysigrwydd ffordd iach o fyw, ac mae'r rhan fwyaf yn deall sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd cyffredinol addysgu a phrofiadau dysgu yn debyg i'r llynedd. Maent yn dda neu'n well mewn rhyw dri chwarter o ysgolion cynradd ac yn rhagorol mewn rhyw un o bob deg. Mewn rhyw chwarter o ysgolion, er bod rhai cryfderau, mae meysydd y mae angen eu gwella hefyd.

Ym mron yr holl ysgolion cynradd, mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion sy'n annog ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion bod staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi'u barnau. Yn yr ychydig iawn o achosion lle mae ymddygiad disgyblion yn llai na da, mae hyn yn aml yn ganlyniad staff yn cymhwyso technegau rheoli ymddygiad yn anghyson neu heb fod â disgwyliadau ddigon uchel o'r modd y dylai disgyblion ymddwyn.

Mewn rhyw wyth o bob deg o ysgolion cynradd, mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn helpu sicrhau hyn drwy ymgynghori â disgyblion ynghylch beth a sut yr hoffent ddysgu. Yn yr achosion gorau, mae hyn yn cynnwys disgyblion yn gweithio gydag athrawon i nodi'r medrau y gallant eu caffael a'u datblygu fel rhan o destun penodol a chynllunio'r gweithgareddau y byddant yn ymgymryd â nhw. Mewn rhyw chwarter o ysgolion, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd o ansawdd da i ddisgyblion gynllunio agweddau ar eu dysgu eu hunain.

Mae bron yr holl ysgolion yn dechrau ystyried goblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Yn aml, mae ysgolion wedi dechrau drwy addasu'u hymagwedd at addysgu a dysgu i adlewyrchu'r pedwar diben.[3] Lle mae dealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru gan uwch arweinwyr, maent yn ymdrin â newid yn bwyllog ac yn gweithio gyda staff i ddatblygu'u gweledigaeth o ran ymddangosiad y cwricwlwm. Mae ychydig o ysgolion wedi rhuthro i ddatblygu ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru ac mae hyn wedi arwain at newidiadau arwynebol nad ydyn nhw'n adlewyrchu ehangder ac ansawdd profiadau dysgu sydd eu hangen ar ddisgyblion. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi ceisio addasu cynlluniau pynciau a chynlluniau gwaith presennol i gydweddu â'r Cwricwlwm i Gymru yn hytrach na mabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysfawr at ddatblygu a gweithredu newidiadau dros gyfnod.

Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn deall cryfderau a gwendidau disgyblion o ran eu medrau. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion ar lefel addas ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn ystod gwersi a thros gyfnod. Maent yn holi disgyblion yn ofalus i fesur eu dealltwriaeth ac i benderfynu p'un a ydynt yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio'u trafodaethau gyda disgyblion yn

### Ysgol Gynradd Glasllwch

Gweithiodd staff yn Ysgol Gynradd Glasllwch gyda'i gilydd i amlygu cryfderau a meysydd ymarfer addysgu presennol y gellid eu gwella. Dewisodd athrawon y meysydd roedd ganddynt ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt, eu treialu a'u datblygu. Rhoddwyd cyfnod clir, wedi'i gynnwys yn yr amserlen, i staff gyflwyno'u canfyddiadau. Mae'r ymchwil hon wedi galluogi staff i adeiladu cwricwlwm pwrpasol, tra'n datblygu arferion addysgu arloesol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Casmael

Trwy weithio gyda'r 'Arweinydd Dysgu' o'r clwstwr o ysgolion lleol, gwelodd arweinwyr yr ysgolion gyfle i fanteisio ar ddyfodiad y cwricwlwm newydd a'r datblygiadau diweddar ym myd addysg. Datblygont gyfleoedd i athrawon a'r disgyblion feddwl mewn ffyrdd chwilfrydig wrth gynllunio gweithgareddau a heriau dysgu cyffrous a chyfoethog.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

[3] Diben y cwricwlwm yw galluogi dysgwyr i ddatblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2020i)

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

fedrus i addasu ffocws a lefel yr her er mwyn adlewyrchu'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ac i ysbrydoli ymgysylltu parhaus. Er enghraifft, caiff disgyblion meithrin yn yr ardal awyr agored ar fore oer eu hannog i feddwl am o ble ddaeth y 'stwff gwyn' a beth fydd yn digwydd os byddant yn dod ag ef i mewn i'r adeilad.

Ym mron yr holl ddosbarthiadau ledled Cymru, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddisgyblion o'r hyn y byddant yn ei ddysgu a sut mae hyn yn cysylltu â gweithgareddau blaenorol. Mewn rhyw wyth o bob deg ysgol, maent hefyd yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o sut i lwyddo yn eu dysgu, er enghraifft trwy ddarparu modelau o fathau gwahanol o ysgrifennu i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn cymhwyso technegau asesu ar gyfer dysgu heb fyfyrio ar ansawdd yr ymagweddau na'r effaith a gânt ar gynnydd disgyblion.

Mae bron pob ysgol wedi datblygu polisïau adborth i sicrhau cysondeb ymhlith staff ac ar draws dosbarthiadau. Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae staff yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn dda i sicrhau bod disgyblion yn deall eu cryfderau a sut i wella. Mewn mwyafrif o achosion, maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb i sylwadau staff yn ystod gweithgareddau, mewn gwersi dilynol neu, er enghraifft, yn ystod amser penodol 'gwneud gwahaniaeth'. Mewn ysgolion lle mae adborth yn llai effeithiol, nid yw'r adborth yn ddigon eglur i helpu disgyblion ddeall sut i wella, ac nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'w hadborth.

Mewn rhyw wyth o bob deg ysgol, mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau Cymraeg disgyblion. Ond amrywiol yw'r trefniadau ar gyfer cymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd dysgu eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yn aml, mae'r rhain yn weithgareddau difyr sy'n galluogi disgyblion i ymarfer y medrau y maent wedi'u dysgu mewn gwersi llythrennedd, i'r un safon. Mae gan ysgolion sy'n datblygu darllenwyr effeithiol ymagwedd strategol at wella medrau darllen disgyblion o oedran cynnar. Maent yn hyrwyddo mwynhad a gwerth dysgu yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymarfer medrau darllen a defnyddio'r medrau hyn i gefnogi'u dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae **arweiniad** gan yr Education Endowment Foundation (2018b) yn amlinellu ymagweddau allweddol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y blynyddoedd cynnar.

Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau i ddisgyblion sy'n eu galluogi i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn modd ystyrlon mewn pynciau eraill. Er enghraifft, wrth ymateb i'r llyfr dosbarth 'The Enormous Turnip', mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn pwyso llysiau yn gywir ac yn dod o hyd i'r un trymaf. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau rhifedd, fel tasgau ymdrin â data ar lefel isel, yn herio disgyblion bob amser i ddefnyddio'u medrau i'r safon o fewn eu cyrraedd.

**Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Model**

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Model wedi datblygu strategaeth i sicrhau ymagwedd gytbwys at addysgu sy'n cyflwyno cwricwlwm eang. Caiff y cynllunio ei ysgogi gan syniadau'r disgyblion eu hunain, ac fe gânt eu hannog yn llwyddiannus i weithio'n annibynnol, a chyfrannu at weithgareddau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion cyfrwng Saesneg, lle mae medrau Cymraeg disgyblion yn cael eu datblygu'n effeithiol, mae'r rhan fwyaf o staff yn modelu'r defnydd o'r Gymraeg yn rheolaidd ac mae ganddynt ddisgwyliadau priodol o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau heblaw am mewn gwersi Cymraeg. Ond mewn rhyw draean o ysgolion, nid yw athrawon yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Yn yr ysgolion hyn, yn aml mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfnod sylfaen, ond mae'r cyfleoedd hyn yn lleihau trwy gyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion, gan ymgorffori ystod eang o dechnolegau yn ddychmygus mewn llawer o feysydd dysgu, fel defnyddio ap podlediad ac offer recordio i ddatblygu medrau siarad disgyblion. Mewn rhyw chwarter o ysgolion, nid yw athrawon yn datblygu'r defnydd o daenlenni a chronfeydd data i lefel ddigon uchel.

Mae'r cyfnod sylfaen wedi bod yn statudol yng Nghymru ers deng mlynedd. Yn debyg i'r llynedd, mewn saith o bob deg ysgol, mae gan staff ddealltwriaeth dda o egwyddorion ac arfer y cyfnod sylfaen. Maent yn cydnabod ei bwysigrwydd wrth ddatblygu ystod o fedrau disgyblion, fel creadigrwydd a chydweithio, ochr yn ochr â medrau allweddol mewn llythrennedd a rhifedd. Maent yn cynllunio gweithgareddau dychmygus a difyr i ddisgyblion ddysgu yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored ac yn sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu at beth a sut maent yn dysgu. Yn yr achosion hyn, mae ymarferwyr medrus yn ymateb yn hyblyg i anghenion a diddordebau disgyblion wrth iddynt archwilio gweithgareddau, gan gefnogi'u dysgu drwy gwestiynau ac awgrymiadau effeithiol. Mewn rhyw dair o bob deg ysgol, mae'r arfer yn wannach yn nosbarthiadau hŷn y cyfnod sylfaen (Blynyddoedd 1 a 2). Yn yr achosion hyn, mae gweithgareddau'n cael eu gorgyfarwyddo gan oedolion ac maent yn canolbwyntio'n ormodol ar ystod gul o fedrau llythrennedd a rhifedd. Oherwydd hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau corfforol, creadigol, cymdeithasol a medrau dysgu annibynnol allweddol y mae eu hangen arnyn nhw ar gyfer gweddill eu haddysg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae safon gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn dda neu'n well mewn mwy na naw o bob deg ysgol gynradd. Mae'n rhagorol mewn un o bob pum ysgol. Mae'r safonau gofal, cymorth ac arweiniad cyson uchel yn cyfrannu'n fawr at safonau uchel lles disgyblion sydd i'w gweld yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mewn ysgolion sy'n sicrhau lefelau lles uchel ar gyfer disgyblion, mae gofal, cymorth ac arweiniad yn flaenoriaeth uchel. Maent yn agwedd benodol ar weledigaeth, ethos a chynllunio prosesau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn deall bod canolbwyntio ar les yn hanfodol i sicrhau cyfranogiad gweithgar ym mywyd yr ysgol i'r holl ddisgyblion, ni waeth beth yw eu cefndir. Mewn llawer o achosion lle mae lles disgyblion yn arbennig o gryf, mae arweinwyr yn defnyddio cynorthwywyr addysgu hyfforddedig a medrus i gefnogi lles emosiynol disgyblion.

### Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands

Manteisiodd disgyblion a staff Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands ar y cyfle i godi safonau yn y Gymraeg trwy gynnwys yr iaith ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Maent wedi meithrin cysylltiadau cryf gydag ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ac mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau drwy we-gamera i wella'u gallu llafar, a gweithdai barddoniaeth i ddatblygu medrau ysgrifennu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

### Ysgol Feithrin Cogan

Mae staff yn Ysgol Feithrin Cogan yn adolygu eu harferion yn gyson i sicrhau eu bod yn darparu'r gweithgareddau dysgu gorau posibl ar gyfer yr holl ddysgwyr. Caiff y gweithgareddau eu datblygu'n bennaf o ganlyniad i ddiddordebau'r plant. Trwy ddarparu cyfleoedd dysgu diddorol, yn ogystal â rhywfaint o addysgu ar wahân, mae staff yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod gynhwysfawr o fedrau a gwybodaeth wrth iddyn nhw chwarae.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned a pherthyn. Maent yn creu amgylcheddau lle mae disgyblion yn datblygu hyder ac yn teimlo'n ddiogel. Mae perthnasoedd parchus rhwng oedolion a disgyblion yn cyfrannu at ethos ysgol llwyddiannus. Mae ysgolion yn sicrhau bod staff yn adnabod eu disgyblion, eu teuluoedd a'u hanghenion. Mae'r perthnasoedd hyn ac amgylcheddau meithringar yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol a dysgu. Mae disgwyliadau a ddeallir yn dda a systemau cyson, law yn llaw â phrofiadau dysgu difyr, yn meithrin safonau uchel o ran ymddygiad disgyblion.

Mae trefniadau i ddatblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn anghyson ar draws ysgolion, ac mewn ysgolion unigol weithiau. Mewn rhyw hanner o ysgolion, mae athrawon yn meithrin annibyniaeth disgyblion yn dda drwy eu darpariaeth cyfnod sylfaen. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, caiff disgyblion eu cefnogi i ddatblygu ystod o strategaethau sy'n rhoi'r medrau a'r hyder iddynt ymgymryd â gweithgareddau newydd yn annibynnol neu mewn grwpiau bach. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw staff yn datblygu annibyniaeth disgyblion na'u medrau 'dysgu sut i ddysgu' yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu a brwdfrydedd disgyblion i oresgyn heriau newydd sydd o fewn eu cyrraedd, ac mae'n arwain at ddisgyblion sy'n dibynnu'n ormodol ar gymorth oedolion. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw arweinwyr ac athrawon wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn yw dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn olrhain cynnydd cymdeithasol, emosiynol ac academaidd disgyblion yn ofalus. Defnyddiant y wybodaeth hon i amlygu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai y mae angen help ychwanegol arnynt i ddysgu, ac i ddarparu ar eu cyfer. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad nad ydyn nhw'n gallu eu darparu eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau arbenigol fel cwnsela neu gymorth i ddisgyblion ag anableddau corfforol neu ddysgu. Mae'r cydweithio hwn yn helpu sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion, fel y nodir yn ein hadolygiad '**Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd**' (Estyn, 2020o).

Ym mron pob ysgol gynradd, mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn cefnogi gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion. Yn benodol, mae perthnasoedd â rhieni a gofalwyr yn rhai cadarnhaol fel arfer, ac maent yn gwella agweddau disgyblion at fywyd ysgol a dysgu ymhellach. Mewn rhyw dair o bob deg ysgol sy'n gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yng Nghymru, mae'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir i ddisgyblion a theuluoedd yn rhagorol. Mae'r ymgysylltu helaeth rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau yn aml yn elfen allweddol o'r rhagoriaeth hwn ac mae'n gwella bywydau disgyblion a'u teuluoedd, er enghraifft trwy ddarparu mynediad i wasanaethau, cyngor ac adnoddau a allai fel arall fod yn anhygyrch iddyn nhw pan fyddai eu hangen nhw fwyaf.

Mae bron yr holl ysgolion yn cynnig y cyfle i ddisgyblion gyfrannu at grwpiau 'llais y disgybl'. Fodd bynnag, mae lefel eu dylanwad yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion. Yn y mwyafrif o ysgolion sy'n gwerthfawrogi ac yn meithrin llais y disgybl, mae'r grwpiau hyn yn cyfrannu at wella ysgolion, er enghraifft,



### Ysgol Pen Rhos

Mae staff yn Ysgol Gynradd Pen Rhos wedi'u hyfforddi'n dda i gefnogi disgyblion sy'n wynebu materion cymdeithasol heriol. Mae ystod o arolygon lles wedi nodi'r rhai y mae angen help ychwanegol arnyn nhw, fel y gall yr ysgol deilwra ymyrraeth gan ei staff hyfforddedig ei hun i ddarparu cefnogaeth ychwanegol effeithiol i'r disgyblion hynny.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

drwy werthuso effeithiolrwydd agweddau ar waith yr ysgol ac awgrymu gwelliannau. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mewn lleiafrif o ysgolion ceir diffyg ymreolaeth neu ddylanwad gan y grwpiau hyn.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer annog arferion bwyta ac yfed yn iach ym mron pob ysgol. Maent yn cynorthwyo disgyblion i ddeall gwerth ffordd iach o fyw drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau ychwanegol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Mae disgyblion yn dysgu pwysigrwydd gwneud ymarfer corff a deiet iach, er enghraifft trwy gyfranogi mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd fel hyfforddiant cylchol a thrwy gynllunio, gwneud a bwyta prydau iach. Nid yw ychydig o ysgolion yn defnyddio dysgu yn yr awyr agored yn ddigon da i gefnogi datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae trefniadau diogelu mewn ysgolion cynradd yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn ychydig o dan dri chwarter o ysgolion cynradd a cheir diffygion pwysig y mae angen eu gwella mewn ychydig dros chwarter.

Mae nodweddion arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion a nodwyd eleni yr un peth fwy neu lai ag mewn blynyddoedd blaenorol. Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr yn sefydlu ac yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol. Maent yn cysylltu'r weledigaeth hon â chyd-destun y gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu, ac yn hyrwyddo diwylliant dyheadol ar gyfer cynnydd disgyblion. Maent yn sicrhau bod holl aelodau'r gymuned ysgol yn deall eu rôl i gyflawni'r diben cyffredin hwn, ac yn dyrannu adnoddau i hwyluso cyflawni nodau'r ysgol. Mae arweinwyr effeithiol yn meithrin hyder yn y staff, disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn ysgogi ymdeimlad o falchder a chred yn yr ysgol ymhlith staff a'r gymuned ehangach.

Un nodwedd gyffredin yr arweinwyr mwyaf effeithiol yw eu ffocws parhaus ar wella safonau addysgu a phrofiadau dysgu, ac ar les disgyblion. Maent yn adolygu'r agweddau pwysicaf ar waith yr ysgol yn gyson drwy ystod o brosesau gwerthuso er mwyn nodi'r angen am newid neu i rannu arfer orau. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gylch parhaus o werthuso a gwella. Mae arweinwyr yn cynllunio newid yn feddylgar ac yn defnyddio dysgu proffesiynol i gefnogi cyflwyno arferion newydd.

Mae arweinwyr effeithiol yn meithrin arweinwyr y dyfodol trwy ddarparu cyfleoedd iddynt arwain ar agweddau ar waith gwella. Maent yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddatblygu staff i wella o ran yr hyn maent yn ei wneud. Yn yr ysgolion gorau, mae arweinwyr yn ceisio datblygu'r gallu i arwain ar bob lefel, gan gynnwys ymhlith disgyblion a rhieni. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn defnyddio'u cronfa o ddarpar arweinwyr yn dda i gynorthwyo'r system addysg ehangach i wella, er enghraifft drwy ryddhau arweinwyr, gan gynnwys athrawon arweiniol, i weithio gydag ysgolion partner neu glystyrau o ysgolion.


**Ysgol Gynradd Nant Y Parc**

Mae uwch arweinwyr yn Ysgol Gynradd Nant Y Parc yn annog staff i ymchwilio i ddatblygiad proffesiynol pellach, ac ymestyn profiadau addysgol, a gwella deilliannau. Trwy sefydlu diwylliant sy'n meithrin mentrau ymchwil, mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



Mewn rhyw chwarter o ysgolion cynradd, mae angen rhywfaint o wella ar yr arweinyddiaeth.  Mae gwendidau cyffredin yn cynnwys diffyg ffocws a thrylwyrder mewn prosesau gwerthuso a gwella.  Mae bron yr holl ysgolion yn ymgymryd â rhyw fath o hunanwerthuso ac maent i gyd yn creu cynlluniau gwella.  Lle ceir gwendidau, nid yw'r trefniadau i gasglu tystiolaeth yn canolbwyntio digon ar werthuso cynnydd a lles disgyblion mewn gwersi a thros gyfnod.  Yn yr achosion hyn yn aml, mae gweithdrefnau gwerthuso yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfio â pholisïau ysgol yn hytrach nag ar ansawdd ac effaith y gwaith.  Mae hyn yn rhwystro ysgolion rhag amlygu diffygion mewn agweddau pwysig ar eu gwaith, fel datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion, neu athrawon yn sicrhau'r lefel her briodol ar gyfer disgyblion.  Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella, ond nid ydynt yn cynllunio'n strategol i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.  Mae materion eraill sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd gwaith gwella yn cynnwys mynd i'r afael â gormod o faterion ar yr un pryd, a gwendidau mewn adolygu effaith gwaith gwella.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn llai effeithiol, ceir diffyg eglurder mewn rolau a chyfrifoldebau staff yn aml.  Gall trefniadau i ddatblygu arweinwyr a dosbarthu cyfleoedd arwain fod yn wan.  Mae dysgu proffesiynol a threfniadau rheoli perfformiad i'r staff ar bob lefel heb eu datblygu'n ddigonol.  Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar allu staff i ymgymryd â'u gwaith yn llwyddiannus.  Mewn ychydig iawn o achosion lle mae'r arweinyddiaeth yn wael, mae perthnasoedd a chyfathrebu rhwng arweinwyr a staff wedi methu.

Mewn ysgolion lle nad yw'r arweinyddiaeth yn gryf, mae llywodraethu yn aneffeithiol yn aml ac nid yw corff llywodraethol yr ysgol yn ymgymryd â'i rôl fel ffrind beirniadol yn ddigon da, gan ddibynnu gormod ar wybodaeth a gyflwynir gan y pennaeth, ac mae trefniadau i herio dilysrwydd y wybodaeth hon yn wan.

## Gweithgarwch dilynol

Mae angen monitro ar ychydig dros chwarter yr ysgolion cynradd a arolygwyd rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020.  O'r rhain, mae angen eu hadolygu gan Estyn ar bedair ar hugain ohonynt, mae angen gwelliant sylweddol ar ddwy, ac mae angen gweithredu mesurau arbennig mewn tair.


Mae angen eu hadolygu gan Estyn ar ryw un o bob pum ysgol gynradd a arolygwyd.  Mae hyn yn uwch na'r llynedd.  Mewn ychydig o dan ddwy ran o dair o'r ysgolion hyn, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol, ac yn y gweddill, mae safonau disgyblion yn dda.  Er bod lles y disgyblion hyn a'u hagweddau at ddysgu yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, digonol yw addysgu a phrofiadau dysgu mewn rhyw wyth o bob deg ohonynt, ac mae angen eu gwella.  Mewn llawer, mae'r cymorth, gofal ac arweiniad a ddarperir i ddisgyblion yn dda.  Ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol yn yr holl ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn.  Yn yr achosion hyn, nid oes dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw addysgu a dysgu effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu medrau disgyblion.  Nid oes disgwyliadau ddigon uchel gan athrawon bob amser o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac nid ydynt ychwaith yn addasu lefel yr her i fodloni anghenion unigol.  Nid yw adolygiadau gan arweinwyr bob amser yn ddigon penodol neu fanwl i helpu athrawon ddeall sut i wella'u haddysgu.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Eleni, fe wnaethom roi pum ysgol gynradd mewn categori statudol yn dilyn eu harolygiad craidd. Yn yr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, bu ansefydlogrwydd yn y staffio yn gyffredinol dros gyfnod amser estynedig, a dibyniaeth ar gymorth parhaus gan y consortiwm rhanbarthol. Nid yw trefniadau i reoli perfformiad staff wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau'r gwelliannau gofynnol. Mewn ysgolion yn y categori mesurau arbennig, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol ar y gorau, ac mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn anfoddhaol. Mae perthnasoedd rhwng staff ac arweinwyr wedi chwalu yn aml, ac nid yw staff yn cefnogi'i gilydd yn ddigon da i sicrhau gwelliant. Ceir diffyg cydweledigaeth i fynd â'r ysgol yn ei blaen ac mae rolau a llinellau atebolrwydd staff yn aneglur. Lle mae'r ysgolion hyn yn nodi meysydd priodol i'w gwella, nid yw arweinwyr yn ailystyried yr agweddau hyn yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod staff yn cyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt, nac i asesu eu heffaith ar safonau.

Ym Medi 2019, roedd wyth o ysgolion cynradd yn y categori mesurau arbennig, a phum ysgol yn y categori gwelliant sylweddol yn dilyn arolygiadau craidd mewn blynyddoedd blaenorol. Yn dilyn ymweliadau monitro, fe wnaethom dynnu dwy ysgol o'r categori mesurau arbennig, a thair ysgol o'r categori gwelliant sylweddol.

Rydym yn parhau i fonitro'r holl ysgolion a roddwyd yn y categori adolygu gan Estyn drwy adolygiadau desg. Ymwelwn â sampl o'r ysgolion hyn, gan gynnwys ysgolion lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ddigon taer. Eleni, roedd 15 o'r 17 o ysgolion y gwnaethom eu hadolygu wedi gwneud digon o gynnydd ac nid oedd angen gweithgarwch dilynol pellach arnynt. Yn dilyn ymweliadau, canfuom nad oedd dwy ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn eu hargymhellion, a nodom fod angen gwelliant sylweddol ar y rhain.



# Adran 1


# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

## 1 Cyd-destun

Ym mis Ionawr 2020, roedd 183 o ysgolion uwchradd yng Nghymru.  Roedd hyn bedair yn llai nag ym mis Ionawr 2019, yn bennaf yn sgîl ysgolion yn uno i ffurfio ysgol uwchradd newydd neu ysgol pob oed newydd.  Yn 2019-2020, fe wnaethom arolygu 25 o ysgolion.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

## Safonau




Mae safonau'n dda mewn ychydig dros hanner o ysgolion uwchradd. Yn yr ysgolion hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u medrau yn dda. Lle mae disgyblion yn gwneud y cynnydd cryfaf, maent yn croesawu her ac yn dangos brwdfrydedd i ddysgu. Gwnânt ddefnydd medrus o wybodaeth bresennol i gyfnerthu ac yna ymestyn eu syniadau mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn perfformio yn unol â'r disgwyl neu'n well mewn arholiadau allanol.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn dyfnhau eu dealltwriaeth wrth iddynt gymhwyso'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd gwahanol, er bod ychydig ohonynt, sef y rhai â chyrhaeddiad blaenorol is fel arfer, yn gwneud llai o gynnydd. Nid yw oddeutu un o bob pum disgybl yn symud ymlaen o safon Uwch Gyfrannol i Safon Uwch ac yn aml maent yn dewis dilyn llwybr gwahanol, sy'n fwy priodol o bosibl, fel cwrs galwedigaethol, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mewn ychydig dros hanner o ysgolion, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu, er bod perfformiad cyffredinol y grŵp hwn o ddisgyblion yn parhau i fod yn is na chynnydd disgyblion eraill.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rheiny nad ydyn nhw'n gwneud hynny yn colli gwybodaeth a chyfarwyddiadau pwysig a fyddai'n fuddiol i'w dysgu. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud ymatebion meddylgar ac ystyriol yn ystod trafodaethau grŵp ar destunau amrywiol, er enghraifft ar effaith cynhyrchu olew palmwydd ar gynefin a bywyd gwyllt fforestydd glaw, i'r rhesymau dros ymddiorseddiad Tsar Nicholas II. Mae mwyafrif yn ymateb yn dda i gwestiynau eu hathrawon ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio geirfa penodol i bwnc. Fodd bynnag, nid yw geirfa gyffredinol lleiafrif o ddisgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ymestyn eu cyfraniadau llafar a chyfleu'u syniadau a'u barnau.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn cip a llithr ddarllen er mwyn cael dealltwriaeth gyffredinol o destunau ac i ddod o hyd i fanylion penodol. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o dechnoleg i leoli gwybodaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd yn bwrpasol, er enghraifft i wella'u dealltwriaeth o resbiradaeth anaerobig er mwyn helpu egluro cysyniad o'r angen am ocsigen yn dilyn gweithgarwch corfforol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda pan fyddant, er enghraifft, yn astudio defnydd llywodraeth Prydain o bropaganda a sensoriaeth yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn fwy cyffredin, mae disgyblion yn dangos eu defnydd o'r medrau hyn wrth drafod testunau y maen nhw'n gyfarwydd â nhw, fel y rhai a astudiwyd ar gyfer arholiadau llenyddiaeth. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwerthuso ac yn cyfosod nifer o destunau yn dda, er enghraifft cymharu barddoniaeth Duffy, Larkin a Pugh, neu drafod effaith gorymdeithiau newyn yn Jarrow a Chwm Rhondda. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen i gefnogi'u dysgu.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Yn ogystal, nid oes geirfa ddigon eang gan ychydig o ddisgyblion i'w galluogi i ddeall beth maent yn ei ddarllen, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cyrhaeddiad, fel yr archwilir yn **'Why Closing the Word Gap Matters'** Oxford Language Report (Quigley, 2018).




Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod briodol o ddibenion a chynulleidfaoedd, fel paratoi araith i berswadio'u cyfoedion i wneud dewisiadau byw'n iach, neu lythyr i lywodraeth America yn deisebu am newidiadau i gyfreithiau gynnau. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio geirfa eang a soffistigedig mewn gwaith ysgrifennu wedi'i saernïo'n ofalus sy'n dal diddordeb y darllenydd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion, a merched yn benodol, yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu sy'n dechnegol gywir yn gyffredinol ac wedi'i drefnu'n dda. Fel arfer, mae'r disgyblion hyn yn deall diben eu hysgrifennu, ond nid yw eu hymdeimlad o gynulleidfa mor sicr. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn, gan gynnwys y rhai y mae eu geirfa'n gyfyngedig, yn gwneud dewisiadau iaith gwael ac nid oes naws addas i'w hysgrifennu. Nid yw cyfran debyg o ddisgyblion yn prawfddarllen nac yn cymryd digon o gyfrifoldeb am wella ansawdd eu gwaith cyn ei gyflwyno. Mae hyn yn cyfrannu at iddynt bau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau rhifedd mewn pynciau a chyd-destunau gwahanol. Mae'r enghreifftiau gorau yn cynnwys disgyblion yn dangos eu dealltwriaeth o ganrannau a rhifau wedi'u mynegi ar ffurf safonol i gyfrifo trwch cramen y ddaear, neu wrth blotio a dehongli graffiau i gymharu gros y cynnyrch domestig a chyfraddau marwolaethau babanod mewn gwledydd Ewropeaidd. Er bod disgyblion yn gyffredinol yn cwblhau gwaith graff i safon dda, fel yr hynny sy'n dangos sut mae cyfradd adweithio yn newid gyda thymheredd, caiff lleiafrif o graffiau eu llunio'n anghywir, gyda graddfeydd amhriodol, eu cyflwyno'n esgeulus neu heb fod wedi'u dehongli'n gywir. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau datrys problemau rhifyddol yn aml nac yn ddigon da mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Yn rhy aml, nid yw'r ymarferiadau y maent yn eu cwblhau yn eu galluogi i ddatblygu'u dealltwriaeth o bwnc na'u medrau rhifedd.

Mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg. Maent yn datblygu geirfa eang, mae eu hynganu'n gadarn, ac maent yn defnyddio amrywiaeth o gystrawennau yn hyderus. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, er eu bod yn caffael y gallu i ateb cwestiynau arholiadau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd araf wrth ddatblygu'u hiaith lafar, ac yn aml maent yn cael anhawster deall neu ateb cwestiynau syml hyd yn oed. Maent yn cael trafferth gyda'u hynganu, nid oes ganddynt eirfa sylfaenol, ac nid yw'r hyder ganddynt i ateb mewn brawddegau llawn. Hefyd, maent yn cael anhawster darllen Cymraeg sylfaenol.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Er bod ychydig yn cymysgu Cymraeg a Saesneg ar brydiau, neu'n sgwrsio yn Saesneg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd hyderus o idiomau a hiwmor yn eu cyfathrebu llafar, ac mae eu medrau darllen yn eu galluogi i werthuso, er enghraifft, dibynadwyedd ffynonellau hanesyddol, fel y rheiny ynglŷn ag Owain Glyndŵr. Mae eu geirfa eang a'u cystrawen Gymraeg naturiol yn eu galluogi i ysgrifennu'n dda mewn ffurfiau gwahanol fel straeon byr, er bod ychydig yn dal

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

i wneud camgymeriadau sylfaenol.  Mewn ysgolion dwyieithog, yn Saesneg y cyfathrebir amlaf, yn enwedig y tu allan i wersi, ac mae hyn yn cyfyngu ar ruglder disgyblion yn Gymraeg.

Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda ar draws y cwricwlwm.  Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddio technolegau digidol yn llwyddiannus i ddylunio a chreu apiau hysbysebu ac animeiddiadau siarad, a defnyddio algorithmau i godio rhaglenni i symud cymeriadau rhithwir.  Mewn llawer o ysgolion, mae datblygiad medrau TGCh disgyblion yn fwy cymedrol.  Pan roddir y cyfle iddynt, gall disgyblion gyfansoddi'n hyderus gyda thechnoleg cerddoriaeth neu ddefnyddio meddalwedd i greu lluniadau wrth raddfa o ddyluniadau.  Yn fwy cyffredin, fodd bynnag, mae eu defnydd o TGCh wedi'i gyfyngu i ymchwil ar-lein anystyriol, a chyflwyniadau sleidiau a gwaith taenlenni sylfaenol.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion o bob gallu yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol.  Mae'r rhai sy'n gwneud y cynnydd cryfaf yn ymwneud yn frwdfrydig â gweithgareddau fel gwaith celf, ysgrifennu creadigol ac wrth gymryd rhan yn yr Eisteddfod ysgol.  Mae ychydig iawn yn ymwneud â gwaith cymunedol fel dylunio gardd ysgol er budd pobl eraill.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn bron i dair o bob deg ysgol, mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn rhagorol.  Mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o ddinasyddiaeth, yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, ac yn datblygu medrau arwain personol.  Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn dangos diddordeb brwd ac awch i ddysgu.  Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel ac mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus, gwydn sy'n gweithio'n dda yn annibynnol a gydag eraill.  Yn yr ysgolion hyn, mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn effeithio'n gadarnhaol ar y safonau y maent yn eu cyflawni.

Mewn rhyw saith o bob deg ysgol, mae disgyblion yn cydnabod pwysigrwydd presenoldeb da ac ymroddiad i'w dysgu.  Fel arfer, maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, er bod angen cymorth ar ychydig o ddisgyblion iau i ddatblygu arferion dysgu effeithiol ac maent yn rhy ddibynnol ar eu hathrawon.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar eu hathrawon ac yn canolbwyntio'n ddyfal.  Maent yn hyderus ynghylch ble i fynd os oes angen cymorth arnynt, ac maent yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau byw'n iach, er nad ydynt bob amser yn gwneud hynny'n ymarferol; nid ydynt ychwaith yn manteisio ar y cyfleoedd chwaraeon, ffitrwydd a'r cyfleoedd allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu darparu, nac yn gwneud dewisiadau bwyd addas.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae tarfu lefel isel ac ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion yn rhwystro dysgu.  Mewn ychydig o ysgolion, mae presenoldeb a phrydlondeb gwael disgyblion i wersi yn effeithio'n negyddol ar eu cynnydd hefyd.

### Ysgol Dyffryn Aman

Mae Ysgol Dyffryn Aman yn meithrin perthnasoedd cryf â'i phartneriaid o ysgolion cynradd partner, gan hyrwyddo lles a gwydnwch disgyblion newydd.  Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn eithriadol trwy ymgymryd â gwahanol gyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol.  Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithredu'n effeithiol fel 'cyfeillion' i ddisgyblion sy'n agored i niwed, ac yn cyfrannu'n fuddiol at gynorthwyo lles disgyblion yn y ddarpariaeth "Cwtsh".

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ymddwyn yn aeddfed ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w hastudiaethau ac agweddau ehangach ar fywyd ysgol. Maent yn aml yn darparu delfrydau ymddwyn da i ddisgyblion iau, gan eu cynorthwyo mewn ffyrdd amrywiol, fel drwy ddarllen mewn pâr, ac yn datblygu medrau arwain drwy rolau llysgennad ac ar gyngor yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda mewn ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd. Mewn ychydig o enghreifftiau arbennig o effeithiol, mae athrawon yn dangos angerdd dros eu pwnc, ac mae ganddynt uchelgeisiau a disgwyliadau arbennig o uchel o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynllunio i sicrhau bod tasgau ac adnoddau yn bodloni anghenion a galluoedd disgyblion. Nid yw'r athrawon hyn yn dilyn ymagwedd benodol bob amser er mwyn cydymffurfio â pholisi'r ysgol yn unswydd, ond maent yn sicrhau bod eu cynllunio'n darparu lefel uwch addas o her i'r holl ddisgyblion. Maent yn gofyn cwestiynau miniog sy'n ysgogi disgyblion i feddwl yn ddwfn ac yn eu herio i ddatblygu eu hymatebion. Mae hyn yn creu lefelau uchel o ymgysylltiad a chwilfrydedd disgyblion a rhediad cyflym i'r dysgu, ac mae'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cryf.

Lle mae'r addysgu yn gadarn, mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o athrawon o'u disgyblion ac maent yn meithrin perthnasoedd gweithio pwrpasol gyda nhw. Mae gwybodaeth bynciol dda gan yr athrawon hyn ac maent yn cynllunio'n ofalus i ddiddori a herio disgyblion o alluoedd gwahanol. Maent yn defnyddio cyfuniad effeithiol o ddulliau addysgu, gan gynnwys addysgu uniongyrchol, ar sail dealltwriaeth gryf o ddysgu blaenorol disgyblion a beth sydd angen iddynt wneud i wella. I gael arweiniad ar ddulliau addysgu effeithiol, gweler Pennod 5 o **'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru'**, (Donaldson, 2015).

Mewn ysgolion lle mae angen gwella'r addysgu, mae hyn yn aml yn ganlyniad o ddisgwyliadau isel a chynllunio gwael. Mae diffygion yn cynnwys athrawon heb fod yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol disgyblion, nac yn dapraru lefel briodol o her i ddisgyblion o bob gallu, gan gynnwys y rhai mwy abl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Mae tasgau'n cadw disgyblion yn brysur, ond nid ydynt yn eu herio i ehangu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth, nac yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn aml yn gorgyfarwyddo'r dysgu, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feddwl neu weithio'n annibynnol. Maent yn parhau â strwythurau gwersi sy'n cydymffurfio â pholisi'r ysgol, ond nad ydynt yn helpu disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn gwirio gallu disgyblion i gofio, ond nid ydynt yn archwilio'u dealltwriaeth.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion ac yn monitro'u cynnydd yn ofalus. Yn yr enghreifftiau gorau oll, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn sicrhau eu bod yn deall cysyniadau, ac i gywiro unrhyw gamsyniadau. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn atgyfnerthu dysgu disgyblion ac nid yw

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd



disgyblion yn datblygu'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen i wneud cynnydd. Mae ansawdd adborth ysgrifenedig, a'i defnyddioldeb felly, yn parhau'n rhy amrywiol. Lle mae'r adborth gryfaf, mae athrawon yn adolygu darnau allweddol o waith disgyblion yn drwyadl, ac yn nodi'r agweddau y mae angen eu gwella yn glir. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio, ac yn sicrhau eu bod yn darparu ymateb estynedig, addas i'r adborth hwnnw. Lle mae adborth ysgrifenedig athrawon yn aneffeithiol, mae hynny fel arfer am fod diffyg trylwyredd yn yr asesiad o waith disgyblion, nid yw sylwadau yn cynnwys cyngor defnyddiol ar sut i wella, ac maent yn methu adolygu ymatebion disgyblion i'w hadborth gwreiddiol.

Ceir darpariaeth sefydledig a defnyddiol yn y mwyafrif o ysgolion i helpu disgyblion i symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae lleiafrif o ysgolion yn cysylltu ac yn cynllunio gydag ysgolion partner cynradd i ddarparu cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 3 sy'n adeiladu'n gryf ar brofiadau dysgu blaenorol disgyblion. Yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw'r lefel hon o gydweithio yn digwydd. Nid yw athrawon yn gwirio'r cynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud ac maent yn gosod gwaith sydd islaw disgwyliadau blaenorol. O ganlyniad, mae disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn aml yn ailadrodd gwaith y maent wedi'i wneud o'r blaen, ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud.

Mae llawer o ysgolion wedi trafod yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Cwricwlwm i Gymru, ac mae mwyafrif wedi dechrau rhoi cynnig ar ychydig o ymagweddau at y Cwricwlwm, er eu bod wedi'u cyfyngu i un grŵp blwyddyn neu nifer fach o ddisgyblion fel arfer. Er enghraifft, mae ysgolion 'gwella ansawdd'[4] wedi gweithio gydag ysgolion partner cynradd i gefnogi continwwm o ddysgu drwy gynllunio ac arsylwi gwersi ar y cyd. Maent hefyd wedi archwilio addysgegau gwahanol yn cynnwys, er enghraifft y rhai y bwriedir iddynt wella rhuglder mathemategol disgyblion. Mae ysgolion eraill wedi cyflwyno darpariaeth i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 wedi'i chynllunio i'w helpu i wneud cysylltiadau rhwng meysydd dysgu gwahanol ac i hyrwyddo dysgu annibynnol.

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae ychydig o ysgolion yn parhau i leihau'r amser cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 3 i ddwy flynedd, er mwyn dechrau addysgu TGAU ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn lleihau'r amser ar gyfer cwricwlwm sy'n datblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth eang sydd eu hangen ar ddisgyblion fel sylfaen ar gyfer eu hastudiaethau pellach ac y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ystyried dyheadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, ac yn ei addasu i fodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys ehangu a gwella profiadau dysgu disgyblion mwy abl, er enghraifft drwy gysylltiadau â'r rhwydwaith Seren sy'n cefnogi'r myfyrwyr mwyaf abl yn academaidd a'u helpu i gael mynediad i brifysgolion blaenllaw, gan gynnwys dramor. Hefyd, mae'n cynnwys cefnogi cynnydd a lles disgyblion sy'n agored i niwed, drwy bartneriaethau allanol sy'n cynnig profiadau a chyfleoedd dysgu perthnasol er mwyn ennill cymwysterau ffurfiol. Cyfyngedig o hyd yw'r llwybrau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion.

[4] Mae ysgolion Gwella Ansawdd, y cawsant eu galw'n Ysgolion Arloesi yn flaenorol, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ail-lunio'r cwricwlwm.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mae llawer o ysgolion wedi nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn y mwyafrif o achosion, mae disgyblion yn gwneud hynny mewn cyd-destunau ystyrlon, ac yn gwella'u medrau a'u gwybodaeth bynciol. Nid yw lleiafrif yn monitro'r ddarpariaeth hon yn ddigon gofalus i sicrhau dilyniant, ac nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng mynnu bod disgyblion yn defnyddio rhai medrau yn unig, a'u cynorthwyo i ddatblygu'r medrau hynny.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ymyriadau priodol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu eu medrau, er mai ychydig iawn o'r rhaglenni hyn sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynyddu'r disgwyliad i ddisgyblion gynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, heblaw am mewn gwersi Cymraeg a Saesneg, prin y bydd disgyblion yn derbyn arweiniad gan athrawon ar sut i wella agweddau pwysig ar eu hysgrifennu ac eithrio ar sillafu ac atalnodi sylfaenol.

Nid yw oddeutu hanner yr ysgolion yn rhoi digon o bwyslais ar wella darllen. Nid ydynt yn datblygu medrau darllen disgyblion yn ddigon da nac yn eu hannog i ddarllen er pleser. Mae pwysigrwydd a manteision disgyblion yn darllen er pleser yn eglur yn **'Canllawiau Cwricwlwm i Gymru'** (Llywodraeth Cymru, 2020i). Mae pryderon ynglŷn â hyn yn neges allweddol yn **adroddiad** diweddaraf yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2020) ac fe'u hadlewyrchir yn neilliannau diwethaf PISA (Sizmur et al., 2019). Nid yw lleiafrif yn datblygu medrau llafar disgyblion, gan gynnwys eu geirfa gyffredinol.

Mae'r mwyafrif o ysgolion yn cynllunio i ddisgyblion gael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau rhif ar draws y cwricwlwm. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd i wneud gwaith graff, er bod y disgwyliadau o ran cyflwyniad, cywirdeb a dehongli'r graffiau hynny'n amrywio, hyd yn oed o fewn ysgolion.

Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y ceir ymagwedd strategol glir at ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg offer a mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd, ac i ddealltwriaeth cyfyng athrawon o beth yw'r lefelau TGCh addas ar gyfer disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn dilyn cwrs priodol yn Gymraeg. Fodd bynnag, cyfleoedd cyfyngedig iawn, heblaw am wrando ac ymateb i gyfarchion a chyfarwyddiadau sylfaenol gan eu hathrawon, sydd iddynt ymarfer yr iaith, ac eithrio mewn gwersi Cymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at ddisgyblion yn datblygu'n fwy medrus yn ateb cwestiynau arholiad gan ddefnyddio mynegiant gramadegol gywir, yn hytrach na'r gallu i ddeall a chyfranogi wrth sgwrsio mewn cyd-destun naturiol. Mae bron yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cwblhau'r cymhwyster TGAU iaith gyntaf ac yn datblygu'u gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn dda.

### Ysgol Pentrehafod, Abertawe

Mae arweinwyr yn Ysgol Pentrehafod wedi datblygu system olrhain sy'n alinio cyrhaeddiad a lles i ddarparu trosolwg mwy cyflawn o gynnydd pob plentyn. Mae hyn yn galluogi athrawon i nodi'r ymyrraeth fwyaf effeithiol cyn gynted ag y bo modd i gynorthwyo'r plentyn. Mae'r system yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i sicrhau cymorth targedig i godi dyheadau unigolion. Mae'r olrhain cyfannol wedi cyfrannu at welliant mewn deilliannau academaidd, a synnwyr cynyddol o les ar gyfer disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn bron tair o bob deg ysgol, mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn rhagorol. Mewn rhyw dri chwarter o ysgolion, mae'n dda o leiaf. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu dinasyddion cyfrifol, hyderus a chyflawn. Ni waeth am gyfrwng iaith na ffydd, ceir ymdeimlad cryf iawn o gymuned yn yr ysgolion hyn ac maent yn cyfoethogi bywydau disgyblion. Mae'r adroddiad thematig **'Iach a hapus: Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion'** (Estyn, 2019a) yn amlygu nodweddion yr ysgolion hyn, gan gynnwys:

- polisïau ac arferion i helpu disgyblion i wneud cynnydd da
- arweinwyr sy'n 'gwneud y dweud' ynghylch cefnogi iechyd a llesiant disgyblion
- diwylliant anogol, lle y mae perthnasoedd cadarnhaol yn galluogi disgyblion i ffynnu
- gwybodaeth fanwl am iechyd a llesiant disgyblion sy'n dylanwadu ar bolisïau a chamau gweithredu
- profiadau dysgu unigol, seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hybu iechyd a llesiant
- gofal bugeiliol cefnogol ac ymyriadau targedig i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol
- cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol a phartneriaethau agos â rhieni a gofalwyr
- dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff, sy'n eu galluogi i gefnogi iechyd a llesiant disgyblion

Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd llawn cydymdeimlad â nhw. Ceir gweithdrefnau yn yr ysgolion hyn i olrhain a monitro cynnydd academaidd a lles disgyblion sy'n galluogi adnabod problemau neu danberfformio posibl ac i roi ymyriadau addas ar waith. O ganlyniad, mae presenoldeb cryf yn aml gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn, maent yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn gwneud defnydd trwyadl nac effeithiol o'r wybodaeth sydd ganddynt. Mewn lleiafrif ohonynt, nid yw gweithdrefnau'n ddigon cadarn, nid ydynt yn cael eu cymhwyso'n gyson neu maent yn ddatblygiadau diweddar. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn wynebu materion yn ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion, ceir polisi ymddygiad y mae'r holl ddisgyblion yn ei ddeall ac y mae'r staff yn ei gymhwyso'n gyson. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn canolbwyntio ar hyrwyddo buddion ymddwyn yn dda yn hytrach na defnyddio gwobrau a chosbau yn unig. Ceir ystafell ddynodedig neu ardal ar wahân yn y rhan fwyaf o ysgolion i gynorthwyo'r disgyblion hynny sy'n arddangos ymddygiad heriol iawn mewn gwersi neu o amgylch yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn gweithio'n dda gyda'r disgyblion hyn, gan ddefnyddio asiantaethau allanol os oes angen, i alluogi dychwelyd yn amserol i ddosbarthiadau prif ffrwd. Mewn ychydig o achosion, mae'r ymagwedd yn fwy llym, yn darparu fawr ddim cymorth, a phrin yn arwain at ymddygiad gwell.

### Ysgol Gyfun Birchgrove, Abertawe

Gyda nifer uchel o ddisgyblion wedi'u symud o ysgolion eraill yn cael eu derbyn gan Ysgol Gyfun Birchgrove, aeth arweinwyr ati i ystyried sut gallent fynd i'r afael yn well ag anghenion eu dysgwyr sy'n agored i niwed. Fe wnaethant gyflwyno system rheoli ymddygiad wedi'i symleiddio yn seiliedig ar barch gan y naill at y llall, a sicrhau bod perthnasoedd gweithio cryf rhwng athrawon a disgyblion yn ganolog i'r broses hon. Mae ffocws yr ysgol ar gynhwysiant wedi arwain at ostyngiad mawr mewn cyfraddau gwahardd a chynnydd mewn presenoldeb a phrydlondeb.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mae llawer o ysgolion yn hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn dda.  Maent yn gweithio'n agos gyda rhieni a disgyblion i feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd presenoldeb a'i ddylanwad uniongyrchol ar gyflawniad academaidd.  Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae'r lefel bresenoldeb ymhell islaw'r disgwyl, nid oes dull cydgysylltiedig o ymgysylltu'n effeithiol â disgyblion a'u rhieni.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar faterion a gwerthoedd ysbrydol, cymdeithasol a moesol.  Erbyn hyn, mae'r rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) mewn llawer o ysgolion yn ystyried iechyd meddwl yn ogystal â themâu perthnasol eraill fel dinasyddiaeth, radicaleiddio a pherthnasoedd iach.  Fodd bynnag, mae ansawdd profiadau dysgu yn y rhaglenni hyn yn rhy amrywiol yn aml, ac, mewn ychydig o ysgolion, yn wael.  Mae gan bron pob ysgol drefniadau addas yn fras i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae'r rhain yn cynnwys cynnig ystod o ddewisiadau prydau iach amser cinio a darparu gwybodaeth ddefnyddiol am faeth.  Er enghraifft, mae ysgolion yn darparu arweiniad defnyddiol ar fwyta'n iach yn ystod sesiynau ABCh ac yn gwahodd siaradwyr i mewn i drafod materion, fel effaith bwyd ar hwyliau, ac effaith diodydd egni ar y corff.  Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn elwa ar gyngor ac arweiniad addas ar yrfaoedd, ond yn yr ychydig o ysgolion lle nad yw hyn yn digwydd, nid yw disgyblion yn dilyn cyrsiau addas bob amser.

Mae llawer o ysgolion yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn dda.  Mae'r ysgolion hyn yn meithrin perthnasoedd pwrpasol, cryf gyda disgyblion a rhieni i ddatblygu cynlluniau dysgu sy'n cefnogi disgwyliadau addas o uchel.  Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r cynluniau hyn yn effeithiol i sicrhau'r dulliau dysgu gorau ac i fonitro cynnydd disgyblion.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn aml yn dilyn llwybrau dysgu amgen fel rhan o ystod o raglenni cymorth personoledig y mae'r ysgol yn eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni anghenion unigol.  Lle mae cymorth ar gyfer y grŵp hwn yn llai effeithiol ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, mae hyn yn aml oherwydd nad yw cynlluniau gweithredu unigol yn ddigon manwl ac nid ydynt yn cynnwys strategaethau addysgu clir a defnyddiol, neu oherwydd nad yw athrawon yn cyfeirio atynt.  Mewn ychydig o achosion, mae hyn oherwydd nad yw oedolion yn arwain disgyblion tuag at y llwybr dysgu cywir.  Mae'r adroddiad thematig **'Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – Adroddiad arfer dda'** (Estyn, 2020o) yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gymorth effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr wedi pennu uchelgais cyffredin ar gyfer rhagoriaeth sydd wedi arwain at welliannau go iawn mewn meysydd pwysig fel ansawdd addysgu, lles disgyblion neu yn y safonau y maent yn eu cyflawni.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Yn yr ysgolion lle mae arweinyddiaeth yn llwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn cyfathrebu ac yn gweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn meithrin diwylliant o welliant parhaus, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Maent yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid ac yn sefydlu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Maent hefyd yn deall ac yn cyflawni'u cyfrifoldebau, gan gynnwys cynorthwyo eraill i ddarparu addysg o ansawdd uchel ac amgylchedd gofalgar. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn dangos uchelgais, ac yn gofalu am ddisgyblion a chydweithwyr. Yn aml, mae'r ymagwedd hon yn arwain at forâl uchel ymhlith staff. Mae systemau i reoli perfformiad staff yn gadarn, yn dryloyw, ac yn gysylltiedig â darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gryf o'r ysgol ac yn chwarae rhan bwysig mewn cynllunio strategol. Mae'r adroddiad thematig diweddar **'Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion'** (Estyn, 2020k) yn darparu enghreifftiau o'r modd y gall dysgu proffesiynol gefnogi arweinyddiaeth lwyddiannus.

Mewn ysgolion lle nad yw'r arweinyddiaeth yn ddigon cryf, nid yw arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol a ddeallir yn glir. Nid ydynt yn nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn ddigon manwl. Mae'r arweinwyr hyn yn dehongli safonau'n rhy gul ac yn canolbwyntio'n anghymesur ar ddeilliannau arholiadau. Yn aml, nid oes cyfrifoldebau teg neu briodol gan uwch reolwyr.

Mae lleiafrif o ysgolion yn gweithio'n dda i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer sut bydd eu cwricwlwm ysgol yn datblygu dros gyfnod ac i ystyried sut beth fydd dysgu effeithiol i'w disgyblion yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Lle mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i systemau newydd ac yn eu cyflwyo yn sensitif ac mewn modd ystyrgar, mae diwygio'r cwricwlwm yn mynd rhagddo'n dda. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer diwygio yn ofalus ac mae'n cysoni'n dda â blaenoriaethau gwella a nodwyd gan yr ysgol. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau bod staff yn deall y rhesymau dros ddiwygio addysg a'u bod yn datblygu eu meddwl ynghylch diwygio'r cwricwlwm yn benodol.

Lle nad yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i nodau sylfaenol y cwricwlwm newydd, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon strategol wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, neu ar gyfer dysgu ac addysgu yn eu hysgolion. Mae ychydig o ysgolion yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu ymagweddau thematig at ddysgu heb bennu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm cyfan yn gyntaf, na sut byddant yn gwella ansawdd dysgu ac addysgu. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn canolbwyntio gormod ar y cynnwys y byddant yn ei addysgu, ac i raddau helaeth ar gysylltiadau amhendant rhwng themâu neu feysydd pwnc, yn hytrach nag ar sut byddant yn gwella ac yn addasu eu hymagweddau at addysgu a dysgu.

Ceir prosesau gwella priodol ar waith yn y mwyafrif o ysgolion i nodi meysydd penodol y mae angen eu gwella, ac i gynllunio'r gwelliannau hynny. Gan amlaf, mae'r meysydd y mae angen eu gwella yn ymwneud ag ansawdd addysgu. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn sicrhau bod eu rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon yn mynd i'r afael â diffygion dynodedig, yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion staff unigol.

### Ysgol Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, Aberdâr

Mae arweinwyr yn Ysgol Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, Aberdâr yn cydnabod yn dda yr angen i gynnwys rhieni ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Trwy raglen reolaidd o gyfarfodydd cymorth, mentora a chyfathrebu manwl, mae'r ysgol yn rhoi gwybod i'r holl rieni am gynnydd a lles eu plentyn yn rheolaidd.
Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu'r ysgol i gael dealltwriaeth dda o anghenion disgyblion a rhieni, ac yn galluogi staff i gynllunio a strwythuro rhaglenni cymorth unigol yn effeithiol. O ganlyniad, gall yr ysgol ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon a allai fod gan rieni.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw prosesau gwella yn ddigon cadarn na manwl. Yn yr achosion hyn, mae prosesau'n cofnodi p'un a yw polisïau ysgol yn cael eu dilyn yn hytrach na gwerthuso'r effaith a gânt ar ddysgu neu les disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, nid oes dealltwriaeth glir gan arweinwyr o sut mae disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion yn perfformio o gymharu â'r rheiny mewn ysgolion tebyg. Canlyniad y ffactorau hyn yw bod gan ysgolion farn rhy gadarnhaol ynglŷn ag ansawdd addysgu yn benodol, a'u bod yn methu dyfeisio rhaglen addas o ddysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Yn yr ychydig o ysgolion lle ceir arweinyddiaeth wan, mae arweinwyr yn aml yn canolbwyntio gormod ar sicrhau bod athrawon yn cydymffurfio'n haearnaidd gydag ymagwedd benodol at gynllunio a chyflwyno gwersi yn hytrach nag ar eu helpu i wella'u haddysgeg.

Bu'n rhaid i bron yr holl ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni ddelio â heriau'n ymwneud â chyllid, er bod y mwyafrif wedi dwyn cronfeydd wrth gefn ymlaen o 2018-2019. Mae bron i dair o bob deg o'r ysgolion yn gweithredu cyllideb ddiffyg (dan gytundeb trwyddedig gyda'r awdurdod lleol), ac ar gyfer y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng.

## Gweithgarwch dilynol

Roedd angen gweithgarwch dilynol ar 11 o'r 25 o ysgolion uwchradd a arolygwyd eleni. Gosodwyd saith ysgol yn y categori adolygu gan Estyn, mae angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol, ac mae angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol. Mae hon yn gyfran lai na'r llynedd yn gyffredinol, er bod cyfran yr ysgolion a osodwyd mewn categori statudol, sef un o bob chwech, bron yr un fath.


Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2018-2019, roedd naw ysgol yn y categori mesurau arbennig. Gwnaeth un gynnydd da yn erbyn ei hargymhellion ac fe'i tynnwyd o'r categori. Nid oedd yr wyth ysgol arall wedi gwneud cynnydd digonol i ni eu tynnu o'r categori. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinyddiaeth yn cael digon o effaith ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, fel addysgu. Wrth werthuso addysgu, mae'r arweinwyr hyn yn canolbwyntio gormod yn aml ar gydymffurfio â pholisïau'r ysgol yn hytrach nag ar effaith a gaiff addysgu ar gynnydd disgyblion.

Roedd naw o ysgolion ag angen gwelliant sylweddol arnynt ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Derbyniodd pedair o'r ysgolion ymweliad monitro yn ystod tymor yr hydref. Roedd un wedi gwneud digon o gynnydd ac fe wnaethom ei thynnu o'r categori. Roedd dwy ysgol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, ond dim digon i ni eu tynnu o'r categori. Roedd cyflymder cynnydd y bedwaredd ysgol yn rhy araf, a gosodwyd hi yn y categori mesurau arbennig.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, roedd 23 o ysgolion yn y categori adolygu gan Estyn.  Ym mis Tachwedd, fe wnaethom adolygu cynnydd deg o ysgolion a osodwyd yn y categori hwn yn 2017-2018.  Fe wnaethom seilio yr adolygiad hwn ar adroddiadau a ysgrifennwyd gan yr ysgol a'r awdurdod lleol, yn ogystal ag ystyried deilliannau disgyblion.  Roedd saith o'r ysgolion wedi dangos digon o gynnydd i ni eu tynnu o'r categori adolygu gan Estyn.  Roedd dwy ysgol arall wedi gweld newidiadau sylweddol yn eu harweinyddiaeth yn ddiweddar a byddant yn parhau yn y categori adolygu gan Estyn am flwyddyn arall.  Cynhaliom un ymweliad monitro yn dilyn yr adolygiad.  Roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol a barnom fod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019-2020, mae 12 o ysgolion yn y categori mesurau arbennig, mae angen gwelliant sylweddol ar naw ysgol, ac mae 22 yn y categori adolygu gan Estyn.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir


## 1 Cyd-destun

Mae ysgolion pob oed yn darparu addysg i ddisgyblion o dair neu bedair oed hyd at 16 neu 18 oed.  Yn Ionawr 2020, roedd 22 o ysgolion pob oed yng Nghymru, sy'n gynnydd o dair ysgol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Ym Medi 2020, agorodd dwy ysgol arall.  Gyda'i gilydd, mae ysgolion pob oed yn addysgu oddeutu 20,000 o ddisgyblion, sef rhyw 4% o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.  Mae hyn fwy na dwywaith nifer y disgyblion a oedd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion pob oed yn 2017.

Eleni, fe wnaethom arolygu dwy ysgol pob oed.  Mae un ysgol yn addysgu oddeutu 600 o ddisgyblion a'r llall yn addysgu tua 950 o ddisgyblion.  Mae'r ddwy yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed.  Mae un ysgol ar chwe safle nifer o filltiroedd ar wahân, tra bod yr ysgol arall wedi'i lleoli ar un safle.  Mae un ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn bennaf, a'r llall yn ysgol cyfrwng Saesneg.  Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ysgolion yn y sector.

Oherwydd y nifer fach o ysgolion a arolygir bob blwyddyn a'r amrywiaeth yn y sector, mae'n anodd pennu tueddiadau neu wneud cymariaethau defnyddiol gyda deilliannau arolygu o flynyddoedd blaenorol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir



## Safonau

Mae safonau mewn un ysgol yn ddigonol ac angen eu gwella, ac yn y llall mae safonau yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys.

Yn yr ysgol lle mae safonau'n ddigonol, mae disgyblion yn datblygu'u medrau yn dda rhwng y cyfnod sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2, ond yn y cyfnod uwchradd, nid ydynt yn datblygu'r medrau llythrennedd, rhifedd neu TGCh a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u gallu.  Yn yr ysgol lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu'u medrau yn ddigon da a chynnydd araf maent yn ei wneud yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd.  Yn y ddwy ysgol, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn wan yn gyffredinol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles ac agweddau at ddysgu yn dda mewn un ysgol ac yn ddigonol ac angen eu gwella yn y llall.


Un nodwedd gref yn y ddwy ysgol yw'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd a llawer o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd mewn modd gofalgar, parchus a chefnogol.  Mae llawer o ddisgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi.  Maent yn ymroi i'w tasgau yn gyflym, yn dyfalbarhau'n ddiwyd ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu.  Yn yr achosion gorau, maent yn dangos gwydnwch wrth wynebu heriau yn eu gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.  Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n bwrpasol gyda phartner ac mewn grwpiau, er enghraifft wrth werthuso gwaith ei gilydd.

Mae cyfraddau presenoldeb isel mewn un ysgol yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion a safonau ar draws yr ysgol.  Yn gyffredinol, dylanwad cyfyngedig y mae grwpiau arwain disgyblion yn ei gael ar bolisi ysgol neu ar addysgu a dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn y ddwy ysgol, mae cryfderau a meysydd y mae angen eu gwella yn ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu.  Mae llawer o athrawon yn ffurfio perthnasoedd gweithio effeithiol gyda disgyblion, ac mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn ysgogi dysgu.  Maent yn darparu cymorth ac anogaeth i ddisgyblion. Mae disgwyliadau uchel gan fwyafrif o athrawon o ran cyfranogiad disgyblion.  Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu y rhan fwyaf o ddisgyblion llai abl, ac yn sicrhau cynnydd yn eu meysydd dysgu. Defnyddiant dechneg holi yn effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion a sicrhau cyfranogiad da.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir



Y diffygion a nodwyd yw bod disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel mewn llawer o achosion.  Nid ydynt yn darparu lefel addas o her  i ddisgyblion ac nid ydynt yn ymyrryd yn effeithiol pan na fydd disgyblion yn canolbwyntio ar y dasg dan sylw.  Nid yw adborth mwyafrif yr athrawon yn helpu disgyblion i wella'u gwybodaeth a'u medrau yn ddigon da.  Mae llawer o athrawon nad ydynt yn monitro'n ddigon manwl pa mor dda y mae disgyblion wedi gwella eu gwaith wrth ymateb i'w hadborth.

Mae un o'r ysgolion a arolygwyd wedi gwreiddio egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn, ac mae'n darparu cydbwysedd da o brofiadau gwerthfawr ar gyfer y disgyblion hyn.  Mae'r cwricwlwm yn adeiladu o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2, ac mae'n dechrau ystyried egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol arall yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion iau wella'u dysgu trwy ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi a darpariaeth barhaus[5] nac yn gwneud defnydd effeithiol o'r awyr agored i annog dysgu annibynnol.

Yn y ddwy ysgol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn ddigonol ac angen eu gwella yn y ddwy ysgol a arolygwyd.

Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn gymunedau cynhwysol a chroesawgar sy'n sicrhau bod lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith.  Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar hyrwyddo ymddygiad da a sefydlu ethos cadarnhaol yn ystod dyddiau cynnar sefydlu'r ysgol.

Mae'r ddwy ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.  Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn bwrpasol ac wedi'u cynhyrchu mewn ymgynghoriad â rhieni, disgyblion a staff.  Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth am anghenion disgyblion yn ddigon da i gynllunio dysgu a chymorth i ddisgyblion yn ystod gwersi.  O ganlyniad, nid ydynt yn bodloni anghenion disgyblion yn llawn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn y ddwy ysgol yn ddigonol ac angen eu gwella.  Mae gweledigaeth glir gan arweinwyr ac, yn y cyfnod amser cymharol fyr y mae'r ddwy ysgol wedi bodoli, maent wedi adeiladu ethos tîm ac wedi creu ymdeimlad o uchelgais a rennir.

Yn gyffredinol, mae trosolwg cywir gan arweinwyr o'u cryfderau a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.  Maent yn myfyrio'n rheolaidd ar eu gwaith ac yn dysgu gwersi o gamau gweithredu ble nad oeddynt wedi bod yn llwyddiannus.  Yn gyffredinol, mae effaith cynllunio gwelliant yr arweinwyr yn rhy amrywiol.  Nid yw gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella ansawdd addysgu.

[5] Mae darpariaeth barhaus yn cyfeirio at ddefnyddio adnoddau sydd ar gael yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth dan do neu awyr agored i ddisgyblion eu defnyddio'n annibynnol.  Mae darpariaeth wedi'i chyfoethogi yn disgrifio ychwanegiadau at y ddarpariaeth barhaus sy'n ysgogi plant i feddwl yn ddyfnach, ymarfer medrau newydd, neu ddysgu ffyrdd newydd o weithio.

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir

Mae'r ddwy ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i athrawon ar bob lefel ddod at ei gilydd i rannu arfer dda.  Mae arweinwyr yn cysylltu gweithgareddau dysgu proffesiynol â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion staff unigol.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigon cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu na'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud.


## Astudiaethau achos

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfder arbennig yn yr holl ysgolion pob oed.  Mewn adroddiadau thematig a gyhoeddwyd eleni, roedd astudiaethau achos o ysgolion pob oed wedi'u cynnwys yn y canlynol:

**'Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed'** (Estyn, 2020g) – yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail, rydym yn amlygu cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc.  Mae'r ysgol yn darparu ystod o ffyrdd i gynorthwyo'u gofalwyr ifanc o ddydd i ddydd.  Mae hyn yn cynnwys cwnsela, cyfleoedd i gysylltu â pherthnasau yn ystod y dydd ac ystafell cwricwlwm amgen.  Effaith y gwaith hwn yw bod y rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da gan yr ysgol.  Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd disgwyliedig o leiaf.

**'Adnabod eich plant – cefnogaeth i ddisgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)'** (Estyn, 2020j) – ffurfiodd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr weithgor i ddatblygu strategaethau a systemau ysgol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a disgyblion eraill y nodwyd eu bod mewn perygl yn sgîl lles gwael.  Creodd yr ysgol system olrhain fanwl sy'n nodi'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod y mae myfyrwyr unigol yn ymdopi â nhw.  Mae'r ysgol yn teilwra cymorth ar gyfer disgyblion gan ddibynnu ar eu lefel risg.  Gall hyn gynnwys gwaith amlasiantaethol manylach.  Mae gweithredu system haenog o ddarparu cymorth wedi arwain at effaith gadarnhaol ar safonau lles.  Mae nifer y gwaharddiadau wedi gostwng ar gyfer y myfyrwyr a nodwyd, ac mae cyfradd eu presenoldeb wedi codi.

**'Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd'** (Estyn, 2020o) – yn Ysgol Bae Baglan, mae uwch arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gynhwysol iawn ar gyfer yr ysgol.  O ystyried cyfran uchel y disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i sefydlu dulliau cadarn o hyrwyddo cynhwysiant a lles yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA.  Mae ymyriadau wedi'u teilwra yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus a gyda sensitifrwydd mawr.  Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.  Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd eithriadol.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

1

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 41 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru, yr un fath ag yn Ionawr 2019 (Llywodraeth Cymru, 2020nn). Mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylder sbectrwm awtistig, ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae oddeutu 5,153 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion arbennig a gynhelir. Mae hyn yn rhyw 1% o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020nn).

Eleni, fe wnaethom arolygu chwe ysgol arbennig a gynhelir. Mae un o'r rhain yn ysgol breswyl ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 16 oed, mae dwy ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed, ac mae'r tair arall yn ysgolion pob oed sy'n addysgu disgyblion rhwng 3 ac 19 oed.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Mae safonau mewn dwy o'r ysgolion arbennig a gynhelir a arolygwyd eleni yn rhagorol, yn dda mewn un ysgol, ac yn ddigonol yn y tair arall.

Lle ceir safonau rhagorol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd hynod effeithiol wrth ddatblygu'u medrau cyfathrebu. Mae eu defnydd cyson ac arferol o arwyddo, symbolau a thechnoleg yn eu cynorthwyo'n fawr â chynyddu eu gallu i gyfathrebu a mwynhau dysgu, fel ymuno mewn caneuon. Mewn un ysgol, mae defnydd disgyblion o'u cymhorthion cyfathrebu unigol yn nodwedd ragorol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u cymhorthion i'w helpu i ddatblygu synnwyr o drefn ac arfer, sy'n cyfrannu at y lefelau ymgysylltu eithriadol o uchel mewn gweithgareddau gwahanol trwy gydol y diwrnod ysgol.

Mewn ysgolion lle mae safonau yn dda neu'n well, mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth a medrau bywyd gwerth chweil. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dysgu medrau cadw tŷ gwerthfawr sy'n hyrwyddo'u gallu i fyw'n annibynnol. Maent yn dysgu sut i ddefnyddio offer cegin yn ddiogel, siopa o fewn cyllideb, a pharatoi bwyd iach. Mae disgyblion iau a'r rhai ag anghenion mwy cymhleth yn gwneud cynnydd yr un mor gryf. Maent yn datblygu'u medrau coginio trwy droi a chymysgu cynhwysion a thylino toes i wneud bara, mynd i nôl yr offer sydd ei angen arnynt, a chlirio ar ôl gweithgareddau.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae bron pob disgybl y gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol mewn perthynas â'u targedau dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus yn y dosbarth ac yn ymateb yn frwd i'r arweiniad a gânt gan staff. Mae llawer o ddisgyblion yn mynd i mewn i'r ysgol gydag anawsterau darllen. Dros gyfnod, ac mewn perthynas â'u hanghenion dynodedig, maent yn datblygu'u medrau ac yn darllen testunau a chyfarwyddiadau yn annibynnol. Maent yn cael mwy a mwy o fwynhad yn darllen ystod o lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd sylfaenol cadarn, ac maent yn eu defnyddio'n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mewn gwyddoniaeth, er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau mesur a thrafod data yn gywir i archwilio p'un a yw disgyblion â choesau hirach yn gallu neidio'n bellach.

Yn hanner yr ysgolion a arolygwyd, fodd bynnag, mae safonau yn ddigonol ac mae angen gwella agweddau pwysig ar ddatblygiad medrau disgyblion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd nad yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso'u medrau cyfathrebu, rhifedd, TGCh a medrau eraill mewn pynciau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn rhwystro'u cynnydd yn sylweddol wrth ddatblygu'u galluoedd yn y meysydd hyn.

Mae bron yr holl ddisgyblion hŷn yn ennill ystod dda o achrediadau sy'n briodol i'w galluoedd, ac mae llawer yn symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.

### Ysgol Bryn Derw

Mae bron pob disgybl yn Ysgol Bryn Derw yn defnyddio systemau cyfathrebu sefydledig a phersonol iawn i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn dda. Mae hyn yn cynnwys symbolau, ystumiau, llechi electronig a lleferydd. Mae defnydd effeithiol disgyblion o'r systemau hyn yn eu galluogi i ymgysylltu â dysgu gwerth chweil ac ystyrlon ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, fel archebu eitemau yn hyderus yn y caffi lleol. Mae'r profiadau hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer byw'n annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn yr ysgolion a arolygwyd eleni, mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn rhagorol mewn dwy ysgol, yn dda mewn tair ac yn ddigonol mewn un.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o brofiadau dysgu. Dangosant gymhelliant a diddordeb cryf yn yr hyn maent yn ei ddysgu, ac maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol pwysig fel goddefgarwch a chydweithredu, yn ogystal â medrau corfforol, ac maent yn cael hwyl yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau tîm. Mewn un ysgol, nid yw disgyblion ag anawsterau symud yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau symud.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd hynod gadarnhaol gyda'i gilydd a staff. Dangosant ofal a phryder am eu cyfoedion a pharch at oedolion. Mae hyn yn cefnogi'u hymddygiad, sydd yn dda iawn bron bob amser. Mewn un ysgol lle mae anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol gan ddisgyblion, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael anhawster parhau i ganolbwyntio, maent yn mynd yn aflonydd ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu yn dda yn hanner yr ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y gweddill.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'u gwybodaeth fanwl am ddisgyblion unigol yn dda i ddarparu tasgau cyfoethog a difyr sy'n helpu datblygu medrau bywyd ac annibyniaeth disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon a staff cymorth yn gwneud defnydd medrus a chyson o strategaethau ac adnoddau cyfathrebu, fel amserlenni ac awgrymiadau gweledol a chlybodol, i gefnogi dysgu disgyblion. Hefyd, maent yn defnyddio ystod o weithgareddau i ehangu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn cynnal eu diddordeb wrth iddynt ymroi'n llawn i'w gwaith. Mewn ysgolion lle mae ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu yn ddigonol, nid yw athrawon yn darparu'n ddigon da ar gyfer gwahanol anghenion disgyblion nac yn cynllunio gweithgareddau ac adnoddau ysgogol addas.

I raddau helaeth, mae'r holl ysgolion a arolygwyd yn cynnig cwricwlwm eang, cydlynus y mae athrawon yn ei ddefnyddio'n hyblyg i gynllunio profiadau dysgu er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion i ddatblygu eu dysgu, ac yn gwneud defnydd helaeth o brofiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, trwy gyfranogi yng Ngŵyl Ysgolion Shakespeare, mae disgyblion yn gwella'u medrau llythrennedd a chyfathrebu, yn ogystal ag adeiladu'u hyder o flaen cynulleidfa fyw.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Ym mron pob un o'r ysgolion, mae staff yn adolygu ac yn dechrau newid eu hymagwedd at y cwricwlwm i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae un ysgol wedi adolygu ei darpariaeth cwricwlwm ac yn dechrau cynllunio dysgu sy'n canolbwyntio ar gynnydd disgyblion unigol yn y meysydd dysgu a phrofiad gwahanol, a thuag at y pedwar diben[6].

Ym mhob ysgol, mae ffocws cryf ar ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion hŷn i gyfranogi mewn addysg yn gysylltiedig â gwaith a phrofiad gwaith. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i ddatblygu eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau go iawn, gan hyrwyddo'u hannibyniaeth, cefnogi pontio ac ennill achrediad gwerth chweil i gefnogi dysgu gydol oes. Mewn un ysgol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad


Mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol mewn dwy ysgol a arolygwyd, yn dda mewn un ysgol ac yn ddigonol yn y tair arall.

Lle mae darpariaeth eithriadol, ceir ymagwedd strategol gadarn a chydlynus at olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae asesiadau manwl yn sicrhau bod staff yn deall anghenion disgyblion yn drwyadl. Ceir cysylltiadau cryf rhwng yr amcanion yn natganiadau disgyblion unigol o anghenion addysgol arbennig, cynlluniau addysg unigol a chynlluniau athrawon.

Mae diffyg ymagwedd strategol mewn ysgolion lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn ddigonol, ac nid ydynt yn gwneud defnydd digon da o'u gweithdrefnau ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion.

Mae gan yr holl ysgolion a arolygwyd berthnasoedd gweithio cryf gyda rhieni. Gwnânt ddefnydd rheolaidd o nodiaduron cartref-ysgol, apiau ar-lein, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i roi gwybodaeth gyson i rieni. Mae dwy ran o dair o'r ysgolion yn cynnig rhaglen hyfforddi effeithiol i rieni i rannu strategaethau dysgu rhwng y cartref a'r ysgol. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r strategaethau hyn yn fawr. Mae partneriaethau cynhyrchiol gyda gweithwyr proffesiynol, fel y rheiny o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn darparu cymorth targedig i ddwy ran o dair o'r ysgolion er mwyn bodloni anghenion iechyd a gofal disgyblion yn eithriadol o dda. Mae dulliau adferol[7] un ysgol yn arbennig o ddefnyddiol i ddisgyblion y mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol yn heriol iddynt. Mewn traean o ysgolion, mae argaeledd y gwasanaethau ychwanegol hyn i'r ysgol a theuluoedd yn gyfyngedig.

Ceir trefniadau effeithiol, tra ystyriol ym mron pob ysgol i annog disgyblion i ddatblygu dewisiadau bwyd a diod iach. Lle bo angen, maent yn gwneud trefniadau addas ar gyfer disgyblion y mae eu hanghenion synhwyraidd yn gwneud bwyta a chymdeithasu mewn grwpiau mwy yn heriol.




### Ysgol Portfield

Mae prosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda gan staff yn Ysgol Portfield sy'n galluogi staff i olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn hynod effeithiol. Ceir ystod o asesiadau y maent yn eu cydweddu'n dda ag anghenion a galluoedd disgyblion. Mae arweinwyr a staff addysgu yn defnyddio deilliannau'r asesiadau hyn yn fedrus i sicrhau bod eu cynllunio o ran y cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

[6] Diben y cwricwlwm yw galluogi dysgwyr i ddatblygu yn:
- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2020i)

[7] Ymagwedd at ddatrys gwrthdaro ac atal niwed. Mae dulliau adferol yn galluogi'r rheiny sydd wedi'u niweidio i gyfleu effaith y niwed i'r rhai sy'n gyfrifol, ac i'r rhai sy'n gyfrifol i gydnabod yr effaith hon a chymryd camau i'w hunioni.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn hanner yr ysgolion a arolygwyd, mae'r rheolaeth traffig ar safle'r ysgol unigol yn achosi pryder. Ysgrifennom at yr ysgolion hyn yn amlinellu'r materion, ac rydym yn monitro'u hymatebion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol mewn un ysgol a arolygwyd eleni, yn dda mewn dwy ysgol, ac yn ddigonol mewn tair.

Lle mae arweinyddiaeth yn rhagorol, mae rhannu cyfrifoldeb yn gryfder. Mae synnwyr o ddiben cyffredin yn cymell staff ac yn treiddio i holl waith yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau sicrhau ansawdd cadarn. Mae'r dull gweithredu cytûn hwn yn helpu meithrin medrau a hyder staff wrth werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith cydweithwyr yn gywir, ac mae'n ysgogi gwelliant.

Lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, er bod arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer eu hysgolion, nid oes golwg strategol glir ganddynt o gryfderau'r ysgol na meysydd i'w datblygu. Yn yr ysgolion hyn, ceir diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau staff yn aml. Mae hyn yn golygu nad yw agweddau pwysig ar ddarpariaeth, fel datblygu medrau disgyblion a chryfhau cynllunio'r cwricwlwm, wedi cael digon o sylw ac nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn paratoi'r ffordd ar gyfer myfyrio parhaus ar bob lefel ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar godi'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni trwy ddatblygu addysgu a phrofiadau dysgu cymhellol. Maent yn cynorthwyo staff i wella'u perfformiad trwy ddatblygiad proffesiynol rheolaidd o ansawdd uchel i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn wannach, mae'r ysgolion wedi bod yn araf yn datblygu prosesau i werthuso ansawdd addysgu ac nid ydynt yn myfyrio'n ddigon da ar effaith eu darpariaeth ar gynnydd disgyblion.

Mae diffygion yn safle'r ysgol ar draws hanner yr ysgolion a arolygwyd, a lle ac adeiladau cyfyngedig sydd ar gael i fodloni anghenion cymhleth disgyblion yn llawn.

## Gweithgarwch dilynol

Eleni, nodwyd meysydd o arfer dda mewn tair ysgol, a gwahoddwyd yr ysgolion i ddarparu astudiaeth achos. Hefyd, nodom fod angen eu hadolygu gan Estyn ar dair ysgol.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, roedd un ysgol yn y categori adolygu gan Estyn o'r flwyddyn academaidd flaenorol. Roedd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion adeg yr arolygiad craidd, ac fe wnaethom ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

## 1 Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 36 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru. Mae'r nifer hwn yr un peth ag ydoedd yn Ionawr 2019. Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd ag ystod eang o anghenion, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn fach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion. Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn hefyd yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n preswylio mewn cartrefi plant nad ydynt ynghlwm wrth yr ysgol. Awdurdodau lleol sy'n ariannu bron pob un o'r lleoliadau disgyblion mewn ysgolion arbennig annibynnol.

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob 12 i 18 mis fel arfer. Eleni, fe wnaethom arolygu pum ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro ag 17 ysgol. Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau ac ymweliadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig annibynnol

Yn un o'r ysgolion a arolygwyd gennym eleni, ni wnaethom adrodd na llunio barn ar safonau na lles ac agweddau at ddysgu am fod nifer y disgyblion yn rhy fach i adrodd arni heb allu adnabod disgyblion unigol.

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn arolygiadau ysgolion arbennig annibynnol, rydym yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Roedd pedair o'r pum ysgol arbennig annibynnol a arolygwyd yn cydymffurfio â holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, ac roedd dwy ran o dair o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn cydymffurfio â'r rheoliadau a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwnnw.  Roedd y diffygion o ran cydymffurfio â rheoliadau yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd yr addysg y mae'r ysgolion yn ei darparu, lles, iechyd a diogelwch disgyblion ac addasrwydd y safleoedd ac adeiladau.  Mae'n ofynnol i'r holl ysgolion nad ydynt yn bodloni rheoliadau gyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i ddangos sut byddant yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol.  Mae Estyn yn monitro cydymffurfio â'r rheoliadau yn yr ymweliad monitro nesaf.

## Safonau

Mae safonau yn dda mewn tair o'r pum ysgol a arolygwyd eleni.  Yn yr ysgolion hyn, ac mewn rhyw dri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sicr yn eu dysgu mewn perthynas â'u mannau cychwyn, eu galluoedd a'u hanghenion.  Maent yn ymateb yn dda i gymorth staff ac yn gwneud cynnydd cryf tuag at y targedau yn eu cynlluniau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.  Maent yn gwrando'n ofalus mewn gwersi, yn ymateb yn gadarnhaol i staff a chyfoedion, ac yn cymryd eu tro yn briodol.  Mae llawer ohonynt yn datblygu ystod eang o fedrau gwerthfawr sy'n cefnogi'u gallu i fyw'n fwy annibynnol, mewn meysydd fel cadw tŷ, teithio a rheoli eu lles personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i'w dysgu ar draws y cwricwlwm.  Er enghraifft, maent yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu, ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol allweddol.  Mae llawer yn defnyddio ystod o raglenni TGCh yn hyderus i gefnogi'u dysgu.

Mae'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn y meysydd hyn yn eu helpu i gyflawni cymwysterau gwerth chweil ac yn eu paratoi'n dda i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu i leoliadau byw â chymorth.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

Mewn un ysgol a arolygwyd eleni, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu am nad ydyn nhw'n gwrando'n ddigon da ar gyfarwyddiadau nac yn ymateb yn gadarnhaol i'r hyn y mae oedolion yn gofyn iddynt ei wneud.  Yn ogystal, yn yr ysgol hon, nid yw llawer o ddisgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso'u medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well yn yr holl ysgolion a arolygwyd eleni ac mewn rhyw wyth o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro.

Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol wrth wella'u lles oherwydd y cymorth sensitif sydd wedi'i gydlynu'n dda a ddarperir gan staff.  Er eu bod wedi dioddef tarfu sylweddol ar eu haddysg cyn ymuno â'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu perthnasoedd ymddiriedus gyda staff ac yn dod yn fwyfwy goddefgar a chefnogol o'i gilydd.  Dros gyfnod, mae'r cymorth y mae disgyblion yn ei gael yn helpu llawer i ddeall eu hemosiynau a datblygu strategaethau i reoli'u hymddygiad

Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn teimlo'n bryderus.  Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau gwerth chweil yn yr ysgol, gan gynnwys rolau arwain gwerthfawr.  Datblygir dealltwriaeth gadarn ganddynt o fuddion ffordd iach o fyw ac ymarfer corff, a'u rôl fel dinasyddion cyfrifol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Mewn gwersi, maent yn ymdawelu'n gyflym ac yn ymateb yn dda i'r cymorth a'r her a ddarperir gan staff.  Maent yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau ac yn awyddus i gyflawni.  Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol, yn canolbwyntio'n dda ac yn cynnal eu hymgysylltiad.  Mae llawer yn gwella'u presenoldeb ac yn meithrin eu hyder a'u cred ynddyn nhw'u hunain fel dysgwyr llwyddiannus a gwydn.

Lle ceir diffygion, mae hyn oherwydd nad yw disgyblion yn ymateb yn ddigon da i strategaethau rheoli ymddygiad staff ac nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau.  Yn ogystal, mae presenoldeb gwael ychydig o ddisgyblion yn cyfyngu ar y cynnydd y maent yn ei wneud yn eu dysgu a'u lles.



### Ysgol Teresa House

Yn Ysgol Teresa House, mae'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n agos gyda'r staff addysgu i weithredu rhaglen 'lles am oes' yr ysgol.  Mae'r rhaglen hon yn darparu asesiadau defnyddiol ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.  Defnyddir y wybodaeth hon gan staff i gefnogi dysgu disgyblion ar draws holl feysydd y cwricwlwm.  Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy dri cham y rhaglen, mae cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu ac yn cyflawni.  Mae hyn yn creu perthynas weithio effeithiol ar draws staff addysg, therapi a gofal, ac mae'n cefnogi anghenion penodol pob disgybl.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda neu'n well mewn pedair o'r pum ysgol a arolygwyd, ac mae nodweddion cryf mewn rhyw hanner o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro.

Yn yr ysgolion hyn, mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion a'u potensial ar gyfer dysgu.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gryf o anghenion dysgu disgyblion unigol a defnyddiant y wybodaeth hon yn feddylgar i gynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordebau disgyblion yn llwyddiannus.  Mae staff addysgu yn meithrin perthnasoedd gweithio cefnogol ac yn sefydlu arferion cyson yn yr ystafell ddosbarth sy'n darparu strwythur ac yn helpu lleihau pryderon disgyblion.  Maent yn rhoi adborth llafar anogol sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud yn dda a sut gallant wella.

Mae pob un o'r ysgolion hyn yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn hyrwyddo'u cynnydd a'u lles.  Mae athrawon ac arweinwyr yn cynllunio'n strategol ac yn datblygu profiadau dysgu arloesol sy'n bodloni anghenion therapiwtig disgyblion unigol, yn ysgogi'u chwilfrydedd ac yn gwella'u medrau cymdeithasol a'u hannibyniaeth.  Mae llwybrau dysgu hyblyg yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ennill ystod o gymwysterau perthnasol.

Yn yr ysgolion lle mae angen gwella addysgu a phrofiadau dysgu, yn gyffredinol mae hyn oherwydd nad yw'r cynllunio yn cynnwys digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.  Mewn ychydig o ysgolion, mae gormod o amrywio yn ansawdd addysgu ac asesu, gan gynnwys yn y cyfraniad a wneir gan gynorthwywyr dosbarth at ddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol mewn tair o'r pum ysgol a arolygwyd eleni, yn dda mewn un ysgol, ac yn ddigonol yn y llall.  Maent yn nodwedd gref mewn dwy ran o dair o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro.

Lle mae safonau gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well, mae prosesu cadarn gan ysgolion i asesu anghenion disgyblion a'u mannau cychwyn pan fyddant yn ymuno â'r ysgol.  Mae arweinwyr yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion mewn dysgu yn ofalus, a defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio ymyriadau ystyriol ac addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion.

Mae'r ysgolion hyn yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n helpu disgyblion i wella'u hyder a'u hymgysylltiad â dysgu.  Mae disgyblion yn elwa'n eithriadol o'r gweithio agos rhwng staff addysg, gofal a therapi.  Mae'r ymagwedd hon sydd wedi'i chydlynu'n ofalus yn sicrhau bod yr holl staff yn deall anghenion eu disgyblion a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu lles a'u dysgu.

### St. David's College

Mae St David's College wedi arloesi addysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn cyflawn, gan alluogi'r holl ddisgyblion, p'un a oes ganddynt anghenion dysgu penodol ai peidio, i ffynnu a rhagori.  Ochr yn ochr â hyn, mae'r ysgol yn amcanu i ddatblygu pob cymeriad unigol, gan alluogi pob disgybl i ddatblygu ystod o fedrau bywyd trosglwyddadwy.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

Mae staff yn cynllunio'n arbennig o effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddewisiadau byw'n iach, er enghraifft trwy ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu awyr agored sy'n adeiladu medrau corfforol disgyblion a'u hunanbarch. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a dylanwadu ar sut a beth maent yn dysgu.

Lle ceir diffygion, mae hyn oherwydd nad yw systemau olrhain ysgol gyfan wedi'u datblygu'n ddigonol yn gyffredinol, ac nid ydynt yn nodi mannau cychwyn disgyblion yn ddigon da pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, ceir diffygion yn y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau ar draws yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol mewn dwy o'r pum ysgol a arolygwyd, yn dda mewn dwy, ac yn ddigonol yn y llall. Maent yn nodweddion cryf mewn rhyw ddwy ran o dair o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol.

Lle mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well, mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol fel cymuned gynhwysol, anogol sy'n hyrwyddo ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel eithriadol o staff a disgyblion, ac maent yn sicrhau bod holl aelodau'r gymuned ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn gytûn i atgyfnerthu gweledigaeth a diben yr ysgol.

Yn yr ysgolion hyn, ceir prosesau cadarn a sefydledig i fonitro a gwerthuso ansawdd eu gwaith. Mae arweinwyr a rheolwyr yn ystyried ystod eang o dystiolaeth yn ofalus, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, arsylwadau o wersi a barnau disgyblion, rhieni a gofalwyr. Mae'r prosesau effeithiol hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan arweinwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol yr ysgol ac yn alinio'n dda ag anghenion datblygu staff.

Lle mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, mae hyn oherwydd nad yw ysgolion yn nodi union feysydd i'w gwella yn ddigon da, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd addysgu a dysgu. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer dysgu proffesiynol, gan gynnwys ar gyfer cynorthwywyr addysgu.

### St David's College

Mae gan St David's College raglen addysg a gweithgareddau awyr agored sy'n ganolog i fywyd a chenhadaeth yr ysgol i feithrin lles ysbrydol, deallusol a chorfforol. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys ystod o gyfleoedd diwylliannol, hamdden a chwaraeon yn ogystal â phrosiectau 'tosturi' penodol i wella ac ehangu profiadau dysgu disgyblion.


I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

### Ysgol Bryn Tirion Hall

Yn ddiweddar, mae Ysgol Bryn Tirion Hall wedi cyflwyno cwrs o'r enw Cwnsela Therapiwtig mewn Addysg: Addysgu'r Meddwl a'r Galon. Yn ystod y cwrs hwn, mae staff yn archwilio ystod o themâu a chânt eu hyfforddi i ddefnyddio'r celfyddydau a ffurfiau o gyfathrebu di-eiriau i helpu dysgwyr i allanoli, archwilio a phrosesu eu profiadau yn ddiogel.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence



Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

1

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 38 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru.  Mae'r nifer hwn yr un peth ag yn Ionawr 2019.  Eleni, fe wnaethom arolygu tair o ysgolion prif ffrwd annibynnol.  Mae un o'r ysgolion hyn yn ysgol pob oed, mae un yn addysgu disgyblion rhwng 11 a 18 oed, ac mae un yn darparu addysg i ddisgyblion 8 i 16 oed. Mae'r sampl hon yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgolion yn y sector, gyda rhai yn darparu ar gyfer plant cyn oed ysgol statudol a rhai eraill yn ehangu i ddarpariaeth ôl-16.

# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol



## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, llwyddodd bob un o'r ysgolion a arolygwyd i fodloni pob un o'r rheoliadau. Mae'r un ysgol a fethodd â bodloni'r rheoliadau ar gyfer cofrestru y llynedd wedi cau erbyn hyn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i Estyn gynnal un arolygiad â ffocws yn ddirybudd o dan adran 160 Deddf Addysg 2002 (Prydain Fawr, 2002). Roedd ffocws penodol yr arolygiad ar safon 3 o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

Pan gynhaliwyd yr arolygiad â ffocws, nid oedd yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, mae cynllun gweithredu ar waith gan yr ysgol i:

- Ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, gan gydymffurfio â chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002.

Byddwn yn monitro ac yn cynorthwyo'r ysgol hon i sicrhau ei bod yn gwneud y gwelliannau gofynnol er mwyn cynnal ei chofrestriad.

## Safonau

Mae safonau'n dda ym mhob un o'r ysgolion prif ffrwd annibynnol a arolygwyd eleni. Er eu bod yn wannach na'r llynedd, mae maint y sampl yn rhy fach i lunio casgliadau pendant ynglŷn â'r sector yn gyffredinol.

Yn yr holl ysgolion a arolygwyd eleni, mae disgyblion yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu cyfleoedd addysgol yn y dyfodol a chyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gyflym, ac maent yn arbennig o fedrus wrth gymhwyso'u gwybodaeth yn hyderus mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd. Maent yn gwrando'n ofalus a gyda pharch ar eu hathrawon a'u cyfoedion, ac yn siarad yn glir a hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig dadleuon meddylgar, gwybodus a chydlynus i gyfiawnhau'u barnau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen drwy eu hamser yn yr ysgol ac yn datblygu medrau lefel uwch, fel didynnu. Yn ogystal, mae'r disgyblion hyn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fathau gwahanol o ysgrifennu, ac yn defnyddio iaith a goslef yn gywir at ddibenion gwahanol. Yn y cyfnod uwchradd, mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd cryf maent yn eu datblygu yn eu gwersi mathemateg mewn cyd-destunau gwahanol, yn enwedig mewn gwyddoniaeth. Dim ond ymatebion llafar byr y mae ychydig o ddisgyblion yn eu cynnig, ac nid ydynt bob amser yn datblygu'u disgrifiadau ysgrifenedig yn ddigon da.

# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn yr holl ysgolion a arolygwyd eleni, mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda.  Mae'r lefelau uchel hyn o les ac agweddau cadarnhaol at ddysgu yn cyfrannu'n dda at y cynnydd cyffredinol a wneir gan ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos medrau cymdeithasol cryf ac yn annog ei gilydd i wneud eu gorau.  Mae ganddynt synnwyr cryf o anghenion disgyblion eraill yn eu cymuned ysgol eu hunain a thu hwnt.  Mae disgyblion yn sylwgar, ac yn ymgysylltu ac yn cyfranogi'n frwd mewn gweithgareddau dysgu.  Mae'r ymagwedd hon yn eu helpu i ddatblygu'n ddysgwyr chwilfrydig, hyderus a gwydn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig ac yn ddiwyd i gyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldeb, gan ddatblygu medrau arwain gwerthfawr.  Yn ogystal, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol, ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol.

Ceir diffyg annibyniaeth ymhlith ychydig o ddisgyblion, ac maent yn dibynnu gormod ar yr athro am gymorth.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda.  Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn aml yn darparu cwricwlwm pwrpasol a gydweddir yn dda ag anghenion disgyblion.  Yn ogystal, cefnogir y cwricwlwm ffurfiol gan ystod eang o brofiadau addysgol diddorol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Yn gyffredinol, mae'r perthnasoedd gweithio cefnogol ac adeiladol rhwng athrawon a disgyblion yn cyfrannu'n nodedig at gynnydd disgyblion a'r safonau y maent yn eu cyflawni.  Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o dasgau difyr sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.  Maent hefyd yn defnyddio techneg holi yn effeithiol i wirio'r hyn y mae disgyblion yn ei gofio ac archwilio testunau newydd.

Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod gweithgareddau yn herio ac yn cynorthwyo disgyblion o alluoedd gwahanol yn ddigon da.  Hefyd, nid yw athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion i gyfarwyddo'u dysgu eu hunain nac i ddatblygu'u medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol.

Ym mhob un o'r tair ysgol a arolygwyd, roedd argymhelliad yn ymwneud â gwella addysgu.  Yn fwyaf cyffredin, roedd hyn yn ymwneud â'r angen i wella ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion a'r effaith a gaiff hyn ar wella ansawdd gwaith disgyblion.

# Crynodebau sector: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn yr holl ysgolion a arolygwyd, mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn dda.  Mae ymdeimlad cryf o gymuned yn treiddio drwy bob ysgol.  Mae staff a disgyblion yn gweithio'n dda â'i gilydd mewn amgylchedd cefnogol sy'n helpu disgyblion i ffynnu yn eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol.  Ceir rhagor o fanylion am yr effaith a gaiff ysgolion ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion yn yr adroddiad thematig **Iach a hapus** (Estyn, 2019a), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2019.

Cynigir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol.  Yn ogystal, mae disgyblion yn perfformio'n fynych mewn digwyddiadau allanol ac yn cyfranogi mewn ystod o gystadlaethau.  Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau cyfathrebu disgyblion a'u hyder yn gadarn.  Mae'r gwaith y mae disgyblion yn ei wneud i gefnogi elusennau lleol yn darparu cyfleoedd i fod yn ddinasyddion gweithgar ac i ddatblygu dealltwriaeth bod ganddynt gyfrifoldeb i gynorthwyo pobl sy'n llai ffodus na nhw'u hunain.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.  Yn yr ysgolion hyn, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr a ddeallir yn dda ac a rennir gan y gymuned ysgol gyfan.  Mae arweinwyr yn hyrwyddo ac yn modelu disgwyliadau uchel gan staff a disgyblion.  Mae dealltwriaeth glir gan arweinwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws yr ysgol, ac maent yn gweithredu ac yn monitro cynlluniau datblygu yn effeithiol.  Gyda'i gilydd, mae'r arweinwyr hyn yn darparu cymorth a her gryf i wella arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Lle ceir diffygion yn yr arweinyddiaeth, mae hyn yn ymwneud amlaf â'r diffyg ffocws mewn blaenoriaethau gwella a chadernid yn y prosesau i fonitro a gwerthuso effaith strategaethau gwella.

### Ummul Mumineen

Mae Ummul Mumineen Academy wedi sefydlu dull hynod effeithiol o gynyddu hyder a dyheadau disgyblion, a chael gwared ar rwystrau canfyddedig i addysg merched.  Mae'r ysgol yn meithrin ymagwedd gyfannol at les, gan roi pwyslais cryf ar feithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol o fewn diwylliant Islamaidd cryf.  Mae'r ymagwedd hon yn arwain at amgylchedd dysgu teulu, y mae rhieni'n ymddiried yn gryf ynddo, lle mae pob unigolyn a'i lwyddiant addysgol yn cael ei werthfawrogi.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**



# Adran 1

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol

## 1 Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd saith o golegau arbenigol annibynnol cofrestredig yng Nghymru.  Mae hyn yr un peth ag yn Ionawr 2019.  Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 200 o ddysgwyr 16 oed a hŷn.  Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion dysgwyr, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog.  Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl sydd ynghlwm wrth y coleg.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, cynhaliwn ymweliadau monitro rheolaidd o golegau arbenigol annibynnol.  Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wneir gan y colegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol. Eleni, cynhaliom un arolygiad llawn a thri ymweliad monitro.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i ni gynnal un arolygiad â ffocws yn ddirybudd eleni.  Roedd ffocws penodol yr arolygiad ar gynlluniau tiwtoriaid, lefelau staffio a chofnodi cynnydd dysgwyr.

Mae'r canfyddiadau o'r holl arolygiadau ac ymweliadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector:
# Colegau arbenigol annibynnol

## Safonau



Yn yr un coleg a arolygwyd eleni, mae safonau yn rhagorol. Mae hyn oherwydd bod bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol a'u targedau personol. Yn benodol, mae'r cynnydd eithriadol a wnânt wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn galluogi bron yr holl ddysgwyr i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu. Maent yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn dda ac yn dysgu i'w cymhwyso'n hyderus yn eu bywydau bob dydd, er enghraifft pan fyddant yn symud o amgylch safle'r coleg heb gymorth neu ddysgu sut i ddarllen mapiau er mwyn dilyn cyfarwyddiadau.

Yn y coleg hwn, mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u medrau echddygol manwl a bras mewn ystod o gyd-destunau defnyddiol, er enghraifft wrth gyfranogi mewn sesiynau ffitrwydd neu mewn gweithgareddau fel ffeltio a gwehyddu. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblgyu eu medrau galwedigaethol yn hynod dda gan ddefnyddio'r cyfleusterau ar safle'r coleg a chyfleoedd gwaith â chymorth yn y gymuned.

Yn y tri choleg yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod. Mewn sesiynau, maent yn cofio dysgu blaenorol ac yn cymhwyso'u medrau datrys problemau yn dda. Mae dysgwyr mwy abl yn datblygu'u medrau meddwl lefel uwch mewn gwaith prosiect ac mewn cyd-destunau ymarferol, ac maent yn cyflawni achrediad gwerth chweil sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer eu cyrchfannau yn y dyfodol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn rhagorol yn yr un coleg a arolygwyd eleni. Yn y coleg hwn, mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod pwy i fynd atynt i gael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Maent yn datblygu perthnasoedd gweithio agos gyda staff ac yn ymddiried ynddynt i arwain eu dysgu a sicrhau eu diogelwch a'u lles. Mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd sylweddol wrth wella'u lles personol. Er enghraifft, maent yn mwynhau deiet cytbwys ac yn dewis byrbrydau iach amser egwyl. Gwnânt ddefnydd da o'r gampfa ar y safle, a chymerant ran yn rheolaidd mewn gweithgareddau awyr agored a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan y coleg. Dros gyfnod, mae'r ffactorau hyn yn helpu dysgwyr i adeiladu eu gallu i reoli risg yn llwyddiannus, er enghraifft wrth feicio neu gymryd rhan mewn alldeithiau cerdded yn y mynyddoedd.

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, mae dysgwyr yn ymgysylltu'n dda eithriadol yn eu dysgu yn sgil y cymorth sensitif a ddarperir gan staff. Mae dysgwyr yn datblygu eu hyder i roi cynnig ar weithgareddau newydd ac archwilio profiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol, maent yn gwrtais ac yn foesgar i'w cyfoedion a staff, ac yn mwynhau cyfarfod â phobl newydd, er enghraifft mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned neu pan fyddant yn cynrychioli'r coleg mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae hyn yn gynnydd arbennig o dda i ddysgwyr y mae sefyllfaoedd cymdeithasol wedi bod yn her fawr iddynt yn flaenorol.

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn yr un coleg a arolygwyd eleni, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn rhagorol. Mae hyn oherwydd bod yr addysgu yn darparu profiadau hynod ysgogol i ddysgwyr sy'n eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a gwneud cynnydd eithriadol yn erbyn eu nodau. Mae tiwtoriaid yn fedrus wrth nodi cyfleoedd pwrpasol i ehangu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh dysgwyr, ac maent yn cynnwys y rhain yn effeithiol mewn sesiynau. Mae cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau annibyniaeth dysgwyr trwy weithgareddau ymarferol a pherthnasol fel gofalu am anifeiliaid bach y coleg ac wrth baratoi bwyd iach. Mae'r ymagwedd strategol hon sydd wedi'i chydlynu'n dda yn rhoi medrau gwerthfawr a dealltwriaeth i ddysgwyr sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Yn yr holl golegau a arolygwyd eleni, mae tiwtoriaid a staff cymorth yn adeiladu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda dysgwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn fedrus i gynllunio gweithgareddau ysgogol a heriol sy'n cymell dysgwyr ac yn adeiladu ar eu diddordebau a'u cymhellion. Yn yr holl golegau, mae tiwtoriaid a staff cymorth yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i ymateb yn gyson i ddysgwyr. Maent yn darparu adborth cadarnhaol a chalonogol sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus i gymryd risgiau a datblygu medrau newydd.

Yn un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni fel rhan o'r broses fonitro, mae'r lle sydd ar gael ar y safle yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr ddilyn cwricwlwm sy'n bodloni'u hanghenion yn llawn.


## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol yn yr un coleg a arolygwyd eleni, ac yn nodwedd gref yn yr holl golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol.

Un nodwedd arbennig o gryf yn y coleg lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol, yw ei ymagwedd effeithiol iawn at gyfathrebu cyflawn ar draws y coleg. Gyda chefnogaeth gan dîm amlddisgyblaethol y coleg, mae'r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o strategaethau cyfathrebu, ac maent yn eu haddasu'n fedrus yn unol â hoff ddulliau cyfathrebu dysgwyr. Mae'r arfer gyson hon yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu dilyn y cwricwlwm yn llwyddiannus, ac mae'n cyfrannu'n fawr at y cynnydd cryf y mae dysgwyr yn ei wneud yn eu cyflawniadau a'u lles.

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni, ceir trefniadau cadarn i fonitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn ystod eang o ddeilliannau. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus i sicrhau bod profiadau dysgu a threfniadau cymorth yn bodloni anghenion dysgwyr. O ganlyniad, mae'r holl golegau yn darparu amgylcheddau tawel a chefnogol sy'n helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel ac yn hyrwyddo dysgu a lles yn hynod lwyddiannus.

Yn un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw eleni fel rhan o'r broses fonitro, nid yw'r coleg yn gwneud digon i gynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau iach ynglŷn â beth maent yn ei fwyta a'i yfed.



### Coleg Elidyr

Mae Coleg Elidyr wedi datblygu dull cyfathrebu cyflawn hynod effeithiol ar draws y coleg. Mae'r dull cyson hwn, sydd wedi'i gydlynu'n dda, yn sicrhau bod bron yr holl ddysgwyr yn dilyn eu dysgu'n llwyddiannus a'u bod yn gallu cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd y coleg.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yn yr un coleg a arolygwyd eleni. Ar draws y coleg, ceir ymdeimlad pwerus o ddiben ac ymrwymiad i werthoedd y coleg ac i fodloni ei nodau ac amcanion. Mae arweinwyr y coleg yn llwyddiannus iawn wrth sefydlu a hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer y coleg yn seiliedig ar ddarparu addysg bersonoledig o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chyfleoedd bywyd dysgwyr ar ôl coleg i'r eithaf.

Mae uwch arweinwyr a staff wedi datblygu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol sy'n darparu ystod eang o gyfleoedd i'r holl staff ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y rhaglen hon yn cysylltu'n agos â deilliannau prosesau hunanwerthuso a rheoli perfformiad, a'i bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r coleg ar gyfer gwella yn glir ac yn cefnogi anghenion dysgwyr. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau i gefnogi dysgwyr sy'n dioddef gorlwytho synhwyraidd.

Mae'r holl golegau yr ymwelwyd â nhw eleni yn casglu ystod eang o wybodaeth i lywio'r hunanwerthusiad o'u darpariaeth. Mewn dau o'r colegau, mae hyn yn rhoi synnwyr clir o gryfderau'r coleg i'r arweinwyr a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mewn dau o'r colegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi union feysydd i'w gwella.

### Coleg Elidyr

Mae'r coleg yn darparu lefelau eithriadol o uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr. Mae ei ddull amlddisgyblaethol effeithiol iawn o asesu anghenion dysgwyr a monitro'u cynnydd yn sicrhau bod bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn eu dysgu a'u lles yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence

## Adran 1

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

1

### Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 22 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru.  Mae hyn un yn llai nag yn Ionawr 2019, pan oedd 23.  (Llywodraeth Cymru, 2020nn).  Nid oes unrhyw ddarpariaeth UCD mewn dau awdurdod lleol.

Eleni, fe wnaethom arolygu dwy UCD.  Mae cyd-destun a maint yr UCDau hyn yn gwahaniaethu'n fawr.  Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd un UCD yn darparu ar gyfer bron i 50 o ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed ar un campws.  Roedd gan yr UCD arall 20 o ddisgyblion amser llawn ar draws aml safleoedd o fewn yr awdurdod lleol, a 30 o ddisgyblion allymestyn rhwng 8 ac 16 oed.  Mae'r ddwy UCD a arolygwyd gennym ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

O'r ddwy UCD a arolygwyd, mae safonau yn dda yn un ohonynt ac yn anfoddhaol yn y llall.

Lle ceir safonau da, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau dysgu, a'u medrau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.  O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn derbyn darpariaeth allymestyn yng nghyfnod allweddol 2 ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 sy'n mynychu safle'r UCD yn dychwelyd i addysg y brif ffrwd yn llwyddiannus.  Mae hwn yn ddeilliant cryf.

Yn yr UCD lle ceir safonau da, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd ac maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gefnogi'u dysgu ar draws y cwricwlwm.  Er enghraifft, mewn trafodaethau dosbarth maent yn hyderus ac yn barod i rannu eu barnau ac yn rhoi ymatebion llafar ac ysgrifenedig ystyrlon i destunau.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol.  Maent yn arbennig o fedrus wrth ddefnyddio'u medrau rhif yn hyderus i ddatrys problemau bob dydd, fel cyfrifo cost uwch talu am deledu trwy daliadau misol o gymharu ag un taliad llawn.

Yn yr UCD lle mae safonau'n anfoddhaol, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu mewn perthynas â'u gallu.  Mae hyn yn bennaf oherwydd bod ymddygiadau aflonyddgar llawer o ddisgyblion yn ystod gwersi yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a disgyblion eraill.  Dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd, a dim ond ychydig iawn sy'n datblygu'u medrau Cymraeg.  Nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm ac mae eu medrau mewn TGCh yn wan yn gyffredinol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda mewn un UCD a arolygwyd eleni ac yn anfoddhaol yn y llall.

Yn yr UCD lle mae lefelau lles uchel ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu gan ddisgyblion, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu gwydnwch a'u medrau cymdeithasol.  Mae bron pob un ohonynt yn dysgu ymddiried yn y staff ac yn datblygu perthnasoedd gweithio gwerthfawr gydag oedolion yn yr UCD.  Mae llwyddiant disgyblion yn y medrau bywyd pwysig hyn yn eu helpu i ddatblygu'n unigolion hyderus a chymdeithasol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn naill ai'n dychwelyd yn llwyddiannus i'w hysgol prif ffrwd neu'n aros yn yr UCD ac yn ennill cymwysterau addas ar gyfer mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Lle mae lles ac agweddau at ddysgu yn anfoddhaol, mae agweddau disgyblion at ddysgu ac ymgysylltu mewn gwersi yn amrywio'n sylweddol. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn ymgysylltu'n adeiladol â'u hathrawon, yn dangos diddordeb yn eu dysgu, yn ymddwyn yn dda, ac yn gwneud cynnydd priodol.  Mewn mwyafrif o achosion, fodd bynnag nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n dda, yn ymddwyn yn briodol nac yn ymddwyn yn barchus tuag at eu cyfoedion ac oedolion.  Mewn ychydig iawn o achosion, mae ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn peri risg niwed iddyn nhw'u hunain neu i bobl eraill.  Mae'r agweddau negyddol ac ymddygiadau aflonyddgar hyn yn rhwystro dysgu a chynnydd llawer o ddisgyblion. Mae'r sefyllfa hon yn cyferbynnu â'r darlun cyffredinol ar gyfer y sector cyfan, fel hwnnw a ddarparom i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)[8].  Ein tystiolaeth gyffredinol o arolygiadau ac adroddiadau thematig yw bod darpariaeth EOTAS, fel UCDau, yn rhoi ail gyfle i lwyddo i lawer o ddisgyblion.  Maent yn gwella'u presenoldeb a'u hymddygiad dros gyfnod, ac yn llawn cymhelliant i ddysgu mewn amgylchedd llai, mwy anogol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn un UCD a arolygwyd, mae'r addysgu cyffredinol a phrofiadau dysgu yn dda, ac mae staff yn ffurfio perthnasoedd gweithio arbennig o gryf gyda disgyblion yn eu gofal.  Maent yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda, gan gynnwys cefndiroedd disgyblion, eu hanawsterau, beth sy'n eu cymell a'r heriau y maent yn eu hwynebu.  Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i greu amgylchedd dysgu gofalgar iawn, arferion strwythuredig gwerthfawr a chynlluniau priodol sy'n helpu llawer o ddisgyblion i gyfranogi'n weithgar a dyfalbarhau yn eu gwersi.  Un nodwedd arbennig o gryf o waith y staff yw'r ffordd sensitif y maent yn cydbwyso darparu cymorth â chynnig cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu eu hunanddibyniaeth. Mae'r ymagwedd hon yn paratoi'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda i ymdopi'n annibynnol y tu allan i'r UCD neu pan fyddant yn dychwelyd i addysg y brif ffrwd.

Mae ansawdd addysgu a dysgu yn anfoddhaol yn yr UCD arall a arolygwyd eleni.  Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn creu awyrgylch dysgu pwrpasol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion.  Fodd bynnag, nid yw llawer yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yr UCD yn gyson ac yn gadael i ymddygiad gwael gynyddu.  Yn yr achosion hyn, mae disgwyliadau athrawon yn isel ac nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau cymhellol sy'n cyfateb i anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion.  O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn treulio gormod o amser ar waith diymdrech, ac yn aml mae eu hymddygiad yn gwaethygu ac yn tarfu ar y dysgu.

Ceir cryn amrywio rhwng y ddwy UCD a arolygwyd ac o ran y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at baratoi a chynllunio ar gyfer newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru.  Mae un UCD yn gwneud cynnydd cadarn tuag at baratoi disgyblion ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflawni ei bedwar diben, gyda phwyslais cryf ar fedrau bywyd, iechyd a lles.  Mae'r UCD arall wedi treialu

[8] Dolen gyffredinol: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25723
Ymateb ysgrifenedig Estyn i'r ymgynghoriad:
https://business.senedd.wales/documents/s95556/EOTAS%2003%20Estyn.pdf
Sesiwn Dystiolaeth: https://cofnod.senedd.cymru/Committee/5915

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

ymagwedd thematig, sydd, yn fras, yn dilyn y meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, nid yw cynllunio'r meysydd hyn yn alinio'n dda ar draws y cwricwlwm, a cheir diffyg parhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys wrth symud ymlaen o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4.

Yn y ddwy UCD a arolygwyd eleni, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau TGCh disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir gan un UCD yn dda, ac mae'n anfoddhaol yn y llall.

Mae'r UCD lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn gymuned ofalgar iawn sy'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i'w disgyblion.  Mae hefyd yn darparu gwasanaeth cyngor effeithiol i staff mewn ysgolion prif ffrwd ar draws yr awdurdod lleol ar sut i gynorthwyo disgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.  Mae'r UCD hon yn cynnal perthnasoedd gwerthfawr a defnyddiol gydag asiantaethau allanol i gynnig cymorth i ddisgyblion.  Mae strategaethau a gweithdrefnau effeithiol ganddi i olrhain, monitro a hyrwyddo presenoldeb, lles ac ymddygiad disgyblion.

Lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn anfoddhaol, mae darpariaeth yr UCD ar gyfer cefnogi datblygiad personol disgyblion a diogelu yn wan.  Yn benodol, mae'r ddarpariaeth i helpu disgyblion wneud dewisiadau byw'n iach wedi bod yn aflwyddiannus yn gyffredinol.  Er enghraifft, mae'r cwricwlwm yn archwilio dewisiadau disgyblion mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach, ysmygu, cadw'n ddiogel ar-lein ac ymddygiad.  Fodd bynnag, tra'u bod ar y safle, mae llawer o ddisgyblion yn dal i wneud dewisiadau amhriodol yn y meysydd hyn, ac yn torri rheolau'r UCD yn rheolaidd.  O ganlyniad i ymagweddau anghyson at gefnogi ymddygiad cadarnhaol disgyblion, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n deall y gwahaniaeth rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Yn ogystal, ar adegau, ceir diffyg hyder ymhlith llawer o staff wrth reoli ymddygiadau ymfflamychol, anrhagweladwy a pheryglus lleiafrif o ddisgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda mewn un UCD a arolygwyd, ac yn anfoddhaol yn y llall.

Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn gryf, mae'r uwch arweinydd, gyda chefnogaeth y pwyllgor rheoli, yn pennu disgwyliadau uchel a gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer pob agwedd ar waith yr UCD.  Mae cyfathrebu o ansawdd uchel ac ysbryd cryf o gydweithio rhwng yr holl staff, yn nodweddion nodedig o waith yr UCD.  Law yn llaw â threfniadau priodol i rannu arweinyddiaeth a chyfrifoldebau ar draws yr UCD, mae'r nodweddion hyn yn galluogi staff i weithio'n effeithiol ar bob safle i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau'r un cyfleoedd ac ansawdd profiad dysgu.  Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn gwybod beth yw cryfderau'r UCD ac maent yn dyrannu adnoddau yn ddoeth i gefnogi gwelliant pellach.  Mae bron holl aelodau staff yr UCD yn defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn bwrpasol i wella'u harfer eu hunain.  Un nodwedd gref o'r gwaith hwn yw rhannu syniadau a hyrwyddo arferion effeithiol i sicrhau cysondeb o ran sut mae staff yn rheoli ac yn hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion.

### UCD Ceredigion

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion wedi cryfhau perfformiad disgyblion a gwella lles. Mae pwyllgor rheoli yn monitro safonau, y cwricwlwm a pholisïau ac yn herio'r UCD o ran ei pherfformiad. Mae hunanarfarnu'n drylwyr ac mae system gadarn ar waith i olrhain cynnydd a monitro camau gweithredu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Yn yr UCD lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn anfoddhaol, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu nifer o newidiadau i swyddi uwch arweinwyr. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at ansicrwydd, diffyg cyfeiriad cyffredinol, a dosbarthu cyfrifoldebau arwain sy'n aneffeithiol ar gyfer rheolaeth strategol a rheolaeth bob dydd yr UCD. Dros gyfnod, mae'r pwyllgor rheoli a swyddogion awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ansawdd ac effeithiolrwydd wedi methu mynd i'r afael â materion pwysig yn yr UCD. Yn benodol, nid ydynt wedi bodloni'u cyfrifoldebau i ddarparu addysg addas mewn amgylchedd diogel i ddisgyblion. Megis dechrau cael eu datblygu y mae trefniadau'r UCD ar gyfer gwerthuso ansawdd ei gwaith, cynllunio ar gyfer gwella a chreu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff.

Eleni, cynhaliom **arolwg thematig** i werthuso pa mor dda y mae pwyllgorau rheoli UCDau yn cyflawni'u rolau a'u cyfrifoldebau (Estyn, 2020n). Yn benodol, fe wnaeth yr arolwg ystyried sut mae pwyllgorau rheoli wedi ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion' i gefnogi gwelliant (2018a). Yn yr achosion gorau, mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gwneud defnydd da o'r llawlyfr. Maent yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at arweinyddiaeth strategol, er enghraifft trwy brosesau hunanwerthuso sy'n nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r pwyllgorau hyn yn darparu her a chymorth effeithiol i gyflawni a monitro cynllunio gwelliant.

## Gweithgarwch dilynol 2019-2020

Eleni, nodom fod angen gweithgarwch dilynol trwy fesurau arbennig ar un UCD.

Yn ystod y flwyddyn, tynnom UCD a arolygwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol o'r categori adolygu gan Estyn.

Mae un UCD a arolygwyd yn y flwyddyn academaidd flaenorol yn parhau yn y categori mesurau arbennig.

Mae ein harolwg thematig, '**Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion**' (Estyn, 2020n), yn rhoi mwy o wybodaeth am yr agwedd hon.

### UCD Abertawe

Yn UCD Abertawe, mae'r pwyllgor rheoli yn cyfrannu at y broses hunanwerthuso drwy ymweliadau rheolaidd â'r UCD. Mae'r ymweliadau wedi cryfhau dealltwriaeth yr aelodau o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y broses hunanwerthuso. Er enghraifft, mae deilliannau disgyblion, cyfraddau presenoldeb ar draws yr UCD a gwybodaeth am ailintegreiddio disgyblion yn darparu ffigurau cymharol i aelodau ac yn galluogi trafodaeth wybodus am y cynnydd y mae'r UCD yn ei wneud ar draws agweddau o'r fath. Mae'r ddealltwriaeth ddofn hon yn galluogi aelodau i ddarparu cymorth a her well i uwch arweinwyr er mwyn helpu gwelliant.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

1

## Cyd-destun

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir neu a gomisiynir gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rheini a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill.  Darperir gwasanaethau gwella ysgolion yn bennaf ar y cyd â phedwar consortiwm rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol, er bod y model ar gyfer y modd y mae hyn yn gweithio yn amrywio ledled Cymru.

Rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020, cynhaliom dri arolygiad, yn Wrecsam, Sir Benfro a Sir Fynwy.  Barnom fod Wrecsam a Sir Benfro yn achosi pryder sylweddol a bod angen gweithgarwch dilynol arnynt i'w cynorthwyo i wella'u gwasanaethau addysg.

Pan fyddwn yn barnu bod gwasanaeth addysg awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol, cynhaliwn gynhadledd welliant ôl-arolygiad rhyw dri mis ar ôl yr arolygiad craidd.  Mae uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill yn mynychu'r gynhadledd, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau'r awdurdod i fynd i'r afael â diffygion.  Eleni, cynhaliom gynhadledd welliant ôl-arolygiad gyda Chyngor Sir Powys yn dilyn yr arolygiad o'u gwasanaethau addysg yng Ngorffennaf 2019.  Fe wnaeth y gynhadledd sicrhau bod gan swyddogion ac aelodau etholedig gyd-ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r cyngor a'u bod yn cytuno ynghylch sut byddant yn mynd i'r afael â'r materion hyn.  Yn dilyn y gynhadledd, byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r awdurdod lleol i gefnogi gwelliant hyd nes ein bod yn fodlon â chynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu.  Ni chynhaliom gynadleddau gwelliant yn Sir Benfro na Wrecsam oherwydd y pandemig COVID-19.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Bachgen ifanc wrth y cyfrifia-
dur yn
canolbwyntio ar ei waith

Rydym yn ymweld â'r holl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fel rhan o'n trefniadau arolygydd cyswllt. Yn ystod yr ymweliadau, rydym yn trafod y cryfderau a'r materion sy'n wynebu pob awdurdod neu gonsortiwm, yn ogystal â mynd ar drywydd blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector ar lefel genedlaethol a lleol. Hefyd, rydym yn adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol ac adolygiadau thematig.

Eleni, bu ein harolygwyr cyswllt yn gweithio gydag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i gynnal gweithdai risg gyda'r holl gynghorau ledled Cymru. Mae uwch arweinwyr o'r awdurdodau lleol yn mynychu'r gweithdai, ac mewn llawer o achosion, mae aelodau dynodedig y cyngor yn mynychu hefyd. Mae'r gweithdai yn canolbwyntio ar y sicrwyddau a'r risgiau y mae pob un o'r cyrff rheoleiddio ac arolygu yn eu nodi yn ystod eu gwaith gyda phob awdurdod lleol. Mae'r sesiynau'n darparu cyfle i swyddogion ac aelodau etholedig glywed y barnau hyn a'u hystyried yng nghyd-destun ehangach gwaith yr awdurdod.

Eleni, canfuom ychydig o sicrwyddau a risgiau cyffredin yng ngwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol, yn gyffredinol, yn cael deilliannau cryfach o arolygiadau mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd. Yn rhyw hanner yr awdurdodau lleol, mae lefelau presenoldeb disgyblion a chyfraddau gwaharddiadau yn bryder, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau ac ymweliadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.


## Deilliannau

Yn yr awdurdodau lleol a arolygwyd eleni, mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, yn Sir Benfro yn benodol, mae safonau'n amrywio gormod rhwng ysgolion. At ei gilydd, mae safonau'n wannach mewn ysgolion uwchradd nag ydynt mewn ysgolion cynradd. Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw disgyblion mewn dau o'r awdurdodau lleol, sef Wrecsam a Sir Benfro, yn perfformio gystal â'u cymheiriaid yng Nghymru. Yn Sir Fynwy, mae safonau, yn gyffredinol, yn cyd-fynd â disgwyliadau neu uwchlaw disgwyliadau pan fydd disgyblion yn cwblhau'u haddysg statudol.

Mewn dau o'r awdurdodau lleol, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Yn Wrecsam, mae'r grŵp hwn o ddisgyblion yn perfformio ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer eu cyfoedion ledled Cymru. Ym mhob un o'r tri awdurdod lleol, nid yw perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â pherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion ledled Cymru. Mae gan bob un o'r tri awdurdod lleol a arolygwyd eleni argymhelliad i wella safonau disgyblion.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran y rhai sy'n gadael ym Mlwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn Sir Benfro wedi gostwng, ac mae'r gyfran yn Wrecsam ac yn Sir Fynwy wedi parhau'n isel, ac yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol (Gyrfa Cymru, 2019).

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Mae lefelau presenoldeb disgyblion mewn dau o'r tri awdurdod lleol yn gryf ac yn cymharu'n dda gyda lefelau mewn awdurdodau tebyg. Yn Wrecsam, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn foddhaol, ac yn yr ysgolion uwchradd mae lefelau presenoldeb wedi parhau islaw'r disgwyliadau mewn mwyafrif o ysgolion dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae'r gyfradd gwaharddiadau parhaol yn isel yn Sir Fynwy ac yn Sir Benfro. Fodd bynnag, yn y ddau awdurdod lleol, mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol am bum niwrnod neu lai wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am y tair blynedd diwethaf. Yn Wrecsam, mae'r gyfradd gwaharddiadau parhaol wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru, ac mae'r gwaharddiadau cyfnod penodol wedi dyblu bron yn y tair blynedd diwethaf.

Ym mhob un o'r tri awdurdod lleol, mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd gwerth chweil i gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, yn Sir Benfro, mae aelodau'r Banc Ieuenctid yn cynnal cynllun grant ar gyfer grwpiau cymunedol. Mae pobl ifanc wedi gwneud defnydd da o'r arian a ddarparwyd drwy'r prosiect hwn i rannu negeseuon pwysig gyda'u cyfoedion ynglŷn â diogelu a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae disgyblion y mae angen cymorth arnynt i wella'u lles meddwl ac emosiynol yn elwa o'r strategaethau gwerthfawr ar gyfer cymorth y mae'r awdurdodau'n eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a gwasanaethau cwnsela. Yn Wrecsam, er enghraifft, mae pobl ifanc yn cael cymorth defnyddiol ar ystod o faterion, gan gynnwys tai ac iechyd rhywiol, drwy'r 'Infoshop' sydd wedi'i leoli yng nghanol y dref.

## Gwasanaethau addysg

Yn yr ail faes arolygu hwn, adroddwn ar flaenoriaethau pob awdurdod lleol ar gyfer addysg ar adeg cynnal yr arolygiad yn hytrach nag ar bob agwedd ar waith. Bydd gan bob awdurdod lleol set wahanol o flaenoriaethau addysg gan ddibynnu ar ei gyd-destun lleol. Cyn arolygiad, rydym ni'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i nodi set o gwestiynau arolygu lleol perthnasol am wasanaethau addysg, ac rydym yn gwerthuso'r rhain yn ystod yr arolygiad. Ym mhob un o'r tri arolygiad eleni, fe wnaethom werthuso cwestiynau arolygu lleol ynghylch pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i wella a pha mor dda y maen nhw'n cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed.

Yn Sir Fynwy ac yn Sir Benfro, mae prosesau cadarn ar waith i amlygu ysgolion sy'n achosi pryder. Yn Wrecsam, mae'r prosesau hyn wedi gwella yn ddiweddar, ac mae'r awdurdod lleol yn gallu nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn ei ysgolion yn well erbyn hyn. Mae gan bob un o'r tri awdurdod ystod o strategaethau ac ymyriadau ar waith i herio a chynorthwyo'u hysgolion. Mae enghreifftiau'n cynnwys defnyddio hysbysiadau rhybuddio a phwerau statudol eraill i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â pherfformiad ysgol, a defnyddio byrddau gwella i fonitro ac olrhain cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan y tri awdurdod lleol agweddau ar eu gwaith gwella ysgolion y mae angen eu gwella. Er enghraifft, yn Sir Fynwy, mae effaith y cymorth a ddarparwyd wedi bod yn fwy mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd, ac yn Sir Benfro, nid yw gwaith yr awdurdod i wella addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion wedi cael digon o effaith.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Ym mhob un o'r tri awdurdod lleol, mae swyddogion yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'u gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i ddarparu cymorth i ysgolion.  Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau cymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion, a monitro'r cynnydd a wnaed gyda'r rhain.  Yn Sir Benfro, mae swyddogion o'r awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol wedi egluro'u rolau priodol mewn gwella ysgolion, ac mae hyn yn helpu ysgolion i wybod ble gallant gael cymorth.

Mae Sir Benfro yn rhan o ranbarth ERW, sydd wedi gweld blwyddyn ansefydlog.  Gadawodd awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot y rhanbarth ym Mawrth 2020, ac mae tri awdurdod lleol arall wedi dynodi'u bwriad i adael yn Ebrill 2021.  Mae lefel y cymorth y mae'r consortiwm yn gallu'i ddarparu wedi lleihau yn ystod y cyfnod diweddar, gyda llai o staff canolog ar gael i arwain agweddau ar waith ERW ar draws y rhanbarth.  Mae'r ansicrwydd ynglŷn â ffurf gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol yn rhanbarth ERW yn destun pryder, yn enwedig o ystyried yr heriau sy'n wynebu ysgolion uwchradd yn Sir Benfro a Phowys.  Mae'r ddadl sy'n parhau ynglŷn ag ad-drefnu wedi dwyn amser arwain gwerthfawr i ffwrdd oddi wrth ddarparu a gwella gwasanaethau yn uniongyrchol.

Bu newidiadau hefyd i arweinyddiaeth Consortiwm Canolbarth y De.  Mae penodi rheolwr gyfarwyddwr newydd yn ddiweddar wedi cyfrannu at ddatblygu mwy o sefydlogrwydd i waith y rhanbarth hwn ac wedi cryfhau'r ymrwymiad gwleidyddol i weithio'n rhanbarthol ar draws y consortiwm.

Mae'r awdurdodau lleol a arolygwyd eleni yn darparu ystod o wasanaethau effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnyn nhw.  Mae swyddogion yn darparu arweiniad clir i ysgolion ynghylch sut i adnabod anghenion disgyblion unigol yn gynnar er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted ag y bo modd.  Maent yn gweithio'n dda gydag asiantaethau partner i helpu ysgolion i fodloni'r ystod eang o anghenion disgyblion ac i gryfhau dealltwriaeth athrawon o'r ffordd orau i gynorthwyo'r disgyblion hyn.  Yn Wrecsam, er enghraifft, mae swyddogion yn gweithio'n dda gyda'r bwrdd iechyd lleol i sicrhau bod plant ag anawsterau lleferydd ac iaith a'r rhai â nam ar eu golwg neu'u clyw yn gallu cael cyngor, cymorth ac arweiniad arbenigol.  Rydym yn sôn am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a'r effaith ar ddisgyblion yn ein harolwg thematig **'Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd'** (Estyn, 2020o).

Yn Sir Benfro a Sir Fynwy, fe wnaethom werthuso cwestiynau arolygu lleol ynglŷn â pha mor dda y mae swyddogion yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Yn y ddau awdurdod lleol, mae strategaethau gwerthfawr ar waith i gynorthwyo'r grŵp hwn o ddysgwyr.  Yn Sir Benfro, ceir 'eiriolwyr prydau ysgol am ddim' ym mhob clwstwr ysgolion i gynorthwyo ysgolion i ddewis a datblygu'r dulliau mwyaf priodol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais.  Mae disgyblion yn elwa o gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cerddoriaeth a chwaraeon.  Yn Sir Fynwy, mae ymgynghorwyr her yn darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol i ysgolion ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion, ac maent yn monitro pa mor dda y mae ysgolion yn cymhwyso'r cyllid hwn.  Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae llawer o'r gwaith hwn, ac nid yw wedi cael effaith ar y safonau y mae'r grŵp hwn yn eu cyflawni.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Yn Sir Fynwy, fe wnaethom arolygu pa mor dda y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Canfuom fod gweithwyr ieuenctid yn ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu eu darpariaeth a chynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwasanaethau sy'n targedu grwpiau penodol o bobl ifanc, er enghraifft y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) a gwasanaethau sydd ar gael i'r holl bobl ifanc, fel clybiau ieuenctid. Mae grŵp Equality Street, a ddechreuodd fel grŵp cymorth buddiol i bobl ifanc lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a'r rhai sy'n amau eu rhywioldeb neu rywedd, wedi ehangu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ehangach gyda chryn lwyddiant, gan ennill Gwobr Genedlaethol Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yn 2019. Fodd bynnag, mae gwasanaethau'n tueddu rhoi blaenoriaeth i waith gyda phobl ifanc yn yr ysgol ac yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl iddynt adael yr ysgol, a darpariaeth gyfyngedig sydd ar gael i fodloni anghenion pobl ifanc 16 i 25 oed.

Yn Sir Benfro, fe wnaethom ystyried ymagweddau'r cyngor mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion dros y pum mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio'n dda ar ehangu darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac ar uno neu ffedereiddio ysgolion cynradd llai, yn ogystal ag ad-drefnu addysg gynradd ac uwchradd ym Mhenfro, Hwlffordd a phenrhyn Tyddewi. Hefyd, mae ychydig o gynigion wedi ehangu ystod oedran ysgolion i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer disgyblion oedran meithrin i gael addysg gynnar. Canfuom fod gwaith yr awdurdod i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled y sir gyfan yn nodwedd gref, ac mae'n cysylltu'n dda â thargedau yn ei Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynigion i ad-drefnu ysgolion wedi cynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau newydd.

Yn Wrecsam, fe wnaethom arolygu'r ddarpariaeth a wneir gan yr awdurdod lleol i gynorthwyo dysgwyr ôl-16. Canfuom fod y cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cael cyngor ac arweiniad defnyddiol wrth ystyried eu hopsiynau. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r coleg addysg bellach lleol a'r ysgol arbennig a gynhelir i sicrhau bod dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn cael profiadau cyfoethogi ac ymgysylltu gwerthfawr. Mae'r ystod gynhwysfawr hon o raglenni galwedigaethol yn galluogi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, i baratoi ar gyfer pontio i raglenni ôl-16, yn ogystal â chodi dyheadau ac atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan swyddogion ac aelodau etholedig yn y tri awdurdod lleol a arolygwyd eleni weledigaeth glir ar gyfer addysg ac maent yn pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwasanaethau addysg. Maent yn dangos ymrwymiad i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a deilliannau da ar gyfer cyrhaeddiad a lles disgyblion. Yn Sir Fynwy, mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i helpu sicrhau eu bod yn darparu'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berchnogaeth ac atebolrwydd ar gyfer darparu gwasanaethau addysg. Yn Wrecsam a Sir Benfro, mae uchelgeisiau swyddogion ar gyfer gwella agweddau pwysig ar eu gwaith wedi bod yn llai llwyddiannus, er enghraifft wrth godi safonau mewn ysgolion uwchradd.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Mae ein canfyddiadau ynglŷn â phrosesau hunanwerthuso awdurdodau lleol yn debyg eleni i ganfyddiadau'r llynedd. Mae gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn gwasanaethau addysg. Maent yn nodi'n gywir yr agweddau ar eu gwaith y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, mae prosesau gwerthuso ar lefelau maes gwasanaeth yn llai effeithiol. Mae gan bob un o'r tri awdurdod lleol a arolygwyd eleni argymhelliad i wella ansawdd hunanwerthuso ar draws y meysydd gwasanaeth addysg ac i ddefnyddio'r wybodaeth o werthusiadau yn fwy effeithiol i lywio'u blaenoriaethau ar gyfer gwella. Dros gyfnod, mae pob un o'r tri awdurdod lleol wedi sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau addysg y maent yn eu darparu. Er enghraifft, yn Wrecsam, mae'r gwaith i wella'r cymorth a gaiff pobl ifanc drwy'r gwasanaeth ieuenctid wedi bod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae cyflymder gwella mewn agweddau eraill ar waith y gwasanaeth addysg wedi bod yn rhy araf ac nid yw wedi cael digon o effaith ar wella lles disgyblion na'r deilliannau y maent yn eu cyflawni.

Canfuom fod pob un o'r tri awdurdod lleol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyllid ar gyfer ysgolion a gwasanaethau addysg yn eu cynlluniau ariannol. Mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau i ddiogelu cyllidebau addysg lle bynnag y bo modd ar adeg o ostyngiadau i gyllidebau ar draws gwasanaethau eraill. Maent yn darparu cymorth effeithiol i ysgolion ynglŷn â chyllid, gan gynnwys eu helpu i reoli'u cyllidebau a darparu gwasanaethau fforddiadwy trwy gytundebau lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, mewn dau o'r tri awdurdod lleol, mae pwysau ar y gyllideb wedi arwain at orwario ar wasanaethau addysg eleni.

Ym mhob un o'r tri awdurdod, canfuom ymagweddau effeithiol at ddiogelu plant a phobl ifanc. Yn Wrecsam, mae swyddogion yn cynorthwyo ysgolion a darparwyr addysg yn dda trwy ddarparu arweiniad a hyfforddiant ar sut i gadw dysgwyr yn ddiogel. Yn Sir Benfro, mae swyddogion yn darparu arweiniad clir i ddarparwyr addysg ynglŷn â'r rhan allweddol y maent yn ei chwarae i ddiogelu pobl ifanc rhag dylanwadau radicaleiddio posibl. Maent yn amlygu pwysigrwydd cyfraniad y cwricwlwm at feithrin gwydnwch ymhlith disgyblion fel yr argymhellir yn ein harolwg thematig **'Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn gweithredu eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Act 2015'** (Estyn, 2020m). Yn Sir Fynwy, canfuom fod ymagwedd y cyngor at ei gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â diogelu yn arbennig o effeithiol. Ceir perthynas weithio gryf rhwng y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae grŵp diogelu'r awdurdod cyfan yn darparu fforwm effeithiol lle caiff diogelu ei fonitro, ei reoli a'i werthuso.

Eleni, cyfranogom mewn **adolygiad arolygiaethau ar y cyd** o drefniadau diogelu plant a ddarperir gan awdurdod lleol a'i bartneriaid. Adolygiad peilot gyda thîm arolygu oedd hwn, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Fe wnaeth yr arolygiad ar y cyd werthuso sut mae gwasanaethau lleol yng Nghyngor Dinas Casnewydd yn ymateb i honiadau o gam-drin ac esgeuluso, gyda ffocws arbennig ar y plant hynny sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol neu droseddol. Nododd y tîm feysydd ag arfer dda, agweddau y mae angen eu gwella a chamau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer y partneriaethau yn gyffredinol, ac ar gyfer asiantaethau penodol. Canfuom, er gwaetha heriau gweithio mewn amgylchiadau

### Cyngor Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi gweithio ar wella'i drefniadau diogelu. Trwy werthuso, gall y Cyngor nodi ar bwy y mae angen hyfforddiant ac ar ba lefel. Mae hyn yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu. O ganlyniad, mae staff yn deall rolau, cysylltiadau a chyfrifoldebau yn y broses ddiogelu yn glir ac yn cael eu cefnogi yn gorfforaethol.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

cymhleth, nad yw asiantaethau'n cael eu rhwystro rhag nodi ymyriadau, cynnig gwasanaethau a gweithio i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Gwelsom dystiolaeth o weithio amlasiantaeth effeithiol ar draws yr asiantaethau partner, gyda gweithwyr proffesiynol yn dangos ymrwymiad ac ymdrech i wella deilliannau ar gyfer plant.

## Consortia rhanbarthol

Mae gwella ysgolion uwchradd sydd â phryderon hirsefydlog wedi bod yn her i bob un o'r pedwar consortia a'u hawdurdodau lleol partner. Mae peilot Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion sy'n achosi pryder yn cydnabod bod gwella ysgolion yn gymhleth ac yn ddibynnol ar ystod o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i helpu gwella agweddau ar arweinyddiaeth, rheolaeth, addysgu a darpariaeth. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r model hwn, ond mae eisoes yn dechrau dylanwadu ar ymagweddau at sut mae consortia ac awdurdodau lleol yn gweithio i wella ysgolion sy'n achosi pryder.

Mae rôl allweddol gan y consortia rhanbarthol i helpu cyflawni blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru. Maent wedi parhau i ddarparu cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm trwy ddigwyddiadau dysgu proffesiynol a thrwy nodi ysgolion arweiniol i weithio ar agweddau penodol ar yr agenda diwygio. Ffocws y gwaith hwn fu cynorthwyo ysgolion i ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru ac ystyried sut byddant yn cynllunio ar gyfer newid y cwricwlwm. Mae'r pedwar rhanbarth wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio digwyddiadau ymgysylltu er mwyn darparu negeseuon cyffredin. Mae pob rhanbarth wedi addasu'r dull o gyflwyno'r digwyddiadau hyn i fod yn addas i'w cyd-destunau ac anghenion lleol. Mae pob un o'r pedwar rhanbarth wedi canolbwyntio'n addas ar wella ansawdd addysgu mewn ysgolion i gefnogi parodrwydd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.



Adran 1

# Crynodebau sector: Addysg bellach

1

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 12 o golegau yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru.  Mae llawer o'r colegau addysg bellach yn sefydliadau mawr aml-safle sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang.  Mae gan leiafrif o golegau, fel Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp Colegau NPTC a Choleg Cambria, strwythur grŵp gyda nifer o safleoedd yn gweithredu o dan enwau colegau ar wahân o dan reolaeth gyffredinol un sefydliad addysg bellach.  Mae ychydig o golegau, gan gynnwys Coleg Merthyr Tudful a Choleg Sir Gâr (sy'n cynnwys Coleg Ceredigion), yn gweithredu fel is-gyrff ym mherchnogaeth lwyr sefydliadau addysg uwch.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos, yn 2018-2019, bod 102,160 o ddysgwyr wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu addysg bellach (Llywodraeth Cymru, 2020qq).  O'r rhain, fe wnaeth 45,875 astudio ar raglenni amser llawn, ac roedd 56,290 yn astudio'n rhan-amser.

Eleni, fe wnaethom arolygu un coleg addysg bellach ac roeddem wedi bwriadu arolygu un arall pan gafodd gweithgareddau arolygu eu hatal oherwydd yr argyfwng COVID-19.

# Crynodebau sector: Addysg bellach



Yn ychwanegol at arolygiadau llawn, cynhaliwn ymweliadau arolygydd cyswllt â cholegau addysg bellach. Mae arolygydd cyswllt gan bob coleg sy'n cyfarfod yn flynyddol ag uwch arweinwyr i drafod materion cyfredol yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chynnydd y coleg. Mae ymweliadau'r arolygydd cyswllt yn arwain at adborth llafar a deialog yn ystod yr ymweliad. Eleni, cynhaliom 10 o ymweliadau arolygydd cyswllt yn nhymor yr hydref, a chwblhaom ddau adroddiad thematig gyda ffocws ar agweddau ar addysg bellach. Roedd dau arolwg thematig arall, na fu modd i ni eu cwblhau oherwydd y sefyllfa gyda COVID-19.

## Canfyddiadau arolygu

Ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gynnal **arolygiad yng Ngrŵp colegau NPTC.** Mae'r grŵp yn darparu cyrsiau addysg bellach ar draws wyth o safleoedd, wedi'u gwasgaru dros ardal eang ym Mhowys, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r pedwar prif safle coleg yn Afan, Aberhonddu, Castell-nedd a'r Drenewydd. Barnom fod yr holl feysydd arolygu yn dda.

Mae ymdeimlad brwd o gyfrifoldeb gan y coleg tuag at y cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu. Mae'n cynnig ystod eang o ddarpariaeth, sy'n bodloni anghenion ei ddysgwyr ar draws ardal ddaearyddol fawr a heriol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cynhyrchu safon gryf o waith yn ei gwersi a sesiynau ymarferol. Maent yn adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau galwedigaethol, academaidd ac ymarferol ar gyfradd briodol. Mewn rhaglenni galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso cymwyseddau ymarferol a galwedigaethol cadarn. Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch yn datblygu strategaethau dysgu ac adolygu defnyddiol. Mewn cyrsiau lefel mynediad, mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd defnyddiol wrth ddatblygu'u medrau galwedigaethol ac annibynnol sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod ble i gael cymorth os oes ei angen, ac mae llawer yn teimlo bod y coleg yn gwrando arnynt yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn adrodd bod eu profiadau dysgu'n eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol a bod y coleg yn darparu amgylchedd cynhwysol. Er enghraifft, mae grŵp dysgwyr LGBTQ yn cyfarfod yn wythnosol, gan alluogi aelodau i fwynhau'r cyfle i gymdeithasu mewn amgylchedd diogel lle maent yn gefnogol i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau galwedigaethol lefel uwch ac yn gwella'u hyder personol trwy gyfranogi mewn cystadlaethau medrau. Mae ychydig o ddysgwyr lefel 3 mewn trin gwallt a therapi harddwch yn elwa o raglen profiad gwaith ryngwladol sefydledig. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu mwy o annibyniaeth, yn cael profiad o ddiwylliannau gwahanol, yn datblygu'u medrau iaith ac yn archwilio cyfleoedd cyflogaeth.

Mae athrawon yn dra chymwys a phrofiadol, gyda phrofiad defnyddiol mewn diwydiant, masnach a busnes, y maent yn ei gymhwyso'n dda i'w rolau. Mae llawer yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda dysgwyr. Mae'r mwyafrif yn cynllunio gwersi â strwythur da ac yn annog dysgwyr i ddatblygu diddordebau pwnc ehangach. Mae prosesau'r coleg ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn drwyadl a manwl. Maent yn ystyried blaenoriaethau'r bartneriaeth medrau ranbarthol a'r galw gan gyflogwyr a dysgwyr.

# Crynodebau sector: Addysg bellach

Mae tîm cymorth dysgu a thîm lles y coleg yn darparu ystod o gymorth buddiol i helpu dysgwyr oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Fel y canfuwyd yn ein hadroddiad thematig ar gymorth i ddysgwyr LGBT mewn ysgolion a cholegau, **'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant'**, mae arweinwyr ar draws colegau yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn dathlu amrywiaeth, gan sefydlu ethos sy'n hyrwyddo unigolrwydd, goddefgarwch a pharch. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar les yr holl ddysgwyr.



Mae tîm arwain y coleg wedi'i sefydlu'n dda ac yn gydlynus, a cheir cyfeiriad clir ac uchelgeisiol i waith y coleg. Mae'r coleg yn cefnogi dysgu proffesiynol tiwtoriaid ac arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys rhaglen uchelgeisiol i arweinwyr. Mae mentoriaid datblygu addysgu a dysgu yn cynorthwyo athrawon i ddatblygu'u medrau a gwella'u harfer yn dda. Drwy ein hymweliadau arolygydd cyswllt, canfuom fod y rhan fwyaf o golegau yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu medrau addysgu ac asesu'u staff. Yn gyffredinol, mae colegau'n gwneud defnydd da o'u hadnoddau mewnol, fel mentoriaid addysgu a dysgu, i gynorthwyo staff ac adrannau.

Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso perfformiad y coleg yn briodol, er bod prosesau gwerthuso yn arwain at ddarlun rhy gadarnhaol o agweddau ar berfformiad y coleg. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau o ymweliadau'r arolygydd cyswllt ar draws colegau, lle, er enghraifft, mae lleiafrif yn rhoi gormod o bwyslais ar ddata deilliannau dysgwyr wrth werthuso safonau a nodi meysydd i'w gwella, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth lawn i safonau o arsylwadau ac o graffu ar waith dysgwyr.

Yn Awst 2020, cyhoeddom adroddiad thematig hefyd ar **'Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch'** (Estyn, 2020c). Canfuom fod llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu hastudiaethau o gymharu â'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn symud ymlaen o'r safon Uwch Gyfrannol i gwblhau'u hastudiaethau Safon Uwch, neu nid ydynt yn cyflawni gystal ag y gallent. Yn aml, mae'r dysgwyr hyn yn dechrau astudio pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol am y tro cyntaf pan fyddant yn cychwyn yn y chweched dosbarth neu goleg.

Mae ychydig o ysgolion a cholegau yn gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill i ehangu'r ystod o ddewisiadau pynciau. Mewn llawer o'r partneriaethau hyn, fodd bynnag, nid yw trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn i nodi meysydd i'w gwella yn gywir. Y mwyafrif o athrawon mewn pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol yw unig athro Safon Uwch y pwnc yn eu hysgol neu goleg. Yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd i gydweithio, gall hyn arwain at anawsterau o ran cyflenwi mewn dosbarthiadau pan fydd athrawon yn absennol.

Un argymhelliad allweddol yn yr adroddiad ar gyfer ysgolion a cholegau yw cydweithio i rannu adnoddau dysgu, yn enwedig adnoddau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch. Mae hyn yn cydfynd â'r weledigaeth o'r **Comisiwn ar Goleg y Dyfodol** (2020), sy'n galw am fwy o gydweithio ar draws y system addysg a medrau.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

1

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2020, roedd 18 o ddeiliaid contract wedi eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Erbyn mis Mehefin 2020, mae hyn wedi gostwng i 17 o ddeiliaid contract. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu'n defnyddio darparwyr hyfforddiant wedi'u hisgontractio. Mae tua 100 o ddarparwyr wedi'u hisgontractio yn cyflwyno dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn debyg i fis Ionawr 2019. Mae'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf yn dangos, yn 2018-2019, bod 61,290 o ddysgwyr wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r rhain, cofrestrodd 19,870 ar brentisiaethau sylfaen lefel 2 a 34,920 ar brentisiaethau lefel 3 neu brentisiaethau uwch lefel 4. Ymgymerodd tua 6,500 o ddysgwyr â hyfforddiant arall, gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaeth a chyflogadwyedd lefel 1 (Llywodraeth Cymru, 2020qq).

Eleni, fe wnaethom arolygu dau ddarparwr dysgu yn y gwaith cyn i weithgareddau arolygu gael eu hatal oherwydd COVID-19.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

## Safonau

Mae safonau'n dda yn un o'r darparwyr a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni sylfaen a phrentisiaeth yn cyflawni'u rolau swydd yn dda ac yn datblygu medrau galwedigaethol cadarn o leiaf. Mae'r mwyafrif yn cymhwyso gwybodaeth am theori i'w hamgylcheddau gwaith yn dda i ddatrys problemau a goresgyn heriau yn eu rolau swydd. Mae ychydig o ddysgwyr yn arddangos gwybodaeth a medrau arbenigol rhagorol, fel pan fyddant yn cystadlu mewn cystadlaethau medrau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr hyfforddeiaeth yn datblygu medrau defnyddiol yn gysylltiedig â gwaith a dealltwriaeth o'r modd y gallant gyfrannu'n effeithiol mewn gweithle. Yn eu hadroddiad, **Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau: Adroddiad Terfynol 2015-2019**, mae Llywodraeth Cymru (2019b, tud.100) yn nodi ystod eang o fuddion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Hyfforddeiaethau, gan gynnwys cyfranogwyr yn ymgysylltu'n well yn gymdeithasol a datblygu medrau meddal a medrau'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Lle ceir safonau da, mae llawer o ddysgwyr prentisiaethau uwch yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig manwl o safon uchel. Yn eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer o ddysgwyr yn nodi sut mae theori a deddfwriaeth yn perthnasu i'w rolau swydd. Er enghraifft, mewn lleoliadau gofal iechyd, mae prentisiaid yn gwybod beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol a sut mae'n gymwys i'w lleoliadau, y cleifion a'r trigolion yn eu gofal.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella, gwneud cynnydd a chwblhau eu rhaglen. Mae ychydig ohonynt yn myfyrio'n ddwys ynglŷn â'u rolau swydd ac yn darparu dadansoddiadau manwl o'u harferion gweithio, er enghraifft, wrth drafod cynaliadwyedd amgylcheddol mewn gwestai neu les cleifion â dementia mewn lleoliadau gofal. Lle mae angen gwella safonau, dim ond ychydig o ddysgwyr prentisiaeth sy'n cymhwyso medrau meddwl neu fedrau datrys problemau i sefyllfaoedd newydd neu'n ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach na hynny a fynnir gan y fframwaith.

Lle mae safonau'n dda, mae llawer o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i gyflawni'u fframweithiau yn brydlon neu'n gynnar. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol ar eu rhaglenni hyfforddi, ac mae ychydig yn gwneud cynnydd cryf ac yn gorffen yn gynharach na'r disgwyl. Lle bo'n briodol, mae dysgwyr yn symud ymlaen i brentisiaethau lefel uwch. Fodd bynnag, lle mae angen gwella safonau, mae gormod o brentisiaid nad ydyn nhw'n datblygu eu medrau ymarferol a'u gwybodaeth theori yn ddigon da ac maent yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau'u prentisiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o leiaf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a'u medrau digidol, gyda mwyafrif yn cymhwyso'r medrau gwell hyn yn dda yn eu rolau swydd. Mae dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig gwerthfawr yn Saesneg ar gyfer eu cydweithwyr ar ddefnyddio offer mewn cyfleuster cynhyrchu bwyd, ac ar sut i ymgymryd â gwasanaethau desg nos mewn gwesty. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn ymarfer nac yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith



Mae ychydig o brentisiaid yn cyflawni cymwysterau llythrennedd a rhifedd ar lefel uwchlaw gofynion eu fframweithiau. Fodd bynnag, lle mae angen gwella safonau, nid yw llawer o ddysgwyr prentisiaeth yn gwybod am ddeilliannau eu hasesiadau medrau cychwynnol, ac nid oes ganddynt dargedau clir ar gyfer datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau llythrennedd digidol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd.

Ceir agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ymhlith mwyafrif o ddysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio neu'n datblygu'u medrau Cymraeg fel rhan o'u gwaith. Er enghraifft, mewn lleoliadau lletygarwch, mae dysgwyr yn cyfarch ac yn diolch i gwsmeriaid yn Gymraeg. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio adnoddau ar-lein i'w helpu i ddysgu Cymraeg sylfaenol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn datblygu eu Cymraeg fel medr yn y gweithle nac yn gwerthfawrogi manteision gwneud hynny. Mae **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Adroddiad blynyddol 2018-2019** (Llywodraeth Cymru, 2019a) yn nodi, rhwng 2016-2017 a 2017-2018, y bu gostyngiad bach yng nghyfran y gweithgareddau dysgu yn y gwaith a gynhelir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda yn y ddau ddarparwr a arolygwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Maent yn mynychu'n rheolaidd, yn brydlon ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn eu gwaith. Yn y sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion a'u tiwtoriaid. Maent yn gwrando ar farnau eu cydweithwyr, ac yn cefnogi'i gilydd yn dda.


Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn canolbwyntio'n dda mewn sesiynau ac yn paratoi gwaith ac aseiniadau yn gydwybodol o fewn amserlenni penodedig. Maent yn falch o'u cyflawniadau a gallant egluro sut mae eu gwaith yn gwella'u medrau cyflogadwyedd.

Mae llawer o ddysgwyr yn llawn hunangymhelliant, yn frwdfrydig ac yn awyddus i symud ymlaen i lefel nesaf yr hyfforddiant. Mewn amgylcheddau gweithio prysur, mae llawer yn blaenoriaethu tasgau fel eu bod yn gallu canolbwyntio ar eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr hyfforddeiaeth yn mynychu sesiynau hyfforddi'n rheolaidd ac yn cael profiad gwerthfawr yn eu lleoliadau gwaith.

Mewn cyfarfodydd i adolygu cynnydd dysgwyr, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr prentisiaeth yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu gwaith, ac mae llawer ohonynt yn chwarae rhan weithgar mewn trafodaethau gyda'u haseswyr. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn eistedd yn oddefol yn aros am gyfnodau estynedig yn ystod cyfarfodydd adolygu tra bod eu haseswyr yn cwblhau dogfennau.

Mae llawer o ddysgwyr yn wydn ac yn hunanymwybodol, ac mae ganddynt fedrau datrys problemau da. Maent yn mwynhau eu dysgu, yn awyddus i symud ymlaen at raglenni lefel uwch ac yn frwd i gael dyrchafiad yn eu gweithle. Nid yw ychydig yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac maent yn dibynnu gormod ar eu haseswyr i reoli a threfnu eu gwaith.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith



Mae ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd safonau proffesiynol arbennig o uchel o fedrau technegol yn eu maes gwaith, sy'n hybu'u hunan-barch. Mae rhai eraill yn datblygu medrau bywyd trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau elusennol, fel gwirfoddoli mewn banciau bwyd, clirio traethau cyfagos neu godi arian at elusennau drwy weithgareddau wedi'u noddi. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu dysgwyr i werthfawrogi'u cymunedau a'u hamgylchedd, a gweld sut gallant gynorthwyo. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn ennill medrau neu gymwysterau ychwanegol sy'n gwella'u cyflogadwyedd ymhellach, fel Cymorth Cyntaf, y Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol neu Dystysgrif mewn Dementia.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu gweithle a gyda'u darparwr hyfforddiant, ac mae'r rhan fwyaf yn gwybod am y cymorth lles sydd ar gael iddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o leiaf o bwy gallant droi atynt os oes ganddynt bryderon ynglŷn â diogelu neu radicaleiddio.

Mae llawer yn deall pwysigrwydd iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Hefyd, maent yn deall materion ymarferol pwysig fel sut i reoli'u harian. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod sut i gadw'n iach a heini. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn lleoliadau lletygarwch a gofal yn trafod sut maent yn delio â straen a sut i gadw cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth sydd â rhwystrau rhag dysgu yn ymgysylltu'n gadarnhaol â chymorth ychwanegol i oresgyn y rhwystrau hyn, ac mae'r rhan fwyaf yn cwblhau'u rhaglen hyfforddi'n llwyddiannus.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda mewn un darparwr a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn cynllunio'u sesiynau yn dda ac yn cyflwyno gweithgareddau effeithiol sy'n datblygu medrau galwedigaethol, cyflogadwyedd a medrau bywyd dysgwyr. Mae llawer yn cynllunio gweithgareddau asesu yn y gwaith yn dda ac yn defnyddio'u gwybodaeth fanwl am batrymau gwaith dysgwyr i awgrymu tystiolaeth i fodloni deilliannau'r cymhwyster. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall beth mae athrawon ac aseswyr yn disgwyl ganddynt, a sut byddant yn eu hasesu.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr ystod eang o fedrau ymarferol, gwybodaeth bynciol a gwybodaeth alwedigaethol lefel uchel. Maent yn fedrus wrth gynorthwyo ac annog dysgwyr i wneud cynnydd yn eu hasesiadau ymarferol a'u gwybodaeth theori.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn hyblyg o ran eu hymagwedd at fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr, fel wrth gynorthwyo dysgwyr ar batrymau sifft amrywiol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod briodol o ddulliau, adnoddau a gweithgareddau ymarferol i ennyn diddordeb a chymell dysgwyr. Mae llawer o athrawon ac aseswyr sy'n cyflwyno rhaglenni prentisiaeth yn datblygu medrau galwedigaethol dysgwyr yn dda. Maent yn darparu cymorth personol helaeth i ddysgwyr gyflawni'u fframweithiau cymwysterau.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith

Lle ceir addysgu da, mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn defnyddio ystod eang o dechnegau holi, er enghraifft addysgu deunydd y pwnc, a holi ac ail-holi i gynorthwyo myfyrio a galluogi'r dysgwr i feddwl am ei atebion yn fanylach. Fodd bynnag, lle mae angen gwella'r addysgu, nid yw mwyafrif o athrawon yn defnyddio'r technegau holi hyn yn ddigon effeithiol i ehangu gwybodaeth a medrau dysgwyr, nac i archwilio a dyfnhau eu dealltwriaeth. O ganlyniad, yn y sesiynau hyn, nid yw athrawon yn herio dysgwyr digon i gyflawni'u potensial llawn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn datblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda'u dysgwyr. Lle ceir addysgu da, mae gan athrawon ac aseswyr ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr a dealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol, ac maent yn eu cefnogi'n dda i gyflawni'u potensial. Mae aseswyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd gyda'u dysgwyr, ac yn defnyddio perthnasoedd sefydledig gyda chyflogwyr i gefnogi cynnydd dysgwyr. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda chyflogwyr i nodi cyfleoedd hyfforddi ac asesu yn y gweithle, ac yn galluogi dysgwyr i elwa o hyfforddiant effeithiol gan oruchwylwyr yn y gweithle.

Lle mae angen gwelliant, mae'r rhan fwyaf o gynlluniau dysgu unigol ac adolygiadau o gynnydd ar raglenni prentisiaeth yn canolbwyntio'n rhy gul ar dargedau cwblhau unedau generig. Nid ydynt yn cefnogi nac yn mynd i'r afael â datblygu medrau ehangach, yn annog dysgwyr i adolygu'u cynnydd eu hunain, nac yn pennu cerrig milltir tymor byr personoledig, priodol. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddysgwyr yn dibynnu'n drwm ar gyfarwyddyd gan eu hathrawon ac aseswyr, ac yn cymryd mwy o amser nag a drefnwyd i gwblhau eu fframweithiau hyfforddi.

Lle ceir addysgu da, mae athrawon ac aseswyr yn gweithio'n dda gyda thiwtoriaid medrau hanfodol i ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr i'w galluogi i gwblhau'r gofynion medrau hanfodol angenrheidiol ar gyfer y fframwaith cymwysterau mewn modd amserol.

Mae mwyafrif o athrawon ac aseswyr yn defnyddio ystod briodol o adnoddau, gan gynnwys deunyddiau ar-lein, i helpu dysgwyr ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig a'u gallu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw athrawon ac aseswyr yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg fel medr cyflogaeth yn ddigon cyson, ac nid yw ychydig o ddysgwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn cael digon o gyfleoedd i wella'u medrau llythrennedd Cymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn un o'r darparwyr a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Mae darparwyr yn cynnal asesiadau cychwynnol manwl gyda bron yr holl ddysgwyr. Mae'r rhain yn helpu nodi anghenion yr holl ddysgwyr yn briodol ac yn galluogi rhoi cymorth perthnasol ar ddechrau, neu oddeutu dechrau, rhaglenni hyfforddi. Er enghraifft, mae darparwyr yn trefnu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion penodol fel datblygu'r Saesneg, materion iechyd meddwl a threfniadau teithio. Mae'r trefniant hwn yn helpu mynd i'r afael â rhwystrau posibl rhag dysgu ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y gwaith

Fodd bynnag, amrywiol yw effeithiolrwydd gweithdrefnau ar gyfer olrhain a monitro cynnydd dysgwyr a'u hanghenion cymorth. Lle mae'r rhain yn gweithio'n dda, mae gosod targedau ac adolygiadau cynnydd yn cynnwys targedau tymor byr penodol ar gyfer dysgu. Lle maent yn llai defnyddiol, mae targedau ac adolygiadau cynnydd yn generig ac nid ydynt yn ddigon personoledig. Mae partneriaethau sefydledig rhwng darparwyr, isgontractwyr a chyflogwyr yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ar raglenni hyfforddeiaeth, i elwa o amgylcheddau gweithio o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr gymhwyso a datblygu'r medrau y maent yn eu dysgu ar eu rhaglen hyfforddi.

Mae llawer o athrawon ac aseswyr yn defnyddio'u gwybodaeth alwedigaethol ddiweddar i ddarparu cyngor ac arweiniad defnyddiol i ddysgwyr. Mae hyn yn helpu llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth i nodi gweithgareddau sy'n cyfateb i'w diddordebau ac yn eu helpu i ddatblygu nodau tymor hwy. Hefyd, mae'n galluogi llawer o ddysgwyr prentisiaeth i nodi opsiynau o fewn eu fframwaith sy'n cyfateb orau i'r rolau gwaith a'u dyheadau o ran gyrfa.

Mae un darparwr yn cynnal grwpiau ffocws rheolaidd gyda dysgwyr hyfforddeiaeth i gasglu eu barnau, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ehangu'r ystod o gyfleoedd y mae'n eu darparu, gan gynnwys gweithio ar brosiectau cymunedol fel banciau bwyd neu brosiectau adnewyddu ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gweithle yn dda. Maent yn trafod materion cysylltiedig gyda dysgwyr yn rheolaidd i sicrhau bod dysgwyr yn cymryd camau i gynnal amgylchedd gwaith diogel.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn trafod testunau fel ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, diogelu ac atal radicaleiddio yn briodol yn ystod sesiynau adolygu, er enghraifft drwy ddefnyddio eitemau newyddion perthnasol i helpu archwilio ac ehangu ymwybyddiaeth dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn herio barnau stereoteip dysgwyr yn gadarn ac yn eu hannog i barchu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn hyfforddiant ac yn y gweithle. Mae lleiafrif o staff yn colli cyfleoedd i drafod y mater hwn fel rhan o'r drefn arferol yn ystod adolygiadau prentisiaeth.

Mae bron yr holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant buddiol ar ddiogelu ac atal radicaleiddio, ac mae bron pawb yn glir ynghylch pwy ddylen nhw adrodd wrthynt os oes ganddynt unrhyw bryderon. Fodd bynnag, nid yw ychydig yn gallu cofio manylion yr hyfforddiant hwn neu maent yn drysu rhwng diogelu a materion lles. Lle mae angen gwella trefniadau, nid oes gweithdrefnau clir gan y darparwr i sicrhau ei fod yn monitro diogelu a materion yn gysylltiedig ag Atal o fewn ei isgontractwyr yn ddigon trwyadl.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn un o'r darparwyr a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad corfforaethol clir. Mewn un darparwr, maent yn sefydlu diwylliant sefydliadol iach gyda hunaniaeth gref, wedi'i wreiddio yn ardal leol y darparwr a'i ddarpariaeth graidd arbenigol. Yn y llall, fe wnaeth arweinwyr gryfhau'u ffocws yn ddiweddar ar bennu disgwyliadau clir ar gyfer staff ar bob lefel.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

Mae trefniadau partneriaeth wedi'u sefydlu'n dda gan y ddau ddarparwr gydag ystod o isgontractwyr.  Lle mae arweinyddiaeth yn effeithiol, ceir cyfathrebu cadarn ar draws y sefydliad.  Lle mae'n ddigonol, er bod arweinwyr yn diweddaru staff ar ddatblygiadau contractiol allweddol, nid yw'r cyfathrebu rhwng y darparwr hwn a'i isgontractwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol, a cheir diffyg cyfarfodydd ffurfiol, rheolaidd sy'n cynnwys yr holl bartneriaid.  Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth bwysig, fel data ar berfformiad dysgwyr, arfer orau a meysydd allweddol i'w gwella, yn cael ei rhannu ar draws yr holl isgontractwyr.

Mae trefniadau cadarn ar waith gan un darparwr ar gyfer monitro perfformiad isgontractwyr a'i dimau cyflwyno ei hun.  Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheoli contractau rheolaidd gydag agendâu sefydlog defnyddiol a threfniadau rhannu data sy'n sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'u perfformiad.  Mae cysondeb a lefel y monitro yn briodol, gan ddibynnu ar y risg sy'n gysylltiedig â phob is-gontractwr neu dîm cyflwyno.  O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn a chamau gweithredu eraill, mae'r darparwr yn cynnal cydbwysedd buddiol o her a chymorth gydag isgontractwyr a'i dimau cyflwyno ei hun.  Lle maent yn nodi tanberfformio, mae'r darparwr yn rhoi camau unioni ar waith yn gyflym.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella ansawdd yn ystyried ystod addas o wybodaeth, gan gynnwys hunanwerthusiadau gan isgontractwyr a thimau cyflwyno'r darparwr ei hun, ac o'r cyfarfodydd rheoli contractau rheolaidd.  Er enghraifft, mae prosesau hunanwerthuso yn gwneud defnydd cadarn o ddata perfformiad dysgwyr lefel uchel i nodi tueddiadau, ac mae isgontractwyr yn chwarae rhan ddefnyddiol mewn hunanwerthuso drwy fynychu diwrnod datblygu hunanasesu blynyddol.  Yn y ddau ddarparwr, fodd bynnag, nid yw isgontractwyr a thimau cyflwyno yn cynllunio'n ddigon manwl sut i fynd i'r afael â'u meysydd penodol i'w gwella.  Lle mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol, nid yw rheolaeth gyffredinol isgontractwyr yn ddigon cadarn ac mae'n canolbwyntio gormod ar fonitro cydymffurfio yn hytrach nag ysgogi gwelliant.

Mae darparwyr yn trefnu ystod ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol.  Mae un darparwr yn rhannu'r rhain yn effeithiol gydag isgontractwyr a cheir diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi datblygiad staff ar draws y prif ddarparwr ac isgontractwyr.  Yn y darparwr arall, nid yw arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau dysgu proffesiynol allweddol i staff cyflwyno yng Nghymru yn benodol.

## Gweithgarwch dilynol

Mae un o'r darparwyr a arolygwyd eleni angen ei adolygu gan Estyn.  Nid ydym wedi ymgymryd ag unrhyw weithgareddau dilynol gyda darparwyr eraill eleni.

## Adran 1

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned



1

## Cyd-destun

Mae 15 partneriaeth ar hyd a lled Cymru ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion. Mae aelodaeth y partneriaethau yn amrywio o ardal i ardal, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, coleg addysg bellach a sefydliadau gwirfoddol.  Mae'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf yn dangos, yn 2018-2019, bod 13,050 o ddysgwyr wedi cofrestru ar raglenni dysgu oedolion (Llywodraeth Cymru, 2020qq).  Mae hyn yn gynnydd o 3% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r sector wrthi'n mynd drwy broses o ad-drefnu, gyda Llywodraeth Cymru'n adolygu trefniadau ariannu hanesyddol i ganolbwyntio'n well ar fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd.  Mae'r broses hon yn mynd rhagddi dros ddwy flynedd ariannu.  Mae'r trefniadau newydd yn mynnu bod partneriaethau'n canolbwyntio ar ddarparu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, cyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill a chyrsiau Cymraeg i oedolion.

Eleni, fe wnaethom arolygu dwy bartneriaeth dysgu oedolion.

# **Crynodebau sector:** Dysgu oedolion yn y gymuned

## Safonau



Mae safonau yn dda yn y ddwy bartneriaeth a arolygwyd.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig neu ymarferol o safon gadarn o leiaf, ac maent yn gwneud cynnydd priodol o leiaf yn eu dysgu.  Mae llawer yn dysgu, datblygu a chymhwyso medrau newydd ac mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf.  Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf.

Mae bron yr holl ddysgwyr mewn dosbarthiadau rhianta a dysgu fel teulu mewn un bartneriaeth, gan gynnwys grŵp penodol ar gyfer tadau ifanc, yn caffael gwybodaeth newydd am sut i wella'u medrau rhianta a gofalu. Maent yn rhoi cynnig ar dechnegau rhianta gyda'u teuluoedd, yn myfyrio'n ofalus ar y canlyniadau ac yn gwneud cynnydd cryf iawn wrth ddatblygu'u medrau meddwl yn feirniadol.  Mewn dosbarthiadau dysgu fel teulu, mae rhieni a theidiau/neiniau yn gwella'u hyder ac yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol gyda'u plant.

Mewn dosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd gwerth chweil.  Maent yn defnyddio patrymau iaith, gramadeg a geirfa yn dda, yn briodol i'w lefel astudio.  Maent yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda.  Mae ychydig yn colli diddordeb yn ystod gwersi pan nad yw cyflymder yr addysgu yn briodol iddynt, neu pan fydd rhai eraill yn llethu trafodaethau yn y dosbarth.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau darllen sylfaenol yn addas ac mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau canolradd yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ystyr wrth ddarllen.

Mewn sesiynau rhifedd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson neu well ac yn datblygu hyder a gallu yn dda o ystyried eu profiadau blaenorol gyda mathemateg, a oedd yn rhai negyddol yn aml.  Mewn sesiynau llythrennedd a chyfathrebu, mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn ysgrifennu'n dda yn unol â'u lefel a'u gallu.  Maent yn defnyddio brawddegau sydd wedi'u ffurfio'n dda i lunio ymatebion ysgrifenedig byr i dasgau, er enghraifft, wrth ddisgrifio hanes rygbi a phêl-droed yng Nghymru, a'u rôl yn niwylliant Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyson neu well ac maent yn gweithio tuag at gymwysterau llythrennedd a rhifedd achrededig.  Mae mwyafrif yn parhau â'u hastudiaethau dros gyfnod o flynyddoedd ac yn adeiladu ar eu dysgu a'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae dysgwyr sydd wedi ymddeol mewn lleoliadau cymunedol yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn gymwys i chwilio am safleoedd e-siopa neu i restru eitemau i'w gwerthu.  Mewn sesiynau ymarferol, fel gwnïo, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau gwnïo â llaw a medrau peiriant cryf ac yn dysgu ffyrdd darbodus o gael gafael ar ddeunyddiau a'u defnyddio.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol a dyddlyfrau i gynllunio a myfyrio ar eu dysgu, ac maent yn eu gweld yn gymorth defnyddiol i nodi targedau tymor byr ac i fonitro'u cynnydd eu hunain.  O ganlyniad, mae llawer yn cymhwyso'r medrau y maent yn eu dysgu yn eu dosbarthiadau i'w bywydau bob dydd, fel wrth ddarllen, rheoli'u harian a chynyddu eu hannibyniaeth.

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned

Ar ychydig o gyrsiau, fel dysgu fel teulu, SSIE a chlybiau medrau, mae dysgwyr yn ymarfer geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol.  Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarchion Cymraeg a diwrnodau a dyddiadau, a 'gair Cymraeg yr wythnos', neu'n cael adborth gan eu hathrawon gan ddefnyddio termau Cymraeg sylfaenol.  Mewn dosbarthiadau cymunedol, mae ychydig o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn siarad Cymraeg â'i gilydd a'u tiwtoriaid, ac maent yn newid yn rhwydd rhwng ieithoedd fel rhan o sgyrsiau dwyieithog.  Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar fwyafrif o gyrsiau yn gweld fawr o'r Gymraeg drwy eu rhaglenni.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn y ddwy bartneriaeth a arolygwyd, mae lles ac agweddau at ddysgu yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac yn cyfranogi'n galonnog mewn sesiynau.  O ganlyniad, maent yn mwynhau'u dysgu ac yn dangos hyn yn glir yn eu cyfraniadau at weithgareddau yn ystod sesiynau.  Maent yn parchu athrawon a dysgwyr eraill ac yn rhyngweithio'n gyson â nhw, yn cefnogi'i gilydd yn dda ac yn gwneud ffrindiau newydd.  Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau a grwpiau bach.  Maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod sesiynau.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt yn y dosbarth.  Mae'r rhan fwyaf yn elwa o gyfnod sefydlu defnyddiol ac maent yn deall gweithdrefnau diogelu ac iechyd a diogelwch.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau yn y gymuned yn dilyn atgyfeiriadau gan asiantaethau cymorth arbenigol, sefydliadau partner ac ysgolion.  Yn aml, daw'r dysgwyr hyn at eu rhaglen gydag anghenion a materion iechyd niferus, gan gynnwys hunan-barch isel, gorbryder neu iselder.  Mae bron pob un ohonynt yn magu hyder, ac mae llawer yn gallu uniaethu'n well ag eraill ac integreiddio'n fwy llwyddiannus yn y gymdeithas o ganlyniad i'w dysgu.  Mewn dosbarthiadau medrau cymunedol, fel clytwaith a chwiltio, neu fedrau peiriant gwnïo, mae llawer o ddysgwyr yn gweld eu dysgu'n therapiwtig.  Er enghraifft, mae dysgwyr â materion iechyd meddwl ac afiechydon corfforol yn teimlo bod y cyrsiau'n lleddfu straen ac yn eu helpu i anghofio'u pryderon bob dydd.

Mewn un bartneriaeth, mae swyddogion ymgysylltu yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr sy'n agored i niwed yn magu perthynas gadarn gyda'u cyfoedion a'u tiwtoriaid.  Mae hyn yn golygu bod dysgwyr yn dyfalbarhau â'u dysgu er y llu o rwystrau maen nhw'n eu hwynebu.  Mae ychydig o ddysgwyr â materion iechyd corfforol a meddwl yn gweld bod mynychu dosbarthiadau i baratoi at waith neu wella medrau darllen yn helpu lleihau straen, er enghraifft, wrth ddelio â gohebiaeth ysgrifenedig fel cofnodion meddygol a llythyrau.

Mae llawer o ddysgwyr â phrofiadau dysgu gwael yn y gorffennol yn elwa o fynd yn ôl i astudio.  Mae llawer yn dechrau datblygu dyfalbarhad a gwydnwch ac yn mynd yn llai dibynnol ar gymorth ychwanegol.  Mae llawer yn magu'r hyder i symud ymlaen at ddysgu mewn meysydd gwahanol, i ymgeisio am waith neu geisio cyflogaeth fwy boddhaus a chynaliadwy.  At ei gilydd, mae dysgwyr yn mynychu eu dosbarthiadau yn rheolaidd ac yn dangos ymrwymiad er gwaethaf materion personol a theuluol a all fod yn rhwystrau rhag mynychu dysgu oedolion.

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae llawer o ddysgwyr SSIE, sydd wedi gorfod dechrau bywydau newydd mewn gwlad anghyfarwydd, yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau mewn dosbarthiadau, sy'n berthnasol i'w sefyllfa bywyd presennol.  O ganlyniad, maent yn magu hunanhyder ac yn dechrau adfer eu hunan-barch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd wedi'i chael hi'n anodd mewn addysg yn flaenorol, yn egluro sut mae eu cwrs yn cynorthwyo'u lles a'u datblygiad personol.  Gall llawer ohonynt ddangos yr effaith y mae eu dysgu'n ei chael ar fywyd y tu allan i'r cwrs, gan gynnwys dysgwyr ar gyrsiau medrau digidol sy'n defnyddio'u medrau newydd eu caffael i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau.

## Addysgu a dysgu

Yn y ddwy bartneriaeth a arolygwyd, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol gynhwysfawr i gynllunio gwersi ag iddynt ddilyniant da a rhediad priodol sy'n ystyried anghenion unigol dysgwyr wrth ddarparu lefel her addas.  Maent yn defnyddio ystod eang o weithgareddau dysgu ac yn cyfeirio'n dda at wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr i gynllunio dysgu newydd.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rheoli dosbarthiadau a gweithgareddau'n dda.  Maent yn gyfathrebwyr effeithiol sy'n ffurfio cydberthynas gadarn a pherthnasoedd cadarnhaol gyda'u dysgwyr.  Maent yn creu amgylcheddau dysgu gysurus lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel.  Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid sy'n addysgu dosbarthiadau teulu a rhianta yn ymarferwyr medrus iawn sydd â'r gallu i gefnogi ac annog dysgwyr a'u helpu i feithrin gwydnwch.

Mae llawer o diwtoriaid SSIE yn cynllunio ac yn strwythuro'u gwersi yn briodol, fel bod dysgwyr yn datblygu medrau gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad yn naturiol drwy weithgareddau medrau ar wahân a chymysg.  Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau SSIE, nid yw tiwtoriaid bob amser yn cynllunio gwersi sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau ieithyddol o'u mannau cychwyn unigol.  Er enghraifft, mae gwersi yn aml yn canolbwyntio gormod ar ramadeg a chystrawennau ar draul datblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr.

Defnyddir technegau holi gan lawer o diwtoriaid i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau datrys problemau, a'u medrau meddwl a gwerthuso.  Maent yn rhoi adborth llafar adeiladol ac anogol i helpu dysgwyr ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.  Mae llawer yn monitro ac yn cynorthwyo dysgwyr yn dda wrth iddynt weithio, ac yn darparu hyfforddiant unigol buddiol.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau ymhellach drwy astudio tu allan i'r dosbarth.  Mae hyn yn rhoi mwy o hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r hyn maent yn ei ddysgu mewn gweithgareddau hamdden a gwaith.

Darperir adborth ysgrifenedig rheolaidd buddiol i ddysgwyr gan y rhan fwyaf o diwtoriaid.  Mewn ychydig o achosion, nid yw eu hadborth ysgrifenedig yn rhoi arweiniad clir i ddysgwyr ynglŷn â'r camau nesaf yn eu dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn olrhain cynnydd dysgwyr ac yn defnyddio'u cynlluniau dysgu unigol i helpu dysgwyr adolygu eu cynnydd eu hunain.

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned

Defnyddir ystod eang o adnoddau gan y rhan fwyaf o diwtoriaid i gefnogi a gwella dysgu, ac maent yn manteisio ar ddyfeisiau symudol dysgwyr, byrddau gwyn rhyngweithiol a meddalwedd addysgu defnyddiol.  Mewn ychydig iawn o leoliadau cymunedol, mae diffyg cysylltedd rhyngrwyd yn rhwystro cyfle dysgwyr i ddefnyddio'u dyfeisiau symudol yn llawn mewn sesiynau llythrennedd digidol.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, gyda chysylltiadau ag ystod o destunau, fel gwyliau, byw yng Nghymru neu newid hinsawdd.  Mae partneriaethau'n darparu ystod briodol o weithgareddau sy'n cefnogi dysgu, fel nosweithiau rhyngwladol lle mae dysgwyr SSIE ac aelodau'r cyhoedd yn blasu ac yn gwerthfawrogi bwyd, iaith a diwylliant ei gilydd.

Mae partneriaethau'n defnyddio arbenigedd partneriaid unigol i gynnig ystod briodol o fedrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a chyrsiau SSIE i fodloni anghenion lleol ac adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.  Yn gyffredinol, maent yn recriwtio'n dda i'r cyrsiau hyn. Mewn un bartneriaeth, fodd bynnag, mae llawer o'r ddarpariaeth mewn nifer fach o brif ganolfannau, tra bod darpariaeth mewn canolfannau cymunedol eraill yn gyfyngedig.

Yn ogystal, mae partneriaethau'n darparu ychydig iawn o gyrsiau hunangyllidol, ac yn gweithio'n ddefnyddiol gyda nifer fach o bartneriaid eraill i ddarparu ychydig o gyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr mewn cymunedau lleol.  Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys cynorthwyo dysgwyr a thiwtoriaid i droi ychydig iawn o gyrsiau hirsefydlog yn glybiau gyda diben mwy cymdeithasol, a gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i gyflwyno rhaglenni bwyta'n iach.  Mewn ychydig o achosion, mae partneriaid wedi dechrau gweithio gyda busnesau cenedlaethol a lleol i uwchsgilio medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol gweithwyr yn y gweithle.  Hefyd, mae partneriaethau'n darparu llwybrau dilyniant defnyddiol i gyrsiau dysgu oedolion eraill yn ogystal â mynd ymlaen at ddarpariaeth addysg bellach ac addysg uwch.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda yn y ddwy bartneriaeth a arolygwyd.  Mae ffocws clir ar ddatblygu medrau, hyder, iechyd a lles dysgwyr gan diwtoriaid a staff cymorth ar draws y partneriaethau.

Mae bron yr holl diwtoriaid yn ymwybodol o anghenion unigol ac ymrwymiadau dysgwyr ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt.  Mae llawer yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn dda.  Maent yn ystyriol o ymrwymiadau dysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ac fel arfer maent yn hyblyg wrth weithio i helpu dysgwyr gael y mwyaf o'u dysgu.

Mae systemau effeithiol gan lawer o bartneriaid i nodi, gwirio a monitro cymorth dysgu, lles a phatrymau presenoldeb.  Fodd bynnag, nid yw partneriaethau bob amser yn defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid unigol i fonitro patrymau mewn presenoldeb neu les ar draws y ddarpariaeth gyfan.

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae partneriaethau'n nodi anghenion dysgwyr trwy geisiadau am gyrsiau, cyfweliadau arweiniad ac arsylwadau tiwtoriaid yn ogystal â thrwy hunanddatganiadau dysgwyr. Lle bo'n briodol, mae dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol ar ddechrau eu rhaglen. Ar draws y partneriaethau, ceir anghysondebau yn y defnydd o asesiadau cychwynnol i nodi mannau cychwyn dysgwyr yn gywir.

Mae partneriaethau'n dod o hyd i, ac yn darparu, cymorth gwerthfawr i helpu dysgwyr oresgyn ystod o rwystrau i'w dysgu a'u datblygiad personol. Er enghraifft, mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi anghenion penodol dysgwyr yn dda, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef gorbryder cymdeithasol, anawsterau llythrennedd a namau ar y clyw. Mewn rhaglenni blynyddoedd cynnar a dysgu fel teulu, mae tiwtoriaid yn cynorthwyo rhieni i adeiladu rhwydweithiau cymorth cymheiriaid cryf, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ymgysylltiad dysgwyr.

Mae partneriaethau a thiwtoriaid yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau a llwyddiannau eu dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i ddysgwyr sy'n agored i niwed o ran helpu meithrin eu hunanbarch. Mae llawer o ddysgwyr yn cyfranogi mewn gweithgareddau dathlu lleol ac mae ychydig yn cael cydnabyddiaeth mewn digwyddiadau dathlu cenedlaethol.

Mae partneriaid yn defnyddio timau gwasanaethau dysgwyr ac asiantaethau allanol priodol yn addas i gynorthwyo dysgwyr â phroblemau penodol, fel camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Hefyd, maent yn darparu cyngor defnyddiol i ddysgwyr am gyllid myfyrwyr a sut i wneud cais am gymorth ariannol. Mewn ychydig o achosion, mae partneriaethau'n defnyddio cyllid cymorth dysgu ychwanegol i gefnogi dysgwyr perthnasol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydynt yn rheoli cyllid cymorth dysgu ychwanegol yn ddigon da. Yn benodol, nid ydynt yn olrhain cymorth ychwanegol yn ddigon systematig i ddeall effaith y cyllid ar ddilyniant a lles dysgwyr yn llawn.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa o gael cyngor ac arweiniad diduedd a gweithgareddau sefydlu defnyddiol pan fyddant yn ymuno â'u rhaglen ddysgu. Mae bron yr holl ddysgwyr naill ai'n derbyn canllawiau dysgwyr defnyddiol neu'n cael eu cyfeirio at wybodaeth ar-lein am gyllid, cymorth dysgu ac iechyd a diogelwch. Mewn ychydig o achosion, nid yw partneriaethau bob amser yn darparu ffordd gyfleus i ddysgwyr ddod o hyd i fanylion am yr holl gyfleoedd dysgu sydd ar gael yn eu hardaloedd.

Rhoddir hyfforddiant gwerth chweil ar ddiogelu a'r strategaeth Atal i'r holl staff bron. Mae llawer o diwtoriaid yn cynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o gadw'n ddiogel, gan gynnwys rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, fel rhan o weithgareddau sefydlu.

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda yn un o'r partneriaethau a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Mae gweledigaeth glir gan arweinwyr a rheolwyr yn y ddwy bartneriaeth gyda nodau, amcanion a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio'n addas ar fodloni anghenion llawer o ddysgwyr lleol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae partneriaethau wedi sefydlu ethos o gydweithio wrth gyflwyno cyrsiau mewn ardaloedd blaenoriaeth allweddol cytûn. Mewn un bartneriaeth, ceir ffocws clir ar fedrau hanfodol a SSIE, ac yn y llall ceir ethos o 'weithredu heddiw ar gyfer yfory gwell'. Mae arweinwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd i yrru blaenoriaethau strategol yn eu blaen.

Ceir ffocws priodol yn y ddwy bartneriaeth ar dargedau cyflawni, gwella ansawdd a chynllunio cwricwlwm ar y cyd. Mae ganddynt gylchoedd clir o weithgareddau sicrhau ansawdd a gefnogir gan strwythurau a gweithdrefnau perthnasol yn gyffredinol.

Mae arweinwyr yn pennu disgwyliadau priodol ar gyfer staff a dysgwyr, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir, ac yn ymgymryd â nhw'n dda. Lle ceir arweinyddiaeth dda, mae arweinwyr wedi cynnal safonau darpariaeth uchel ac maent yn gwybod yn dda beth yw eu prif gryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn diffinio camau perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella mewn graddfeydd amser realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni yn briodol. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu system drylwyr o arsylwadau addysgu a dysgu, a cheir cylchoedd arsylwi wedi'u diffinio'n glir ym mhob un o'r prif ddarparwyr. Mae'r arsylwadau hyn yn nodi arfer dda a meysydd i'w gwella yn addas ac yn helpu llywio'r rhaglen dysgu proffesiynol parhaus.

Lle mae angen gwella'r arweinyddiaeth, er bod partneriaid yn gweithredu eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain, mae methodoleg ac ansawdd arsylwadau gwersi yn amrywio gormod rhwng partneriaid. Er enghraifft, mae gwerthusiadau o arsylwadau gwersi yn canolbwyntio ar addysgu yn bennaf ac nid ydynt yn adolygu cynnydd ac ymgysylltiad dysgwyr yn ddigon cryf. O ganlyniad, dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan y bartneriaeth o gynnydd dysgwyr ar draws ystod y darparwyr. Yn gyffredinol, nid yw prosesau hunanwerthuso ar lefel partneriaeth yn ddigon gwerthusol a dibynnir yn ormodol ar ddata i farnu safonau addysgu a dysgu.

Mae partneriaid yn darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer staff, gan gynnwys ar themâu fel addysgu dwyieithog, iechyd a lles. Lle mae arweinyddiaeth yn dda, mae aelodau'r bartneriaeth yn gweithio'n dda â'i gilydd i fonitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar ddysgu ac addysgu. Lle mae angen gwelliant, mae diffyg eglurder ar lefel partneriaeth ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol ac nid yw partneriaid yn rhannu arfer dda yn ddigon effeithiol.

Mae gan bartneriaethau ddealltwriaeth gadarn o'u hincwm a'u gwariant, ac maent yn rheoli'u cyllidebau ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn briodol. Mae ganddynt lefelau perthnasol o staff â chymwysterau addas ac adnoddau.

### Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful

Mae rhaglenni teulu a rhianta yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fedrau a datblygiad personol dysgwyr ac ar fywydau dysgwyr a'u teuluoedd.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolion yn y gymuned

Mewn ychydig o achosion, mae'r partneriaethau wedi llwyddo i gael ffynonellau cyllid ychwanegol, fel grant datblygu digidol gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiant y cyllid hwn yn dda i ehangu'r ddarpariaeth a darparu mynediad gwerthfawr i gyfleoedd dysgu. Yn gyffredinol, mae adeiladau yn addas i gefnogi addysgu a dysgu. Mae arweinwyr mewn un bartneriaeth wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth sefydlu hybiau cymunedol i sicrhau bod darpariaeth a chyfleusterau wedi'u lleoli yn yr ardaloedd lle ceir yr angen cymdeithasol ac economaidd mwyaf a'u bod ar gael yn hygyrch i ddysgwyr.

Yn 2020, cynhaliodd Estyn arolwg thematig **'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol'** (Estyn, 2020f). Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod arweinwyr a staff mewn ysgolion cymunedol sydd ag ymgysylltiad cryf â rhieni yn meithrin medrau, hyder a hunan-barch eu rhieni. Mae'r adroddiad yn amlygu hefyd sut mae rhaglenni dysgu i deuluoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu rhieni i wella eu gallu i gynorthwyo eu plant. Yn aml, mae'r rhaglenni hyn yn cynorthwyo rhieni i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

## 1 Cyd-destun

Yn y flwyddyn academaidd hon, ni wnaethom arolygu partneriaethau addysg gychwynnol athrawon yn ffurfiol, gan ein bod yn treialu methodoleg arolygu newydd gyda phartneriaethau sy'n alinio â'r gweithdrefnau achredu newydd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon. Bydd y cylch arolygiadau newydd yn dechrau ym Medi 2021.

Yn dilyn y trefniadau achredu diwygiedig ar gyfer addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru, ar hyn o bryd mae pedair partneriaeth (sy'n cynnwys sefydliadau addysg uwch a'u hysgolion partner) yn darparu rhaglenni AGA newydd eu hachredu yng Nghymru.  Bydd tair partneriaeth ychwanegol yn darparu AGA yng Nghymru o Fedi 2020.

Mae'r rhaglenni hyn, ynghyd â'r ddarpariaeth waddol sy'n weddill mewn AGA i israddedigion, y Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion, yn darparu set amrywiol o lwybrau i fod yn athro cymwys yng Nghymru.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

I baratoi ar gyfer y cylch arolygu newydd, rydym yn datblygu ein dulliau arolygu trwy ymgynghori â'r sector. Mae arweiniad arolygu wedi'i ddrafftio i adlewyrchu Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, **Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth** (Llywodraeth Cymru, 2020ll), a'r **Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru** (Llywodraeth Cymru, 2018b). Mae'r rhaglenni AGA newydd a ddechreuodd ym Medi 2019 yn mynnu:

- rôl gynyddol ar gyfer ysgolion
- rôl gliriach ar gyfer prifysgolion
- cydberchnogaeth o'r rhaglen AGA rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch
- cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu yn yr ysgol a'r brifysgol
- y lle canolog sydd i ymchwil

Er mwyn sicrhau bod y dulliau arolygu newydd yn helpu arolygwyr i gasglu tystiolaeth sy'n adlewyrchu diwygiadau mewn AGA, ac i gefnogi datblygu arfer effeithiol yn y sector, dechreuom raglen o weithgareddau peilot 'arbrofi'. Fe wnaethom gwblhau dau arbrawf yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r arbrofion yn ein galluogi i roi dulliau arolygu ar brawf mewn cydweithrediad â'r partneriaethau newydd. Gyda'n gilydd, nodom bum maes ffocws sydd wedi'u cynllunio i roi dulliau arolygu gwahanol ar brawf, sef:

- cydarweinyddiaeth y rhaglenni rhwng y brifysgol a'i hysgolion partner
- datblygu ymarfer ymchwilio yn y brifysgol ac mewn ysgolion, a sut mae hyn yn effeithio ar safonau athrawon dan hyfforddiant
- pa mor dda y mae'r rhaglenni yn cyfuno theori ac ymarfer wrth gysylltu dysgu mewn ysgolion ac yn y brifysgol
- pa mor dda y mae'r rhaglenni yn paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru
- cynnydd myfyrwyr dros gyfnod eu rhaglen

Rydym yn cynllunio'r arbrofion mewn cydweithrediad â'r partneriaethau i gefnogi'u prosesau ar gyfer gwelliant parhaus. Byddwn yn adrodd y prif negeseuon sy'n deillio o'r gwaith hwn yn ôl i bob partneriaeth ar ddiwedd y broses, ond nid oes adroddiad ysgrifenedig. Roedd adborth o'r ddau arbrawf a gwblhawyd yn gadarnhaol, gan arweinwyr a staff sy'n cyflwyno'r rhaglenni AGA newydd. Fe wnaeth cynllunio gweithgareddau arbrofol ochr yn ochr ag arweinwyr partneriaeth sicrhau bod partneriaethau'n gallu amlygu agweddau newydd ac arloesol ar eu rhaglenni. Hefyd, roedd cynnwys arolygwyr cymheiriaid o bartneriaethau eraill yn yr ymweliadau yn golygu bod arweinwyr partneriaeth wedi gallu rhannu arfer.

Yn ychwanegol at y gwaith hwn, rydym wedi cadw mewn cysylltiad â'r partneriaethau AGA trwy gydol y pandemig COVID-19. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd ymgysylltu rhithiol gyda darparwyr unigol ac arweinwyr AGA consortia rhanbarthol, ac wedi gweithio gyda'r sector i ddatblygu ein deunyddiau arweiniad arolygu.

Mae recriwtio i Addysg Gychwynnol Athrawon yn parhau'n bryder yng Nghymru, fel yn Lloegr (Sibieta, 2020). Yn 2019-2020, fe wnaeth rhaglenni cynradd recriwtio'n fwy llwyddiannus na rhaglenni uwchradd, gydag ychydig o dan 600 o fyfyrwyr yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol gynradd ar y rhaglenni newydd. Mae hyn gyfwerth ag 86% o'r ffigur targed.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

Recriwtiodd rhaglenni cynradd ôl-raddedig yn fwy effeithiol na rhaglenni israddedig, gan gyflawni 95% o'r targed. Recriwtiodd rhaglenni uwchradd lai na 50% o'r nifer darged. Fe wnaeth ychydig o bynciau recriwtio'n wael iawn. Roedd cyfrannau'r myfyrwyr yn hyfforddi i fod yn athrawon ffiseg, technoleg gwybodaeth a dylunio a thechnoleg yn llai nag 20% o'r ffigurau targed ar gyfer pob pwnc.[9]

Er bod niferoedd y myfyrwyr a recriwtiwyd i raglenni yn 2019-2020 islaw'r targed a osodwyd ar gyfer AGA yng Nghymru, mae'r adroddiad diweddaraf gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS, 2020) yn dynodi y bu cynnydd nodedig yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni AGA yn 2020-2021. Mae'r data'n awgrymu bod y cynnydd hwn wedi digwydd yn sgil effaith COVID-19.

Yn Nhachwedd 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen drosi newydd ar gyfer athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg sydd eisiau addysgu mewn ysgolion uwchradd. Nod y rhaglen yw cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu ar lefel uwchradd er mwyn bodloni'r galw cynyddol am athrawon cyfrwng Cymraeg.

Yn 2019, roedd 293 o Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) cynradd a 326 o ANG uwchradd yng Nghymru, sef gostyngiad o ryw 13% ers 2015 (CGA, 2020).

[9] Data heb ei gyhoeddi gan y CGA



# Adran 1

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

1

## Cyd-destun

Yn 2016, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am y sector Cymraeg i Oedolion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan Genedlaethol). Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn dyrannu cyllid ac yn cynnig cyfeiriad strategol a sicrwydd ansawdd yn y sector. Mae'n ariannu 11 o ddarparwyr i gyflwyno cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd daearyddol dynodedig, a adwaenir fel darparwyr Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno'r rhaglen 'Cymraeg Gwaith' er mwyn cryfhau medrau dwyieithog yn y gweithle.

Ar ôl gweithredu Cynllun Rheoli Data'r Ganolfan Genedlaethol yn 2017-2018, hon yw'r ail flwyddyn lawn y mae data cenedlaethol ar gael ar gyfer y sector. Yn ogystal â'r cyrsiau Dysgu Cymraeg yr adroddwyd arnynt yn 2017-2018, mae ffigurau 2018-2019 yn cynnwys dysgwyr ar gyrsiau Cymraeg Gwaith a Chlwb Cwtsh (rhaglen dysgu fel teulu). Dechreuodd cyrsiau Cymraeg Gwaith yn Ebrill 2019 yn ystod y flwyddyn adrodd, a dim ond cyrsiau a ddaeth i ben erbyn Gorffennaf 2019 sydd wedi'u cynnwys yn nata 2018-2019. Yn 2018-2019, fe wnaeth 13,260 o ddysgwyr unigol sy'n oedolion gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion gyda'r darparwyr hyn, sef cynnydd o 5% o gymharu â 2017-2018. Fe wnaeth nifer gyffredinol y gweithgareddau dysgu gynyddu 4%, o 19,490 yn 2017-2018 i 20,330 yn 2018-2019. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cyhoeddi gyntaf ynglŷn ag oedran dysgwyr, a gyfrifwyd o 1 Awst 2018, yn dangos bod 80% o ddysgwyr rhwng 16 a 64 mlwydd oed (Llywodraeth Cymru, 2019c).

# Crynodebau sector:
## Cymraeg i Oedolion

Mae darparwyr yn cynnig cyfleoedd dysgu ar bum lefel.  Yn 2018-2019, roedd cyfrannau'r dysgwyr a oedd yn astudio ar lefelau gwahanol fwy neu lai'n gyson â'r flwyddyn flaenorol, gyda 51% o ddysgwyr ar lefel mynediad (dechreuwyr), 17% ar lefel sylfaen a 32% ar lefelau canolradd neu uwch, (gan gynnwys cyrsiau lefel hyfedredd).  Mae amcan strategol gan y Ganolfan Genedlaethol i gynyddu cyfran y dysgwyr sydd ar gyrsiau dwysach, er mwyn cyflymu eu cynnydd tuag at fod yn rhugl. Yn 2018-2019, cynigiodd 10% o'r cyfleoedd dysgu ar y lefel ddwyster uchaf (110 neu fwy o oriau o ddysgu dan arweiniad), sef gostyngiad o ddau bwynt canran o gymharu  â'r flwyddyn flaenorol (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Eleni, fe wnaethom arolygu dau ddarparwr Cymraeg i Oedolion.  Yn ystod yr arolygiadau, hyn buom yn arsylwi ychydig iawn o wersi Cymraeg Gwaith yn ogystal.

### Safonau

Mae safonau yn dda yn y ddau ddarparwr Cymraeg i Oedolion a arolygwyd.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefel mynediad a lefel sylfaen yn gwneud cynnydd cyflym mewn dysgu ac wrth ymarfer patrymau sylfaenol.  Maent yn gwrando'n astud, yn deall ac yn ymateb yn briodol i'r tiwtor.  Mae'r rhan fwyaf yn cofio'u dysgu blaenorol yn dda ac yn dechrau addasu eu medrau i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol.  Maent yn ynganu'n dda, ar y cyfan.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn dosbarthiadau lefel uwch yn gwneud cynnydd pwrpasol iawn wrth ddatblygu eu medrau siarad.  Maent yn siarad gyda rhuglder datblygol ac yn defnyddio ystod gynyddol o amseroedd, ffurfiau berfau a geirfa.  Mae'r dysgwyr hyn yn dyfnhau eu gwybodaeth am ramadeg a strwythur y Gymraeg.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel hyfedredd yn dod yn siaradwyr rhugl, croyw sy'n gallu cyfrannu at amrywiaeth eang o drafodaethau heriol, fel sut mae brawddegau'n cael eu strwythuro yn Gymraeg.  Mae ychydig iawn o ddysgwyr ar bob lefel yn amharod i siarad yn ystod sesiynau dosbarth cyfan, neu maent yn cynnig ymatebion byr yn hytrach nag ymestyn eu hatebion, ac mae hyn yn cyfyngu eu cynnydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'u medrau darllen yn dda.  Mae dysgwyr sy'n newydd i ddysgu'r iaith yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddarllen brawddegau byr syml a deialogau, ac yn dysgu i'w darllen ar goedd yn hyderus ac yn naturiol.  Mae dysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch yn darllen gyda mwy a mwy o hyder a rhuglder.  Gwneir cynnydd gwerthfawr gan y rhan fwyaf mewn darllen, deall ac ymateb i ystod eang o destunau ffeithiol a ffuglennol.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel hyfedredd yn darllen testunau mwy datblygedig yn dda, yn deall geirfa fwyfwy cymhleth ac yn datblygu'r hyder i ddelio â thafodieithoedd rhanbarthol gwahanol.

Ar draws y lefelau gwahanol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol.  Ar lefelau mynediad a sylfaen, maent yn ysgrifennu brawddegau byr ac yn dangos cynnydd da wrth ddefnyddio amrywiaeth o amseroedd a geirfa.  Mae llawer o ddysgwyr canolradd ac uwch yn ysgrifennu at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ramadeg.  Mae llawer o ddysgwyr lefel hyfedredd yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig aeddfed a soffistigedig sy'n dangos hyblygrwydd ieithyddol a huodledd.

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

Ar draws y lefelau, mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau ac yn parhau i'r lefel nesaf.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o'r lefel ganolradd ymlaen yn cwblhau eu cyrsiau, yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol ac yn defnyddio ystod eang o adnoddau i ehangu eu medrau iaith.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Yn y ddau ddarparwr a arolygwyd, mae lles ac agweddau at ddysgu yn rhagorol.  Mae brwdfrydedd dysgwyr tuag at gaffael yr iaith yn nodwedd nodedig.  Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn frwd ynghylch dysgu Cymraeg.  Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn dangos lefelau ymrwymiad eithriadol o uchel trwy deithio cryn bellter i fynychu gwersi.

Mae bron yr holl ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned ddysgu gynhwysol sy'n bodoli yn y ddau ddarparwr.  Maent yn cymryd rhan mewn arolygon dysgwyr a chyfleoedd i ddweud eu dweud a dylanwadu'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddo i weithio'n dda gyda'u cyd ddysgwyr mewn gwersi.  Maent yn dangos eu bod yn gallu canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau wrth ddysgu a defnyddio elfennau ieithyddol newydd.  Maent yn cefnogi'i gilydd drwy gynorthwyo ac annog ei gilydd yn sensitif i ddefnyddio ac ehangu eu medrau Cymraeg.

Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth a dod yn rhan o'r gymuned ehangach sy'n siarad Cymraeg.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr yn rhagweithiol wrth drefnu cyfleoedd gwerthfawr iawn iddyn nhw'u hunain ac eraill i gymdeithasu a chyfranogi mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn y ddau ddarparwr a arolygwyd, mae addysgu a phrofiadau dysgu yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn datblygu perthnasoedd gweithio hynod gadarnhaol gyda dysgwyr.  Yn addysgwyr brwdfrydig, maent yn llwyddo i ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol.  Maent yn cyflwyno'r iaith mewn ffordd ddifyr sy'n datblygu gwybodaeth dysgwyr am y Gymraeg.  O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da, yn mwynhau eu dysgu ac yn falch o fod yn rhan o gymuned ddysgu frwd.

Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ac maent yn modelu patrymau iaith a chystrawennau yn effeithiol ar gyfer dysgwyr ar bob lefel.  Gwna'r rhan fwyaf ddefnydd rhagorol o Gymraeg i drochi dysgwyr yn yr iaith.  Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn siarad Cymraeg digon mewn gwersi i fodelu'r iaith ac i helpu dysgwyr baratoi ar gyfer gweithgareddau siarad.  Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd.

# Crynodebau sector:
# Cymraeg i Oedolion

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflymder dysgu, ynghyd â gweithgareddau difyr, yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu medrau ieithyddol yn briodol, yn unol â'u lefel.  Mae tiwtoriaid yn defnyddio cwestiynau'n fedrus i helpu dysgwyr ymestyn eu hymatebion a defnyddio'r iaith yn annibynnol.  Maent yn defnyddio TGCh ac yn gwneud defnydd da o'r ystod helaeth o adnoddau electronig sy'n cael eu darparu gan y Ganolfan Genedlaethol.  Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu adborth adeiladol i ddysgwyr i'w helpu i wella'u medrau.

Mae'r ddau ddarparwr yn cynnig ystod eang o weithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n sicrhau llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr.  Mae gweithgareddau anffurfiol yn gwella hyder dysgwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi, ac maent yn cynnwys sesiynau i ymarfer siarad ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb diwylliannol.  Mae'r teithiau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ehangu gwybodaeth dysgwyr am hanes a diwylliant Cymru, yn ychwanegol at yr iaith.  Mae'r ddau ddarparwr yn pwysleisio bod y broses o ddysgu Cymraeg yn dechrau yn yr ystafell ddosbarth a'i bod yn datblygu ymhellach drwy ymarfer a defnyddio'r iaith mewn gweithgareddau anffurfiol.  O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'u medrau Cymraeg y tu allan i wersi mewn gweithgareddau fel boreau coffi, clybiau brecwast, hanes a dawns, yn ogystal â chorau ac eisteddfodau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol yn y ddau ddarparwr a arolygwyd gennym.  Mae'r ddau ddarparwr yn cyflawni safonau uchel iawn o ofal, cymorth ac arweiniad ac maent yn effeithiol iawn wrth gynorthwyo dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny a allai fel arall adael eu cyrsiau yn ystod y flwyddyn.

Yn y ddau ddarparwr, mae staff yn ymroddedig iawn i greu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol sy'n annog dysgwyr i ymarfer eu medrau heb ofni gwneud camgymeriadau.  Mae bron yr holl diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio'r dysgu yn effeithiol tuag at ofynion addysgol neu bersonol unigol dysgwyr.  Mae tiwtoriaid yn cysylltu â'r dysgwyr hynny sy'n colli gwersi ac yn cynnig cymorth unigol gwerthfawr.  Oherwydd hynny, mae llawer o ddysgwyr sydd mewn perygl o adael yn parhau â'u cyrsiau.  Ceir trefniadau effeithiol yn y ddau ddarparwr ar gyfer nodi ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i helpu dysgwyr i ddod o hyd i'r cwrs cywir iddyn nhw.  Mae bron pob tiwtor yn cynorthwyo dysgwyr i osod targedau personol defnyddiol, gwerthuso cynnydd, a chynllunio camau nesaf eu dysgu.

Mae'r ddau ddarparwr yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi'u barn yn ffurfiol ac yn anffurfiol.  O ganlyniad, mae dysgwyr yn gallu cyfrannu'n adeiladol at wella'r ddarpariaeth a delio ag unrhyw faterion bugeiliol.

### Dysgu Cymraeg Gwent

Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol sy'n llwyddo i fodloni anghenion dysgwyr yn dda.  Mae staff yn datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol iawn gyda'r dysgwyr yn eu gofal.  Oherwydd hyn, mae staff yn darparu cymorth effeithiol iddynt heb oedi, sydd yn ei dro yn sicrhau bod y darparwr yn cadw dysgwyr a fyddai fel arall mewn perygl o adael eu cyrsiau.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yn un o'r darparwyr Dysgu Cymraeg ac yn dda yn y llall.

Mae'r ddau ddarparwr wedi llwyddo i greu ethos cynhwysol sy'n dathlu brwdfrydedd a dyhead dysgwyr i fod yn rhugl yn y Gymraeg, ac mae hyn yn treiddio i bob agwedd ar eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n dda ar sut i wella darpariaeth er mwyn gwella profiadau dysgwyr. Maent yn bodloni blaenoriaethau strategol y sector fel y'u pennwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae darparwyr yn cyfathrebu'n dda â staff a dysgwyr ac mae ganddynt systemau addas ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. At ei gilydd, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u cryfderau a meysydd i'w gwella, ac maent yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i staff. Mewn ychydig iawn o achosion, nid ydynt yn amlygu meysydd i'w datblygu mewn addysgu yn ddigon da.

Mae'r ddau ddarparwr yn gweithio'n effeithiol i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn eu darparwr lletyol ac yn y gymuned ehangach. Mewn un darparwr, mae Cymraeg i Oedolion yn cyflawni rôl ganolog yng nghynllunio strategol y coleg i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ei waith, yn fewnol ac yn allanol. O ganlyniad, gwnaiff gyfraniad gwerthfawr iawn tuag at wireddu gweledigaeth polisi Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (2017).

## Cymraeg Gwaith

Rhaglen a gyflwynir gan y Ganolfan Genedlaethol yw Cymraeg Gwaith, i gryfhau medrau Cymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â darparu cyrsiau cyffredinol sy'n targedu ystod eang o anghenion gweithwyr, mae'n cynnig hyfforddiant pwrpasol i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal plant a busnesau yn ogystal ag addysg bellach ac addysg uwch. Hefyd, mae'n darparu cwrs cyflwyniadol ar-lein i gefnogi defnyddio Cymraeg yn y gweithle.


Eleni, fe wnaethom arsylwi nifer fach o wersi Cymraeg Gwaith. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r gwersi hyn yn dangos hyder cynyddol yn eu medrau Cymraeg ac maent yn falch i egluro sut maent yn defnyddio'r medrau hyn yn y gwaith erbyn hyn.

### Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain

Mae Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain yn rhan bwysig a gwerthfawr o Goleg Cambria ac yn cyfrannu'n effeithiol at y nod yng nghynllun strategol y coleg i ehangu cyfleoedd dwyieithog i gymunedau ar gyfer cymunedau yng ngogledd ddwyrain Cymru. Mae'n llwyddo'n dda i gefnogi Coleg Cambria yn strategol ac yn weithredol i weithio tuag at nodau Llywodraeth Cymru yn ei pholisi Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017).

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence



# Adran 1

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

## 1 Cyd-destun

Eleni, ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau o Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG), sy’n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales.

Ffurfiwyd y cwmni yn 2013 ac mae’n is-gwmni a berchnogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae’n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pob oedran, annibynnol a diduedd ar gyfer Cymru.

Amlinellir y gofynion ar gyfer gwasanaethau Gyrfa Cymru mewn llythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, 2019). Nod y gwasanaeth yw helpu pobl i wneud penderfyniadau effeithiol o ran cynllunio eu gyrfaoedd, a datblygu o fewn hyfforddiant, dysgu pellach neu gyflogaeth. Trwy wneud hyn, ei nod yw cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol Cymru.

Yn y cyfnod er 2010, mae newidiadau yn ei gylch gwaith a gostyngiadau yn ei gyllideb weithredu wedi arwain at lawer o newidiadau i strwythur, staffio a rôl y cwmni, gan gynnwys y ffaith ei fod wedi tynnu’n ôl o gefnogi pobl ifanc i gael profiad gwaith. Ym mis Ebrill 2017, lansiodd Gyrfa Cymru eu gweledigaeth am dair blynedd, sef ‘Newid Bywydau’ (2017). Yn sgil y weledigaeth, canolbwyntiwyd o’r newydd ar adnoddau i bobl ifanc, gyda phwyslais penodol ar gyfnod allweddol 4 a chymorth mewn cyfnodau pontio eraill, hyd at 19 oed. Mae’r gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i’r cwmni wedi cynyddu pwysigrwydd y rôl sydd gan ysgolion yn helpu pobl ifanc i gynllunio eu dilyniant gyrfa.

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd

Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddom adroddiad thematig ar **'Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig'** (Estyn, 2020l). Mae'r adroddiad hwn yn nodi, pan fydd ysgolion yn ymgysylltu'n dda ac yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth well o fyd gwaith a'r medrau a'r priodoleddau sydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth hwn fel arfer yn dibynnu ar weledigaeth ac ysgogiad y pennaeth, uwch reolwyr a staff yr ysgol. Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad yn ymgymryd â menter Cyfnewidfa Addysg Busnes Gyrfa Cymru ac yn gwahodd cyflogwyr i ymweld â'r ysgol i siarad â dysgwyr am eu gyrfaoedd. Yn aml, mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais ffug a chymryd rhan mewn chwarae rôl cyfweliad.

Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynnig profiad gwaith i ddysgwyr erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y bu llawer o ysgolion yn araf i ymateb i'r newid yng nghyfrifoldebau Gyrfa Cymru. Mae ysgolion sydd wedi cynnal aelod o staff sy'n gyfrifol am yrfaoedd yn aml yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith. Mae ychydig o ysgolion yn cydweithio i ariannu'r costau i sicrhau bod lleoliadau gwaith yn ddiogel a saff ar gyfer dysgwyr, a bod cyflogwyr yn cael eu harchwilio. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maent yn disgwyl i ddysgwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain, gyda rhywfaint o gymorth gan yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd cyflawni hyn.

Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnal ffair yrfaoedd flynyddol ar gyfer eu dysgwyr, y maent yn gwahodd cyflogwyr lleol a chenedlaethol, colegau, prifysgolion a darparwyr eraill iddi. Mae dysgwyr yn mynychu'r ffair i siarad â chyflogwyr a thrafod eu hopsiynau gyrfa, ond nid yw llawer o ysgolion yn mesur effaith y ffeiriau gyrfaoedd hyn yn ddigon da. Cafodd yr amrywioldeb hwn yn y ddarpariaeth agweddau gwahanol ar addysg yrfaoedd ei nodi hefyd mewn ymchwil gan Millards et al (2019) a nododd wyth o rwystrau cyffredin rhag addysg yrfaoedd effeithiol, yn cynnwys materion yn ymwneud â gwybodaeth athrawon, y rhaniad llafur rhwng ysgolion a phartneriaid allanol ac amser, blaenoriaethu ac ymrwymiad.

Cyhoeddom adroddiad thematig hefyd ar **'Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch'** (Estyn, 2020c). Canfu'r adroddiad, yn y rhan fwyaf o opsiynau pwnc, bod dysgwyr yn gyfarwydd â'r pynciau y maent yn ystyried eu hastudio i Safon Uwch drwy fod wedi'u hastudio ar gyfer TGAU. Fodd bynnag, gyda phynciau newydd, fel astudiaethau busnes neu astudiaethau cymdeithasol, mae dysgwyr yn ei chael yn anodd ennill digon o ddealltwriaeth o'r opsiynau ar Safon Uwch i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus a'u paratoi'n ddigon da ar gyfer gofynion astudio Safon Uwch. Mae'r rhai sy'n symud ymlaen i astudio ar lefel gradd yn cael cyngor buddiol am fynd i mewn i'r brifysgol.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder

1

## Cyd-destun

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o’r saith o garchardai yng Nghymru, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o’r 17 o dimau troseddau ieuenctid, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o’r cartref diogel i blant.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder

## Carchardai a'r sefydliad troseddwyr ifanc

Eleni, gweithiodd Estyn gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i arolygu un carchar i oedolion ac un sefydliad troseddwyr ifanc. Gellir gweld yr adroddiadau hyn yma:

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Mae bron yr holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd da tuag at eu nodau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau a fyddai'n eu cefnogi i symud ymlaen at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn y ddarpariaeth i oedolion, roedd ychydig o ddysgwyr wedi gwella o lefel mynediad i lefel 3 ac roedd ychydig ohonynt yn gweithio tuag at raddau lefel Meistr. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, mae bron yr holl ddysgwyr yn cyflawni nifer o gymwysterau, ac mae ychydig ohonynt â dedfrydau hwy yn cyflawni lefelau TGAU ac UG.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae bron pawb yn gwella o leiaf un lefel uwchlaw eu lefel pan ddônt i mewn. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, maent i gyd bron yn dysgu medrau newydd i'w helpu pan gânt eu rhyddhau, fel medrau TGCh neu gyllidebu a rheolaeth ariannol. Hefyd, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau'n gysylltiedig â gwaith ac yn ennill cymwysterau sylfaenol gan eu galluogi i symud ymlaen at lefelau medrau uwch neu i geisio cyflogaeth pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn sesiynau ac yn dangos agweddau cyson at ddysgu. Yn y ddarpariaeth i oedolion, mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â phrosiectau cymunedol gwerth chweil.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth am y farchnad lafur ac adborth dysgwyr i gryfhau'r cwricwlwm. Yn y ddarpariaeth i oedolion, mae staff ym mhob gweithdy galwedigaethol wedi ffurfio perthnasoedd gwerthfawr gyda busnesau cysylltiedig yn ddiweddar fel bod dysgwyr yn cael gwybodaeth ddiwydiannol gyfredol i'w helpu i baratoi ar gyfer cyflogaeth. Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau difyr i helpu dysgwyr wneud cynnydd cryf, yn asesu medrau a gwybodaeth dysgwyr yn fedrus yn ystod sesiynau ac yn darparu adborth ac anogaeth fuddiol. Mae bron yr holl staff addysgu yn defnyddio ystod eang o weithgareddau ac adnoddau y maent yn eu haddasu'n dda i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae bron yr holl staff yn rheoli ymddygiad dysgwyr yn dda, gan dawelu ymddygiad gwrthdrawol posibl yn gyflym ac effeithiol.

Mae staff yn darparu cyngor ac arweiniad gwybodus i ddysgwyr ar gyflogaeth a chyfleoedd dilyniant. Mae hyn yn gwella eu siawns o gael cyflogaeth ar ôl gadael y carchar, fel y nodwyd yn **'Education in Prison'** (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, 2019). Mae strategaeth lleihau aildroseddu'r carchar i oedolion wedi lleihau nifer y carcharorion sy'n ddi-waith yn sylweddol. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, ceir trefniadau effeithiol i sefydlu plant mewn addysg a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i addysg ac yn cydnabod ei gwerth wrth leihau ymddygiad aildroseddu. Defnyddir hunanwerthuso gan reolwyr yn dda i lywio'u cynlluniau datblygu ansawdd, gan flaenoriaethu meysydd i'w gwella yn briodol. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, mae'r tîm rheoli cryf yn cyfathrebu â'i gilydd a gyda staff yn dda, ac mae ganddynt ymagwedd gryf o gydweithio sy'n helpu rheolwyr i gynllunio addysg dysgwyr yn briodol. Yn y sefydliad troseddwyr ifanc, mae rheolwyr yn datblygu partneriaethau da gyda nifer o sefydliadau chwaraeon i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi a gweithgareddau dysgu ychwanegol.

## Gwasanaethau troseddau ieuenctid

Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi un arolygiad ar y cyd o wasanaeth troseddau ieuenctid yng Nghymru. Roedd y tîm arolygu yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. Canolbwyntiodd Estyn ar yr addysg a'r hyfforddiant a dderbynnir gan bobl ifanc sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth troseddau ieuenctid. Yn gyffredinol, fe wnaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi raddio'r gwasanaeth troseddau ieuenctid yn 'Annigonol'. Gellir gweld yr adroddiad yma.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gan y gwasanaeth troseddau ieuenctid bartneriaeth gryf gyda Gyrfa Cymru i ddarparu cymorth effeithiol i bobl ifanc trwy dri chynghorydd gyrfaoedd wedi'u secondio. Mae'r gwasanaeth troseddau ieuenctid yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan alluogi pobl ifanc i gael cyfleoedd blasu cyn ymrwymo i lwybr dilyniant. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o weithwyr achos yn deall ystod lawn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Nid oes strategaeth glir i gefnogi dysgwyr sydd â medrau sylfaenol gwael. Nid yw staff yn gwybod ble i atgyfeirio pobl ifanc er mwyn eu helpu i wella'u medrau. Nid yw'r gwasanaeth yn cysylltu'n effeithiol â mentrau awdurdod lleol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob unigolyn ifanc oedran ysgol yn cael cynnig darpariaeth addysg yn amserol. Mae'r diffyg cydlynydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi effeithio'n niweidiol ar obeithion pobl ifanc o wneud cynnydd o fewn addysg statudol. Nid yw staff y gwasanaeth troseddau ieuenctid yn casglu gwybodaeth am gyflawniad pobl ifanc mewn ffordd sy'n galluogi ei dadansoddi neu'i gwerthuso'n systematig. Er bod y gwasanaeth wedi cyflogi nifer o staff dwyieithog ers yr arolygiad diwethaf, nid yw'n gwneud digon i hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel medr cyflogaeth nac i annog dysgwyr a allai siarad Cymraeg i ddefnyddio'r gallu hwn.

## Cartref diogel i blant

Gweithiodd Estyn gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i arolygu'r ddarpariaeth addysg yn y cartref diogel i blant. Gellir gofyn am yr adroddiad hwn yma:

Arolygiaeth Gofal Cymru

### Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

Mae anghenion cymhleth ac amrywiol gan lawer o'r bobl ifanc yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Mae athrawon yn defnyddio dull amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i weithio gyda nhw. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i gynorthwyo dysgwyr a hyrwyddo'u potensial i'r eithaf trwy gyfnod eu dedfryd a thuag at ailsefydlu.

I gael mwy o wybodaeth, darllenwch ein **hastudiaeth achos**

Cydnabod Rhagoriaeth
Recognising Excellence



# Adran 2

# Ymateb i bandemig COVID-19 - Mawrth i Awst 2020

## Mawrth 2020



- Mae Prif Arolygydd Cymru yn cyhoeddi y bydd holl arolygiadau Estyn yn cael eu hatal ar unwaith.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd ysgolion yn cau ar gyfer darpariaeth addysg statudol erbyn 20 Mawrth. Hefyd, mae'n cyhoeddi y bydd arholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael eu hatal ar gyfer haf 2020.



## Ebrill 2020

- Atal Cynnig Gofal Plant Cymru. Defnyddir cyllid i gynorthwyo plant sy'n agored i niwed a chostau gofal plant gweithwyr allweddol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £1.25 miliwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl ychwanegol i blant a allai fod yn profi straen neu orbryder cynyddol o ganlyniad i argyfwng y coronafeirws. Maent yn cyhoeddi £3 miliwn i awdurdodau lleol brynu caledwedd a chysylltiad diogel â'r rhyngrwyd i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn cael eu 'heithrio'n ddigidol'.
- Mae Estyn yn rhyddhau cyngor i arweinwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a CCAC, rydym yn rhyddhau 'Datblygu dulliau i Gefnogi Dysgu o Bell'.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn amlinellu pum egwyddor allweddol ar gyfer pryd a sut byddai ysgolion yn dychwelyd.

1 2 3

4 5

## Mai 2020



**£1.25M**



- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £3.75 miliwn i gefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion, ac yn cyhoeddi Cynllun Gwydnwch COVID-19 ar gyfer y sectorau ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion.

**£3.75M**

## Mehefin 2020

- Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn dechrau ailagor dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer grwpiau blaenoriaethol o ddysgwyr.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd yn defnyddio Deddf Coronafeirws 2020 i ddatgymhwyso gofynion sylfaenol y cwricwlwm i Gymru dros dro.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ailagor i ddysgwyr i roi cyfle iddynt 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf, a mis Medi'.







## Gorffennaf 2020

- Mae Estyn yn cyhoeddi sawl adroddiad thematig a chipolygon penodol i sectorau i gefnogi Cymru i ddal ati i ddysgu.  Ar y cyd â'r 4 consortiwm rhanbarthol, rydym hefyd yn rhyddhau arweiniad 'Modelau dysgu cyfunol' i helpu o fis Medi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil Cwricwlwm ac Asesu i ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau newydd y cwricwlwm ac asesu. Maent yn cyhoeddi cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' i gyflogi 900 o staff addysgu ychwanegol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dros £50 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer prifysgolion a cholegau i gynnal swyddi mewn addysgu, ymchwil a gwasanaethau myfyrwyr, buddsoddi mewn prosiectau i gefnogi adferiad economaidd, a chefnogi myfyrwyr sy'n dioddef o galedi ariannol.

**£50M**

## Awst 2020

- Mae cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei ailsefydlu. Gall rhieni sy'n gweithio fanteisio ar 30 awr o addysg a gofal cynnar eto.
- Mae Estyn yn rhyddhau 'Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau', i gofnodi amrywiaeth o ddulliau i ymateb i heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau addysg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn addo £4 miliwn yn ychwanegol i gefnogi darparwyr gofal plant sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19 a chyllid pellach o hyd at £264 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi ystod o wasanaethau, fel gofal cymdeithasol, addysg a hamdden.
- Mae Ysgrifenyddion Addysg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi y bydd canlyniadau arholiadau wedi'u seilio ar asesiadau athrawon.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn sicrhau na fydd gradd Safon Uwch derfynol dysgwyr yn is na'u gradd UG.  Mae canlyniadau cyhoeddedig TGAU a Safon Uwch diwygiedig sy'n seiliedig ar asesiadau athrawon yn dangos cynnydd nodedig mewn graddau dros flynyddoedd blaenorol.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r trefniadau i ddyfarnu graddau ar gyfer arholiadau haf 2020.

# Adran 2A

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

2

Ar 31 Rhagfyr 2019, cysylltodd awdurdodau Tsieina â Sefydliad Iechyd y Byd (2020a) i'w hysbysu am gynnydd pryderus mewn achosion o niwmonia yr oedd eu 'hachos yn anhysbys'.  Yn dilyn hyn, wythnos yn ddiweddarach, nododd llywodraeth Tsieina ei fod yn fath newydd o goronafeirws (COVID-19), ac yn ddiweddarach, cafwyd datganiad gan Sefydliad Iechyd y Byd (2020b) yn dweud ei fod yn 'Argyfwng Iechyd Cyhoeddus sy'n Destun Pryder Rhyngwladol' ar 30 Ionawr 2020.

Trwy gydol mis Mawrth 2020, dechreuodd effaith COVID-19 ar y DU ddod i'r amlwg. Wrth ymateb i'r *'cyfnod cyfnewidiol a heriol sy'n wynebu ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill o achos COVID-19,'* cyhoeddodd Prif Arolygydd Cymru y byddai holl weithgarwch arolygu ac arolygiadau ar y cyd o leoliadau meithrin nas cynhelir gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael eu hatal o 16 Mawrth.  Dywedodd y Prif Arolygydd (2020a), *'Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn i ganiatáu i arweinwyr a staff ym mhob darparwr addysg a hyfforddiant, a'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi, ganolbwyntio'n llawn ar les eu dysgwyr, eu staff a'u teuluoedd'.*

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar 18 Mawrth, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg yng Nghymru (2020n), ei bod yn dwyn ymlaen wyliau'r Pasg ar gyfer ysgolion yng Nghymru, ac y byddai ysgolion yn cau ar gyfer darpariaeth addysg statudol erbyn 20 Mawrth. Cadarnhaodd y byddai ysgolion yn cael eu haddasu i, *'gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen' ac y byddai cynlluniau yn cael eu datblygu o amgylch meysydd allweddol 'cefnogi a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a sicrhau parhad dysgu'.*

Ar yr un dyddiad, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg (2020e) y bydd cyfres arholiadau'r haf yn cael ei hatal. *'Bydd gradd deg yn cael ei dyfarnu i ddysgwyr yr oedd disgwyl iddynt sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yn yr haf eleni, i gydnabod eu gwaith, gan ddefnyddio ystod y wybodaeth sydd ar gael'.* Ar yr un pryd, dechreuodd Estyn weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu arweiniad ar gyfer parhau â dysgu mewn ysgolion. Diben yr arweiniad oedd lliniaru effaith cau ysgolion ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol, yn ogystal â dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys arweiniad ar gyfer rhieni di-Gymraeg y mae eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. I gefnogi'r dull hwn, bu Estyn yn arwain a chefnogi agweddau ar y strategaeth, gan gynnwys cyngor ar gynhwysiant wrth barhau i gynnal busnes ysgol, a datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell.

Ar 20 Mawrth, rhoddodd y Gweinidog Addysg (2020b) eglurhad ar addasu ysgolion yng Nghymru. Cyhoeddodd y byddai ysgolion yn agor ar gyfer plant gweithwyr allweddol, ond ble bynnag y bo modd, dywedodd wrth rieni y dylai 'pob plentyn aros gartref os gellir rhoi gofal diogel iddo, a dylid ond trefnu darpariaeth mewn ysgolion neu leoliadau eraill pan nad oes dewis arall diogel'. Rhyddhawyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hybiau ac ysgolion i baratoi eu lleoliadau ar gyfer y dysgwyr hyn (Llywodraeth Cymru, 2020k). Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai £7 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael i gefnogi teuluoedd plant sy'n cael prydau ysgol am ddim. Galluogodd hyn ysgolion ac awdurdodau lleol i drefnu darpariaeth frys ar gyfer y teuluoedd hyn, gan gynnwys darparu cyfleusterau casglu o ysgolion, neu ddanfon bwyd i gartrefi neu leoliadau cymunedol. Sicrhaodd hefyd fod gan awdurdodau lleol ddewis i ddosbarthu talebau ar gyfer manwerthwyr bwyd i deuluoedd (Llywodraeth Cymru, 2020hh).

Ar 23 Mawrth, fe wnaeth y Prif Weinidog, Boris Johnson, annerch y genedl ar y teledu. Cyhoeddodd y dylai dinasyddion y DU ond mynd allan i brynu bwyd, gwneud ymarfer corff unwaith y dydd, neu fynd i'r gwaith os nad oedd modd iddynt weithio o gartref o gwbl.

Ar 27 Mawrth, cyhoeddodd Kirsty Williams na fyddai'n ofynnol i ddysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 13, yr oedd disgwyl iddynt sefyll arholiadau yn ystod tymor yr haf, wneud hynny yn ddiweddarach (Llywodraeth Cymru, 2020x). Ysgrifennodd at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn diolch iddynt am eu gwaith yn cefnogi lles myfyrwyr. Gofynnodd iddynt sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gadael â chymwysterau sy'n adlewyrchiad teg o'u galluoedd, tra'n cynnal ansawdd a safonau (Gweinidog Addysg, 2020i).

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar ddechrau mis Ebrill, rhyddhaodd Prif Arolygydd Cymru (2020b) neges o gefnogaeth i ddarparwyr addysg ledled y wlad, a chyhoeddodd y Gweinidog Addysg (2020g) y byddai cefnogaeth i athrawon cyflenwi yng Nghymru. Diolchodd am 'ymdrechion ardderchog ein hathrawon, staff ysgol a darparwyr gofal plant…gan alluogi rhieni mewn rolau allweddol i barhau i wneud swyddi allweddol'.

Erbyn diwedd wythnos gyntaf mis Ebrill, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau i gefnogi lleoliadau addysg yng Nghymru yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer cyrff llywodraethol, cymorth ar gyfer myfyrwyr yn ystod y pandemig, canllawiau i ysgolion ar ddiogelu plant a newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Hefyd, rhyddhaodd wybodaeth am atal Cynnig Gofal Plant Cymru tan fis Medi 2020, 'fel bod modd defnyddio'r cyllid i gefnogi gweithwyr allweddol gyda'u costau gofal plant a chefnogi plant agored i niwed yn ystod pandemig y coronafeirws' (Llywodraeth Cymru, 2020v) o dan Gynllun Cymorth Gofal Plant yn sgil y Coronafeirws.

Ar 9 Ebrill, ysgrifennodd Kirsty Williams at y gweithlu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i ddiolch iddynt am eu hymdrechion, ac esboniodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried p'un a ddylid gweithredu pwerau brys dros dro o dan 'Ddeddf y Coronafeirws' i addasu'r gofynion cyfreithiol ar awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â dysgwyr ag AAA (Gweinidog Addysg, 2020h).

Wythnos yn ddiweddarach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020p) y byddai £1.25 miliwn ar gael i ddarparu cymorth iechyd meddwl ychwanegol i blant a allai fod yn profi straen neu orbryder cynyddol o ganlyniad i achos rhyngwladol y coronafeirws. Hefyd, cadarnhaodd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg (2020f) y byddai diwrnod canlyniadau Cymru yn 2020 ar gyfer myfyrwyr UG a Safon Uwch, ac ar gyfer myfyrwyr TGAU, yn cadw at yr amserlen wreiddiol.

Ar 20 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu', yn cefnogi datganiad polisi'r system addysg (2020pp). Nododd hyn y byddai arweiniad yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd cyhoeddiad amserol mai Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y DU i sicrhau cyllid i blant barhau i gael prydau ysgol am ddim trwy gydol gwyliau'r haf (Llywodraeth Cymru, 2020gg).

Ar 23 Ebrill, cyhoeddodd Estyn (2020a, 2020i) nifer o ddogfennau i gefnogi darparwyr â dysgu o bell. Mae'r rhain yn cynnig cyngor i arweinwyr ac i lywodraethwyr ysgolion ac UCDau, yn amlinellu egwyddorion allweddol wrth ddefnyddio technoleg i gefnogi busnes ysgol.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Y diwrnod canlynol, rhyddhawyd 'Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell' (2020a) gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd a chonsortia rhanbarthol, CCAC[1] ac Estyn. Amlinellodd y ddogfen hon egwyddorion allweddol i ysgolion eu hystyried wrth ddatblygu modelau dysgu o bell. Hefyd, rhyddhaodd y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020a) asesiad cyflym o dystiolaeth yn archwilio'r ymchwil bresennol i gefnogi dysgu o bell disgyblion.

Yn ystod wythnos olaf mis Ebrill, amlinellodd y Gweinidog Addysg (Llywodraeth Cymru 2020aa, 2020cc) bum egwyddor allweddol ar gyfer pryd a sut y byddai ysgolion yn dychwelyd, yn ogystal â chyhoeddi £3 miliwn i awdurdodau lleol brynu caledwedd a sicrhau cysylltiad â'r rhyngrwyd i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn cael 'eu heithrio'n ddigidol'.

Ar 1 Mai, cyfarfu grŵp SAGE llywodraeth y DU (2020) i ystyried crynodeb o ymchwil a oedd yn awgrymu *'y gallai plant iau fod yn llai tueddol o ddal haint'*. Awgrymodd y grŵp fod *'opsiynau ailagor yn gysylltiedig â phlant iau yn risg is na'r rhai sy'n gysylltiedig â phlant hŷn'*. Fodd bynnag, rhybuddiwyd bod *'effeithiau anuniongyrchol ailagor ysgolion yn debygol o gael mwy o effaith ar drosglwyddo'r haint na'r ysgolion eu hunain (e.e. ailagor yn gysylltiedig â gwaith, newidiadau ymddygiad)'* (SAGE, 2020).

Ar 11 Mai, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU y byddai ysgolion yn Lloegr yn agor o 1 Mehefin, gan ddechrau â'r plant ieuengaf yn gyntaf. Fe wnaeth ymateb ar y cyd gan undebau athrawon gwestiynu'r cynlluniau ar gyfer dychwelyd yn raddol, gan ddweud 'ei bod yn rhy gynnar o hyd i fod yn ddiogel' (BBC News, 2020c). Yng Nghymru, rhyddhawyd datganiad gan Kirsty Williams i egluro'r sefyllfa yng Nghymru yn sgîl y dull a ddefnyddiwyd yn Lloegr. Cyhoeddodd *'na fydd y sefyllfa ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn newid ar 1 Mehefin'* ac y byddai dogfen weithio yn cael ei chyhoeddi i amlinellu'r camau nesaf ar gyfer addysg yng Nghymru, gan gynnwys gofal plant ac addysg bellach (Gweinidog Addysg, 2020l).

Trwy gydol mis Mai, parhaodd Estyn i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau, a lluniodd ddrafft cyntaf y ddogfen 'Llwybrau at Ailagor Ysgolion', yn cynnwys papur trafod yn disgrifio modelau posibl y gallai ysgolion eu mabwysiadu, ac ystyriaethau logistaidd wrth ailagor. Hefyd, ailddechreuodd Estyn gynnal galwadau ffôn ymgysylltu arolygwyr cyswllt ag uwch arweinwyr colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Fe wnaethom gynnal y cyfarfodydd hyn o bell, gan ein galluogi i gael darlun cenedlaethol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws darparwyr ôl-16 i ymateb i'r pandemig.

Ar 14 Mai, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru (2020b) eu dull o sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau plant yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth trwy sefydlu llinellau cyfathrebu gyda darparwyr a Llywodraeth Cymru. Hefyd, lansiodd Llywodraeth Cymru (2020oo) adnodd 'Seren' yn cynnwys cyngor ac unedau pontio i ddisgyblion sy'n paratoi ar gyfer mynd i brifysgol.

[1] Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yw'r grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdod lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar 15 Mai, amlinellodd Kirsty Williams ddull ar gyfer meddwl ynglŷn â sut a phryd y byddai ysgolion yn ailagor, o'r enw 'y fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf o addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynllunio a heriau' (Llywodraeth Cymru, 2020uu). Roedd yn cynnwys cyfeiriad at weithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Estyn, i ddatblygu dull ystyriol a strategol yn seiliedig ar wyddoniaeth. I gefnogi darparwyr ymhellach, rhyddhaodd Estyn 'Cameos a Syniadau' (2020d), yn disgrifio dulliau defnyddiol o barhau â busnes ysgolion ac UCDau, fel cefnogi lles staff a chadw mewn cysylltiad â disgyblion.

Trwy gydol y mis, parhaodd Llywodraeth Cymru i ryddhau canllawiau i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno dysgu gartref, gan gynnwys canllawiau ar ffrydio byw a diogelu. Cyhoeddodd y byddai £3.75 miliwn ar gael i gefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion, yn cynnwys cymorth i ddisgyblion o dan 11 oed (Llywodraeth Cymru, 2020kk).

Ar 20 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020f) ei Chynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y sectorau ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion. Amlinellodd y strategaeth hon dri cham, sef Achub, Adolygu ac Adnewyddu rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, lle bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Estyn, Cymwysterau Cymru, Jisc, Gyrfa Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyrff yn cynrychioli sectorau, undebau'r athrawon, darparwyr a dysgwyr i sicrhau dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â heriau ar y cyd.

Tuag at ddiwedd mis Mai, dywedwyd wrth ysgolion yn Lloegr i baratoi i ddechrau ar 1 Gorffennaf ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 6. Yng Nghymru, cyhoeddodd Kirsty Williams y byddai hi a'i thîm yn parhau i weithio gydag undebau athrawon, awdurdodau lleol, gwyddonwyr a gweithwyr addysg proffesiynol (Gweinidog Addysg, 2020j). Ysgrifennodd at y Gweinidog Gwladol ar gyfer Prifysgolion yn Lloegr i fynegi 'pryder mawr' am gynigion llywodraeth y DU i reoli nifer y myfyrwyr o Loegr a fydd yn gallu mynychu sefydliadau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020y).

Ar ddechrau mis Mehefin, parhaodd Estyn i gefnogi ysgolion trwy ddrafftio cyngor ar gyfer dulliau dysgu cyfunol a fyddai'n bwydo i waith gyda Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol yn ddiweddarach. Dechreuom ni gysylltu â darparwyr trwy alwadau ffôn ymgysylltu i sefydlu sut roeddent yn ymdopi â'r argyfwng, gan drafod lles staff a disgyblion, ac agweddau ymarferol ar drefniadaeth ysgolion. Fe wnaethom rannu'r prif ganfyddiadau o'r galwadau hyn â Llywodraeth Cymru i helpu llywio penderfyniadau polisi.

Ar 3 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg drefniadau ar gyfer ailagor ysgolion. Cynigiodd y dylai pob ysgol ailagor ar 29 Mehefin, gan ymestyn tymor yr haf o wythnos hyd at 27 Gorffennaf. Roedd hyn er mwyn galluogi pob disgybl i 'Ailgydio, Dal i fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi' (Llywodraeth Cymru, 2020d). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020ss) y cyngor gwyddonol i gefnogi ei dull. Lansiodd Kirsty Williams a'r Gweinidog Iechyd y 'Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2020ww). Hefyd, nododd y byddai colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn dechrau ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb o

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

15 Mehefin ar gyfer grwpiau blaenoriaethol o ddysgwyr yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r coleg neu ganolfannau hyfforddi i gynnal asesiadau ymarferol i gwblhau eu cymwysterau, a'r dysgwyr hynny oedd angen cymorth ac arweiniad ychwanegol i aros mewn addysg.

Ar yr un diwrnod, rhannwyd gwybodaeth gan Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar ei flog am rôl Estyn yn yr hinsawdd bresennol, gan gynnwys ein rôl yn darparu tystiolaeth a chyngor annibynnol a gwrthrychol i'r llywodraeth, a chefnogi dogfen y llywodraeth, 'Cadw'n Ddiogel, Dal Ati i Ddysgu: cefnogi'r system addysg'.  Eglurodd y trefniadau ar gyfer gweithgarwch arolygu a gwaith arolygwyr i ymgysylltu ag ysgolion mewn ffordd gefnogol i gasglu gwybodaeth a rhannu arfer effeithiol   (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yng Nghymru, 2020c).

Ar 8 Mehefin, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru ganlyniadau arolwg 'Coronafeirws a Fi' (2020).  Ymatebodd dros 23,700 o blant, rhwng 3 ac 18 oed.  Canfu'r arolwg, er bod ychydig o blant hŷn wedi sôn am deimladau mwy negyddol na phlant iau, fod llawer o blant wedi rhoi sylwadau am agweddau cadarnhaol ar y cyfnod clo, fel treulio amser â'r teulu, dysgu medrau newydd a gwneud ymarfer corff bob dydd yn yr awyr agored.

Ar 10 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020o) ganllawiau ar addysg bellach a dysgu yn y gwaith wyneb yn wyneb.  Fe wnaeth hyn gefnogi sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith annibynnol yng Nghymru i reoli dychwelyd dysgwyr a staff yn ddiogel i ddysgu wyneb yn wyneb.  Dilynwyd hyn ar 12 Mehefin gan lythyr agored gan y Gweinidog Addysg at yr holl staff ysgol yng Nghymru yn diolch iddynt am bopeth roeddent wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, i gynorthwyo plant a phobl ifanc (Gweinidog Addysg, 2020k).

Yr wythnos ganlynol, penderfynodd llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru beidio â chadw eu hysgolion yn agored am wythnos ychwanegol yn nhymor yr haf, yn unol â'r argymhelliad. Rhoddwyd wythnos o wyliau yn ychwanegol yn ystod hanner tymor mis Hydref i'r awdurdodau prin hynny a ddewisodd weithio am yr wythnos ychwanegol.

Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Kirsty Williams y byddai'n defnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020 i ddatgymhwyso dros dro ofynion sylfaenol y cwricwlwm ar gyfer Cymru a threfniadau asesu cysylltiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir (Gweinidog Addysg, 2020p).  Roedd hyn er mwyn caniatáu hyblygrwydd i ysgolion ganolbwyntio ar flaenoriaethau ar gyfer dysgu.  Fe wnaeth Estyn (2020r) helpu cefnogi'r blaenoriaethau hyn, er enghraifft trwy gyhoeddi enghreifftiau o'r modd yr oedd ysgolion ac UCDau yn cefnogi eu disgyblion a'u cymuned i ymateb i'r amgylchiadau anodd o ganlyniad i COVID-19 a gasglwyd o ymgysylltu ag ysgolion.  Yn fuan ar ôl hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020s) **ganlyniadau ei harolwg COVID-19**, a ganfu fod 93% o rieni sydd â phlentyn mewn ysgol gynradd, ac 85% o rieni sydd â phlentyn mewn ysgol uwchradd, yn fodlon fod yr ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo plant â'u dysgu.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar 29 Mehefin, ailagorodd y rhan fwyaf o ysgolion i roi cyfle i ddisgyblion 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' ar gyfer dychwelyd yn amser llawn ym mis Medi. Ym mhob un o'r tair wythnos ar ôl agor, mynychodd tua 60% o ddisgyblion a gafodd eu gwahodd am o leiaf un sesiwn (Llywodraeth Cymru, 2020b). O ganlyniad i amodau lleol, ni wnaeth ychydig iawn o ysgolion ailagor, gan gynnwys pob ysgol o fewn awdurdod lleol Ynys Môn.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru (2020c) ei nodau a ategodd y byddai graddau TGAU a Safon Uwch yn cael eu cyfrifo yn haf 2020, ynghyd â'r gofynion ar gyfer y broses apelio.

Ar ddechrau mis Gorffennaf, rhyddhawyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg (2020a) yn cadarnhau na fydd data ar ddyfarnu cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol, yn 2020-2021, yn yr un modd ag ar gyfer 2019-2020.

Yn fuan ar ôl hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020ff) y byddai'n atal y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion i 'helpu i leihau'r baich ar yr ysgolion ac ar y system, drwy ddileu neu lacio gofynion pan fo'n bosibl gwneud hynny'. Yn ychwanegol, nododd y byddai'n buddsoddi £2.6 miliwn i gynorthwyo plant ledled Cymru yn ystod gwyliau'r haf, i *'helpu awdurdodau lleol i ddarparu gofal plant a chwarae dros yr haf. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i blant 5 i 16 oed gymryd rhan mewn gweithgareddau y gallent fod wedi eu methu pan nad oeddent yn gallu mynd i'r ysgol yn ystod y cyfnod clo'* (Llywodraeth Cymru, 2020bb). Mae'n targedu'r disgyblion sydd fwyaf 'agored i niwed' a'r rhai sydd wedi bod 'fwyaf ar eu colled'.

Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddodd Estyn (2020f) adroddiad i helpu ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac arbennig i feithrin partneriaethau â'u cymunedau i gefnogi dysgu a lles disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig.

Ar 6 Gorffennaf, cyflwynodd y Gweinidog Addysg y Bil Cwricwlwm ac Asesu i'r Senedd a rhoddodd ddatganiad ar lafar ar y Bil i'r Senedd yn ddiweddarach. Darparodd y Bil fframwaith deddfwriaethol i gefnogi trefniadau newydd y cwricwlwm ac asesu fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg. Fe'i cynlluniwyd i *'roi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar ddull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau ymagwedd gyson ar gyfer dysgwyr ledled y wlad'* (Gweinidog Addysg, 2020c).

Ar 8 Gorffennaf, agorwyd ymgynghoriad gan y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd ar gyfer fframwaith a fyddai'n darparu arweiniad i ysgolion ymgorffori darpariaeth effeithiol ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol (Llywodraeth Cymru, 2020j). Cefnogwyd hyn gan adroddiad gan Estyn i sut mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn cefnogi iechyd a lles disgyblion, sef 'Iach a Hapus' (2019a). Hefyd, cyhoeddwyd cynllun gan Lywodraeth Cymru (2020mm) i gyflogi 900 o staff addysgu ychwanegol i "Recriwtio, adfer a chodi safonau" yn ysgolion Cymru. *'Bydd hyn yn cynorthwyo dysgwyr sy'n sefyll eu harholiadau Safon Uwch a TGAU yn 2021 a'r rheiny yr effeithiwyd arnynt fwyaf ers i lawer o ysgolion gau ym mis Mawrth'* (Llywodraeth Cymru, 2020ii).

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Cafodd ysgolion eglurhad gan y Gweinidog Addysg ynghylch ailagor ym mis Medi ar 9 Gorffennaf. Cyhoeddodd y byddai tymor yr hydref yn dechrau ar 1 Medi ac y dylai ysgolion sy'n gallu darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion o ddechrau'r tymor wneud hynny (Llywodraeth Cymru, 2020w). Yr wythnos ganlynol, rhyddhawyd dau ddarn o arweiniad i gynorthwyo ysgolion wrth ddychwelyd, sef: canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19) (Llywodraeth Cymru, 2020u); a Chanllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19) (2020n).

Daeth tymor yr haf i ben i lawer o ysgolion ar 17 Gorffennaf. Ar 22 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o fwy na £50 miliwn ar gyfer prifysgolion a cholegau: darparwyd £27 miliwn i sefydliadau addysg uwch, a £23 miliwn i gefnogi myfyrwyr mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched. Byddai hyn yn cynorthwyo prifysgolion i gynnal swyddi mewn addysgu, ymchwil a gwasanaethau myfyrwyr, buddsoddi mewn prosiectau i gefnogi'r adferiad economaidd ehangach, a chefnogi myfyrwyr sy'n dioddef yn sgîl caledi ariannol. I ddysgwyr yn y chweched dosbarth, a dysgwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol neu mewn colegau addysg bellach, byddai cyllid yn galluogi cynnydd mewn cymorth addysgu, ac yn darparu offer digidol, yn ogystal â chefnogi amrywiaeth o ddulliau eraill ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020ee).

Yr wythnos ganlynol, cyhoeddodd Estyn (2020h) 'Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19'. Fe wnaethom ryddhau datganiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (2020a) mewn perthynas â lleoliadau gofal plant nas cynhelir. Roedd hyn yn datgan na fyddent yn *'cynnal arolygiadau ar y cyd yn rhy fuan, a dim ond pan fydd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny'*. Bydd y drefn bresennol i atal arolygiadau ar y cyd o leoliadau nas cynhelir yn parhau tan o leiaf 31 Rhagfyr 2020.

Daeth tymor yr haf i ben ddydd Gwener, 24 Gorffennaf ar gyfer yr ysgolion hynny a arhosodd yn agored am wythnos ychwanegol. Ar yr un diwrnod, rhyddhawyd arweiniad gan Estyn a'r pedwar consortiwm rhanbarthol i gefnogi dysgu o fis Medi, yn dwyn y teitl 'Modelau dysgu cyfunol'.

Ar 29 Gorffennaf, cynigiodd y Gweinidog Addysg ddyfarniad cyflog cyffredinol o 3.1% ar gyfer athrawon, ar ôl cyhoeddi adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) (2020). Mewn datganiad, dywedodd, *"Fe hoffwn i ailbwysleisio ein penderfyniad i hybu addysgu fel proffesiwn o ddewis i raddedigion a phobl sy'n newid gyrfa. Rydw i'n credu y bydd y newidiadau hyn i gyflog ac amodau'n parhau i ddenu athrawon o ansawdd uchel i'r proffesiwn yng Nghymru. Bydd ymgynghoriad wyth wythnos gyda rhanddeiliaid yn dechrau yn awr, cyn cytuno ar gytundeb terfynol ar gyfer y cyflog."* (Llywodraeth Cymru, 2020z)

Ar 30 Gorffennaf, cyhoeddodd Estyn gipolygon bras ar sut roedd darparwyr addysg bellach (2020q), darparwyr dysgu yn y gwaith (2020s) a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned (2020p) wedi gweithio i gefnogi eu dysgwyr a'u cymuned yn ystod pandemig COVID-19. Dangoswyd enghreifftiau gan y cipolygon hyn o'r modd y mae addysg ar gyfer grŵp amrywiol o ddysgwyr dros 25 oed mewn agweddau fel medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol wedi addasu ac yn parhau i dderbyn yr her o ran y sefyllfa bresennol.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020c) ganllawiau cyhoeddedig ar ddysgu cyfunol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned. Amlinellodd hyn ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ac ymgorffori rhaglenni dysgu cyfunol. Fe'u datblygwyd trwy ymgynghori â'r Gweithgor Dysgu Cyfunol, a oedd yn cynnwys Estyn a llawer o gynrychiolwyr eraill o'r sector hwn. Yn ychwanegol, cyhoeddwyd y canlyniadau a'r camau nesaf o arolwg dysgu ac adnoddau ar-lein COVID-19 i helpu cefnogi a llywio'r cynllun cadernid ar gyfer y sector ôl-16, a ryddhawyd ym mis Mai (Llywodraeth Cymru, 2020f).

Ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gefnogi darparwyr addysg uwch (2020q), addysg bellach (2020l) a dysgu yn y gwaith (2020vv) wrth iddynt barhau i baratoi ar gyfer tymor yr hydref a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweithredu'n ddiogel mewn dysgu ôl-16 o fis Medi 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020l) a fframwaith strategol ar gyfer cyflwyno dysgu (2020rr).

Ar ddechrau mis Awst, cafwyd cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2020v), Julie Morgan, ynghylch Cynnig Gofal Plant Cymru. Eto, roedd rhieni sy'n gweithio yn gallu manteisio ar 30 awr o addysg gynnar a gofal ar ôl atal y ddarpariaeth hon ym mis Ebrill. Yn ychwanegol, addawodd Llywodraeth Cymru £4 miliwn yn ychwanegol i gefnogi darparwyr gofal plant a oedd wedi'u heffeithio gan COVID-19. Roedd hyn er mwyn galluogi'r rhan fwyaf o ddarparwyr i fanteisio ar grant un-tro o £2,500 i dalu costau fel rhent, cyfleustodau a chyflogau heb eu talu (Llywodraeth Cymru, 2020jj).

Ar 10 Awst, eglurodd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg gyfyngiadau o ran derbyniadau i sefydliadau addysg uwch. Mewn llythyr at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, dywedodd, *'yn sgîl y rheoliadau a gymeradwywyd yn ddiweddar gan Senedd y Deyrnas Unedig a fydd yn gweithredu polisi rheoli niferoedd myfyrwyr Llywodraeth y Deyrnas Unedig, nid wyf yn credu mai'r dull hwn sydd orau i Gymru. Rwyf wedi dweud eisoes mai fy mhrif flaenoriaeth yw amddiffyn buddiannau myfyrwyr Cymru a sefydliadau addysg uwch Cymru. Felly, nid wyf yn cynnig ceisio gweithredu mesurau tebyg yng Nghymru.'* (Gweinidog Addysg, 2020q)

Ar 11 Awst, ar ôl ymgynghori â phenaethiaid, cyhoeddodd Estyn, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru (2020u) fersiwn ddiweddarach o'r arweiniad gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Roedd newidiadau allweddol yn cynnwys y cyngor meddygol diweddaraf ar warchod ac eglurhad pellach ar drefniadau cludiant ysgol a bwyd ac arlwyo. I gefnogi'r arweiniad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020dd) £10 miliwn yn ychwanegol i helpu'r diwydiant bysiau i gludo mwy o deithwyr i'r ysgol, y coleg a'r gwaith, yn ddiogel.

Roedd pryderon wedi dechrau mynd ar led ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ynghylch y fethodoleg a gymhwysir wrth ddyfarnu graddau arholiadau ar gyfer disgyblion. Ar 11 Awst, cafodd canlyniadau disgyblion yn Yr Alban eu diwygio i adlewyrchu asesiadau athrawon yn dilyn protestiadau cynharach gan ddisgyblion yn erbyn israddio tua 125,000 o ganlyniadau gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA). Roedd llawer o fyfyrwyr yn credu eu bod wedi cael eu cosbi yn ystod y broses gymedroli gan nad oedd eu hysgolion wedi perfformio cystal ag ysgolion eraill, yn hanesyddol.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar 12 Awst, rhyddhaodd y Gweinidog Addysg (2020m) ddatganiad yn gwarantu na fyddai gradd Safon Uwch derfynol dysgwr yn is na'i radd UG. Mynegodd ei hyder bod *'y system sy'n cael ei goruchwylio gan Cymwysterau Cymru a CBAC, i ymateb i'r argyfwng presennol, yn deg i fyfyrwyr ac yn gadarn o ran yr hyn mae'n ei fesur a'r arwydd mae'n ei roi i gyflogwyr a phrifysgolion.'* Roedd hyn o ganlyniad i'r sefyllfa wahanol yng Nghymru lle *'mae bron i hanner y radd derfynol yn dod o arholiadau Safon UG'* (Gweinidog Addysg, 2020m).

Ar 13 Awst, cyhoeddwyd canlyniadau Safon Uwch ar ôl eu cymedroli gan Cymwysterau Cymru (2020b). Roedd y canlyniadau hyn yn cynnwys cyfran uwch nag erioed o 29.9% o raddau A ac A*, sef 2.9 pwynt canran yn uwch na 2019. Fodd bynnag, roedd angen addasu'r canlyniadau hyn, yn unol â'r datganiad ynghylch graddau Safon UG gan y Gweinidog y diwrnod blaenorol: *'Os yw'r radd yr un fath neu'n uwch, yna nid oes angen gweithredu. Fodd bynnag, os yw'r radd yn is, caiff ei disodli gan yr un radd â'r hyn a gafwyd ar gyfer y lefel UG'.* (Cymwysterau Cymru, 2020e)

Yr wythnos ganlynol, cyhoeddodd ysgrifenyddion addysg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y bydd canlyniadau arholiadau yn cael eu disodli gan y rhai yn seiliedig ar asesiadau athrawon, yn hytrach nag unrhyw 'algorithm' a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, hefyd y byddai graddau Safon Uwch, UG, TGAU, y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau. Esboniodd, *'o ystyried y penderfyniadau mewn mannau eraill, bellach mae'r cydbwysedd o ran tegwch yn seiliedig ar ddyfarnu graddau asesu canolfannau i fyfyrwyr, er gwaethaf cryfderau'r system yng Nghymru'*. (Gweinidog Addysg, 2002o). Roedd Prif Weinidog Cymru yn cefnogi'r dull hwn, ac esboniodd eu bod wedi penderfynu dyfarnu graddau wedi'u hamcangyfrif, oherwydd *'clywsom yn gynnar fod pethau'n symud mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Roeddem yn benderfynol y byddai gennym ni sefyllfa deg lle nad oedd ein pobl ifanc dan anfantais.'* (BBC News, 2020b)

Ar 17 Awst, cyhoeddwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru (2020m) i helpu lleoliadau i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais wrth i ysgolion baratoi i ailagor ym mis Medi. Yn ychwanegol, cyhoeddodd gyllid pellach o hyd at £264 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi ystod o wasanaethau fel gofal cymdeithasol, addysg a hamdden. Mae'r pecyn yn cynnwys £25 miliwn i ysgolion, a £3.6 miliwn i golegau addysg bellach, ar gyfer costau glanhau i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel yn ystod y pandemig (Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2020).

Ar 20 Awst, rhyddhawyd canlyniadau TGAU a chanlyniadau Safon Uwch diwygiedig, yn seiliedig ar asesiadau athrawon, yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig. Mewn TGAU, gwelwyd gwelliant sylweddol mewn graddau o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, cynyddodd graddau A*-A mewn TGAU i 25.9% o gymharu ag 18.4% yn 2019, a chododd graddau A*-C i 74.5% o gymharu â 62.8% yn 2019. Mewn Safon Uwch, cynyddodd y canlyniadau hefyd, yn enwedig y rhai sy'n cyflawni A-A*. Cododd hyn yn sylweddol i 41.3% o gymharu â'r canlyniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol, sef 29.9% a ffigur o 27% yn 2019 (Cymwysterau Cymru, 2020d). Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru (2020a) broses apelio ddiwygiedig ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, yn seiliedig ar raddau diwygiedig yr asesiadau athrawon.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

Ar yr un diwrnod, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru (2020l) ganllawiau diweddarach i gefnogi gweithredu'n ddiogel mewn dysgu ôl-16 o fis Medi 2020, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid i gefnogi cynyddu gweithrediadau yn ddiogel ac yn raddol (2020xx). Cefnogwyd hyn ar 25 Awst trwy gyhoeddi cyngor i athrawon a darlithwyr (Llywodraeth Cymru, 2020g) ac i ddysgwyr (2020h) sy'n astudio cyrsiau UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Ar 21 Awst, rhyddhawyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru (2020ii) ar gyfer ei 'rhaglen dysgu carlam', yn cefnogi'r cyllid a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf i recriwtio 900 o staff addysgu ychwanegol. Fe wnaeth y cynllun, yn dwyn y teitl 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau', ymateb i dystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys Estyn, y gallai rhai dysgwyr fod wedi cael eu heffeithio'n fwy difrifol nag eraill gan gau ysgolion a lleoliadau, fel y disgyblion hynny mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn aelwydydd di-Gymraeg. Eglurodd y byddai'r ffocws am y flwyddyn nesaf ar lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys, datblygu medrau dysgu'n annibynnol, a chefnogi ac ymgysylltu trwy hyfforddi.

Tuag at ddiwedd mis Awst, dechreuodd adroddiadau yn y cyfryngau ganolbwyntio ar ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Rhyddhaodd 4 Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig ddatganiad ar y cyd ar 23 Awst ynghylch ailagor ysgolion a lleoliadau gofal plant. Dywedon nhw eu bod *'yn hyderus fod tystiolaeth glir o lawer o astudiaethau fod mwyafrif helaeth y plant a'r rhai yn eu harddegau sy'n dal COVID-19 yn cael symptomau ysgafn, os o gwbl'*. Yn ychwanegol, *'Mae COVID-19 yn cael ei drosglwyddo i aelodau staff mewn ysgol, ac mae data o astudiaethau yn y DU ac yn rhyngwladol yn awgrymu y gallai drosglwyddo rhwng staff yn bennaf (fel gweithleoedd eraill) yn hytrach nag o ddisgyblion i staff'* (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2020).

Dilynodd cyngor gan Grŵp Cynghori Technegol Cymru, yn ymwneud â gorchuddion wyneb i blant a phobl ifanc (o dan 18) mewn lleoliadau addysg. Adeiladodd y cyngor hwn ar gyhoeddiadau a ryddhawyd yn ddiweddar gan Brif Swyddogion Meddygol a Dirprwy Brif Swyddogion Meddygol y DU a Sefydliad Iechyd y Byd. Dywedodd fod y Prif Swyddog Meddygol, *'yn argymell ar hyn o bryd y dylid defnyddio gorchuddion wyneb yn unol ag asesiadau risg mewn amrywiol leoliadau lle na ellir defnyddio mesurau corfforol eraill, ond nid yw'n gorfodi hynny'*. Cydnabu hefyd *'Mae angen ystyried rhai risgiau a niwed posibl yn ymwneud â gorchuddion wyneb, gan gynnwys y potensial ar gyfer lledaenu firysau yn anfwriadol wrth eu gwisgo neu eu tynnu, sicrhau cyflenwad digonol, eu gwisgo'n ddiogel, eu storio a'u gwaredu'n ddiogel, ynghyd â'r risg o stigmateiddio neu fwlio'r rhai ag esemptiadau meddygol'* (Llywodraeth Cymru, 2020tt).

Yn dilyn y cyngor hwn, cafwyd datganiad gan Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Kirsty Williams (2020), yn cadarnhau mai'r *'cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru ar hyn o bryd yw ein bod yn argymell bod pob aelod o'r cyhoedd sydd dros 11 oed yn gwisgo gorchuddion wyneb dan do lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion a cherbydau cludo dysgwyr i'r ysgol'*. Byddai Llywodraeth Cymru yn diwygio canllawiau i'w gwneud yn ofynnol i leoliadau ac

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020

awdurdodau lleol gynnal asesiadau risg i bennu a ddylid argymell gorchuddion wyneb ar gyfer eu staff a'u pobl ifanc mewn ardaloedd cymunol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cludo dysgwyr i ysgolion a cholegau. Cafwyd ymateb cymysg gan undebau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn (BBC News, 2020a).

Ar 24 Awst, rhyddhaodd Estyn (2020b) 'Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020: Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau'. Amlinellodd y ddogfen hon sut roedd ysgolion ac UCDau wedi dechrau cynllunio ar gyfer mis Medi, ac amlinellodd ddulliau y mae ysgolion ac UCDau yn eu defnyddio i'w cefnogi i leihau risg trosglwyddo COVID-19.

Ar 28 Awst, cyhoeddodd Kirsty Williams ei bod wedi cyhoeddi hysbysiad yn addasu dros dro ofynion sylfaenol y cwricwlwm ar gyfer Cymru a threfniadau asesu cysylltiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Addasodd yr hysbysiad hwn ofynion sylfaenol y cwricwlwm a threfniadau asesu cysylltiedig i sail *'ymdrechion rhesymol'* ar gyfer mis Medi. Cydnabu y bydd angen i leoliadau 'gael yr hyblygrwydd i allu blaenoriaethu atgyfnerthu'r dysgu allweddol hwnnw (gan ddefnyddio'r cymorth a ddarperir gan gynllun 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' Llywodraeth Cymru, lle bo'n briodol)' (Senedd Cymru, 2020).

Ar ddiwedd mis Awst, cafwyd datganiad gan y Gweinidog Addysg yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r trefniadau i ddyfarnu graddau ar gyfer cyfres arholiadau'r haf 2020. Bydd Louise Casella, sef cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru, sydd â *'phrofiad helaeth mewn rolau strategol yn y sector addysg yng Nghymru'*, yn cadeirio'r adolygiad annibynnol hwn. Bydd yr adolygiad hwn 'yn ystyried materion allweddol sydd wedi codi yn sgîl y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer arholiadau'r haf hwn, a'r heriau a wynebwyd yn 2020' ac yn darparu argymhellion ac ystyriaethau am ddulliau ar gyfer 2021 (Gweinidog Addysg, 2020d).

# Adran 2B

# Adroddiad thematig ar ymateb sectorau i bandemig COVID-19 - Mawrtth i Awst 2020

2

Wrth ymateb i'r pandemig, fe wnaeth Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru atal gweithgarwch arolygu o 16 Mawrth 2020. Ers hynny, rydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru a'r system addysg drwyddi draw wrth ymateb i'r argyfwng. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom gadw mewn cysylltiad ag uwch arweinwyr ar draws y system addysg. Roedd prif ffocws yr ymgysylltu hwn ar sut yr oedd sefydliadau addysg a hyfforddiant yn ymdopi â'r argyfwng, ar yr effaith ar les dysgwyr a staff a dysgu, ac ar agweddau ymarferol ar reoli sefydliadol. Cynhaliom y cyfarfodydd hyn o bell ac fe wnaethant ein galluogi i gael darlun cenedlaethol o'r gwaith sy'n cael ei wneud i ymateb i'r pandemig. Defnyddiom y wybodaeth i ddatblygu arweiniad i gynorthwyo ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant. Hefyd, rhannom ein canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn helpu llywio polisi.

O ddechrau'r cyfnod clo o 20 Mawrth 2020, bu'n rhaid i'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ledled Cymru ystyried sut i barhau i gyflwyno a chefnogi dysgu. Roedd cau lleoliadau addysg yn golygu bod addysgu, hyfforddi a dysgu wyneb yn wyneb yn anymarferol, felly roedd angen i ddarparwyr ailfeddwl ynglŷn â'u dulliau ac ymateb i anghenion dysgwyr mor gyflym ag y bo modd. Er i lawer o ddarparwyr wneud ymdrech fawr i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael mynediad i ddysgu priodol, mae natur y profiadau dysgu a gynigiwyd i ddysgwyr wedi amrywio ar draws darparwyr, ac o fewn darparwyr ar adegau.

Roedd iechyd, diogelwch a lles dysgwyr yn flaenoriaeth bennaf i'r holl ddarparwyr ac awdurdodau lleol wrth i'r pandemig darfu ar weithgareddau dysgu arferol. Ymatebodd staff ar draws pob sector yn gyflym a gweithio'n greadigol a chydweithio i leihau'r risg y byddai iechyd, diogelwch a lles dysgwyr dan fygythiad yn ystod y cyfnod clo.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

## Cefnogi lles dysgwyr

Roedd lles disgyblion yn flaenoriaeth bennaf ym mhob ysgol. Fe wnaethant hyrwyddo arweiniad ar iechyd a lles da i'w disgyblion a'u teuluoedd, a rhoi cyngor ar sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Yn aml, gwnaed hyn drwy anfon gwybodaeth ymlaen o asiantaethau'r sector cyhoeddus ac elusennau. Roedd ysgolion yn aml yn cynnwys tasgau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithgareddau dysgu yr oeddent wedi'u paratoi ar gyfer disgyblion. Roeddent yn cynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd yn ymarferol yn aml, er enghraifft, cyfranogi mewn trefnu a chynnal banciau bwyd, gyda staff yn danfon nwyddau yn rheolaidd i gartrefi teuluoedd oedd yn agored i niwed. Bu hyn yn gymorth i feithrin perthnasoedd â rhieni anodd eu cyrraedd hefyd.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn annog disgyblion i gymryd camau syml a fyddai'n cefnogi'u lles, fel cael trefn i'w diwrnod, cysgu'n dda, cael egwyliau o amser sgrin, neilltuo amser i fyfyrio ar sut maen nhw'n teimlo, a gwneud rhywbeth corfforol bob dydd. Darparodd ychydig o ysgolion, rhai cynradd yn bennaf, fideos dyddiol neu wythnosol yn dangos aelodau gwahanol o'r staff yn rhannu neges galonogol, ysbrydolgar neu neges i brocio'r meddwl ynghyd ag unrhyw wybodaeth bwysig. Bu hyn yn gymorth i gynnal ymdeimlad o berthyn a chymuned i'r disgyblion yn yr ysgolion hyn.

Yn yr ysgol, mae perthnasoedd disgyblion gyda staff a disgyblion eraill yn cael dylanwad sylweddol iawn ar eu lles. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn deall pwysigrwydd canfod ffyrdd i helpu disgyblion i gynnal y perthnasoedd cadarnhaol a oedd ganddynt yn ystod y cyfnod clo. Er enghraifft, trefnodd rhai ysgolion i ddisgyblion dderbyn negeseuon personol gan athrawon drwy fideos byr neu gardiau post. Cysylltodd y rhan fwyaf o ysgolion â theulu pob dysgwr yn uniongyrchol yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau i wirio lles eu plentyn, er bod mynychder y cyswllt yn amrywio'n fawr o gyswllt wythnosol i un cyswllt yn unig yn ystod y cyfnod.

Wrth i'r cyfnod clo fynd rhagddo, cyflwynodd fwy o ysgolion ffyrdd i ddisgyblion gysylltu â'i gilydd ar-lein, drwy sesiynau fideo byw o bryd i'w gilydd. Roedd gwneud y cysylltiadau cymdeithasol hyn, er mai ar-lein yr oeddent, yn cefnogi lles disgyblion. Defnyddiodd ychydig o ysgolion weithgareddau fel cwisiau teulu i annog disgyblion a rhieni i gysylltu â'i gilydd.

Lle'r oedd ysgolion yn nodi pryderon ynglŷn â lles disgybl, darparodd yr ysgol gymorth ychwanegol neu atgyfeirio'r disgybl neu ei deulu at wasanaethau cymorth allanol fel cwnselwyr, gweithwyr ieuenctid, seicolegwyr addysgol neu swyddogion lles addysg. Hefyd, defnyddiodd ysgolion y gwasanaethau cymorth hyn ar gyfer yr ychydig iawn o achosion lle nad oeddent wedi gallu cysylltu â theulu ac roeddent yn pryderu hefyd ynghylch diffyg ymgysylltiad gan y disgybl.

Aeth llawer o ysgolion ati i ddarparu dysgu proffesiynol i'w staff ar gefnogi lles disgyblion. Darparwyd hwn trwy gyfarfodydd fideo mewnol i staff, trwy weminarau gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol neu asiantaethau allanol eraill, neu drwy fynediad unigol at ddeunyddiau hyfforddi ar-lein.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Er i ysgolion roi blaenoriaeth i nodi disgyblion yr oedd eu lles yn peri pryder, nodont yn aml fod llawer o ddisgyblion yn datgan am welliant yn eu lles o ganlyniad i fod i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod estynedig. Er enghraifft, roedd disgyblion yn elwa o dreulio mwy o amser gyda'u teulu neu o fod yn rhydd o faterion cymdeithasol oedd yn effeithio'n negyddol ar eu lles, fel pwysau gan gyfoedion neu fwlio.

Nododd ysgolion nifer fach o bryderon diogelu yn ystod y cyfnod clo, er enghraifft disgyblion ddim yn teimlo'n ddiogel oherwydd cam-drin domestig. Fodd bynnag, nododd arweinwyr ysgol eu bod wedi gwneud llai o atgyfeiriadau yn gyffredinol yn ystod y cyfnod clo o gymharu â chyfraddau nodweddiadol.

Mewn ysgolion oedd yn gwasanaethu fel hybiau gofal plant, roedd yn haws monitro'r gofal i iechyd a lles disgyblion. Dilynwyd protocolau llym yn yr hybiau er mwyn atal lledaenu COVID-19.

Pan aeth disgyblion yn ôl i'r ysgolion ym mis Mehefin, fe wnaeth athrawon ganolbwyntio gweithgareddau ar les disgyblion i ddechrau. Er enghraifft, defnyddiodd rhai ysgolion weithgaredd a hyrwyddwyd gan eu consortiwm rhanbarthol, sef creu capsiwl amser cyfnod clo i annog grwpiau bach o ddisgyblion i rannu eu profiadau a'u teimladau. Fe wnaeth hyn alluogi staff i fesur p'un a oedd pob disgybl yn barod i ddysgu ac i nodi disgyblion gorbryderus neu agored i niwed a fyddai'n elwa o gael cymorth ychwanegol. Canfu **arolwg Barnardo's** (2020, tud.13) o ysgolion fod bron i naw o bob deg ysgol yn teimlo bod yr achosion o'r feirws yn 'debygol o gael effaith ar iechyd meddwl a lles eu disgyblion'.

Er gwaethaf pryderon ynglŷn â pha effaith fyddai'r cyfnod clo yn ei chael ar les ac iechyd meddwl disgyblion, roedd disgyblion yn gyffredinol yn falch o gael bod yn ôl yn yr ysgol ac yn awyddus i fwrw ymlaen â'u dysgu, a symudodd ysgolion yn gyflym o weithgareddau oedd yn canolbwyntio ar les pan oeddent yn hyderus eu bod yn barod.

## Dysgu

Ymatebodd ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yn gyflym i'r her uniongyrchol o ddysgu o bell[1]. Mewn rhai achosion, anfonodd ysgolion disgyblion adref ar 20 Mawrth gyda phecynnau gwaith papur neu adnoddau eraill, fel llyfrau darllen, i'w 'cadw i fynd' hyd nes iddynt sefydlu trefniadau mwy cynaliadwy. Treuliodd rhai ysgolion gryn amser yn ystod yr wythnos cyn cau yn paratoi ac yn lanlwytho gwaith i lwyfannau ar-lein, tra bod staff a disgyblion yn derbyn hyfforddiant i ddefnyddio'r llwyfannau hyn.

Darparodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd weithgareddau llythrennedd a rhifedd rheolaidd ynghyd â gweithgareddau thematig a gweithgareddau 'hwyl', fel helpu o amgylch y tŷ, coginio a phrofiadau awyr agored. Wrth i amser fynd heibio, gwelodd rhai bod uwch lwytho gwaith bob dydd yn aneffeithlon ac yn anhylaw i rieni ac athrawon, felly sefydlont batrwm o uwch lwytho ystod o waith unwaith yr wythnos neu fesul pythefnos. At ei gilydd, fe wnaeth hyn helpu rhieni a disgyblion i reoli'u dysgu yn fwy effeithiol.

[1] Dysgu o bell yw dysgu sy'n digwydd i ffwrdd o fan astudio arferol y dysgwr, dysgu gartref gan amlaf.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Er gwaethaf addasiadau fel hyn, roedd llawer o rieni yn gweld cynorthwyo eu plant i ddysgu gartref yn heriol. Yn ôl **arolwg barn rhieni** a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Sutton (2020b), dim ond rhyw dwy ran o bump o rieni oedd yn teimlo'n hyderus i addysgu'u plant neu i egluro gwaith iddynt gartref.

Fe wnaeth cyfran y disgyblion oedd yn cyfranogi mewn dysgu ostwng dros gyfnod ac, ym mron pob ysgol, nid oedd ychydig o ddysgwyr yn ymgysylltu â'r cynnig dysgu o gwbl. Roedd yr ymgysylltu yn amrywio'n fawr hefyd rhwng dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn. Mewn ysgolion cynradd, roedd disgyblion hŷn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu, tra bod disgyblion y cyfnod sylfaen, yn enwedig y cyfnod meithrin, yn ymgysylltu'n llai aml, gan adlewyrchu'r angen cynyddol am fewnbwn a chymorth gan oedolion. Roedd amrywiadau tebyg mewn ysgolion uwchradd, lle'r oedd ychydig yn cyflawni'u holl waith yn ddiwyd, llawer yn ymgysylltu'n achlysurol, a rhai wedi methu ymgysylltu o gwbl. Roedd rhesymau posibl dros ymgysylltu neu gymhelliant gwael ymhlith disgyblion yn cynnwys caledwedd TG annigonol neu fedrau digidol annigonol, gwaith ailadroddus neu waith â diffyg her ynddo, ac adborth cyfyngedig gan athrawon. Nododd **Arolwg Cenedlaethol Cymru: Gorffennaf 2020** (Llywodraeth Cymru, 2020t) ostyngiad yng nghyfran y rhieni oedd yn helpu eu plentyn oedran cynradd gyda'u gweithgareddau llythrennedd a rhifedd wrth i'r cyfnod clo fynd rhagddo. Cydnabu llawer o benaethiaid bod darparu adborth ystyrlon ac amserol i ddisgyblion yn heriol. Y cyfan yr oedd llawer yn ei wneud oedd cofnodi'r tasgau yr oedd disgyblion wedi'u cwblhau neu nodi bod disgyblion wedi defnyddio'r deunyddiau. Dim ond ychydig iawn o ysgolion aeth ati i werthuso ansawdd ymatebion disgyblion i dasgau yn systematig.

Ar y dechrau, ceisiodd rhai ysgolion uwchradd ddilyn eu hamserlen arferol, ond buan iawn y symudodd llawer i ffwrdd oddi wrth y dull hwn, gan osod tasgau hwy, mwy penagored i ddisgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, defnyddiodd athrawon pwnc arbenigol gyflwyniadau fideo a throsleisiau i gyflwyno cynnwys gwersi. Darparodd ychydig o ysgolion wersi 'ffrwd fyw' a alluogodd athrawon i ymateb i gwestiynau disgyblion trwy gyfleuster 'sgwrsio'. Fodd bynnag, un o'r prif heriau i ysgolion oedd rheoli ymdrin â disgwyliadau rhieni mewn perthynas â 'dysgu byw', hyd yn oed ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyngor ynglŷn â manteision a pheryglon dulliau o'r fath. Roedd ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell yn amrywio gryn dipyn o ryw 95% yn yr achosion gorau, i gyn lleied ag 20% mewn rhai darparwyr â'r heriau mwyaf.

Un pryder mawr gan lawer o ysgolion, rhieni, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol oedd effaith y cyfnod clo ar fedrau Cymraeg disgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fe wnaeth mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg gydweithio'n dda i helpu goresgyn y pryderon hyn. Yn yr achosion gorau, buont yn rhannu adnoddau ac yn helpu rhieni i gynorthwyo â dysgu eu plant. Defnyddiont lwyfannau ar-lein, drwy Hwb yn aml, i ddarparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion, er mwyn hyrwyddo medrau llefaredd yn benodol. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd, fe wnaeth staff recordio'u hunain yn darllen storïau Cymraeg ac yn canu rhigymau er mwyn i ddisgyblion barhau i glywed Cymraeg llafar. Darparodd ysgolion arweiniad i rieni i annog eu plant i ddefnyddio'r

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Gymraeg gyda ffrindiau, brodyr a chwiorydd a siaradwyr Cymraeg eraill. Yn yr achosion gorau, darparodd ysgolion weithgareddau dysgu o bell yn ddwyieithog i alluogi rhieni i helpu'u plant gyflawni tasgau.  Aeth ychydig o ysgolion cyfrwng Cymraeg ati i arbrofi gyda fideo-gynadledda er mwyn datblygu a chyfnerthu medrau siarad a gwrando disgyblion.  Er enghraifft, buont yn cynnal sesiynau trafod Cymraeg gyda grwpiau bach o ddisgyblion, gan gynnwys gemau dyfalu neu bingo, yn cael eu chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg.  Hefyd, defnyddiwyd Hwb yn llwyddiannus i rannu adnoddau fel cynlluniau darllen yn genedlaethol, a rhwng athrawon.

Ail-agorodd ysgolion i ddisgyblion 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' ar 29 Mehefin, gyda'r holl ddisgyblion oedran ysgol statudol yn cael cynnig y cyfle i fynychu'r ysgol o leiaf unwaith yn ystod mis Gorffennaf.  Roedd nifer y sesiynau a gynigiwyd gan ysgolion yn amrywio ledled Cymru.  Dim ond un neu ddwy o sesiynau dros yr wythnosau ar ôl agor yr oedd rhai ysgolion yn eu cynnig i ddisgyblion, a hynny'n aml yn gysylltiedig â'u gallu i dderbyn disgyblion wrth gynnal pellter cymdeithasol.  Ym mhob un o'r tair wythnos ar ôl agor, fe wnaeth mwyafrif o ddisgyblion a wahoddwyd gan ysgolion fynychu am o leiaf un sesiwn (Llywodraeth Cymru, 2020b).  Roedd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd yn bwriadu canolbwyntio'r sesiynau hyn ar les disgyblion, gan eu bod yn disgwyl y byddai angen cymorth ar ddisgyblion i ddod i delerau â'u profiadau ac addasu i ffyrdd newydd o weithio yn yr ysgol.  Fodd bynnag, canfu llawer o ysgolion fod lles disgyblion yn well na'r disgwyl.  Roedd llawer o ddisgyblion wedi elwa o'r amser a dreuliwyd gartref gyda theulu, er, yn naturiol, nid oedd y darlun hwn mor gadarnhaol ym mhob ysgol ac ar gyfer pob disgybl.  Roedd hyn yn golygu bod llawer o ysgolion yn gallu cyflwyno dysgu mewn meysydd eraill yn gynt nag oeddent yn disgwyl. Canolbwyntiodd llawer ar lythrennedd, yn enwedig llefaredd mewn ysgolion cynradd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, rhifedd a datblygu medrau dysgu o bell disgyblion fel bod disgyblion yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â dysgu cyfunol[2] os byddai angen yn y dyfodol.

Yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb yn y cyfnod tair neu bedair wythnos cyn egwyl yr haf, defnyddiodd llawer o ysgolion cynradd ddulliau creadigol i gymell disgyblion.  Fe wnaeth amser cylch, dysgu yn yr awyr agored, Ysgol Goedwig[3] a mynegiant creadigol, fel dawns a chelf, helpu disgyblion i ddod i arfer â dysgu gyda llai o ddisgyblion ac o fewn canllawiau cadw pellter cymdeithasol.  Yn gyffredinol, addasodd disgyblion i'r newidiadau yn dda. Yn aml, roeddent yn ei chael hi'n haws canolbwyntio, ac adroddodd llawer o athrawon am ddealltwriaeth ddyfnach o anghenion a diddordebau unigol disgyblion.

Ar y dechrau, roedd pryderon gan arweinwyr mewn ysgolion cynradd ynglŷn â chyflwyno darpariaeth y cyfnod sylfaen a chadw pellter cymdeithasol.  Yr ateb mewn ychydig o ysgolion oedd parhau i ddefnyddio egwyddorion y cyfnod sylfaen yng nghyd-destun gweithgareddau ymarferol, ond gyda disgyblion yn cwblhau tasgau ar eu pennau'u hunain, yn hytrach na gyda'u cyfoedion.  Ar brydiau, roedd staff yn pryderu ynghylch disgyblion yn addasu i gynlluniau newydd yn yr ystafell ddosbarth, ond fe wnaeth disgyblion ifanc ymdopi'n dda.  Fe wnaeth athrawon sicrhau nad oedd eistedd wrth ddesgiau unigol yn rhwystr i ryngweithio a thrafod, ac roedd disgyblion yn

[2] Cymysgedd o ddysgu ar y safle, wyneb yn wyneb gydag athro a dysgu o bell yw dysgu cyfunol.
[3] Dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n cefnogi chwarae, archwilio a chymryd risg a chymorth mewn amgylchedd awyr agored, naturiol yw Ysgol Goedwig.

canolbwyntio'n dda ar eu tasgau yn eu gofod personol ychwanegol. Roedd yn rhy gynnar i nodi unrhyw effaith hirdymor ar allu disgyblion i gydweithio â disgyblion eraill, ond mae llawer o arweinwyr yn cynllunio i fonitro dysgu disgyblion yn ofalus dros gyfnod os yw mesurau cadw pellter yn dychwelyd ar gyfer disgyblion iau yn y dyfodol.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd ganolbwyntio ar sicrhau lles disgyblion yn yr wythnos gyntaf ar ôl ail-agor hefyd. Ar ôl goresgyn pryderon cychwynnol gan ddisgyblion, yn deillio o'r amgylchedd anghyfarwydd, peidio â bod yn eu grŵp ffrindiau, ac, i rai, ymgysylltu gwael â dysgu o bell, canfu athrawon fod llawer o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad, symudodd y ffocws i addysgu'n ehangach ar draws y cwricwlwm. Teimlai llawer o ysgolion fod symud i gwricwlwm mwy arferol yn arbennig o bwysig i ddisgyblion Blwyddyn 10 gan fod llawer yn bryderus ynglŷn â cholli amser addysgu yn y flwyddyn cyn arholiadau allanol. Mae **'Coronafeirws a fi'**, sef adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru (2020, tud.20), yn awgrymu bod dros 50% o ddisgyblion rhwng 12 ac 18 oed a gafodd eu holi yn poeni am fod ar ei hôl hi gyda'u gwaith, yn drist ynghylch colli allan ar gyfleoedd addysgol pwysig, ac yn pryderu am sut byddai'r amser yr oeddent yn ei golli mewn ysgolion yn effeithio ar eu canlyniadau arholiadau. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â phryderon disgyblion wrth iddynt fynd yn ôl i'r ysgol, defnyddiodd athrawon amrywiaeth o ddulliau i ailadeiladu hyder disgyblion, fel gwaith celf ar y cyd. Yn gyffredinol, fe wnaeth disgyblion fwynhau ailymgysylltu â dysgu a chyfleoedd i drafod a mynegi barn mewn grwpiau bach. Rhoddodd hyn hyder i ddisgyblion eraill a'u rhieni a bu cynnydd mewn presenoldeb yn yr ail wythnos ar ôl agor.

Adroddodd penaethiaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg am amrywiaeth yn safonau medrau Cymraeg disgyblion pan ddychwelont i'r ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd disgyblion wedi cynnal eu brwdfrydedd dros yr iaith, felly aeth llawer o athrawon ati i addasu eu harfer a phenderfynu peidio â'u cywiro os oeddent yn gwneud camgymeriadau er mwyn cynnal eu hyder. Yn aml, sylwodd penaethiaid fod disgyblion wedi llithro'n ôl ychydig yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig lle'r oedd disgyblion yn dod o deuluoedd lle nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref.

Er iddynt gydnabod effaith negyddol cau ysgolion, nodwyd buddion annisgwyl gan rai arweinwyr ysgol. Er enghraifft, gwnaeth rhai ysgolion newidiadau i'w modelau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, ac roeddent yn awyddus i adeiladu ar hyn i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Roedd newidiadau ar draws ysgolion yn cynnwys mwy o bwyslais ar les, ymdeimlad cryfach o gymuned ac ymgysylltiad â rhieni, perthnasoedd gweithio cryfach rhwng staff, a dod i adnabod eu disgyblion yn well o ganlyniad i addysgu grwpiau llai.

Yn ystod y cyfnod clo, defnyddiodd ysgolion amrywiaeth o lwyfannau digidol, yn cynnwys Hwb, i ddarparu gweithgareddau dysgu ar gyfer disgyblion, gan adeiladu ar y cynnydd roeddent eisoes wedi'i wneud wrth ddefnyddio offer dysgu ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o ysgolion mor barod a bu'n rhaid iddynt addasu'n gyflym yn y diwrnodau cyn cau. Er i fedrau TG athrawon yn gyffredinol wella'n sylweddol mewn cyfnod byr, disgrifiodd llawer o benaethiaid y bu mabwysiadu offer cyfathrebu digidol yn 'broses ddysgu' i'w staff. Roedd arweinwyr mewn llawer o ysgolion yn cydnabod yr angen i ddarparu dysgu proffesiynol parhaus i'w staff i gefnogi'r defnydd o ddysgu cyfunol yn y dyfodol.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Dewisodd rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ddefnyddio llwyfannau ar-lein, heblaw am Hwb, yr oedd eu staff a'u disgyblion yn gyfarwydd â nhw. Lle gofynnodd ysgolion am adborth gan ddisgyblion a rhieni ynglŷn â dysgu ar-lein, fe wnaeth y rhan fwyaf ddiwygio'u darpariaeth mewn ymateb i'r adborth hwnnw. Er enghraifft, symudodd rhai ysgolion i ffwrdd oddi wrth osod nifer o dasgau yn seiliedig ar bynciau bob diwrnod i ddarparu gweithgareddau llai mynych a mwy penagored, fel cyweithiau thematig.

Trwy gydol y cyfnod clo, datblygodd defnydd ysgolion o ddysgu digidol yn fwy soffistigedig dros gyfnod. Datblygodd arweinwyr ysgol ystod o strategaethau i ddefnyddio dysgu digidol i gefnogi disgyblion a rhieni. Er enghraifft, gofynnodd un ysgol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion recordio'u hunain yn darllen yn Gymraeg a Saesneg yn ddyddiol ac i bostio'r clipiau i'w cyfrif dysgu ar-lein. Fe wnaeth y dull hwn sicrhau bod darllen yn parhau â statws uchel tra bod yr ysgol ar gau. Cynlluniodd un pennaeth ddigwyddiadau hyfforddi i rieni lle'r oeddent yn gallu mewngofnodi ar ap cyfathrebu poblogaidd a chael teithiau o amgylch yr apiau a chyfleusterau, gan gynnwys mesurau diogelu pwysig y bydd eu plant yn eu defnyddio.

Er iddynt newid eu dulliau, teimlai'r rhan fwyaf o ysgolion ei bod yn heriol cadw'r momentwm ar gyfer dysgu o bell i fynd trwy gydol y cyfnod cau ysgolion. Nododd y Sefydliad Gwaddol Addysgol yn ei adroddiad **'Remote Learning: Rapid Evidence Assessment'** (2020a) fod mynediad i dechnoleg yn allweddol i lwyddiant dysgu o bell, yn enwedig i ddisgyblion difreintiedig. Ymhellach, cydnabu'r adroddiad ei bod yn hanfodol sicrhau bod athrawon a disgyblion yn cael y cymorth a'r arweiniad i ddefnyddio llwyfannau penodol, yn enwedig os yw mathau newydd o dechnoleg yn cael eu rhoi ar waith. Yn y sector cynradd ac uwchradd, roedd cyfraddau ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar-lein yn amrywio gryn dipyn. Un o'r rhwystrau pennaf i ddisgyblion oedd prinder offer TGCh addas, yn enwedig lle'r oedd rhaid i ddisgyblion rannu caledwedd gyda brodyr a chwiorydd a rhieni. Buan iawn y daeth yn eglur, er y gallai disgyblion fynd at dasgau gan ddefnyddio ffonau clyfar fel arfer, prin yr oedd eu defnyddio i gwblhau gwaith yn briodol. Roeddent yn arbennig o anaddas pan oedd disgwyl i ddisgyblion ddarparu ymatebion ysgrifenedig o unrhyw hyd neu i ddefnyddio meddalwedd benodol.

Gweithiodd ysgolion gyda'u hawdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinderau trwy ddarparu teclynnau a mynediad rhyngrwyd i'r teuluoedd hynny â'r angen mwyaf. Er hyn, soniodd penaethiaid am 'raniad digidol' rhwng y rhieni hynny a oedd yn ddefnyddwyr technoleg cymwys ac yn gallu cynorthwyo'u plant gartref, a'r rheiny nad oedd ganddynt y medrau digidol angenrheidiol i ddefnyddio technoleg a ddarparwyd ac nad oedd eu plant, felly, yn ymgysylltu'n dda â dysgu. I oresgyn hyn, sefydlodd un ysgol ddesg gymorth dechnegol ar ddechrau'r cyfnod clo i helpu rhieni gyda phroblemau. Croesawyd y cymorth hwn gan rieni, a galluogodd lawer o ddisgyblion i fynd at ddysgu ar-lein yn lle gorfod dibynnu ar becynnau papur. Hefyd, fe wnaeth ychydig o benaethiaid nodi disgyblion nad oedd ganddynt fynediad at adnoddau mwy sylfaenol, fel llyfrau a deunydd ysgrifennu.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Roedd disgwyliadau rhieni o'r hyn fyddai ysgolion yn ei ddarparu, a gallu rhieni i gynorthwyo'u plant, yn amrywio'n eang. Er enghraifft, roedd disgyblion â'u rhieni yn gweithio dan anfantais weithiau am fod llai o amser gan rieni i ddarparu cymorth yn gyffredinol. Roedd rhai rhieni yn gosod disgwyliadau afresymol o uchel ar eu plant neu'r ysgol. Fodd bynnag, cadarnhaol gan fwyaf oedd ymateb rhieni mewn ysgolion a wnaeth arolwg o rieni ynglŷn ag ansawdd a maint dysgu o bell. Amlygir gwahaniaeth eang mewn disgwyliadau a chanfyddiadau rhieni ledled y wlad gan **arolwg Parentkind** (2020b) yng Ngorffennaf 2020. Ychydig dan hanner o'r rhieni a ymatebodd oedd yn fodlon â maint ac amrywiaeth y gwaith a osodwyd ar gyfer eu plant, ac roedd traean yn fodlon â'r addysgu a ddarparodd ysgolion i gefnogi'r gwaith hwn.

Yn ystod y cyfnod clo, daeth ffrydio dysgu ar-lein yn fyw yn ffocws sgwrsio ar-lein ymhlith rhieni ac athrawon. Er y gwelai llawer o ysgolion ffrydio byw fel rhywbeth a allai fod yn fuddiol mewn llawer o ffyrdd, roeddent yn wynebu heriau hefyd yn ymwneud â diogelu, argaeledd staff a lles, a'r angen am ddysgu proffesiynol ar gyfer staff. Canfu nifer o ysgolion uwchradd fod cyflwyniadau â disgrifiadau sain yn ffordd ddefnyddiol o gyflwyno disgyblion i gynnwys newydd, tra bod rhai ysgolion cynradd wedi rhag-recordio llyfrau stori a gweithgareddau ffonig ar gyfer disgyblion. Roedd ychydig iawn o ysgolion yn gwneud galwadau byw, er enghraifft i gynorthwyo disgyblion unigol a oedd yn cael anhawster gyda gwaith. Fodd bynnag, dewisodd y rhan fwyaf i beidio â dilyn y llwybr hwn, gan aros am arweiniad yn lle hynny, er y bu'n rhaid iddynt gyfiawnhau'u penderfyniad i rieni nad oeddent bob amser yn gwerthfawrogi'r heriau yr oedd ffrydio byw yn eu creu. Mynegodd bron i 70% o rieni a ymatebodd i'r arolwg Parentkind (2020b) ym mis Gorffennaf anfodlonrwydd o ran y diffyg gwersi ar-lein byw a ddarparwyd gan ysgolion.

## Cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed

Ym mhob ysgol, ceir disgyblion y nodir eu bod yn agored i niwed am un neu fwy o resymau. Derbyniodd y disgyblion hyn sylw arbennig yn ystod y cyfnod clo i gynorthwyo'u hiechyd, eu diogelwch a'u lles. Gan weithio gyda phartneriaid allanol, nododd ysgolion bod disgyblion eraill yn agored i niwed yn ystod y cyfnod clo os oedd eu lles neu'u hamgylchiadau yn newid yn sylweddol er gwaeth.

Defnyddiwyd cyfarfodydd fideo gan ychydig iawn o ysgolion i gadw cysylltiad rheolaidd â'u disgyblion mwyaf agored i niwed, gan weld hon yn ffordd fwy effeithiol o ddeall sut oedd y disgyblion hyn yn ymdopi na thrwy gyfnewid negeseuon. Mewn rhai ardaloedd, roedd ysgolion yn amharod i ddefnyddio'r dull hwn, gan nad oeddent yn hyderus bod eu hawdurdod lleol yn cefnogi'r syniad cyn i Lywodraeth Cymru (2020r) ryddhau **canllawiau cenedlaethol** ar ffrydio byw a fideo-gynadledda.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gadarnhaol ynglŷn â'u gwaith partneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo, ac ymatebolrwydd y cymorth a'r ymyrraeth a ddarparodd y gwasanaethau hyn ar gyfer eu disgyblion a'u teuluoedd.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Gan weithio gyda'u hawdurdod lleol, roedd ysgolion yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i barhau i dderbyn pryd am ddim. Gwelai penaethiaid fod hynny'n fwyaf effeithlon pan oedd teuluoedd yn gallu derbyn taliadau uniongyrchol i brynu'u prydau bwyd eu hunain yn hytrach na gorfod casglu bwyd neu'r ysgol yn gorfod dosbarthu bwyd. Canfu **Sefydliad Bevan** (2020, tud.1) mai darparu arian parod yn lle prydau ysgol am ddim oedd y cyfrwng mwyaf effeithiol o gynorthwyo teuluoedd pan fydd ysgolion ar gau a bod mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.

Roedd ansawdd y cymorth a ddarparwyd i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn amrywio o ysgol i ysgol. Lle'r oedd ysgolion yn nodi nad oedd disgyblion sy'n agored i niwed yn mynd at y gwaith a osodwyd iddynt, roeddent yn aml yn cysylltu i ganfod pam. Lle'r oeddent yn gallu helpu, roeddent yn cynorthwyo disgyblion yn dda, ar y cyfan. Er enghraifft, nododd un ysgol uwchradd fod grŵp o ddisgyblion agored i niwed nad oeddent yn hyderus wrth ddefnyddio'r gliniaduron yr oedd yr ysgol wedi'u darparu ar eu cyfer i fynd at ddysgu o bell. I helpu'r disgyblion hyn, darparont waith papur iddynt yn lle hynny. Yn aml, roedd ysgolion cynradd yn parhau i fonitro'r cynnydd yr oedd disgyblion ag AAA yn ei wneud yn erbyn eu targedau. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roeddent yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i adolygu ac addasu cynlluniau addysg unigol disgyblion o bell, gan osod targedau newydd a darparu tasgau dysgu priodol.

Yn yr achosion gorau, parhaodd ysgolion i gynnig amrywiaeth o ddysgu o bell ar lefelau her gwahanol, gan ystyried disgyblion ag AAA yn dda. Fe wnaeth un ysgol uwchradd recordio cynorthwywyr dysgu yn darllen testunau, fel bod disgyblion a oedd yn cael anhawster mynd atynt yn gallu ymgymryd â'r gwaith a osodwyd. Fodd bynnag, roedd yr arferion hyn yn amrywio gryn dipyn ledled Cymru. Roedd ychydig o ysgolion yn pryderu'n gynyddol ynglŷn â'r bwlch rhwng disgyblion ag AAA a'u cyfoedion.

Adroddodd rhai ysgolion fod rhieni'n fwy parod i dderbyn bod anghenion dysgu gan eu plentyn ar ôl treulio amser yn gweithio gyda'u plentyn yn ystod y cyfnod clo. Arweiniodd hyn at gynnydd yn yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau a chymorth.

Adroddodd ychydig o ysgolion fod disgyblion agored i niwed a oedd yn fewnblyg heb unrhyw gyfeillgarwch cryf yn yr ysgol yn mynd yn fwy meudwyaidd yn ystod y cyfnod clo, gan wneud ailintegreiddio yn heriol pan ailagorodd ysgolion.

Mynychodd rhai disgyblion agored i niwed hybiau gofal plant mewn ysgol yn ystod y cyfnod clo. Yn aml, roeddent yn elwa o'r maint grŵp bach yn eu hyb o gymharu â maint arferol dosbarthiadau yn yr ysgol. Teimlai'r disgyblion hyn yn fwy esmwyth a hyderus, ond roedd rhai yn cael anhawster wedyn i ailaddasu i grwpiau mawr pan ail-agorodd yr ysgolion. Weithiau, roedd hybiau'n ei chael hi'n anodd bodloni anghenion disgyblion sy'n agored i niwed, yn enwedig pan roeddent yn ymuno ar fyr rybudd.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

## Arweinyddiaeth

Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gwnaeth arweinwyr ymdrechion sylweddol i ystyried sut i redeg eu hysgolion, gofalu am les staff a disgyblion, a darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion pan gaeodd ysgolion ym mis Mawrth. Wrth i'r cyfnod clo fynd rhagddo, neilltuodd arweinwyr amser sylweddol i ystyried sut i redeg ysgolion yn ddiogel, fel gofynion glanhau, arlwyo, trafnidiaeth, ail-leoli staff, amserlennu a'r amgylchedd ffisegol, gan weithio'n ddyfal gyda phartneriaid allanol yn aml. Fe wnaeth yr heriau ychwanegol a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig roi cryn bwysau ar benaethiaid ac uwch arweinwyr, a heb fod yn syndod, effeithiodd hyn yn negyddol ar eu lles weithiau.

Gan amlaf, roedd arweinwyr yn gallu parhau â busnes yr ysgol, fel recriwtio staff, a chynhaliont gyswllt gyda llywodraethwyr, er enghraifft trwy gynnal cyfarfodydd corff llywodraethol ar-lein. Yn gyffredinol, cafodd gweithgareddau gwella eu gohirio neu cawsant eu gwerthuso'n fwy anffurfiol. Mewn llawer o achosion, roedd monitro gan arweinwyr yn canolbwyntio ar feintioli nifer y tasgau a oedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion a faint oedden nhw'n eu cwblhau, yn hytrach nag ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mewn ychydig o achosion, cydnabu arweinwyr fod y gwaith yr oedd disgyblion yn ei gynhyrchu o ansawdd is na'r hyn maent yn ei gwblhau yn yr ysgol.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, canolbwyntiodd arweinwyr ysgol ar ddatblygu gweithdrefnau a threfnu hyfforddiant a oedd yn cefnogi staff a disgyblion orau. Er enghraifft, cynhaliont drafodaethau gyda staff ynglŷn â methodolegau effeithiol ar gyfer dysgu o bell, a hwyluso cyfarfodydd digidol rhwng athrawon yn eu hysgolion eu hunain neu gydag ysgolion eraill i gynllunio gweithgareddau ar y cyd. Fe wnaethant nodi a gwneud newidiadau penodol i wella darpariaeth ar gyfer dysgu disgyblion gartref. Er enghraifft, gweithiodd un ysgol gyda'i hymgynghorydd her i ddarparu hyfforddiant i athrawon ar sut i ddarparu adborth effeithiol i ddisgyblion trwy lwyfan digidol. Mae arweinwyr yn cydnabod mai un deilliant cadarnhaol o'r cyfnod clo yw hyder cynyddol ymhlith staff i goleddu dulliau gweithio newydd ac addasu iddynt. Darparodd ychydig o arweinwyr ddysgu proffesiynol ychwanegol i staff i ddelio â disgyblion a allai fod wedi dioddef profedigaeth, fel cytuno ar ymagweddau addas a therminoleg gyffredin, a chwnsela sylfaenol adeg profedigaeth.

Fe wnaeth llawer o arweinwyr gydbwyso disgwyliadau gwaith gyda lles staff trwy gynyddu'r amser cynllunio, paratoi ac asesu a oedd ar gael i athrawon. Roeddent yn cydnabod y llwyth gwaith ychwanegol yr oedd athrawon yn ei wynebu wrth gynllunio ar gyfer dysgu o bell, ac ar ôl hynny ar gyfer dysgu gartref a dysgu wyneb yn wyneb ar yr un pryd yn ystod y cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi'.

Mewn ychydig o ysgolion, gwelodd penaethiaid y cyfle i gysylltu dysgu cyfunol â datblygu arfer ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Er enghraifft, roedd un ysgol gynradd wedi cynllunio i gyflwyno mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol a gwneud penderfyniadau i gyfnod allweddol 2 ym Medi 2020. Fe welont, yn ystod y cyfnod clo, fod pwyslais cynyddol ar ddysgu annibynnol yn bwysicach nag erioed. I hwyluso hyn, trefnodd arweinwyr hyfforddiant ar gyfer athrawon a darparu amser ar gyfer cynllunio ar y cyd ar sail egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

Cadwodd arweinwyr gyswllt cyson â'u hawdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i'w cynghori a'u diweddaru ynglŷn â'r mesurau yr oeddent wedi'u rhoi ar waith i gynorthwyo parhad dysgu. Fe wnaeth y rhan fwyaf gryfhau eu defnydd o dechnoleg i gyfathrebu â llywodraethwyr a rhanddeiliaid allanol eraill.

Teimlai penaethiaid fod paratoi ar gyfer 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' yn gyfnod anodd, er enghraifft ystyried gofynion eu hamserlen ysgol newydd ac unrhyw ddarpariaeth gofal plant yn yr hyb ar yr un pryd. Fodd bynnag, trwy gynllunio'n fanwl y cyfnod i ddisgyblion ddychwelyd yn raddol, roedd y rhan fwyaf yn gallu sicrhau bod yr ailagor yn llwyddiannus, ar y cyfan. Disgrifiodd y rhan fwyaf o ysgolion gyfathrebu mynych a manwl gyda rhieni fel ffactor allweddol yn y llwyddiant hwn, fel yr amlygwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei adroddiad **'Coronavirus special edition: Back to school'** (2020). Parhaodd hyn drwy'r cyfnod 'ailgydio', lle'r oedd arweinwyr yn gwerthfawrogi adborth gan rieni wrth baratoi ar gyfer mis Medi.

Roedd sicrhau lefelau staffio priodol yn her i lawer o arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mewn ysgolion llai, fe wnaeth colli ychydig aelodau staff i warchod neu salwch effeithio ar ymarferoldeb agor ar gyfer dosbarth penodol o ddisgyblion. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd mwy ymdopi'n dda yn hyn o beth.

## Partneriaethau a chyfathrebu

Rhoddodd arweinwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drefniadau ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd yn gyflym ar ôl i ysgolion gau. Cryfhaodd y cyfathrebu hwn trwy gydol y cyfnod clo, gydag ysgolion yn cadw cysylltiad rheolaidd â rhieni, dysgwyr, a staff. Mewn llawer o ysgolion, roedd y cyswllt gwell gyda theuluoedd yn ganlyniad cadarnhaol o'r cyfnod clo.

Ar ôl cau ysgolion, sicrhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod staff yn ymgymryd â chyswllt ymgysylltu rheolaidd â disgyblion, fel dros y ffôn, e-bost neu negeseua fideo. Er enghraifft, cynhyrchodd un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wasanaeth ysgol rhithwir bob wythnos. Roedd hyn yn fodd i ddisgyblion fynd at ran fach o'u harferion wythnosol arferol, i weld wynebau cyfarwydd a chlywed y Gymraeg.

I ddechrau, darparu gwybodaeth oedd nod cyfathrebu gyda rhieni, yn bennaf. Wrth i'r cyfnod clo ddatblygu, cynhaliodd leiafrif o arweinwyr arolygon rhieni, er enghraifft i asesu lefelau bodlonrwydd gyda threfniadau dysgu o bell a lefelau cymorth, ac i rannu cynigion gwahanol ar gyfer ffyrdd ymlaen. Mewn achosion eraill, pan siaradodd athrawon â rhieni, gofynnont am adborth a gwybodaeth am beth ellid ei wella. Yn yr enghreifftiau gorau, fe wnaeth y prosesau hyn alluogi arweinwyr i fynd i'r afael â materion, fel trwy baratoi cynlluniau pwrpasol ar gyfer disgyblion unigol. Erbyn mis Mai 2020, nododd **arolwg Parentkind ar gyfer Cymru** (2020a) fod dros 8 o bob 10 rhiant yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cymorth dysgu o gartref gan yr ysgol.

Gwnaeth lawer o arweinwyr mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau eraill ar-lein nag o'r blaen wrth gyfathrebu â rhieni, yn hytrach na dibynnu ar lythyrau a nodiadau. Wrth i ddisgyblion ddychwelyd

# Ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir

ar gyfer y cyfnod 'ailgydio', parhaodd ychydig o arweinwyr â galwadau wythnosol â rhieni oherwydd yr effaith gadarnhaol a gaiff ar ryngweithio rhieni gyda'r ysgol. Er enghraifft, sicrhaodd un ysgol fod staff yn parhau i fod ar gael trwy we-gamera am awr bob prynhawn ar ôl i ysgolion ailagor. Roedd hyn yn gyfle i ddisgyblion a rhieni siarad â nhw ac yn galluogi staff i ateb ymholiadau a darparu cymorth ar gyfer dysgu gartref.

Defnyddiodd ysgolion uwchradd negeseuon e-bost a galwadau ffôn i gefnogi disgyblion a rhieni, er enghraifft, gyda dewisiadau opsiynau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11. Darparodd llawer o arweinwyr ar draws ysgolion negeseuon fideo ar gyfer disgyblion a rhieni. Roedd enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys taith rithwir o safle'r ysgol, fideo neu gyflwyniad o gynlluniau i ailagor, fideos ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a blogiau-fideo gan bennaeth. Yn gyffredinol, fe wnaeth ysgolion ddiweddaru'u gwefannau i gefnogi lles myfyrwyr a theuluoedd yn ystod y pandemig coronafeirws trwy gyfeirio at ystod eang o gymorth gan asiantaethau allanol, fel dolenni at **adnoddau cymorth y Sefydliad Gwaddol Addysgol** (2020b).

Arweiniodd ymdrechion arweinwyr i roi sicrwydd i rieni ynglŷn â'r mesurau yr oeddent wedi'u cymryd i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel i anfon eu plant at ganlyniadau cadarnhaol. Derbyniodd llawer ohonynt adborth cadarnhaol gan rieni ac, o ganlyniad, cydymffurfiwyd â rheolau, fel gweithdrefnau llym ar gyfer gollwng a chasglu plant ar gyfer pan fyddai'r cyfnod 'ailgydio' yn dechrau.

Parhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr â phartneriaethau proffesiynol er mwyn datblygu gweithgareddau i gefnogi cyfnod pontio disgyblion o Flwyddyn 6, gan wneud hynny'n greadigol yn aml. Roedd y gweithgareddau hyn, gan gynnwys fideos ac e-lyfrau, yn tueddu canolbwyntio'n bennaf ar ymgyfarwyddo a lles. Yn yr enghreifftiau gorau, ymgysylltodd ysgolion uwchradd yn ddychmygus gyda disgyblion Blwyddyn 6, gan gynnig profiadau fel teithiau rhithiwr, helfeydd trysor a gweminarau a alluogodd disgyblion a rhieni ofyn cwestiynau i athrawon ac arweinwyr ysgol. Fe wnaeth ychydig wahodd disgyblion Blwyddyn 6 i ymweld â'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y tymor. Fodd bynnag, roedd trefniadau pontio'n amrywio gryn dipyn ledled Cymru, a dim ond yn achlysurol yr oeddent yn cynnwys y math o gyfleoedd dysgu y byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu cael yn y cyfnod cyn trosglwyddo i addysg uwchradd.

Roedd yr arweinwyr i gyd yn cydnabod yr angen am gyfathrebu clir gyda staff naill ai drwy gyswllt uniongyrchol, e-bost neu gyfarfodydd ar-lein. Roedd diweddariadau i staff a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd, at ei gilydd. Lle'r oedd angen, amlygodd llawer o arweinwyr staff arbennig o agored i niwed ac addasu'r modd yr oeddent yn eu cefnogi, er enghraifft, cysylltu â nhw'n amlach a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth pan oedd angen. Yn ogystal, teimlai llawer o arweinwyr ei bod yn bwysig cynnal cyswllt anffurfiol gyda staff, er enghraifft drwy nosweithiau cwis.

Bu llawer o arweinwyr yn cydweithredu'n agos o fewn ac ar draws clystyrau o ysgolion i rannu arfer a sicrhau bod cynllunio ar gyfer ailagor mor debyg ag y bo modd. Mewn ychydig o achosion, fe wnaethant anfon gwybodaeth i rieni ar bapur pennawd 'clwstwr' fel bod ysgolion gwahanol yn siarad â'r un llais.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

## Cefnogi lles dysgwyr

Roedd ysgolion arbennig ac UCDau yn amcanu i ddarparu darpariaeth wedi'i theilwra i fodloni anghenion penodol disgyblion.  Gwnaed hyn yn aml trwy ddysgu o bell a dysgu ar-lein, er bod bron yr holl ysgolion arbennig a gynhelir wedi aros ar agor i ddarparu cymorth arbenigol ar gyfer ychydig o ddisgyblion dynodedig.  Rhoddwyd blaenoriaeth ganddynt i les disgyblion, ac roedd profiadau dysgu yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb dysgwyr a chael hwyl trwy ddysgu.  Parhaodd lleiafrif o ysgolion i gynnal eu cyfrifoldebau statudol i gynnal adolygiadau blynyddol o ddatganiadau disgyblion o anghenion addysgol arbennig.

Rhoddodd arweinwyr a staff yn yr holl ysgolion arbennig a gynhelir drefniadau addas ar waith i gynorthwyo lles eu disgyblion.  Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb yn eu lleoliadau eu hunain neu o bell, fel galwadau ffôn rheolaidd.  Gwnaeth staff drefniadau i gysylltu'n wythnosol â phob disgybl a oedd yn aros gartref.  Cadwodd ychydig mewn cysylltiad dyddiol â'r disgyblion hynny y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf.

Cynhaliodd yr holl ysgolion arbennig a gynhelir gyswllt agos, a pharhau i weithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau arbenigol eraill.  Roedd y cydweithredu hwn yn hanfodol i barhau i gynorthwyo'u disgyblion a theuluoedd.  Er enghraifft, cadwodd staff mewn un ysgol arbennig gysylltiad agos â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi yn ystod y cyfnod hwn.  Sicrhaodd yr ysgol fod yr holl deuluoedd yr oedd eu plant yn defnyddio'r rhaglenni cymorth hyn yn yr ysgol yn derbyn copïau caled o'r rhaglenni yr oeddent yn eu dilyn, a lle bo'n briodol, yr adnoddau i'w rhoi ar waith.

Gwnaeth llawer o ysgolion arbennig newidiadau i'w cynlluniau cwricwlwm a rhoi mwy o bwyslais a les.  Er enghraifft, derbyniodd disgyblion mewn un ysgol fwy o brofiadau dysgu awyr agored tra bod staff mewn ysgol arall wedi canolbwyntio ar effaith gorfforol, cymdeithasol, ac emosiynol trawma ar eu disgyblion er mwyn deall eu hanghenion a darparu cymorth.

Mewn ychydig o ysgolion arbennig, nododd arweinwyr fod arferion hylendid disgyblion a'u medrau echddygol, fel gwisgo cot, wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod clo, a bu'n rhaid i staff gynorthwyo disgyblion gyda'r meysydd hyn ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Mae'r holl ddisgyblion mewn UCDau a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hystyried yn ddisgyblion sy'n agored i niwed.  Cynhaliodd bob UCD gyswllt rheolaidd â'u disgyblion yn ystod y cyfnod clo.  Mewn rhai achosion, yn enwedig lle nad oedd cyswllt ffôn neu gyswllt ar-lein wedi bod yn llwyddiannus, cynhaliodd staff UCD neu weithwyr ieuenctid ymweliadau corfforol â disgyblion, gan gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol, er mwyn rhoi pecynnau dysgu iddynt.  Hefyd, cynhaliwyd ymweliadau i ddarparu prydau ysgol am ddim neu barseli bwyd.  Roedd ymweliadau o'r fath yn gyfle da i staff asesu lles disgyblion a theuluoedd, ac i gynnig cymorth neu gyfeirio at asiantaethau a allai gynorthwyo.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Fe wnaeth bron yr holl UCDau asesu risg lefel bregusrwydd pob disgybl ac yna penderfynu ar y ffordd orau i'w cynorthwyo, gan gynnwys pwy oedd yn y sefyllfa orau i gysylltu â nhw, yn unol â bregusrwydd ac anghenion y disgybl. Er enghraifft, roedd staff ychwanegol fel staff gwasanaethau ieuenctid neu staff lles addysg, yn ogystal â staff UCD, yn gwneud galwadau neu ymweliadau lles hefyd i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu bodloni.

Roedd y niferoedd a oedd yn defnyddio cwnsela o blith disgyblion UCD yn is yn ystod y cyfnod clo na chyn i'r cyfnod clo ddechrau.  Gallai hyn ddynodi lles gwell gymaint ag y gallai ddynodi mater gyda gwasanaethau cwnsela. Yn un UCD, mae'r ychydig o ddisgyblion sy'n derbyn cwnsela yn yr UCD wedi parhau â'u sesiynau unigol naill ai drwy'r e-bost, negeseuon testun neu'r ffôn. Cwblhaodd yr holl gwnselwyr fodiwl ar gwnsela dros y ffôn.

## Dysgu

I lawer o ysgolion arbennig ac UCDau, fe wnaeth eu hymateb uniongyrchol bennu patrwm o weithio, a oedd i ddatblygu a'i fireinio ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd.  Ymdrechont yn galed i ymateb mewn ffordd mor hyblyg ag y gallent i anghenion teuluoedd trwy gyfuno dysgu ar-lein a dysgu papur, gweithgareddau a chymorth.  Parhaodd hyn yn hanfodol trwy gydol y cyfnod clo, am ei fod wedi sicrhau bod disgyblion gyda mynediad a heb fynediad i'r rhyngrwyd a theclynnau TG addas wedi gallu manteisio ar ddysgu.

Roedd rhai heriau a oedd yn berthnasol bron yn unig i UCDau a'r ddarpariaeth gysylltiedig.  Fe wnaeth disgyblion a oedd yn derbyn tiwtora gartref awdurdod lleol wedi'i drefnu gan yr UCD, er enghraifft, barhau â'u dysgu fel arfer i raddau helaeth, gyda thiwtora drwy fewnbwn sain gan ddefnyddio apiau cyfathrebu. Mae gorbryderon neu faterion iechyd meddwl gan lawer o'r disgyblion hyn, ond fe wnaeth y rhan fwyaf ohonynt ymgysylltu'n dda.  Mewn ychydig o achosion, roedd y disgyblion hyn wedi'u cofrestru gyda'u hysgol brif ffrwd yn unig.  Yn yr achosion hyn, trefnodd arweinwyr i'r ysgol brif ffrwd oruchwylio tiwtora gartref.  Arweiniodd hyn at arweinwyr yn sylweddoli'r angen i roi blaenoriaeth i adolygiadau o diwtora gartref er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynus ac effeithiol yn y dyfodol.

Lle'r oedd disgyblion hŷn mewn UCDau yn dilyn cyrsiau gyda cholegau AB, neu ddarparwyr eraill, roedd y rhan fwyaf yn gosod gwaith i ddisgyblion yn y dull mwyaf arferol posibl, er nad oedd modd gwneud hyn ar gyfer ychydig o gyrsiau galwedigaethol.  Lle mae disgyblion fel arfer yn mynychu UCD ar gyfer mwyafrif eu haddysg, roedd lefel yr ymgysylltiad â dysgu o bell yn ystod y cyfnod clo yn isel, ar y cyfan.  Yn nodweddiadol, roedd y disgyblion hyn yn ymgysylltu'n dda â phecynnau dysgu digidol ond yn llai felly gyda gwasanaethau ar y we a chyflwyniadau ar-lein gan staff UCD.  Mewn ychydig iawn o achosion, adroddodd arweinwyr fod ymgysylltiad disgyblion yn well o lawer na'r disgwyl oherwydd cysylltiadau cryfach gyda disgyblion a rhieni.  Fodd bynnag, mynegodd yr holl arweinwyr bryderon ynglŷn â lleiafrif o ddisgyblion a oedd yn dal yn anodd eu cyrraedd ac i ymgysylltu â nhw.  Roeddent yn arbennig o bryderus ynglŷn ag ailymgysylltu â'r disgyblion hyn, gan geisio cau bwlch a allai fod wedi mynd yn fwy fyth yn ystod yr argyfwng, a'r goblygiadau hirdymor i'r grŵp hwn a'u cyrchfannau yn y dyfodol.  Nododd nifer o UCDau y byddai angen iddynt weithredu ar fyrder i sicrhau na fyddai dysgwyr o Flwyddyn 9 ymlaen ym mynd ymlaen i beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Ail-agorodd ysgolion arbennig ac UCD yn rhannol ar 29 Mehefin i ddisgyblion ‘ailgydio, dal i fyny a pharatoi’ mewn grwpiau bach. Nododd arweinwyr baratoadau gofalus, gweithdrefnau clir ac ymglymiad staff yn y cynllunio fel elfennau allweddol i ail-agor yn hwylus. Roedd paratoi yn hynod bwysig mewn ysgolion arbennig ac UCDau, lle’r oedd gwybodaeth athrawon am anghenion disgyblion a chynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol i helpu disgyblion i ymgartrefu’n gyflym ag arferion a strwythurau’r diwrnod. Fe wnaeth llawer o’r darparwyr hyn osod storïau a fideos cymdeithasol ar eu gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol i ddisgyblion, rhieni a gofalwyr eu rhannu. Roeddent yn cynnwys teithiau o amgylch yr ysgol, gemau, gweithgareddau hwyl a chaneuon i ymgyfarwyddo disgyblion â’r newidiadau ac i helpu disgyblion ddod yn ymwybodol o gadw pellter cymdeithasol. Aeth hyn i’r afael â llawer o bryderon y disgyblion, fel ofn staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer gweithgareddau penodol. Mewn un ysgol arbennig, er enghraifft, defnyddiont y slogan “Be smart … Stay apart”.

At ei gilydd, roedd ymgysylltiad disgyblion sy’n mynychu UCDau yn dda yn ystod y cyfnod ‘ailgydio, dal i fyny a pharatoi’. Roedd disgyblion yn hoffi’r cynefindra a’r arferion sefydledig yr oedd eu UCD yn eu cynnig ac yn mwynhau gwneud ‘gwaith go iawn’ eto.

Teimlai llawer o arweinwyr mewn ysgolion arbennig fod ymagwedd ddigidol at ddysgu o bell yn gweithio’n dda. Datryswyd amddifadedd digidol llawer o ddisgyblion gan y rhan fwyaf o ysgolion drwy fenthyg offer a darparu hyfforddiant sylfaenol i rieni. Fe wnaeth hyn alluogi bron yr holl ysgolion i ddarparu cydbwysedd gweithgareddau i ddisgyblion, gyda ffocws ar les, yn ogystal â chynorthwyo’r llu o rieni yr oedd darparu dysgu ar-lein yn creu her sylweddol iddynt. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn greadigol yn eu defnydd o ddysgu digidol. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, roedd staff yn gosod tasgau addysg gorfforol wythnosol i blant drwy glipiau fideo. Roedd y tasgau hyn yn arbennig o boblogaidd, gyda rhieni’n cymryd rhan yn aml hefyd. Fodd bynnag, i ddisgyblion ag anghenion cymhleth, nid oedd yn opsiwn effeithiol ar gyfer dysgu bob amser. Serch hynny, yn sgil y profiadau o ddarparu dysgu ar-lein o bell, aeth llawer o ysgolion ati i gynllunio ar gyfer parhau i’w ddefnyddio, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan nad yw disgyblion yn gallu mynychu’n rheolaidd.

Adroddodd y rhan fwyaf o UCDau fod eu hawdurdod lleol wedi cefnogi dysgu digidol yn dda, gan gynnwys darparu offer TGCh a gweithio i wella mynediad i’r rhyngrwyd ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, roedd UCDau gyda disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn gweithredu’n bwyllog, gan nad oeddent yn gallu dibynnu ar ddysgu digidol ar gyfer yr holl ddisgyblion, oherwydd pryderon o ran nifer o ddisgyblion yn cadw’n ddiogel ar-lein, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer meithrin perthynas amhriodol ar-lein, neu werthu offer. Mewn ychydig o achosion, lle’r oedd UCDau wedi cael gliniaduron gan yr awdurdod lleol, ni wnaeth nifer ohonynt ddosbarthu’r rhain hyd nes bod y staff yn sicr bod disgyblion yn gallu defnyddio’r teclynnau’n briodol. Roedd lleiafrif o UCDau wedi buddsoddi’n drwm mewn TGCh dros y 18 mis cyn y pandemig, er enghraifft drwy gyflwyno dosbarthiadau llwyfannau dysgu rhithiol, caledwedd a meddalwedd newydd, a thrwy ddarparu hyfforddiant i staff. Yn yr UCDau hyn, cred arweinwyr fod y buddsoddiad hwn yn hanfodol i gefnogi dysgu disgyblion o bell yn ystod y pandemig.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

## Cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed

Nodwyd y dysgwyr mwyaf agored i niwed gan yr holl arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCD o gychwyn y cyfnod clo.  Fe wnaethant adnabod lefel bregusrwydd pob disgybl a neilltuo cymorth priodol ar gyfer pob disgybl. Roedd staff yn amcanu at gadw cysylltiad rheolaidd â'r holl ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac UCDau, a'u rhieni a'u gofalwyr, fwy nag unwaith yr wythnos yn aml.  Mewn ychydig o achosion, roedd staff yn cysylltu â rhieni dysgwyr sy'n agored i niwed yn ddyddiol lle'r oedd pryder sylweddol.

Fe wnaeth bron pob UCD rhoi aelod staff enwebedig i ddisgyblion fel eu prif bwynt cyswllt yn ystod y cyfnod clo.  Roedd gweithwyr ieuenctid a swyddogion lles addysg yn cynorthwyo UCDau i gadw mewn cysylltiad â'u disgyblion, yn enwedig wrth ymweld â chartrefi'r disgyblion mwyaf agored i niwed, a'r rheiny nad oeddent yn ymateb i gyswllt cychwynnol.  Yn aml, roedd staff yn trefnu i gyfarfod disgyblion wyneb yn wyneb yn yr awyr agored i sicrhau bod mynediad diogel gan ddisgyblion at oedolion yr ymddiriedir ynddynt.

Parhaodd cyfarfodydd panel arferol ar gyfer disgyblion mewn UCD a'r ddarpariaeth derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, ar-lein yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys cyfarfodydd i drafod symud disgyblion i mewn ac allan o wasanaethau.  Cynhaliodd staff asesiadau risg manylach ar gyfer disgyblion yr oedd eu hymddygiad yn peri risg uwch yng ngolau COVID-19, er enghraifft disgyblion â hanes o boeri, brathu neu hunan-niweidio.  Roedd disgyblion a dderbyniodd hysbysiadau amddiffyn y cyhoedd yn ystod y cyfnod clo, ac eto roedd yn hysbys eu bod yn eu diystyru, yn destun pryder arbennig.

Roedd llai o wasanaethau ar gael i gynorthwyo disgyblion yn ystod y cyfnod clo, ond parhaodd cymorth trwy bartneriaethau presennol gyda gwasanaethau statudol – iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu a chyfiawnder ieuenctid – i'r graddau posibl o fewn cyfyngiadau rheolau'r cyfnod clo.

Cyflwynodd UCDau lai o atgyfeiriadau amddiffyn plant yn ystod y cyfnod clo.  Roedd arweinwyr UCDau yn pryderu ynghylch profiad y rhai ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y cyfnod clo a'r effaith ar yr UCD pan oedd y disgyblion hyn yn dychwelyd.  Cadwont gysylltiad agos â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w staff yn gyson er mwyn iddynt allu bod mor barod ag y bo modd i gynorthwyo disgyblion yr effeithiwyd arnynt.

Ychydig iawn o ddisgyblion o UCDau wnaeth fynychu hyb gofal plant mewn ysgol.  Lle'r oeddent wedi mynychu, roedd staff UCD yn ymuno â nhw yn aml

Cynhaliodd lawer o ysgolion arolwg rhieni i asesu anghenion disgyblion cyn iddynt ddychwelyd o bosibl i'r ysgol ym mis Mehefin, ac i lywio'u cynllunio ar gyfer tymor yr hydref.  Ni wnaeth nifer fach o ysgolion dderbyn ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion penodol yn ôl i'r ysgol ym Mehefin.  Mae hyn oherwydd bod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi amlygu materion y teimlent nad oeddent yn gallu eu  goresgyn neu oherwydd trafnidiaeth ysgol gyfyngedig, yn enwedig i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

## Arweinyddiaeth

Fe wnaeth arweinwyr ym mron yr holl ysgolion arbennig a gynhelir sicrhau na wnaeth yr ysgol gau, er mwyn darparu cymorth arbenigol i nifer fach o ddisgyblion dynodedig. Symudodd y rhan fwyaf ohonynt yn gyflym pan gyhoeddodd y llywodraeth bod ysgolion yn cau, er mwyn nodi lefel bregusrwydd disgyblion yn gynnar, a chynllunio sut orau i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Rhoddwyd pecyn dysgu cyfunol ar waith ganddynt, gan roi blaenoriaeth i les yr holl ddisgyblion.

Mewn ysgolion arbennig a gynhelir, un o'r heriau pennaf i arweinwyr oedd cadw disgyblion yn ddiogel, tra'n cadw pellter cymdeithasol priodol. Mae hyn oherwydd bod gan ddisgyblion ystod eang o anghenion ac mae deall ffiniau yn her i lawer. Aeth y rhan fwyaf o arweinwyr ati i ddatblygu a rhoi gweithdrefnau clir ar waith, gan gynnwys yr holl staff, fel modd o sicrhau eu bod yn gweithredu mor hwylus ag y bo modd.

Rhoddodd arweinwyr mewn ysgolion arbennig ystod o strategaethau a chynlluniau gweithredol ar waith i helpu cefnogi lles staff yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau ac i reoli pryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol. Er enghraifft, fe wnaeth arweinwyr gynhyrchu 'llawlyfr protocol', cynnal cyfarfodydd unigol dychwelyd i'r gwaith i drafod pryderon, a threfnu arolygon lles staff i ganfod lefelau gorbryder. Mewn ychydig iawn o ysgolion arbennig, roedd staff yn gallu mynd at gwnselydd ysgol a mynd i'r afael â materion a phryderon.

Sicrhaodd yr holl arweinwyr bod prosesau asesu risg trylwyr ar waith i ystyried anghenion iechyd, dysgu ac anghenion ymddygiadol unigol eu disgyblion a staff, ac adeiladau ac ystafelloedd dosbarth yr ysgolion. Buont yn gweithio'n ofalus gyda staff amlasiantaeth, fel ffisiotherapyddion, nyrsys a swyddogion iechyd a lles awdurdod lleol i gefnogi'r gwaith hwn.

Trefnodd y rhan fwyaf o arweinwyr yr amgylchedd ysgol yn swigod, fel mannau pwrpasol ar gyfer dysgu, chwarae a hylendid, a threfnu amserau eu diwrnod fesul cam. Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol arbennig gynnal tri eisteddiad cinio er mwyn lleihau'r niferoedd mewn un lle ar y tro. Ystyriodd arweinwyr oblygiadau staffio'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau digon o gapasiti i ddarparu cymorth parhaus a phriodol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, bu'n rhaid iddynt gau nifer o gyfleusterau addysgu arbenigol, fel pyllau hydrotherapi ac ystafelloedd synhwyraidd neu chwarae meddal, a olygai nad oedd disgyblion â'r anghenion mwyaf dwys yn gallu derbyn eu profiadau dysgu therapiwtig arferol.

Lle bo angen, gweithiodd arweinwyr mewn ysgolion arbennig i fynd i'r afael â phryderon trafnidiaeth, fel lleiafrif o deuluoedd heb fynediad i'w cludiant eu hunain, arfer anghyson o fewn awdurdodau lleol ar gyfer trefniadau tacsi, a bysys ysgol ddim yn cludo disgyblion y mae angen meddyginiaeth achub arnynt. Yn yr achosion gwaethaf, mae arweinwyr yn adrodd mai dim ond un o bob pum disgybl oedd yn manteisio ar y trefniadau dychwelyd fesul cam, oherwydd bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn effeithio ar argaeledd trafnidiaeth.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Mewn UCDau, parhaodd arweinwyr i bennu a chyfleu disgwyliadau clir i staff, fel arfer trwy gynnal rhaglen reolaidd o gyfarfodydd staff drwy lwyfannau cyfathrebu digidol. Er enghraifft, fe wnaethant ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i drafod cynlluniau, lles disgyblion a chynnydd, a pharhau â sesiynau 'ailgydio' dyddiol staff a chyfarfodydd wythnosol i helpu cefnogi lles staff. Yn aml, roedd arweinwyr yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn i ystyried a hyrwyddo blaenoriaethau gwella mewn meysydd fel y Cwricwlwm i Gymru, a pharatoi ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol. Hefyd, defnyddiodd nifer o arweinwyr gyfarfodydd i gefnogi rhwydweithiau dysgu proffesiynol, fel cynorthwywyr dysgu yn trafod sut gallent gymhwyso modiwlau ar-lein achrededig yr oeddent wedi'u cwblhau ar iechyd meddwl plant i gynorthwyo disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.

Trwy gydol y cyfnod cau ysgolion, roedd arweinwyr yn ystyriol o iechyd a lles staff. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer staff a oedd yn gwarchod eu hunain, ac i'r UCDau a arhosodd ar agor fel hyb neu a ddarparodd gymorth arbenigol i hybiau eraill.

Ynghyd â'u staff, fe wnaeth y rhan fwyaf o arweinwyr mewn UCDau reoli'r ailagor yn llwyddiannus ar gyfer y cyfnod 'ailgydio', yn enwedig y trefniadau gweithredol ac ymarferol, drwy efelychu'r hyn a weithiodd yn dda fel hyb a gwella'r broses hon. Trefnwyd prosesau asesu risg cadarn, er enghraifft i reoli lefelau staffio, hylendid ac anghenion iechyd, glanhau a symud o amgylch adeiladau.

Mabwysiadodd lawer o arweinwyr ymagwedd y gellid ei haddasu i ateb ceisiadau gan rieni a gofalwyr ar gyfer eu plentyn i fynychu ar ddiwrnodau penodol, ac fe wnaeth hyn helpu'r broses ddychwelyd. Sicrhaodd arweinwyr bod cyfathrebu rheolaidd a manwl gyda rhieni er mwyn lleihau pryderon. O ganlyniad, roedd lefelau ymgysylltu uchel yn gyffredinol gan ddisgyblion a oedd yn bresennol, ac fe wnaeth y rhan fwyaf ohonynt ymgynefino'n gyflym ag arferion a strwythurau'r diwrnod.

## Partneriaethau a chyfathrebu

Cynhaliodd arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau sianelau cyfathrebu amrywiol gyda disgyblion a'u teuluoedd. Roedd hyn yn ffactor allweddol i leddfu pryderon ynghylch disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol a chynnal lles. Yn ogystal â galwadau lles, trefnodd ychydig o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ymweliadau carreg drws i gynorthwyo dysgwyr.

Rhoddodd bron yr holl arweinwyr mewn UCDau ac ysgolion arbennig wybodaeth ddefnyddiol ac addysgiadol i'w disgyblion a rhieni am weithgareddau dysgu o bell a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a chylchlythyrau rheolaidd. Roedd y wybodaeth yn canolbwyntio'n effeithiol ar agweddau fel y cyngor diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, diweddariadau ar ddefnyddio dyfeisiau digidol a'r newidiadau yr oedd angen iddynt ei wneud cyn i ddisgyblion ddychwelyd.

# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Mewn ychydig o achosion, bu UCDau yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a theuluoedd i sicrhau bod disgyblion agored i niwed o'r UCD yn mynd at ddarpariaeth hyb yn ddyddiol, neu'n defnyddio 'llythyrau pryder' yn llwyddiannus i gadw cysylltiad â disgyblion anodd eu cyrraedd a'u teuluoedd.  Er enghraifft, ysgrifennodd un UCD 'lythyrau pryder' at deuluoedd pan oedd ymdrechion eraill i gysylltu â nhw wedi methu, a dilynont hyn gydag atgyfeiriadau at asiantaethau, fel y gwasanaethau cymdeithasol, pan roedd angen.  Roedd yr ymagwedd hon yn llwyddiannus o ran helpu sicrhau bod yr UCD yn cadw mewn cysylltiad â'r holl ddisgyblion yn ystod y cyfnod hwn.

Parhaodd cyfathrebu arweinwyr â staff yn y lleoliadau hyn yn gryf trwy gydol y cyfnod clo.  Mewn llawer o achosion, parhaodd rhaglen reolaidd o gyfarfodydd staff, gydag agendau yn ymdrin â thestunau pwysig, yn cynnwys asesiadau risg a dysgu disgyblion.

Ledled Cymru, bu arweinwyr ysgolion arbennig yn rhannu gwybodaeth yn ddefnyddiol trwy gydol y cyfnod clo.  Parhaodd cyfarfodydd arweinwyr ysgolion arbennig a staff amlasiantaeth yn ddigidol ac roeddent yn gymorth i ysgolion.  Er enghraifft, sefydlodd un ffederasiwn ysgolion dîm brysbennu amlasiantaeth i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd.  Ehangwyd hyn i gynnwys yr holl ysgolion yn yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, gweithiodd arweinwyr mewn UCDau yn agos â'u hawdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.  Er enghraifft, gweithiodd staff gyda'r awdurdod lleol i nodi a mynd i'r afael â'r angen am adnoddau, fel offer TGCh, a hwyluso gweithio amlasiantaeth.  Mewn ychydig o achosion, roedd dulliau anghyson o ddarparu cymorth ymarferol, fel trefniadau cludiant.

Bu nifer o UCDau yn cydweithio ag eraill y tu allan i'r sector i wella darpariaeth ar gyfer eu disgyblion.  Er enghraifft, roedd un UCD yn hyb ar gyfer ei disgyblion ei hun, ac roedd hefyd yn cynorthwyo ysgol arbennig leol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.  Gweithiodd ychydig o arweinwyr mewn UCDau ar y cyd â'u hawdurdod lleol i fireinio canllawiau.  Er enghraifft, bu staff yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gynhyrchu canllawiau ychwanegol fel rhan o'r polisi ymddygiad er mwyn hyrwyddo ymagwedd gyson at ymddygiadau'n gysylltiedig â COVID-19 ar draws yr awdurdod lleol.

# Lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Cefnogi lles, dysgu a dysgwyr sy’n agored i niwed

Parhaodd lleiafrif o leoliadau ar agor pan ddechreuodd y cyfnod clo, lle bu llawer o staff yn gweithio’n gyson i sicrhau bod lleoliadau’n gallu parhau i ddarparu gofal plant hanfodol i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol.

P’un a oeddent ar agor neu beidio, bu llawer o leoliadau a’u sefydliadau ymbarél yn defnyddio llwyfannau’r cyfryngau cymdeithasol yn dda yn ystod y cyfnod cau i hyrwyddo lles plant a syniadau ar gyfer gweithgarwch corfforol.  Er enghraifft, darparodd un lleoliad awgrymiadau buddiol i rieni ynglŷn â sesiynau yoga ar gyfer plant ifanc.

Roedd cau llawer o leoliadau nas cynhelir yn ystod y cyfnod clo yn her fawr i lawer o awdurdodau lleol o ran sicrhau rhyw fath o barhad dysgu ar gyfer y plant tair a phedair oed a fyddai fel arfer yn derbyn eu haddysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir.  Roedd gweithdrefnau sefydledig gan ychydig o awdurdodau lleol a fyddai’n galluogi athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar i gysylltu â theuluoedd â phlant yn uniongyrchol. Gwnaeth hyn hi’n anodd cyrraedd rhieni i’w hannog i ymgysylltu â dysgu. Dros gyfnod, fodd bynnag, fe wnaeth llawer o awdurdodau lleol rannu gwybodaeth gyda rhieni a chynorthwyo lleoliadau a oedd wedi aros ar agor yn gynyddol dda.  Yn yr enghreifftiau gorau, bu timau’r blynyddoedd cynnar yn gweithio gydag arweinwyr lleoliadau ac ymarferwyr i ddarparu deunyddiau dysgu i blant gartref.  Er enghraifft, defnyddiont wefan yr awdurdod lleol i ddarparu syniadau i rieni ar gyfer ystod o weithgareddau dysgu defnyddiol ar gyfer eu plant, yn ogystal â chyngor ar ofalu am eu hiechyd a’u lles.  Hefyd, fe wnaeth llawer o leoliadau rannu syniadau ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

Darparwyd adnoddau dysgu o bell ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain gan sefydliadau sy’n cynorthwyo lleoliadau ledled Cymru.  Er enghraifft, lansiodd Mudiad Meithrin ‘Clwb Cylch’ dyddiol i ddarparu sesiynau amser cylch Cymraeg ac annog rhieni a phlant i ymgysylltu â’r Gymraeg gymaint â phosibl.

Fe wnaeth awdurdodau lleol â phrosesau sefydledig ar gyfer gweithio gyda’i gilydd rannu arfer dda yn gynhyrchiol o’r dechrau.  Er enghraifft, bu athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yn Wrecsam yn rhannu arbenigedd wrth ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda thîm Sir y Fflint, gan alluogi’r ddau awdurdod i ddarparu cyngor ac arweiniad defnyddiol i rieni yn gyflym.  Rhannodd grŵp Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar arfer dda, heriau a phryderon, gan annog ymagwedd fwy cyson ledled Cymru, a dechreuodd ddileu rywfaint o’r dyblygu gwaith a oedd yn amlwg yn ystod rhan gynnar y pandemig.

# Lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Arweinyddiaeth

Wynebodd arweinwyr mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir anawsterau sylweddol, ac mewn llawer o achosion, roeddent yn cael anhawster yn ariannol. Yn wahanol i'r sector a gynhelir, mae lleoliadau nas cynhelir bron i gyd yn cael eu cynnal fel busnesau preifat neu gwmnïau elusennol nid-er-elw. Cânt eu hariannu gan grantiau'r llywodraeth, y Cynnig Gofal Plant ac incwm o ffioedd. Arweiniodd atal y Cynnig Gofal Plant Cymru, ynghyd â'r gostyngiad yn niferoedd y plant a oedd yn cael mynychu, at fwyafrif o arweinwyr yn gorfod cau dros dro o ganol mis Mawrth. Bu modd i leiafrif aros ar agor i weithredu fel hybiau i'r plant hynny a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws (C-CAS). Darparont ofal plant yr oedd mawr ei angen ar gyfer eu cymunedau. Roedd eu pwyslais ar ddiogelu iechyd a lles plant, ac yn llai ar ddarparu addysg yn ystod y cyfnod hwn.

Ers mis Mawrth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd yn rheolaidd i gynorthwyo ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhieni. Gan fod llawer o leoliadau yn darparu hawl i addysg gynnar a gofal plant, bu'n rhaid i arweinwyr ymateb i ganllawiau ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn ogystal â'r rheiny ar gyfer darparwyr gofal plant. Ar y dechrau, achosodd hyn ansicrwydd ynghylch pa ganllawiau i'w dilyn os oeddent yn darparu addysg a ariennir.

Roedd arweinwyr a ataliodd eu gweithrediadau ym Mawrth neu Ebrill yn parhau â chostau gwariant, fel rhent, morgeisi neu fenthyciadau eraill. O ran y lleoliadau a arhosodd ar agor i ddarparu gofal plant i blant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed, cafodd y sefyllfa effaith ar eu busnes hwythau hefyd. Tra bod llawer o arweinwyr wedi rhoi cyfran o'u staff ar ffyrlo o dan y Cynllun Cadw Swyddi oherwydd y cyfyngiadau cychwynnol ynghylch pa blant allai fynychu, roedd yn rhaid iddynt gyflogi digon o staff o hyd i gydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a chadw pellter cymdeithasol. O ganlyniad, nid oedd yr incwm a gynhyrchwyd o weithredu fel hyb gofal plant bob amser yn ddigon i dalu am y gwariant, yn enwedig o ystyried y cymarebau staffio uwch a chost ychwanegol offer cyfarpar diogelu personol a deunyddiau glanhau.

Mae effaith COVID-19 ar y sector nas cynhelir wedi bod yn sylweddol. Gallai'r ansicrwydd ynglŷn â hyfywedd ariannol lleoliadau, ynghyd â'r posibilrwydd y bydd llai yn manteisio ar eu hawl i addysg gynnar, gael effaith hirdymor ar y sector.

# Lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Partneriaethau a chyfathrebu

Parhaodd lleoliadau nas cynhelir i gydweithio â phump o sefydliadau ymbarél sy'n gweithio o fewn partneriaeth Cwlwm[4] ac i dderbyn cymorth ganddynt. Er enghraifft, derbyniodd aelodau gyngor ac arweiniad ar faterion ariannol fel goblygiadau rhoi staff ar ffyrlo o dan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, a phecynnau hyfforddiant ar-lein. Yn yr enghreifftiau gorau, bu swyddogion o'r sefydliadau hyn ac o'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ymagwedd gydlynus at gynorthwyo lleoliadau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd anghysonderau'n parhau o ran sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig at ddarparu cyngor a chymorth i leoliadau yn yr holl awdurdodau lleol.

Gwnaeth llawer o arweinwyr ddefnydd da o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i rannu syniadau ar gyfer gweithgareddau dysgu a chyngor ar les. Er enghraifft, defnyddiont eu gwefannau i ddarparu syniadau dyddiol i rieni ar ystod o weithgareddau dysgu defnyddiol ar gyfer eu plant, yn ogystal â chyngor ar sut i ofalu am eu hiechyd a'u lles.

[4] Cwlwm yw'r bartneriaeth o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru: Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

## Cefnogi lles dysgwyr

Darparodd awdurdodau lleol gyngor ac arweiniad i ysgolion a darparwyr addysg eraill ar sut i hyrwyddo a chefnogi lles dysgwyr. Yn ogystal, defnyddiodd llawer o awdurdodau lleol eu gwefannau eu hunain a sianelau'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo lles a chyfeirio dysgwyr a theuluoedd at gymorth a oedd ar gael yn lleol neu'n genedlaethol.

Fe wnaeth llawer o awdurdodau lleol ddiweddaru'u canllawiau i gefnogi defnyddio llwyfannau dysgu ar-lein yn ddiogel, cyswllt ar-lein byw gyda dysgwyr a theuluoedd, a'r defnydd o offer TG ar fenthyg. Er enghraifft, yn awdurdod lleol Ceredigion, fe wnaeth swyddogion gynorthwyo ysgolion i dreialu addysgu byw ar-lein, gan ystyried materion diogelu posibl, a rhoddodd sicrwydd i ysgolion eraill y gallent ddefnyddio ffrydio byw yn ddiogel.

Adroddodd lleiafrif o awdurdodau lleol am gynnydd yn y galw am wasanaethau cwnsela yn ystod y cyfnod clo, ond mae llawer o awdurdodau eraill wedi gweld gostyngiad yn y galw. Mae'r rheswm dros yr amrywio hwn yn aneglur ar hyn o bryd.

Ymwelodd llawer o weithwyr ieuenctid â hybiau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc. Parhaodd gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig[5] i gysylltu â phobl ifanc y tu allan i'w cartrefi, yn enwedig y rhai a oedd yn achosi pryder i drigolion lleol. Defnyddiodd y gweithwyr ieuenctid hyn eu medrau i feithrin perthnasoedd gyda phobl ifanc, i hyrwyddo'u lles, eu helpu i ystyried sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill, a'u cyfeirio at gymorth, lle bo'n berthnasol.

## Dysgu

Trwy gydol y cyfnod cau ysgolion, nod awdurdodau lleol a chonsortia oedd cynnal perthnasoedd agos a chefnogol gyda'u hysgolion i gydlynu dulliau dysgu o bell. Roedd heriau sicrhau darpariaeth dysgu o bell gyson a theg ar gyfer disgyblion yn anodd, ac roedd amrywio mawr ar hyd a lled Cymru.

Yn gynnar yn y pandemig, daeth awdurdod lleol Abertawe yn ymwybodol fod yna anghysonderau yn y ffordd yr oedd ysgolion yn cyflwyno deunyddiau dysgu o bell ar-lein. Ysgogodd hyn drafodaethau gyda phenaethiaid ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu parhad a chysondeb gwell wrth gyflwyno o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion. Nododd swyddogion yr arfer fwyaf effeithiol, a'i rhannu gydag ysgolion ar draws yr awdurdod lleol. Hefyd, crëwyd pwynt cysylltu canolog ganddynt i alluogi disgyblion a rhieni i gysylltu â'u hysgol pe bai angen help ac arweiniad arnynt gyda thasgau penodol neu os oedd angen cymorth technegol arnyn nhw. Roedd rheoli disgwyliadau rhieni ynglŷn â chwmpas a mynychder profiadau dysgu o bell yn her i ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd.

[5] Mae gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn gweithio heb ddefnyddio adeilad neu weithgaredd ac mae'n digwydd "lle mae pobl ifanc yn ddaearyddol ac yn ddatblygiadol. Mae'n darparu addysg anffurfiol a chymdeithasol, ac yn mynd i'r afael â pha anghenion bynnag a gyflwynir i'r gweithiwr ieuenctid neu a ganfyddir gan y gweithiwr ieuenctid.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

Cynhaliodd lawer o awdurdodau lleol arolygon gydag ysgolion i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y modd yr oeddent yn cynnal dysgu ar gyfer eu disgyblion, gyda ffocws penodol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed.  Er enghraifft, casglodd Rhondda Cynon Taf wybodaeth o ysgolion am yr offer dysgu o bell mwyaf effeithiol, a sut oedd athrawon a staff cymorth yn cynorthwyo dysgu disgyblion o ddydd i ddydd.

Bu swyddogion yn awdurdod lleol Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda'u consortia rhanbarthol i ddatblygu dealltwriaeth ac ymagwedd ysgolion at ddysgu o bell a dysgu cyfunol.  Roeddent yn cydnabod manteision hirdymor y dulliau hyn o weithio ac anogont ysgolion i werthuso a mireinio'u harfer bresennol yng ngolau'r hyn roeddent wedi'i ddysgu o heriau'r cyfnod clo. Ar ddechrau'r cyfnod clo, cynhaliodd yr awdurdod arolwg o ysgolion, a ddynododd eu bod i gyd yn cyflwyno systemau i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod dysgu gartref, ond bod yna gryn amrywio o ran ymagwedd ysgolion a'i heffeithiolrwydd.  Mae'r gwersi o'r cyfnod hwn wedi ysgogi'r awdurdod i ailystyried ei ddarpariaeth addysg ôl-16, gyda dysgwyr o bosibl yn cael ystod ehangach o opsiynau wrth i athrawon gyflwyno elfennau o'u cyrsiau ar-lein.

Defnyddiwyd holiaduron rhieni gan lawer o awdurdodau lleol hefyd i gasglu adborth datblygiadol ynglŷn â sut oedd rhieni'n dod i ben â chynorthwyo dysgu eu plant yn ystod y pandemig.  Un mater allweddol a nodwyd gan rieni oedd y diffyg darpariaeth ar gyfer plant dan bump oed mewn ysgolion pan na ddychwelodd y grŵp hwn i'r ysgol ym mis Mehefin yn y rhan fwyaf o awdurdodau.  Roedd cynnal cymorth i ddisgyblion eraill na ddychwelodd i'r ysgol cyn yr haf a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed yn bryderon eraill a godwyd gan rieni.

Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd helpu disgyblion i gynnal eu hymgysylltiad â'r Gymraeg.  Er enghraifft, datblygodd Sir Gaerfyrddin ganllawiau defnyddiol i rieni, a ysgogodd gyswllt â sefydliadau fel 'mentrau iaith', a ddarparodd ystod o adnoddau defnyddiol i gynorthwyo ymgysylltu a dysgu.  Gan weithio gydag Estyn ac athrawon o nifer o ysgolion, datblygodd y pedwar consortiwm rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ystod eang o adnoddau Cymraeg i gynorthwyo dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.  Trefnwyd bod yr adnoddau hyn ar gael ar Hwb, ynghyd â 50 o lyfrau darllen Cymraeg i ddisgyblion oedran ysgol.

Casglodd rhai awdurdodau lleol wybodaeth am yr effaith ar ddysgu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg gartref i ymateb i bryderon a godwyd gan rieni ac ysgolion.  Roedd lleiafrif o awdurdodau yn pryderu y gallai'r grŵp hwn o ddisgyblion lithro i ffwrdd oddi wrth ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.  I wrthbwyso'r effaith bosibl, aeth rhai awdurdodau lleol ati i gynorthwyo'r disgyblion hyn yn uniongyrchol, gan gynnwys Conwy, lle cadwodd y tîm ymgynghorol Cymraeg gyswllt â disgyblion a oedd yn trosglwyddo i mewn i ddosbarthiadau trochi Cymraeg ar ddechrau Blwyddyn 7.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn ailagor o fis Mehefin, gweithiodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn agos gyda chonsortia rhanbarthol i helpu ysgolion ddatblygu arferion dysgu cyfunol effeithiol yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru (Consortia Rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru, 2020b).

## Cefnogi dysgwyr sy’n agored i niwed

Mae gan awdurdodau lleol rôl arweiniol i gydlynu cymorth ar gyfer dysgwyr sy’n agored i niwed ochr yn ochr â’u partneriaid statudol ac anstatudol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod teuluoedd dysgwyr agored i niwed â hawl i gael mynediad i hybiau gofal plant yn ymwybodol o’r ddarpariaeth ac yn cael cymorth i’w chael, os oedd angen.

Fe wnaeth gwasanaethau awdurdod lleol a phartneriaethau addasu eu ffyrdd o weithio i sicrhau cymaint o barhad ag y bo modd i ddysgwyr agored i niwed a’u teuluoedd. Bu gwasanaethau addysg llawer o awdurdodau lleol yn gweithio’n agos gyda gwasanaethau iechyd a gwasanaethau plant i helpu cyflawni dull cydlynus a chydgysylltiedig o gefnogi’u cymunedau ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn arbennig o wir wrth sefydlu’r trefniadau hyb cyn y cyfnod clo cyntaf. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd niferoedd y grwpiau agored i niwed a fanteisiodd ar ddarpariaeth yr hybiau gofal plant yn wael yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf. Gan weithio’n agos gyda staff gofal cymdeithasol, targedwyd y dysgwyr gan yr holl awdurdodau lleol i gynorthwyo’u presenoldeb, a gynyddodd dros gyfnod. Fodd bynnag, roedd yr heriau cyffredinol o ymgysylltu â grŵp craidd o ddysgwyr agored i niwed yn sylweddol.

Wynebodd awdurdodau lleol heriau sylweddol o ran sicrhau bod ysgolion a hybiau yn cydymffurfio â gofynion a darpariaeth statudol ar gyfer disgyblion ag AAA. Roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth i ddisgyblion ag anableddau ac anghenion iechyd cymhleth tra hefyd yn cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Lle bynnag y bo modd, bu swyddogion awdurdod lleol, ysgolion a lleoliadau, a phartneriaid amlasiantaeth yn parhau â’r asesiadau statudol AAA a’r broses adolygu blynyddol o bell yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys gwaith paneli AAA awdurdodau lleol. Cynhaliodd seicolegwyr addysgol ac arbenigwyr eraill asesiadau ac ymgynghoriadau ar-lein lle’r oeddent yn gallu gwneud hynny, er nad oedd hyn bob amser yn bosibl am fod rhai asesiadau neu ymgynghoriadau’n mynnu cyswllt wyneb yn wyneb neu ddefnyddio offer arbenigol. Gweithiodd swyddogion arbenigol awdurdod lleol o bell i ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad parhaus i ysgolion a lleoliadau, dysgwyr a’u rhieni a gofalwyr. Er enghraifft, bu swyddogion symudedd yn gweithio ochr yn ochr â staff ysgolion i nodi addasiadau yr oedd eu hangen i fodloni anghenion dysgwyr penodol.

Aeth llawer o awdurdodau lleol a phartneriaethau rhieni ati i gynhyrchu pecynnau gwybodaeth neu adnoddau pwrpasol ar gyfer rhieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ystod o faterion, yn cynnwys eu cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth eu plentyn o’r sefyllfa bresennol, sefydlu arferion bob dydd, lleihau gorbryder a chefnogi’r broses dychwelyd i’r ysgol. Trefnodd rhai awdurdodau lleol i’r rhain fod ar gael yn uniongyrchol i rieni a gofalwyr, er enghraifft trwy eu rhoi ar-lein neu drwy’r cyfryngau cymdeithasol.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

Defnyddiodd gwasanaethau addysg offer ar-lein a chanfod atebion creadigol i'r problemau a grëwyd gan reolau'r cyfnod clo. Darparodd awdurdodau lleol gyngor ac arweiniad i ysgolion a darparwyr eraill mewn perthynas â'u gwaith gyda dysgwyr agored i niwed. Er enghraifft, cynhaliodd Caerffili gymorthfeydd ar-lein ar gyfer staff ysgolion ar sut i gynorthwyo disgyblion â materion AAA penodol.

Roedd awdurdodau lleol yn defnyddio'u staff yn greadigol yn aml i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion wrth weithio gyda dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd. Er enghraifft, bu athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar, gweithwyr ieuenctid, swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysgol a staff cymorth ymddygiad yn darparu cymorth o bell i ddysgwyr a theuluoedd, yn ymweld â chartref, yn dosbarthu parseli bwyd a hanfodion i'r tŷ, ac yn cynorthwyo hybiau gofal plant. Yn aml, roedd ffocws y staff hyn ar ymgysylltu â dysgwyr agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, gofalwyr ifanc a phobl ifanc ddigartref, er mwyn asesu'n anffurfiol sut oedden nhw, darparu man diogel i wrando ar unrhyw bryderon oedd ganddyn nhw, a sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Yn aml, roedd prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu i ddysgwyr cymwys fel bagiau bwyd ar ddechrau'r cyfnod clo yr oedd rhaid iddyn nhw eu casglu o'r ysgol neu, mewn rhai achosion, roeddent yn cael eu dosbarthu i'w cartref. Dros gyfnod, symudodd fwy o awdurdodau lleol i roi mynediad uniongyrchol i deuluoedd i'r cyllid ar gyfer prydau bwyd trwy drosglwyddiad banc neu dalebau, a oedd yn fwy effeithlon. Gweithiodd awdurdodau lleol gyda phartneriaid, gan gynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol, i ddarparu parseli bwyd ychwanegol i deuluoedd â'r angen mwyaf.

Roedd awdurdodau lleol yn poeni'n arbennig ynghylch effaith tymor byr a hirdymor y cyfnod clo ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed nad oeddent wedi ymgysylltu â'u hysgol na darparwr addysg arall. Roeddent yn ymwybodol bod rhai dysgwyr agored i niwed wedi colli cyswllt gyda gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo.

Sefydlwyd grwpiau rhithwir gan weithwyr ieuenctid ledled Cymru fel bod pobl ifanc yn gallu cadw mewn cysylltiad. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau gweithgarwch i bobl ifanc ag anableddau, gofalwyr ifanc a grwpiau ar gyfer mamau ifanc, lle gallant drafod materion ac ymarfer medrau fel coginio gyda'i gilydd ar-lein. Targedwyd pobl ifanc agored i niwed yn arbennig i gyfranogi. Ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, sefydlwyd clybiau ieuenctid rhithwir ar-lein gan weithwyr ieuenctid a chanfuont fod mwy o bobl ifanc yn 'mynychu' y clybiau hyn yn rheolaidd na fyddai'n mynychu eu clybiau mewn canolfan ffisegol fel arfer. Roedd y clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg rhithwir a sefydlwyd ganddynt yn arbennig o lwyddiannus, ac mae'r dysgu o'r ymagwedd hon yn newid yr ymagwedd at waith ieuenctid cyfrwng Cymraeg. Sefydlodd rhai gwasanaethau ieuenctid grwpiau penodol ar-lein ar gyfer gofalwyr ifanc a phobl ifanc ag anableddau. Weithiau, roedd gweithwyr ieuenctid yn dosbarthu pecynnau i gartrefi fel bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein gyda'i gilydd, er enghraifft y cynhwysion i goginio rhywbeth neu'r darnau i adeiladu sglefr-fwrdd.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

## Arweinyddiaeth

Fe wnaeth arweinwyr awdurdodau lleol ym mron pob ardal ganolbwyntio'u hymdrechion cychwynnol ar sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu trigolion, staff a phobl eraill fel blaenoriaeth. Gweithiodd llawer i nodi argaeledd adnoddau dynol ac i gydbwyso hyn ac aildrefnu rhai o'u staff i rolau eraill lle'r oedd prinderau. Wrth i'r cyfnod clo fynd rhagddo, parhaodd arweinwyr mewn llawer o awdurdodau lleol i weithio'n ddiwyd ar sicrhau lles eu staff.

Datblygodd uwch swyddogion strwythurau cyfathrebu clir, a gwnaethant benderfyniadau anodd o dan amgylchiadau heriol, gyda gwybodaeth gyfyngedig yn aml. Llwyddodd llawer ohonynt i weithredu trefniadau gweithio o bell i bron pob un o'u cyflogeion addysg lle byddai'r rôl yn caniatáu hyn.

Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd, roedd arweinwyr ym mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi atal eu prosesau craffu democrataidd, gydag ychydig ohonynt yn nodi bod ganddynt brosesau mwy anffurfiol eraill i ddiweddaru a hysbysu aelodau etholedig. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd y mesurau hyn yn erbyn gweithrediadau craffu arferol wedi'i werthuso. Parhaodd lleiafrif o awdurdodau lleol â chyfarfodydd cabinet, gymaint â phosibl, gydag agendâu diwygiedig.

Bu llawer o awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni ac yn cynorthwyo lleoliadau nas cynhelir a pharhaodd ar agor yn gynyddol dda wrth i'r cyfnod clo barhau. Er enghraifft, fe wnaeth Tîm Addysg Gynnar a Ariennir Wrecsam lanlwytho gweithgareddau ymarferol ar eu Tudalen Dysgu Gartref ac ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, sydd ag oddeutu 3,000 o ddilynwyr.

Yn gynnar yng nghyfnod cyfyngiadau COVID-19, aeth swyddogion yn awdurdod lleol Ceredigion ati i ddadansoddi sefyllfa ariannol eu darpariaeth feithrin nas cynhelir. Sefydlont yn gyflym nad oedd yn ariannol hyfyw i'r lleoliadau hyn barhau ar agor a, thrwy eu hathrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar ac uwch swyddogion, mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, cynghorwyd nhw i gau a rhoddwyd cymorth iddynt i roi eu staff ar ffyrlo drwy gyfnod y Coronafeirws. Fe wnaeth y cymorth pwrpasol hwn alluogi'r unigolyn cyfrifol ar gyfer bob lleoliad i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch p'un ai i atal eu gwasanaeth dros dro. O ganlyniad, caewyd drysau bron yr holl leoliadau a oedd yn darparu hawl addysg gynnar i blant tair oed yn fuan ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mesurau'r cyfnod clo. Yna, sefydlodd yr awdurdod lleol ddau hyb rhanbarthol ar gyfer plant ifanc gweithwyr allweddol, wedi'u staffio gan wirfoddolwyr o'r lleoliadau a oedd wedi cau.

## Partneriaethau a chyfathrebu

Fe wnaeth arweinwyr mewn awdurdodau lleol gefnogi cyfathrebu effeithiol rhwng eu gwasanaethau a'u cymunedau ysgol, er enghraifft drwy negeseuon e-bost rheolaidd a dogfennau defnyddiol a anfonwyd at bob pennaeth. Rhoddodd llawer ganllawiau rheolaidd i arweinwyr ynghyd â 'chwestiynau cyffredin' pa bryd bynnag y gwnaed newidiadau. Datblygodd arweinwyr mewn ychydig o awdurdodau strwythurau cyfathrebu arbennig, er enghraifft grŵp llywio o dri phennaeth cynradd a thri phennaeth uwchradd a fu'n gweithio'n rheolaidd gyda swyddogion gan edrych ar ailagor ysgolion, a materion fel dysgwyr wedi'u heithrio'n ddigidol a materion adnoddau dynol.

# Gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys consortia rhanbarthol a gwaith ieuenctid

Yn yr achosion gorau, cynhaliodd uwch swyddogion gyfarfodydd rhithwir, fel y rheiny gyda'r holl benaethiaid cynradd ac uwchradd, ac ychydig gyda chadeiryddion cyrff llywodraethol, i fynd i'r afael â phryderon, egluro ymagwedd yr awdurdod a rhannu camau nesaf.  Hefyd, fe wnaeth llawer o awdurdodau lleol gynnwys ystod o weithwyr proffesiynol mewn grwpiau amlasiantaeth yn eu trafodaethau.

Mewn ychydig iawn o awdurdodau, roedd y cyfathrebu cychwynnol yn araf, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth am ddarpariaeth hyb yn nyddiau cynnar y cyfnod clo.  Fodd bynnag, gwnaeth bob un ohonynt welliannau defnyddiol wrth i amser fynd rhagddo.  Addaswyd canllawiau Llywodraeth Cymru gan y rhan fwyaf o awdurdodau i adlewyrchu cyd-destun ac anghenion penodol eu hysgolion.  Lle na wnaed hyn, roedd arweinwyr ysgol yn aml yn ei chael yn anodd rheoli a chael at wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt yn gyflym ac yn gydlynus.  Adeiladodd darparwyr gwaith ieuenctid lleol a chenedlaethol ar batrymau sefydledig o weithio mewn partneriaeth i fod yn rhagweithiol ac yn hyblyg yn eu hymateb i'r pandemig COVID-19.

Darparodd y proffesiwn gwaith ieuenctid arweiniad a chyngor amserol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc mewn byd digidol.  Yn Ebrill 2020, cyhoeddwyd papur briffio gan Joint Education and Training Standards (JETS), sef y sefydliad sy'n dod â'r cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol ar gyfer gwaith ieuenctid ynghyd ym mhedair cenedl y DU ac Iwerddon, gan ddod â'r canllawiau a'r cymwyseddau at ei gilydd i weithwyr a sefydliadau ar gyfer cyflwyno gwaith ieuenctid digidol, yn cynnwys diogelu a diogelu data.  Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gweithwyr ieuenctid a hyfforddwyr gwaith ieuenctid wedi datblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid digidol, a bu'n gymorth i weithwyr ieuenctid fod ar y blaen wrth gyflwyno gwasanaethau a chyswllt ar-lein.  Ar ddechrau'r cyfnod clo, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar faterion diogelu ar gyfer defnyddio llwyfannau ar-lein penodol ar gyfer gwaith ieuenctid gydag unigolion ac mewn grwpiau.  Mae'r canllawiau'n tynnu ar brofiad o bob cwr o Gymru. Er enghraifft, fe wnaeth gwasanaeth ieuenctid Caerffili ddatblygu a rhannu canllawiau arfer orau ar gyfer defnyddio ap rhannu cyfrwng poblogaidd.

Roedd y gwasanaeth Meic, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd gan Pro-Mo Cymru, yn arbennig o bwysig yn ystod yr argyfwng, gan ddelio ag amrywiaeth o faterion yn cynnwys iechyd meddwl, tai a materion yn seiliedig ar hawliau.  Llinell gymorth eirioli a chynghori gyfrinachol i bobl ifanc hyd at 25 oed yw Meic.  Caiff ei staffio gan Eiriolwyr Cynghori Llinell Gymorth hyfforddedig o'r proffesiynau gwaith ieuenctid, gyrfaoedd, y proffesiwn cyfreithiol, gwasanaethau cymdeithasol ac addysgu.  Yn ychwanegol at y cyllid i barhau â'r gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2021, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i sicrhau bod gwasanaeth Meic yn gallu cefnogi anghenion pobl ifanc mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19.

# Ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol

## Cefnogi lles dysgwyr

Parhaodd bron pob un o ysgolion annibynnol y brif ffrwd ar agor yn ystod y cyfnod clo, naill ai’n ffisegol neu yn yr ystyr eu bod yn darparu sesiynau dysgu ar-lein yn fyw. O ganlyniad, rhoddodd yr ysgolion hyn bwyslais cryf ar gyfathrebu diogel ar-lein gyda dysgwyr a theuluoedd, gan gymryd gofal i ymgyfarwyddo staff â disgwyliadau a materion posibl. Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol uwchradd annibynnol y brif ffrwd lunio protocol ar gyfer gwersi fideogynadledda, a gadwodd staff a disgyblion yn ddiogel wrth gynnal sesiynau.

Rhoddwyd mesurau ar waith i gefnogi lles dysgwyr gan ysgolion a cholegau arbennig annibynnol sy’n addysgu dysgwyr dydd. Cynhaliont gyswllt â dysgwyr, er enghraifft, drwy alwadau ffôn rheolaidd, y cyfryngau cymdeithasol neu ymweliadau â chartrefi. Roedd hyn wedi galluogi arweinwyr i ymateb i bryderon, fel trwy ddarparu cwnsela neu drwy atgyfeirio at asiantaethau perthnasol. Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol sy’n darparu lleoliadau dydd a phreswyl i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ddefnyddio’i gwefan i ddarparu arweiniad defnyddiol i rieni a gofalwyr, fel ar ddulliau ymarferol o reoli ymddygiad heriol, i’w helpu i gynorthwyo â dysgu a lles eu plentyn gartref.

Mewn ysgolion â darpariaeth breswyl, roedd dysgwyr preswyl yn cael eu cadw ar wahân i ddysgwyr dydd er mwyn lleihau risg lledaenu haint. Cynhaliodd yr ysgolion hyn asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion unigol, gan gynnwys awdurdodau lleol yn aml, er mwyn pennu p’un a fyddent yn gallu parhau i fynychu’n ddyddiol.

Cafodd yr holl ddarparwyr arbenigol hi’n arbennig o heriol i gynnal gwasanaethau therapiwtig arferol disgyblion, a daeth llawer o wasanaethau a oedd yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb i ben yn sgîl y canllawiau cenedlaethol i therapyddion bryd hynny.

## Dysgu

Parhaodd ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig annibynnol, a cholegau arbenigol annibynnol, i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer eu dysgwyr. I’r rheiny a oedd ynghlwm wrth gartrefi plant neu gartrefi preswyl, parhaodd rywfaint o addysgu wyneb yn wyneb, tra bod athrawon eraill wedi darparu gwaith ar gyfer staff cartrefi gofal i’w gyflawni, gyda chymorth gwersi’n cael eu ffrydio’n fyw. Gwnaeth darparwyr addasiadau i gydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch newydd, a lleihaodd athrawon weithgareddau oddi ar y safle a darparu mwy o ddysgu awyr agored ar dir yr ysgol yn aml. Aeth ysgolion a cholegau sy’n darparu ar gyfer disgyblion o fwy nag un cartref plant ati i addasu amserlenni ac adolygu trefniadau staffio er mwyn lleihau cyswllt cymdeithasol.

Mabwysiadodd ysgolion a cholegau annibynnol amrywiaeth o ddulliau dysgu gan ddibynnu ar faint a phroffil oedran yr ysgol. Fe wnaeth llawer o arweinwyr a staff wella’u defnydd o TGCh a llwyfannau ar-lein gryn dipyn yn ystod y cyfnod clo. Mewn rhai achosion, bu hyn yn fodd i ddiweddaru’u haddysgu a’u hannog i arbrofi gyda dulliau newydd, mwy ymarferol neu ddulliau yn canolbwyntio ar ddisgyblion. Er enghraifft, dosbarthodd un ysgol ddyfeisiau gyda meddalwedd wedi’i rhaglwytho a alluogodd disgyblion i ddylunio

# Ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol

cynhwysydd planhigion gardd.  Yna aeth staff ati i wneud y cynhwysyddion gan ddefnyddio argraffydd 3D.  Hefyd, fe wnaeth darparwyr elwa o ddatblygu systemau i hwyluso cyfarfodydd ar-lein rhwng staff a rhanddeiliaid allanol. Cred nifer o ysgolion arbennig a cholegau arbenigol fod hyn wedi helpu eu disgyblion i ymgysylltu'n fwy parod ag adolygiadau blynyddol gan eu bod yn teimlo'n fwy esmwyth a bod ganddynt fwy o reolaeth nag mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn amgylchedd amgaeedig.

Wynebodd ysgolion a cholegau arbennig annibynnol sy'n addysgu dysgwyr dydd heriau gwahanol o ran darparu gweithgareddau ystyrlon ar gyfer eu dysgwyr oherwydd roedd natur eu hanghenion addysgol arbennig yn golygu ei bod yn fwy heriol iddynt ymgysylltu â dysgu o bell.  Nid yw llawer o ddisgyblion ysgolion arbennig annibynnol yn benodol yn gweld eu hunain yn ddysgwyr llwyddiannus am eu bod wedi dioddef tarfu ar eu haddysg.  Yn gyffredinol, nid oes gan y disgyblion hyn gymaint o fynediad at adnoddau TGCh i alluogi dysgu ar-lein, ac yn aml, nid yw eu hamgylchiadau teuluol yn gefnogol i ddysgu gartref.  Adroddodd ysgolion fod ymgysylltiad y disgyblion hyn mewn dysgu yn anghyson, gyda rhai ddim yn gwneud y gwaith a osodwyd o gwbl.

## Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed

Bu'n rhaid i ysgolion a cholegau sy'n addysgu dysgwyr dydd gyfyngu ar nifer y dysgwyr a allai fod ar y safle ar unrhyw un adeg.  Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd arweinwyr yn cytuno gydag awdurdodau lleol pa ddysgwyr fyddai'n parhau i fynychu ar sail asesiad o'u hanghenion a'u nodweddion bregus.  Cafodd ychydig o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed eu hasesu fel risg rhy uchel i fynychu'r ysgol, er enghraifft oherwydd y tebygolrwydd nad oeddent wedi cydymffurfio â'r cyfnod clo neu heb gadw at fesurau cadw pellter cymdeithasol.

Mabwysiadwyd ymagwedd ofalus ac ystyriol gan y rhan fwyaf o ysgolion â niferoedd uchel o ddysgwyr agored niwed at sicrhau eu bod yn gofalu am iechyd a lles y disgyblion hyn a staff.  Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog lle parhaodd dysgwyr i fynychu trwy gydol y cyfnod clo, sicrhau bod cyfarpar diogelu personol gan yr holl staff a bod prawf tymheredd yn cael ei gynnal ar yr holl staff a disgyblion a oedd yn mynychu'n ddyddiol wrth iddynt gyrraedd y lleoliad.

Sicrhaodd llawer o ysgolion a cholegau annibynnol arbenigol fod timau amlddisgyblaethol a staff therapiwtig yn parhau i gyfarfod ar-lein i adolygu a diweddaru cynlluniau a strategaethau cymorth ar gyfer dysgwyr agored i niwed.  Cynhyrchwyd adnoddau ychwanegol ganddynt i gefnogi lles a dysgu disgyblion.

Roedd arweinwyr yn pryderu ynglŷn ag effaith diffyg cyswllt cymdeithasol i rai dysgwyr sy'n agored i niwed.  Roeddent yn pryderu ynglŷn â'r her o ailintegreiddio'r dysgwyr hyn ar ôl y cyfnod clo, yn enwedig y rhai ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

# Ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol

## Arweinyddiaeth

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion a cholegau annibynnol wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod clo, er ar gyfer nifer lai o ddisgyblion. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i arweinwyr i'r hyn wnaeth weithio'n dda o dan gyfyngiadau'r cyfnod clo a beth oedd angen iddynt ei fireinio neu ei addasu i alluogi'r holl ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol.

Parhaodd llawer o ysgolion i ddarparu datblygiad proffesiynol i staff yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau, drwy hyfforddiant ar-lein yn bennaf. Gwnaeth ychydig ddefnydd o'r amser i ddatblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cysylltu â blaenoriaethau gwella dynodedig, fel datblygu'r cwricwlwm. Er enghraifft, sicrhaodd un ysgol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog fod staff addysgu nad oeddent yn mynychu'n bersonol wedi ymgysylltu â rhaglen gynllunio a hyfforddi i ddatblygu'r cwricwlwm yn unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Roedd athrawon yn gallu cynllunio gyda'i gilydd, gan ganolbwyntio ar ddatblygu medrau ar gyfer disgyblion sy'n gweithio ar lefel cyn cam dilyniant 1[6].

Ystyriodd arweinwyr yn ofalus beth roedd angen iddynt ei wneud i baratoi i'r holl ddisgyblion ddychwelyd. Aethant ati i asesu pa addasiadau yr oedd eu hangen arnynt i'r amgylchedd ffisegol, a pha fesurau iechyd a diogelwch oedd yn ofynnol i atal lledaenu haint, yn enwedig lle'r oedd cyflyrau iechyd isorweddol gan ddysgwyr. Ym mron pob achos, cafodd yr ystyriaethau hyn effaith ar beth ellid ei addysgu, a sut. Adolygodd y rhan fwyaf o ddarparwyr eu cwricwlwm presennol a'u dulliau cyflwyno i ddarparu ar gyfer mesurau rheoli haint llymach.

Rhoddodd arweinwyr mewn ychydig o ysgolion annibynnol bach yr holl staff ar ffyrlo, gyda'r canlyniad mai'r pennaeth neu'r perchennog oedd â'r cyfrifoldeb am ddarparu addysg. Mewn ychydig iawn o achosion, dim ond staff nad oeddent yn staff addysgu, fel staff cegin a staff cymorth dysgu, a roddodd ysgolion annibynnol ar ffyrlo.

Cynigiodd y rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd annibynnol ostyngiad yn y ffioedd. Roedd hyn yn amrywio rhwng grwpiau oedran a rhwng ysgolion. Mae ychydig iawn o ysgolion annibynnol prif ffrwd wedi cau'n barhaol oherwydd diffyg cyllid yn ystod yr argyfwng COVID-19.

Ym mhob achos bron, ystyriodd arweinwyr effaith systemau ac arferion addysgu wedi'u haildrefnu ar les staff. Darparont gymorth i staff mewn amrywiaeth o ffyrdd, o fynediad at raglenni cymorth i weithwyr i newid strwythur y diwrnod ysgol i leihau amser cyswllt athrawon/disgyblion ac i ganiatáu amser i staff i baratoi a marcio. Yn ogystal, gweithiodd arweinwyr yn dda gyda staff i ymateb i'w hanghenion unigol a'u cyfrifoldebau gofalu.

[6] Cefnogir dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru gan ddisgrifiadau o ddysgu sy'n darparu arweiniad ar y modd y dylai dysgwyr wneud cynnydd wrth iddynt deithio drwy'r continwwm dysgu. Fe'u trefnir mewn pum cam dilyniant, sy'n darparu cyfeirbwyntiau ar gyfer cyflymder y dilyniant hwnnw. Maent yn cyfateb yn fras i ddisgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

# Ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol

## Partneriaethau a chyfathrebu

Roedd pob ysgol a choleg yn deall yr angen am gyfathrebu clir gyda disgyblion, eu teuluoedd a staff. Ym mron yr holl ysgolion a cholegau annibynnol rhoddodd arweinwyr drefniadau defnyddiol ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd neu ofalwyr yn rheolaidd. Er enghraifft, cynhyrchodd un ysgol breswyl pob oed gylchlythyr wythnosol llawn gwybodaeth ar gyfer staff, disgyblion a rhieni. Roedd hyn yn cynnwys ystod eang o wybodaeth ac arweiniad perthnasol a buddiol, fel sut gallai rhieni gynorthwyo â dysgu eu plant.

Cadwodd lawer o ysgolion gysylltiad mwy anffurfiol gyda staff, er enghraifft, drwy nosweithiau cwis. Nododd nifer o ysgolion annibynnol prif ffrwd fod ymdopi â'r pandemig wedi dod â chymuned yr ysgol yn agosach at ei gilydd ac, mewn llawer o achosion, roedd y cyswllt manylach gyda theuluoedd yn ganlyniad cadarnhaol, er yn anfwriadol, o'r cyfnod clo.

Cafodd ychydig o ysgolion sy'n rhan o sefydliadau mwy neu sydd â chysylltiadau allanol ehangach gyngor gan arweinwyr ysgol ledled y byd. Cynigiwyd gyngor buddiol gan yr ysgolion tramor hyn a oedd eisoes yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysgu disgyblion yn ystod y pandemig, er enghraifft, cyngor ar sut i ddatblygu cwricwlwm dysgu o bell.

Fe wnaeth arweinwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig sy'n addysgu disgyblion dydd, neu gymysgedd o ddisgyblion dydd a disgyblion preswyl, ddatblygu strategaethau rhannu gwybodaeth i fodloni amgylchiadau gwahanol y grwpiau hyn o ddysgwyr. Er enghraifft, lle nad oedd hyn yn ymarferol trwy gyfrwng llwyfannau ar-lein, hwylusodd arweinwyr rhannu gwybodaeth a dysgu o bell trwy ddosbarthu copïau caled i gartref y teulu.

Defnyddiwyd ystod o ddulliau gan ysgolion a cholegau arbenigol sy'n addysgu dysgwyr dydd i gadw cysylltiad â rhieni, gan gynnwys galwadau ffôn rheolaidd a chyfarfodydd ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, gweithiodd y trefniadau hyn yn dda ac roedd rhieni a gofalwyr yn eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gwnaeth un ysgol arbennig annibynnol sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol alwadau ffôn dyddiol â'r holl deuluoedd i gynnig cefnogaeth ac i wirio lles o fewn y teulu. Dosbarthwyd pecyn bwyd wythnosol a chopïau caled o waith ysgol i bob cartref gan aelod o staff. Cafodd y gwaith ei farcio a'i ddychwelyd yr wythnos ddilynol. Roedd hyn yn galluogi cyswllt priodol wyneb yn wyneb a chan gadw pellter cymdeithasol, a rhoddodd y cyfle i rieni i rannu'u profiadau â'u plentyn yn bresennol.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Cefnogi lles dysgwyr

Ar draws y sectorau, nododd darparwyr fod iechyd a lles dysgwyr a staff yn flaenoriaeth allweddol.  Rhoddodd staff ystod eang o ymyriadau cefnogi ar waith ar gyfer dysgwyr.

Bu darparwyr ôl-16 yn cysylltu â dysgwyr nad oeddent yn ymgysylltu â gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio er mwyn gwirio'u lles.  Fel arfer, gwnaed hyn dros y ffôn, trwy negeseuon testun neu'r e-bost.  **Mewn un coleg**, ymwelodd tîm o 20 o swyddogion lles â chartrefi dysgwyr i wirio eu lles, pan nad oedd dulliau eraill o gysylltu yn llwyddiannus neu'n briodol.  Hefyd, fe wnaethant ddosbarthu parseli bwyd ac offer TG i'r rheiny yr oedd angen help ychwanegol arnynt fwyaf.  Datblygodd y coleg ardal lles ar-lein hefyd, yn cynnwys dolenni at weithgareddau fel yoga a thechnegau myfyrdod, er mwyn helpu hyrwyddo a chefnogi lles dysgwyr a staff.

Cynhaliodd fwyafrif o golegau arolygon o les dysgwyr.  Drwy'r arolygon hyn, adroddodd lawer o ddysgwyr eu bod yn colli ffrindiau, rhyngweithio cymdeithasol a chyswllt wyneb yn wyneb â staff addysgu a chymuned ehangach y coleg.  Cynhaliodd y rhan fwyaf o golegau ddarpariaeth fugeiliol trwy diwtorialau ar-lein, ond roedd llai yn mynychu'r rhain na sesiynau dysgu ar-lein.

Ar draws darparwyr ôl-16, roedd dysgwyr yn aml yn pryderu ynghylch eu hasesiadau terfynol, trosglwyddo i'r brifysgol, neu sicrhau a chael cyflogaeth mewn marchnad lafur ansicr.  Adroddodd darparwyr dysgu yn y gwaith am lefel uchel o orbryder am brentisiaid a oedd wedi'u rhoi ar ffyrlo, a oedd wedi colli'u swyddi yn ystod y cyfnod clo, neu a oedd wedi gweld newidiadau sylweddol i'w prentisiaeth.  Mae **adroddiad gan Ymddiriedolaeth Sutton** (2020a, tud.1, 3) yn tynnu sylw at fod 'y pandemig wedi achosi heriau cymhleth ar draws y dirwedd prentisiaethau' a bod 'prentisiaid sydd eisoes ar gyflog isel wedi wynebu straen ariannol ychwanegol' a 'allai effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles hefyd.'

Mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, roedd diffyg gwybodaeth glir am y modd yr oedd dysgwyr oedrannus yn ymgysylltu â dysgu ar-lein, a pha effaith yr oedd yr argyfwng yn ei chael ar eu hiechyd a'u lles.

Adroddodd y rhan fwyaf o ddarparwyr am gynnydd yn y galw am gwnsela, dros y ffôn neu ar-lein, a bod hynny'n aml yn gysylltiedig â heriau gydag amgylchiadau teuluol dysgwyr.  Adroddont hefyd am gynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu, yn enwedig yn ymwneud â hunan-niweidio a meddyliau am hunanladdiad.  Gweithiodd darparwyr yn agos gydag asiantaethau allanol i wneud yn siŵr bod cymorth priodol ar gael ar gyfer y dysgwyr hyn.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Dysgu

Ar ddechrau'r cyfnod clo, symudodd arweinwyr a staff yn y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn gyflym i gyflwyno neu ehangu dulliau cyflwyno dysgu o bell ar draws yr holl raglenni dysgu. Roeddent yn defnyddio amryw o lwyfannau dysgu ar-lein a systemau e-bortffolio, a chynhaliwyd cyrsiau ar-lein penodol ganddynt mewn llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE), a Chymraeg. Yn y sector cyfiawnder, cynhyrchodd staff adnoddau ar gyfer dysgwyr i barhau'r dysgu yn eu celloedd tra bod dosbarthiadau wyneb yn wyneb wedi'u hatal. Ar draws yr holl sectorau, datblygodd staff eu medrau digidol yn gyflym a chyflwynodd darparwyr dysgu proffesiynol ar addysgeg yn benodol i ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mewn colegau addysg bellach a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, fe wnaeth staff aildrefnu amserlenni ar gyfer sesiynau cyflwyno cydamserol[7] er mwyn lleihau 'blinder sgrin' ac i ddarparu mynediad hawdd i ddysgwyr at ddosbarthiadau. Cyflwynodd llawer o ddarparwyr derfyn dyddiol uchaf ar yr amser y gellid trefnu i ddysgwyr a staff gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein. Ar draws yr holl sectorau ôl-16, cynhyrchodd staff addysgu adnoddau defnyddiol i helpu dysgwyr ddatblygu medrau mwy ymarferol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys darlithwyr sy'n gogyddion yn ffilmio arddangosiadau o sut i baratoi prydau bwyd, a dysgwyr amaethyddiaeth yn cynhyrchu fideos ohonyn nhw'u hunain yn cneifio defaid.

Adroddodd yr holl ddarparwyr am ymgysylltiad da gan y rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd pryder ynghylch lefelau ymgysylltiad ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys medrau byw'n annibynnol lefel 1 a dysgwyr lefel 2 mewn colegau, dysgwyr hyfforddeiaeth mewn dysgu yn y gwaith, a dysgwyr SSIE a'r rheiny â lefelau llythrennedd isel, a dysgwyr hŷn a dysgwyr agored i niwed eraill mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Y dysgwyr hyn yn aml yw'r rhai anoddaf i'w cael i ymgysylltu, ac mae gan lawer ohonynt rwystrau sylweddol rhag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys amgylchiadau cartref anodd ac amddifadedd. Nid oedd mynediad at liniadur addas na chysylltiad rhyngrwyd band eang gan lawer o'r dysgwyr hyn, ac mewn ychydig o achosion, nid oedd ganddynt fan addas i weithio gartref. Benthyciwyd offer gan ddarparwyr, neu fe wnaethant ddarparu cymorth ariannol arall i helpu darparu band eang, data symudol neu ddonglau rhyngrwyd i'r dysgwyr hynny â'r angen mwyaf am gymorth.

Ar draws y sectorau ôl-16, roedd cytundeb cyffredinol fod y dull 'dysgu cyfunol' yn debygol o fod yn elfen annatod o raglenni dysgu hyd y gellir rhagweld. Roedd colegau'n disgwyl y byddent yn defnyddio rhaglenni dysgu cyfunol am o leiaf fisoedd cynnar blwyddyn gyflwyno 2020-2021, ac roeddent yn cynllunio'r rhan fwyaf o raglenni dysgu i gynnwys cymysgedd o ddarpariaeth ar y campws, dysgu ar-lein a thasgau dysgu annibynnol. Roedd cynllunio ar gyfer yr hyblygrwydd i droi'n ôl at gyflwyno dysgu o bell yn gyfan gwbl pe bai cyfnod clo neu gyfyngiadau cenedlaethol neu leol pellach yn flaenoriaeth bwysig ar draws yr holl sectorau ôl-16.

[7] Mae dysgu cydamserol yn cyfeirio at grŵp o ddysgwyr sy'n gweithio gydag ymarferydd am gyfnod penodedig ar-lein.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

Ar draws y sectorau, bu staff yn gweithio'n hyblyg i ddarparu asesu ffurfiannol ac adborth i ddysgwyr ar y gwaith yr oeddent wedi'i gwblhau ar-lein. Roedd asesu crynodol yn her arbennig oherwydd y nifer fawr o ddysgwyr oedd yn ymgymryd â chymwysterau wedi'u hachredu'n allanol a'r ystod helaeth o gymwysterau oedd yn cael eu cyflwyno. Oherwydd natur ac amrywiaeth cymwysterau galwedigaethol, roedd y trefniadau asesu diwygiedig ar gyfer y cymwysterau hyn yn fwy cymhleth i'w gweithredu nag ar gyfer TGAU a Safon Uwch, yn enwedig lle'r oedd angen asesiadau ymarferol ar y safle o hyd. Er i sefydliadau dyfarnu wneud addasiadau dros dro i alluogi darparwyr i addasu neu oedi asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, nid oedd ychydig o ddysgwyr yn gallu cwblhau eu cymwysterau o fewn y graddfeydd amser arferol oherwydd anawsterau parhaus yn ymwneud â'r argyfwng COVID-19. Parhaodd darparwyr i flaenoriaethu a chefnogi'r dysgwyr hyn er mwyn eu helpu i gyflawni'u cymwysterau, lle bynnag y bo modd.

Ar gyfer yr ychydig o gymwysterau lle'r oedd asesiadau 'trwydded i ymarfer' yn ffurfio rhan o raglenni dysgu (fel gwaith gosod trydanol a nwy), fe wnaeth colegau addysg bellach wahodd ychydig iawn o ddysgwyr yn ôl i'r coleg yng nghanol Mehefin 2020 i ymgymryd ag asesiadau arbenigol. Mewn darparwyr dysgu yn y gwaith, ymwelodd aseswyr ag ychydig o ddysgwyr a oedd yn gallu ymgymryd ag asesiadau yn y gweithle. Roedd darparwyr yn wynebu heriau sylweddol o ran galluogi dysgwyr i ymgymryd â'u hasesiadau tra'n cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol.

Ers dechrau'r pandemig, mae prentisiaeth dysgu yn y gwaith wedi'u rhoi ar ffyrlo neu wedi'u diswyddo ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Erbyn diwedd mis Awst 2020, roedd nifer y dysgwyr ar ffyrlo wedi lleihau gryn dipyn o'r uchafswm ym Mai 2020. Fodd bynnag, roedd bron i 5,000 o ddysgwyr yn parhau ar ffyrlo ac roedd oddeutu 250 o ddysgwyr wedi'u diswyddo neu terfynwyd eu prentisiaethau yn sgîl diswyddo (Llywodraeth Cymru, 2020a). Y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf oedd y rhai ifanc, gwrywod, y rhai o hil gwyn neu gymysg, a'r rheiny sy'n bennaf yn nodi'u hunain ag anabledd neu anhawster dysgu. Yn aml, roedd dysgwyr a gafodd eu rhoi ar ffyrlo neu eu diswyddo yn cael eu cyflogi yn y sector preifat mewn cwmnïau sy'n cyflogi llai na 50 o staff. Y meysydd dysgu yr effeithiwyd fwyaf arnynt oedd trin gwallt a harddwch, hamdden, chwaraeon, teithio a thwristiaeth a lletygarwch ac arlwyo.

## Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed

Yn yr holl sectorau ôl-16, roedd staff yn rhoi blaenoriaeth i gadw cysylltiad rheolaidd â dysgwyr agored i niwed dros y ffôn, trwy negeseuon testun, y cyfryngau cymdeithasol, galwadau fideo a llwyfannau ar-lein. Llwyddiant cymysg a gafodd darparwyr dysgu yn y gwaith o ran sicrhau ymgysylltiad rheolaidd dysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod clo. Mewn ychydig iawn o achosion, **bu darparwyr yn helpu dosbarthu bwyd a chyflenwadau hanfodol i ddysgwyr agored i niwed** (Estyn, 2020o).

Rhoddodd darparwyr flaenoriaeth i drefniadau i ddysgwyr agored i niwed ddychwelyd yn ystod tymor yr haf. Bryd hynny, roedd ganddynt bryderon ynghylch ail-agor ar gyfer rhai dysgwyr agored i niwed. Roedd cludiant i ddysgwyr o gartref i'r darparwr yn her, yn enwedig i'r rheiny ag anawsterau

neu anableddau dysgu. Roedd cryn ansicrwydd ynghylch pa bryd a sut byddai colegau'n gallu ailddechrau cyflwyno rhaglenni medrau byw'n annibynnol ar y safle. Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon ynglŷn â risgiau yn gysylltiedig â darparu gofal personol ac anawsterau ymhlith rhai dysgwyr o fethu deall a dilyn gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Fe wnaeth bron yr holl bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned golli cysylltiad ag ychydig o ddysgwyr agored i niwed yn ystod y cyfnod clo, yn enwedig y rhai ar gyrsiau llythrennedd lefel mynediad a Saesneg fel ail iaith neu iaith arall. Mewn llawer o achosion, ceisiodd tiwtoriaid liniaru hyn drwy gynhyrchu podlediadau a fideos ar-lein.

## Arweinyddiaeth

Ar draws y sectorau ôl-16, ymatebodd arweinwyr yn gyflym a chadarnhaol i'r rhan fwyaf o heriau a gyflwynwyd gan y cyfnod clo. Aethant ati i ailstrwythuro'u darpariaeth i alluogi dysgu o bell, a rhoi hyfforddiant i staff ar gyflwyno ar-lein. Mewn carchardai, gweithredodd rheolwyr yn gyflym i sicrhau bod carcharorion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys gweithredu cyfyngiadau priodol ar gyfundrefnau a thrwy ynysu carcharorion a oedd yn dangos symptomau salwch. Mae colegau a chonsortia dysgu yn y gwaith yn cael eu harwain gan golegau yn nodi bod perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag undebau llafur wedi helpu hwyluso mwy o hyblygrwydd mewn arferion gweithio.

Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, roedd y rhan fwyaf o gadeiryddion partneriaethau yn aelodau o'u hawdurdod lleol ac yn aml roedd ganddynt nifer o gyfrifoldebau rôl swydd, gan gynnwys rolau argyfwng mewn gweithgareddau fel gweithgareddau tracio ac olrhain lleol mewn ymateb i'r pandemig. Mewn llawer o achosion, fe wnaeth hyn helpu gweithredu ymagwedd gydgysylltiedig gydag adrannau eraill o'r awdurdod lleol, gyda ffocws clir ar y dysgwyr sy'n oedolion mwyaf difreintiedig ac wedi'u hynysu'n gymdeithasol yn y gymuned. Fodd bynnag, fe wnaeth yr angen i gyflawni nifer o rolau roi pwysau cynyddol ar y staff hyn a'u gallu i gynnal darpariaeth ddysgu.

Wynebodd arweinwyr heriau sylweddol ar draws y sector ôl-16, gan gynnwys cyflawni gweithrediadau ar draws aml safleoedd ac ardaloedd daearyddol. Fodd bynnag, fe wnaethant roi trefniadau priodol cadw pellter cymdeithasol ar waith cyn agor eu cyfleusterau'n ehangach, er enghraifft gweithdai, salonau ac amgylcheddau gwaith realistig eraill fel bwytai hyfforddi.

Cynhaliodd arweinwyr mewn darparwyr dysgu yn y gwaith asesiadau risg ac asesiadau cadw pellter cymdeithasol o'u mannau ymarferol i ffwrdd o'r gwaith, a sefydlu protocolau ar gyfer sut byddai dysgwyr yn mynd i mewn ac allan o adeiladau. Lle'r oedd cyflogwyr yn ailagor, rhoddwyd ystyriaeth ganddynt i'r modd y byddent yn cynnal ymweliadau ac asesiadau yn y gweithle yn ddiogel wrth gydymffurfio â rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.

Parhaodd arweinwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i weithio ar ad-drefnu cynlluniau ar gyfer y sector, yn unol â chais gan Lywodraeth Cymru. Cefnogwyd hyn drwy gyfarfodydd y rhwydwaith dysgu oedolion.

# Addysg a hyfforddiant ôl-16

## Partneriaethau a chyfathrebu

Cynhaliodd arweinwyr mewn colegau addysg bellach eu cyfathrebiadau allanol drwy eu gwefannau yn bennaf, gan ategu hynny gyda phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar y dechrau, roedd ychydig o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn araf yn rhoi gwybodaeth ar eu gwefannau. Er y cafodd hyn ei unioni, roedd ansawdd a chyfredolrwydd y cynnwys yn parhau'n amrywiol.

Fe wnaeth darparwyr ar draws y sectorau gynnal cyfathrebu mewnol da gyda staff, ac yn aml roeddent yn cysylltu'n fwy rheolaidd na chyn y cyfnod clo, er enghraifft trwy gylchredeg bwletinau staff wythnosol. Parhaodd y rhan fwyaf o reolwyr a staff i gyfarfod ar sail un i un trwy lwyfannau ar-lein. Adolygodd llawer o arweinwyr eu dulliau cyfathrebu er mwyn cynnal gwelliannau canfyddedig, fel drwy wneud mwy o ddefnydd o gyfarfodydd rhithwir i leihau teithio.

Cynhaliodd arweinwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned gyswllt cyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid a gyda'u swyddogion cyfatebol mewn partneriaethau eraill. Mewn dysgu yn y gwaith, amrywiol oedd y cyfathrebu rhwng prif ddeiliaid contractau a'u haelodau consortiwm partner neu isgontractwyr. Yn yr enghreifftiau cryfach, cynhaliont gyswllt rheolaidd i adolygu'r sefyllfa barhaus a thrafod eu harferion a'u hymatebion. Roedd llai o gyswllt gan ychydig, ac roedd partneriaid yn gweithredu mewn modd llai cydlynus.

Cafodd y broses recriwtio dysgwyr addysg bellach ar gyfer 2020-2021 ei symud ar-lein hefyd ar ôl cau safleoedd. Cyfranogodd colegau mewn digwyddiadau diwrnod agored rhithwir cenedlaethol a drefnwyd gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion ac awdurdodau lleol. Hefyd, cynhaliodd colegau eu diwrnodau agored rhithwir ar-lein eu hunain, a darparodd llawer ohonynt sesiynau blasu ar-lein. Parhaodd darparwyr dysgu yn y gwaith i gofrestru dysgwyr prentis newydd lle'r oedd galw cynaledig. Adroddodd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, yn ogystal â bod dysgwyr o Gymru yn cofrestru ar gyfer eu cyrsiau ar-lein newydd, y gwelont alw annisgwyl hefyd ar gyfer y rhain o fannau eraill yn y DU a nifer o wledydd eraill ledled y byd (Estyn, 2020o).

Cyfarfu arweinwyr colegau yn rheolaidd, mor fynych â dwy neu deirgwaith yr wythnos trwy gydol y cyfnod clo, i gynllunio a rhannu ymatebion i COVID-19. Hefyd, buont yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gytuno ar ganllawiau ar gyfer dulliau gweithio diwygiedig wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio. Cyflwynodd colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith wybodaeth i Lywodraeth Cymru fel rhan o arolygon rheolaidd o effaith COVID-19 ar y sector addysg a hyfforddiant.

Parhaodd arweinwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i fynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Dysgu Oedolion a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Cynhaliwyd y rhain ar-lein o fis Mawrth 2020. Yn aml, mynychwyd cyfarfodydd gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a darparwyd cyfleoedd gwerthfawr i drafod materion allweddol ac i rannu gwybodaeth ac arfer.

Roedd argaeledd gwybodaeth ac arweiniad allanol ar gymwysterau galwedigaethol yn arafach ac yn llai effeithiol nag ar gyfer cymwysterau academaidd. Yn gyffredinol, rhoddwyd trefniadau darparu gwybodaeth ac asesu ar waith yn fwy hwylus ar gyfer cymwysterau yn cael eu rheoleiddio drwy Cymwysterau Cymru nag ar gyfer y cymwysterau hynny oedd yn cael eu cyflwyno ar draws y tair cenedl gartref. Yn benodol, fe wnaeth rhoi staff sefydliadau dyfarnu ar ffyrlo rwystro cyfathrebu ac achosi rhwystredigaeth pan nad oedd colegau'n gallu cysylltu â gwirwyr allanol a'u swyddogion cyswllt arferol eraill.

# Cymraeg i Oedolion

## Dysgu

Roedd yr ymateb i'r pandemig COVID-19 yn gadarn yn y sector Cymraeg i Oedolion.  Ar ôl wythnos o'r cyfnod clo, sicrhaodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan weithio gyda'r 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg, y gallai'r rhan fwyaf o gyrsiau yn y gymuned barhau yn ystod tymor yr haf.  Defnyddiodd diwtoriaid lwyfannau fideo a thechnoleg cynadledda o bell yn greadigol i addysgu eu dysgwyr.  O ganlyniad, parhaodd llawer o ddysgwyr i fynychu eu cyrsiau yn rhithwir.  Manteisiodd y sector ar y sefyllfa i dargedu dysgwyr newydd.  Er enghraifft, aeth y Ganolfan Genedlaethol ati i ffrydio gwersi dechreuwyr yn ddyddiol ar safle cyfryngau cymdeithasol poblogaidd, gan ddenu dros 2,000 o ddysgwyr cartref a rhyngwladol, ynghyd â sesiynau holi ac ateb byw.  Ym mis Gorffennaf, fe wnaethant ffrydio sesiynau dyddiol Clwb Cwtsh bob prynhawn i ddysgwyr a oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.  Daeth y Ganolfan Genedlaethol â'i chyrsiau dysgu cyfunol cenedlaethol cyntaf ar gyfer dechreuwyr ymlaen i fis Mai.  Roedd y cyrsiau hyn yn cyfuno dysgu o bell dan arweiniad tiwtor gydag astudio ar-lein yn annibynnol.  Sefydlont 89 o'r cyrsiau hyn ledled Cymru, gan ddenu dros 1,300 o ddysgwyr.

Cynigiodd darparwyr Dysgu Cymraeg ystod o gyrsiau dysgu dwys o bell ac ar-lein yn ystod yr haf yn lle'r ddarpariaeth wyneb yn wyneb arferol, a theilwra darpariaeth yn greadigol i addasu i'r heriau a grëwyd gan y pandemig.  Roedd ymateb cadarnhaol y sector yn rhannol yn sgil ei bwyslais strategol cynyddol ar ddatblygu darpariaeth dysgu digidol.  Canlyniad y strategaeth hon oedd bod dros fil o adnoddau dysgu digidol ac ystod o gyrsiau blasu ar-lein ar lwyfan dysgu digidol cenedlaethol y sector wedi dod ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.  Dilynodd dros 8,000 o ddysgwyr y cyrsiau hyn yn ystod y cyfnod clo[8].

Roedd y sector yn hyblyg o ran ei hymagwedd at ddefnyddio technolegau gwahanol a ddefnyddiwyd gan sefydliadau cynnal y darparwyr.  Roedd hyn yn golygu y gallai tiwtoriaid ddefnyddio ystod o lwyfannau a chyfryngau cymdeithasol i addysgu ac ymgysylltu â'u dysgwyr.  Trwy ddefnyddio fideogynadledda, roedd dysgwyr yn gallu ymarfer eu medrau iaith mewn ystafelloedd sgwrsio, tra bod tiwtoriaid yn arsylwi ac yn rhyngweithio â nhw.

Defnyddiodd y sector gyfryngau digidol i hyrwyddo cyfleoedd dysgu anffurfiol fel bod dysgwyr yn gallu defnyddio Cymraeg mewn clybiau ar-lein, fel darllen, garddio a cherddoriaeth.  Fe wnaeth y cynllun 'Siarad', sy'n paru dysgwyr gyda siaradwyr rhugl, ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr siarad Cymraeg, tra bod rhai dysgwyr wedi elwa o siaradwyr Cymraeg adnabyddus yn ymweld â dosbarthiadau rhithwir ar gyfer sesiynau holi ac ateb.

Fe wnaeth y sector alluogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i gyfranogi mewn dysgu, er enghraifft, drwy recordio fersiwn sain o'r cwrs dechreuwyr lefel mynediad ac, yn yr achosion gorau, darparu hyfforddiant unigol i ddysgwyr â namau synhwyraidd difrifol.  Ymgynghorodd y Ganolfan Genedlaethol a darparwyr gyda dysgwyr trwy gydol y cyfnod hwn i ystyried eu barnau wrth gynllunio darpariaeth i'r dyfodol.

[8] https://dysgucymraeg.cymru/newyddion/miloedd-mwy-yn-dysgu/

# Cymraeg i Oedolion

Mae CBAC yn darparu cyfres o gymwysterau ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg, o'r enw Defnyddio'r Gymraeg. Cafodd yr holl arholiadau Cymraeg i Oedolion eu canslo yr haf hwn oherwydd yr argyfwng iechyd y cyhoedd.

## Arweinyddiaeth

Lluniodd arweinwyr yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynllun dysgu digidol a arweiniodd at staff yn cael eu hadleoli er mwyn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ac adnoddau digidol ymhellach. Cyfarfu grŵp ansawdd arbennig yn wythnosol, gyda chynrychiolaeth o bob un o'r 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg, i rannu arfer dda yn ogystal â monitro gweithgareddau a'r technolegau a oedd yn cael eu defnyddio ledled y wlad.

Darparodd arweinwyr gyfleoedd hyfforddi defnyddiol ar gyfer staff, yn genedlaethol ac yn lleol, i hwyluso'r newidiadau hyn. Roedd hyn yn cynnwys y gynhadledd genedlaethol flynyddol a ddenodd dros 200 o gyfranogwyr, a oedd yn sampl gynrychioliadol dda o'r sector, ac roedd y ffocws ar ddatblygu addysgeg ar-lein effeithiol.

Bu arweinwyr yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cydweithio â phartneriaid, fel Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i barhau i ddarparu'r ŵyl 'Ar Lafar' ar gyfer dysgwyr Cymraeg mewn fformat rhithwir. Hefyd, bu'r sector yn gweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i greu Pentref Dysgu Cymraeg rhithwir fel rhan o'r Eisteddfod AmGen. Yn ogystal, parhaodd y cynllun Cymraeg Gwaith, ar y cyd â'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, trwy ddysgu o bell.

Roedd arweinwyr yn cyfathrebu'n dda â sefydliadau eraill i ddatblygu cyfleoedd pellach defnyddiol ar gyfer dysgwyr. Fe wnaethant ffurfio cytundeb partneriaeth ffurfiol gyda darparwr ar-lein annibynnol sy'n cryfhau statws y Ganolfan Genedlaethol fel siop un stop ar gyfer gwybodaeth ac adnoddau. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, mae'r ddau gorff wedi cytuno i rannu adnoddau ac i gynnig disgowntiau ariannol i ddysgwyr ei gilydd.

Fe wnaeth cyfathrebu rheolaidd a defnyddiol rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'r darparwyr Dysgu Cymraeg sicrhau bod y trosglwyddo i ffwrdd oddi wrth gyflwyno traddodiadol wyneb yn wyneb i ddysgu o bell yn effeithiol ac yn llwyddiannus yn gyffredinol.

# Addysg gychwynnol i athrawon

## Dysgu

Cadwodd yr holl bartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon (AGA) mewn cysylltiad ag athrawon dan hyfforddiant. Derbyniodd y myfyrwyr diwtorialau rheolaidd, ar-lein a drefnwyd i gefnogi'u lles. Yn sgil defnyddio tiwtorialau ar-lein, ysgogwyd y partneriaethau i werthuso'u defnydd arferol o diwtorialau wyneb yn wyneb, yr oeddent yn y rhan fwyaf o achosion yn eu cynnal ar sail cyfeirio neu hunangyfeirio.

Roedd llawer o fyfyrwyr yn bryderus ynghylch sicrhau swydd ddysgu ar gyfer Medi 2020. Mae partneriaethau wedi cefnogi myfyrwyr drwy eu helpu i baratoi ar gyfer cyfweliadau ar-lein.

Ym Mawrth 2020, roedd llawer o fyfyrwyr AGA yn ymgymryd ag elfen profiad gwaith eu rhaglen. Cyn gynted y cynghorwyd darparwyr AGA gan Lywodraeth Cymru i dynnu myfyrwyr o ysgolion, dechreuodd yr holl ddarparwyr gefnogi'u myfyrwyr ar-lein. Gwelodd y sefydliadau addysg uwch yn y partneriaethau bod y trosglwyddo o weithio'n ddigidol yn gymharol hawdd oherwydd bod y defnydd o amgylcheddau dysgu rhithwir wedi'i sefydlu'n dda mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon. Roedd myfyrwyr eisoes yn gyfarwydd â gweithio ar lwyfannau digidol fel rhan o'u rhaglenni.

Addasodd y partneriaethau eu rhaglenni yn gyflym. Rhoddwyd amser i fyfyrwyr gwblhau eu haseiniadau academaidd, a rhoddwyd mwy o bwyslais ar adolygu llenyddiaeth, fel bod myfyrwyr yn gallu ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu a dysgu. Cynorthwywyd myfyrwyr gan y partneriaethau i gwblhau eu Pasbortau Dysgu Proffesiynol (PDP), ac fe wnaethant ymgysylltu â myfyrwyr ar-lein gyda thasgau a fyddai fel arfer wedi cael eu gwneud yn y brifysgol, fel cyfweliadau ffug a chymorth ar gyfer ceisiadau am swyddi.

Ar raglenni israddedig, lle byddai myfyrwyr fel arfer yn ymgysylltu a'r rhannau o'r rhaglen sy'n cael eu haddysgu yn ystod diwedd tymor y gwanwyn a thymor yr haf, canfu llawer o bartneriaethau ffyrdd newydd o addysgu myfyrwyr gan ddefnyddio dulliau digidol. Archwilion nhw am ffyrdd dychmygus o gyflwyno darlithoedd a seminarau. Dyluniwyd gweminarau ganddynt, sesiynau addysgu 'byw' a phecynnau rhyngweithiol fel bod myfyrwyr yn gallu parhau â'u dysgu gartref, yn unigol, mewn grwpiau a gyda'u tiwtoriaid. Gwnaeth llawer o bartneriaethau ymchwil i ymarfer mewn dysgu cyfunol mewn rhannau eraill o'r byd i'w helpu i ddatblygu ymagweddau newydd at addysgeg. Er enghraifft, datblygodd un darparwr AGA ei raglenni gyda phwyslais penodol ar ddysgu digidol. Rhoddodd gyfrifiadur llechen i bob myfyriwr fel eu bod yn gallu defnyddio ystod eang o gymwysiadau ar gyfer gweithgareddau dysgu, gan gynnwys cyflwyniadau, gweithlyfrau digidol, a fideos. Nod hirdymor y bartneriaeth yw defnyddio mwy o ymagweddau cyfunol at addysgu a dysgu yn y brifysgol ac yn yr ysgol.

# Addysg gychwynnol i athrawon

Gan mwyaf, nid oedd myfyrwyr AGA, yn enwedig y rhai ar raglenni ôl-raddedig, yn gallu cwblhau elfen profiad gwaith eu cwrs oherwydd yr argyfwng COVID-19.  Roedd hyn yn golygu nad oeddent yn gallu cyflawni'r nifer o wythnosau lleoliad ysgol a fynnir fel arfer iddynt gyflawni'u Statws Athro Cymwysedig (SAC).  Er mwyn i'r myfyrwyr hyn gyflawni'u SAC, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllawiau i ddarparwyr AGA** (Llywodraeth Cymru, 2020e) a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau AGA ystyried llwyddiant myfyrwyr o ran bodloni SAC drwy asesu p'un a oedd myfyrwyr 'ar y trywydd' i fodloni disgrifwyr SAC y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.  Gwelodd yr holl bartneriaethau y broses hon yn un gymharol syml, a bu modd iddynt ddyfarnu SAC i fyfyrwyr, lle bo'n briodol.  Roedd hyn oherwydd bod y partneriaethau wedi datblygu prosesau cryfach ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion nag yn flaenorol mewn AGA.

## Arweinyddiaeth

O ddechrau'r argyfwng, parhaodd arweinwyr mewn sefydliadau addysg uwch sy'n darparu AGA a'u hysgolion partner i weithio gyda'i gilydd trwy gyfarfodydd arweinyddiaeth a rheolaeth ar-lein.  Parhaodd y tair partneriaeth sy'n darparu rhaglenni newydd yn yr hydref 2020 â'u cyfarfodydd cynllunio i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.  Roedd y partneriaethau'n gefnogol o'i gilydd ledled Cymru, trwy gyfarfodydd rheolaidd o bell lle'r oeddent yn trafod materion, fel ymagweddau cyffredin at yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu.

Nodwyd problemau posibl gan arweinwyr yn yr holl bartneriaethau o ran cynnal y rhaglenni yn nhymor yr hydref 2020.  Gwnaeth bob un ohonynt drefniadau wrth gefn ar gyfer mynediad cyfyngedig i ysgolion a phrifysgolion, a chynllunio i roi deunyddiau dysgu ar-lein ar gyfer myfyrwyr.  Roedd hyn yn golygu bod ffocws ar astudio academaidd a theori i fyfyrwyr yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y rhaglen, sy'n rhwystro ymagwedd fwriadedig y partneriaethau AGA newydd i gyfuno theori ac ymarfer.

Datblygodd arweinwyr mewn AGA a Llywodraeth Cymru ymagwedd golegol at weithio mewn AGA ledled Cymru.  Roedd hyn yn hollbwysig o ran sicrhau ymagwedd gyson at heriau amrywiol a wynebwyd yn ystod yr argyfwng.  Er enghraifft, buont yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu ffyrdd posibl i fyfyrwyr gasglu tystiolaeth ddigidol i gefnogi'u PDP.

Cydweithiodd y partneriaethau gyda chonsortia rhanbarthol hefyd i ddatblygu gwaith pwysig ar y cyd, er enghraifft wrth ddatblygu ymagweddau at ymholi athrawon, neu drwy gefnogi prosesau ymsefydlu.  Ysgogwyd rywfaint o'r gwaith hwn mewn ymateb i'r argyfwng, ond mae wedi darparu cynllun ar gyfer ffyrdd y gallai ysgolion, prifysgolion a gwasanaethau gwella ysgolion weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol, er enghraifft trwy ddarparu pontio hwylus mewn dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG).

# Atodiad 1 Trosolwg



# Atodiad 1
# Trosolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.  Rydym yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ein hariannu ganddo.  Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

**Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Nod ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid (TTI) sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ac arolygiadau o garchardai sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai EM. Weithiau, rydyn ni'n ymuno ag Ofsted i arolygu colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru. Efallai y byddwn hefyd yn ymuno ag arolygiadau o garchardai yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o garcharorion o Gymru. Yn ogystal, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol, ac yn cydweithio ag arolygwyr ACG wrth arolygu lleoliadau meithrin nas cynhelir.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Mae gennym safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant a gyflwynwyd ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma:

**www.estyn.llyw.cymru**

# Y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r disgrifwyr barn ar gyfer y cylch arolygu o Fedi 2017

Bydd y fframwaith yn berthnasol ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach o 2018.

Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu pum maes arolygu a 15 o ofynion adrodd.

**1 – Safonau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**
2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**
3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**
4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

Y Fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol

**1 – Deilliannau**
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Lles ac agweddau at ddysgu

**2 – Ansawdd Gwasanaethau Addysg**
2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed
2.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

**3 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
3.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
3.2 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
3.3 Dysgu proffesiynol
3.4 Trefniadau diogelu
3.5 Defnyddio adnoddau

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg a gofal mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser

**1 – Maes allweddol**
1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?
1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?
1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?
1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

**2 – Dysgu**
2.1 Pa mor dda mae plant yn caffael medrau ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu?

**3 – Gofal a datblygiad**
3.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?
3.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau?
3.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn bodloni'u hanghenion unigol?

**4 – Addysgu ac asesu**
4.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion plant?
4.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn addysgu ac yn asesu plant?

**5 – Yr amgylchedd**
5.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle?
5.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd y safle?
5.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

**6 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**
6.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?
6.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella?
6.3 Pa mor effeithiol yw'r rheolaeth ar staff ac adnoddau?
6.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Ar gyfer yr arolygiadau hyn, rydym yn defnyddio'r raddfa bedwar pwynt ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig.  Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Adolygu gan Estyn | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| Monitro gan Estyn | | | | ✓ | | |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |
| Yn peri pryder sylweddol | | | ✓ | | | |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | | | | ✓ | | |

| Categori | Esboniad |
| --- | --- |
| **Arfer ragorol** | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| **Monitro gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. O fis Medi 2017, defnyddiwyd y categori hwn ar gyfer arolygiadau o leoliadau nas cynhelir i blant dan 5 oed yn unig. |
| **Adolygu gan Estyn** | Fel arfer, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Bydd pob ysgol yn y categori hwn yn cael adolygiad desg. Cynhelir yr adolygiad yn Hydref/Tachwedd, ar ôl i ddata CA4 dros dro gael ei gyhoeddi. O ganlyniad i'r adolygiad desg, bydd ysgolion sy'n dangos tystiolaeth glir o gynnydd yn cael eu tynnu o'r categori hwn. Bydd ysgolion nad ydynt wedi dangos tystiolaeth glir o gynnydd naill ai'n aros yn y categori Adolygu gan Estyn am 12 mis arall, neu byddant yn cael ymweliad monitro ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd honno. |
| **Gwelliant â ffocws** | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| **Angen gwelliant sylweddol** | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| **Mesurau arbennig** | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| **Adolygu gan Estyn: ôl-16** | Os nodir bod angen adolygu neu fonitro gan Estyn ar ddarparwr ôl-16 neu hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os bydd arolygwyr yn barnu y bu cynnydd annigonol, gallai hyn arwain at ail-arolygiad llawn. Ar ôl monitro gan Estyn, os bydd arolygwyr o'r farn y gwnaed cynnydd digonol, caiff llythyr ei gyhoeddi ar wefan Estyn. |
| **Ailarolygiad** | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |
| **Yn peri pryder sylweddol** | Bydd y lefel hon o weithgarwch yn ofynnol pan fydd arolygwyr yn barnu bod angen gweithgarwch dilynol ar wasanaethau addysg llywodraeth leol. Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn cadeirio cynhadledd wella gydag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd wella ôl-arolygiad, bydd Estyn yn hwyluso cynhadledd cynnydd. Byddwn yn ystyried pa mor debygol ydyw y gellid tynnu'r awdurdod o'r categori gweithgarwch dilynol ymhen blwyddyn. Os ydym o'r farn bod yr awdurdod yn debygol o allu dangos digon o gynnydd i'w dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol, byddwn yn cynllunio ymweliad monitro. Fodd bynnag, os yw Estyn o'r farn y bydd angen mwy o amser ar yr awdurdod, byddwn yn hwyluso ail gynhadledd cynnydd ymhen blwyddyn. |

**Esboniad o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiir i ddisgrifio'n harfarniadau**

Y geiriau a'r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl canlynol yw'r rheini rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio'n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw'r esboniadau mwy manwl gywir.


| | |
|---|---|
| bron pob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | agos at 50% |
| lleiafrif | islaw 40% |
| ychydig | islaw 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

# Nodiadau am y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn

Mae'r data rydyn ni'n eu dangos mewn siartiau neu'n eu trafod yn nhestun yr adroddiad hwn yn dod o gronfa ddata deilliannau arolygu Estyn yn bennaf. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o ddata a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau yn y siartiau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae'n bosibl na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Wrth ddadansoddi deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod anawsterau wrth gymharu tueddiadau mewn deilliannau rhwng blynyddoedd. Bob blwyddyn, byddwn yn arolygu cyfran o ddarparwyr ym mhob sector. Ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, sef 2019-2020, fe wnaethom atal yr holl waith arolygu ym mis Mawrth o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac felly fe wnaethom arolygu sampl lai o ddarparwyr na'r arfer.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod angen cymryd cryn ofal wrth gymharu deilliannau arolygu, a data arall, rhwng sectorau ac o fewn sectorau pan fydd nifer y darparwyr yn fach.



# Atodiad 2

# Deilliannau arolygu 2019-2020

# Atodiad 2 – Deilliannau arolygu 2019-2020

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi deilliannau arolygu 2019-2020 ym mhob sector. Cyhoeddom ddeilliannau ein harolygiadau yn 2019-2020 ar ffurf ystadegau swyddogol. Datganwyd yr ystadegau ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar wefan Estyn, ac fe'u paratowyd yn unol ag egwyddorion a phrotocolau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.


Mae ein gwefan data rhyngweithiol yn rhoi crynodebau o ddeilliannau ein harolygiadau ac ymatebion disgyblion a rhieni i holiaduron.  Gall defnyddwyr ychwanegu hidlyddion i addasu pa ddata a welant a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'r wefan yn cynnwys data arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 ac 16 Mawrth 2020.

Mae ein datganiad ystadegol a data rhyngweithiol i'w gweld yma: https://www.estyn.llyw.cymru/annual-report-her-majestys-chief-inspector-education-and-training/ystadegau-swyddogol


I gael rhagor o wybodaeth am adroddiadau arolygu darparwyr unigol, ewch i: https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu

## Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan 5 oed

**Nifer yr arolygiadau = 52**





**Gweithgarwch dilynol**




# Cynradd

Nifer yr arolygiadau = 108





**Gweithgarwch dilynol**





# Uwchradd

Nifer yr arolygiadau = 25





**Gweithgarwch dilynol**



# Ysgolion pob oed a gynhelir

**Nifer yr arolygiadau = 2**





**Gweithgarwch dilynol**




# Ysgolion arbennig a gynhelir

**Nifer yr arolygiadau = 6**





**Gweithgarwch dilynol**




# Ysgolion arbennig annibynnol

**Nifer yr arolygiadau = 5**





# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

**Nifer yr arolygiadau = 3**





# Unedau cyfeirio disgyblion

**Nifer yr arolygiadau = 2**





**Gweithgarwch dilynol**



# Dysgu yn y gwaith

**Nifer yr arolygiadau = 2**





**Gweithgarwch dilynol**




# Dysgu oedolion yn y gymuned

**Nifer yr arolygiadau = 2**





**Gweithgarwch dilynol**



# Cymraeg i Oedolion

Nifer yr arolygiadau = 2





**Gweithgarwch dilynol**




# Sectorau eraill

Hefyd, fe wnaethom gynnal tri arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol, un arolygiad o goleg addysg bellach ac un arolygiad o goleg annibynnol arbenigol. Mae'r adroddiadau arolygu unigol ar ein gwefan yn darparu manylion ein canfyddiadau o'r arolygiadau hyn.



# Atodiad 3

# Cyfeiriadau

# Cyfeiriadau

Arolygiaeth Gofal Cymru (2020a) *Datganiad ar y cyd rhwng AGC ac Estyn mewn perthynas â lleoliadau gofal plant nas cynhelir.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://arolygiaethgofal.cymru/200723-datganiad-ar-y-cyd-rhwng-agc-ac-estyn-mewn-perthynas-lleoliadau-gofal-plant-nas-cynhelir [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Arolygiaeth Gofal Cymru (2020b) *Rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2020-05/200513-sicrwydd-ynglyn-ag-ansawdd-a-diogelwch-gwasanaethau-cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Barnado's (2020) *Time for a Clean Slate: Children's Mental Health at the Heart of Education.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/uploads/time-for-clean-slate-mental-health-at-heart-education-report.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

BBC News (2020a) *Coronavirus: Wearing of face masks up to Welsh schools and councils to decide.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-53918841 [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

BBC News (2020b) *GCSEs and A-level exams: Teacher estimates to be used for Welsh grades.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53807854 [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

BBC News (2020c) *'Not safe to reopen schools', warn teachers' unions.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.bbc.co.uk/news/education-52650259 [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

CGA (2020) *Athrawon Ysgol Newydd Gymhwyso (ANGau) Cofrestredig yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/documents-cym/research-and-statistics-1/research-reports-1/2245-athrawon-ysgol-newydd-gymhwyso-angau-cofrestredig-yng-nghymru.html [Defnyddiwyd 1 Medi 2020]

Comisiwn Annibynnol ar Goleg y Dyfodol (2020) *People, productivity and place: a new vision for colleges.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://static1.squarespace.com/static/5c8847f58dfc8c45fa705366/t/5f1712a7b7c02d65b1b8c822/1595347633317/English_ICCF+-+People%2C+productivity+and+place+FINAL.pdf [Defnyddiwyd 20 Awst 2020]

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GwE, Estyn a Llywodraeth Cymru (2020a) *Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/0c35b0fc-2a67-4008-aece-0e8719f9833b/developing-approaches-to-support-distance-learning-cy.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi]

# Cyfeiriadau

Consortiwm Canolbarth y De, Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GwE, Estyn a Llywodraeth Cymru (2020b) *Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/2eaeb6da-f4f9-4ac0-88d5-57f1728c6e38/datblygu-dulliau-integredig-i-gefnogi-dysgu-cyfunol.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Corff Adolygu Annibynnol Cyflogau Cymru (2020) *Ail Adroddiad – 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/corff-adolygu-cyflogau-annibynnol-cymru-ail-adroddiad-2020.pdf [Defnyddiwyd 20 Awst 2020]

Cymwysterau Cymru (2020e) *Mae cymwysterau eleni yr un mor werthfawr ag unrhyw flwyddyn arall.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/mae-cymwysterau-eleni-yr-un-mor-werthfawr-ag-unrhyw-flwyddyn-arall/ [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Cymwysterau Cymru (2020a) *Canllaw i Ddysgwyr: Apeliadau a chwynion ynghylch camymddwyn a chamweinyddu.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.qualificationswales.org/media/6475/200826-learner-guide-appeals-malprac-maladmin-complaints.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Cymwysterau Cymru (2020b) *Trosolwg o ganlyniadau UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yng Nghymru – Haf 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.qualificationswales.org/media/6471/overview-of-as-and-a-level-results-in-wales-updated-21-august-cym-complete.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Cymwysterau Cymru (2020c) *Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi nodau ar gyfer cyfrifo graddau a gofynion ar gyfer apelio.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/cymwysterau-cymru-yn-cyhoeddi-nodau-ar-gyfer-cyfrifo-graddau-a-gofynion-ar-gyfer-apelio/ [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Cymwysterau Cymru (2020d) *Canlyniadau ar gyfer Safon Uwch, UG, TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru – Haf 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.qualificationswales.org/media/6458/canlyniadau-ar-gyfer-safon-uwch-ug-tgau-a-r-dystysgrif-her-sgiliau-yng-nghymru-haf-2020-trosolwg.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Estyn (2019a) *Iach a hapus – effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Healthy%2520and%2520Happy%2520report%2520Cy_0.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

# Cyfeiriadau



Estyn (2019b) *Arferion cofrestru disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Pupil%2520registration%2520practices%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Estyn (2020a) *Cyngor ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Cyngor%2520i%2520arweinwyr%2520a%2520llywodraethwyr%2520ysgolion%2520ac%2520UCDau%2520ar%2520sut%2520i%2520barhau%2520%25C3%25A2%2520busnes%2520ysgol%2520ac%2520UCD%2520yn%2520ystod%2520pandemig%2520Covid-19%2520-%2520Cy_0.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Estyn (2020b) *Trefniadau ar gyfer mis Medi: Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-09/Arrangements_for_September_2020_Planned_approaches_across_maintained_schools_and_PRUs_cy.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Estyn (2020c) *Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch: Canllaw arfer dda ar gyfer busnes, economeg, llywodraeth a gwleidyddiaeth, y gyfraith, seicoleg a chymdeithaseg UG a Safon Uwch yn y chweched dosbarth mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Pynciau_busnes_ac_astudiaethau_cymdeithasol_Safon_Uwch.pdf [Defnyddiwyd 20 Awst 2020]

Estyn (2020d) *Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Cameos_and_ideas_from_schools_and_PRUs_on_continuing_with_school_business_Cy.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Estyn (2020e) *Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant: Arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) mewn ysgolion a cholegau.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-10/Celebrating_diversity_and_promoting_inclusion_cy_0.pdf [Defnyddiwyd 21 Hydref 2020]

Estyn (2020f) *Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Community%2520Schools%2520cy_0.pdf [Defnyddiwyd 14 Gorffennaf 2020]

Estyn (2020g) *Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed - astudiaethau achos arfer dda.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Effective%2520school%2520support%2520for%2520disadvantaged%2520and%2520vulnerable%2520pupils%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Estyn (2020h) *Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Insights%2520into%2520how%2520independent%2520schools%2520and%2520specialist%2520colleges%2520have%2520responded%2520during%2520the%2520COVID%25E2%2580%259319%2520pandemic%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

# Cyfeiriadau


Estyn (2020i) *Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD, gan ddefnyddio technoleg lle y bo'n briodol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Key%2520principles%2520to%2520support%2520the%2520continuation%2520of%2520school%2520and%2520PRU%2520business%2520-%2520Cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Estyn (2020j) *Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Knowing%2520your%2520children%2520%2520supporting%2520pupils%2520with%2520adverse%2520childhood%2520experiences_0.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Estyn (2020k) *Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Leadership%2520development%2520-%2520Thematic%2520survey%2520report%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Estyn (2020l) *Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Partnerships%2520with%2520employers%2520in%2520secondary%2520and%2520special%2520schools%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 3 Mai 2020]

Estyn (2020m) *Atal – pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir yn gweithredu eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Prevent%2520-%2520thematic%2520report%2520cy.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Estyn (2020n) *Pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Pupil%2520Referral%2520Unit%2520management%2520committees%2520cy_0.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Estyn (2020o) *Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd: Adroddiad arfer dda.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Pupils%2520with%2520special%2520educational%2520needs%2520in%2520mainstream%2520schools%2520cy_0.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Estyn (2020p) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-bartneriaethau-dysgu-oedolion-yn-y [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Estyn (2020q) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-golegau-addysg-bellach [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

# Cyfeiriadau


Estyn (2020r) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-ysgolion-cynradd [Defnyddiwyd 25 Mehefin 2020]

Estyn (2020s) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-ddarparwyr-dysgu-yn-y-gwaith [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Estyn (2021) *Caffael iaith ar gyfer dysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed.* Caerdydd: Estyn. (i ddod)

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2019) *Education in Prison.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.gov.uk/guidance/education-in-prison [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (2019) *Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG): Cylch Gwaith a Blaenoriaethau 2019-20.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/Llythyr%20Cylch%20Gwaith%202019%202020.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Gyrfa Cymru (2017) *Newid Bywydau: Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru 2017-20.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/Gyrfa%20Cymru%20Gweledigaeth%20Strategol.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

Gyrfa Cymru (2019) *Hynt disgyblion.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gyrfacymru.llyw.cymru/gweithwyr-gyrfaoedd-proffesiynol/hynt-disgyblion [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion.* [Ar-lein]. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/meini-prawf-ar-gyfer-achredu-rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 20 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr: Adroddiad blynyddol 2018-19.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-adroddiad-blynyddol-2018-19.pdf [15 Mai 2020]

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2019b) *Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau: Adroddiad Terfynol 2015-2019.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/gwerthusiad-or-rhaglen-hyfforddeiaethau-adroddiad-terfynol-2015-2019.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2019c) *Ystadegau Dysgu Cymraeg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/ystadegau-2018-19/ [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2019d) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2019.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2019 [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020) *Deddf y Coronafeirws 2020: Hysbysiad Addasu Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/hysbysiad-addasu-gofynion-y-cwricwlwm-yng-nghymru-2020.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Prentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19): hyd at 28 Awst 2020*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/prentisiaid-roddwyd-ar-ffyrlo-neu-ddiswyddwyd-yn-ystod-pandemig-coronafeirws-covid-19-hyd-28-awst [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Presenoldeb mewn lleoliadau awdurdod lleol yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19): 13 i 17 Gorffennaf 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-13-i-17-gorffennaf-2020 [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Canllawiau dysgu cyfunol ar gyfer darparwyr Ôl-16.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/canllawiau-dysgu-cyfunol-ar-gyfer-darparwyr-ol-16 [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020d) *Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi-pob ysgol yng Nghymru i fynd i mewn i'r cyfnod nesaf.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020e) *Coronafeirws (COVID-19): Canllawiau dros dro ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-dros-dro-ar-gyfer-partneriaethau-addysg-gychwynnol-athrawon-aga [Defnyddiwyd 7 Medi]

Llywodraeth Cymru (2020f) *Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y Sector Ôl-16. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/cynllun-cadernid-covid-19-sector-ol-16.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

# Cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2020g) *Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16: cyngor i athrawon a darlithwyr.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/cymwysterau-ol-16-canllawiau-i-athrawon-mewn-colegau-addysg-bellach-chweched-dosbarth-mewn-ysgolion [Defnyddiwyd 7 Medi)

Llywodraeth Cymru (2020h) *Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16: canllawiau i ddysgwyr.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-08/a-guide-for-learners.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020i) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar https://hwb.gov.wales/storage/afca43eb-5c50-4846-9c2d-0d56fbffba09/curriculum-for-wales-guidance-120320.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020j) *Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sefydlu-dull-ysgol-gyfan-o-ymdrin-ag-iechyd-lles-meddyliol [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2020]

Llywodraeth Cymru (2020k) *Canllawiau i hybiau ac ysgolion: darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/04/canllawiau-hybiau-ysgolion-darpariaeth-coronafeirws.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020l) *Canllawiau ar weithredu'n ddiogel mewn dysgu ôl-16 o Fedi 2020 ymlaen.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-weithredu%E2%80%99n-ddiogel-fis-medi-2020-ol-16.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020m) *Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-08/guidance-supporting-vulnerable-disadvantaged-learners.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020n) *Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-dymor-yr-hydref.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020o) *Canllawiau ar Ail-ddechrau Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith Wyneb yn Wyneb.* [Ar-lein].

Llywodraeth Cymru (2020p) *Mwy o gymorth ar gyfer iechyd meddwl plant yn sgil yr achosion o COVID-19.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/mwy-o-gymorth-ar-gyfer-iechyd-meddwl-plant-yn-sgil-yr-achosion-o-covid-19 [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020q) *Canllawiau ar addysg uwch: Diogelu Cymru (COVID-19).* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-addysg-uwch-diogelu-cymru-covid-19 [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020r) *Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/1c5bdd35-3670-4995-a86f-1c6d9b2317a8/200902-live-streaming-and-video-conferencing-safeguarding-principles-and-practice-for-education-cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Hydref 2020]

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2020s) *Arolwg Cenedlaethol Cymru: Mai.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-misol-mai-2020 [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020t) *Arolwg Cenedlaethol Cymru : Gorffennaf 2020*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-misol-gorffennaf-2020-html [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020u) *Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19 [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020v) *Datganiad i'r Wasg: Cynnig Gofal Plant Cymru i ailagor* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-i-ailagor [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020w) *Datganiad i'r Wasg: Y Gweinidog Addysg yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-cyhoeddi-cynlluniau-ar-gyfer-mynd-yn-ol-ir-ysgol-ym-mis-medi [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2020]

Llywodraeth Cymru (2020x) *Datganiad i'r Wasg: Gweinidog Addysg yn cyhoeddi trefniadau arholi ar gyfer blynyddoedd 10 a 12.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/gweinidog-addysg-yn-cyhoeddi-trefniadau-arholi-ar-gyfer-blynyddoedd-10-12 [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020y) *Datganiad i'r Wasg: 'Pryder mawr' y Gweinidog Addysg am fwriad Llywodraeth y DU i reoli niferoedd myfyrwyr.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/pryder-mawr-y-gweinidog-addysg-am-fwriad-llywodraeth-y-du-i-reoli-niferoedd-myfyrwyr. [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020z) *Datganiad i'r Wasg: Y Gweinidog Addysg yn cynnig dyfarniad cyflog o 3.1% i bob athro.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-cynnig-dyfarniad-cyflog-o-31-i-bob-athro [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020aa) *Datganiad i'r Wasg: Y Gweinidog Addysg yn nodi pum egwyddor allweddol ar gyfer ailgychwyn ysgolion.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-nodi-pum-egwyddor-allweddol-ar-gyfer-ailgychwyn-ysgolion [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020bb) *Datganiad i'r Wasg: Cyllid ychwanegol i gefnogi plant dros wyliau'r haf yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/cyllid-ychwanegol-i-gefnogi-plant-dros-wyliaur-haf-yng-nghymru [Defnyddiwyd 10 Gorffennaf 2020]

Llywodraeth Cymru (2020cc) *Datganiad i'r Wasg: £3m o gyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u 'hallgáu o'r byd digidol yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/3m-o-gyllid-ychwanegol-i-gefnogi-dysgwyr-sydd-wediu-hallgau-or-byd-digidol [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

# Cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2020dd) *Datganiad i'r Wasg: £10 miliwn ychwanegol ar gyfer bysiau wrth i ganllawiau ar drafnidiaeth ysgol gael eu cyhoeddi.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/10-miliwn-ychwanegol-ar-gyfer-bysiau-wrth-i-ganllawiau-ar-drafnidiaeth-ysgol-gael-eu-cyhoeddi [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ee) *Datganiad i'r Wasg: Dros £50 miliwn i gefnogi prifysgolion, colegau a myfyrwyr Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/dros-50-miliwn-i-gefnogi-prifysgolion-colegau-myfyrwyr-cymru [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ff) *Datganiad i'r Wasg: Gohirio'r broses o gategoreiddio ysgolion y flwyddyn nesaf.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/gohirior-broses-o-gategoreiddio-ysgolion-y-flwyddyn-nesaf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020gg) *Datganiad i'r Wasg: Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i warantu cyllid parhaus er mwyn i blant barhau i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ystod pandemig y coronafeirws.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/cymru-ywr-wlad-gyntaf-yn-y-du-i-warantu-cyllid-parhaus-er-mwyn-i-blant-barhau-i-dderbyn-prydau [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020hh) *Datganiad i'r Wasg: Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £7 miliwn ar gael i gefnogi disgyblion tra mae ysgolion ar gau.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/llywodraeth-cymru-yn-sicrhau-bod-7-miliwn-ar-gael-i-gefnogi-disgyblion-tra-mae-ysgolion-ar-gau [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ii) *Datganiad i'r Wasg: 900 o staff addysgu ychwanegol mewn cynllun i "Recriwtio, adfer a chodi safonau" mewn ysgolion yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/900-o-staff-addysgu-ychwanegol-mewn-cynllun-i-recriwtio-adfer-chodi-safonau-mewn-ysgolion-yng [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2020]

Llywodraeth Cymru (2020jj) *Datganiad i'r Wasg: £4 miliwn o gyllid i ddarparwyr gofal plant mewn ymateb i'r Coronafeirws.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/4-miliwn-o-gyllid-i-ddarparwyr-gofal-plant-mewn-ymateb-ir-coronafeirws [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020kk) *Datganiad i'r Wasg: £5m ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion i gynnwys cymorth newydd ar gyfer plant o dan 11 oed ac athrawon.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/ps5m-ar-gyfer-iechyd-meddwl-mewn-ysgolion-i-gynnwys-cymorth-newydd-ar-gyfer-plant-o-dan-11-oed-ac [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ll) *Safonau proffesiynol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol [Defnyddiwyd 20 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020mm) *Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020nn) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-cymru-2022.pdf

# Cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2020oo) *Adnoddau dysgu o bell Seren.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/adnoddau/seren [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020pp) *Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: cefnogi'r system addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/cadwn-ddiogel-dal-ati-i-ddysgu-cefnogir-system-addysg-html [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020qq) *Datganiad Ystadegol Cyntaf: Addysg Bellach, Dysgu yn y Gwaith a Dysgu Oedolion yng Nghymru, 2018/19.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-dysgu-cymunedol-awst-2018-i-gorffennaf-2019-672.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

Llywodraeth Cymru (2020rr) *Fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth dysgu yn addysg ôl-16 o fis Medi 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/fframwaith-strategol-gyfer-darpariaeth-dysgu-medi-2020-ol-16.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ss) *Y Gell Cyngor Technegol: Ein dealltwriaeth ddiweddaraf am COVID-19 mewn perthynas â phlant ac addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/dealltwriaeth-ddiweddaraf-COVID-19-perthynas-phlant-addysg.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020tt) *Grŵp Cynghori Technegol: cyngor ar orchuddion wyneb i blant a phobl ifanc (o dan 18) mewn lleoliadau Addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-ar-orchuddion-wyneb-i-blant-a-phobl-ifanc-o-dan-18-oed-mewn-lleoliadau-addysg_1.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020uu) *Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/fframwaith-penderfyniadau-gyfer-cam-nesaf-addysg-gofal-plant.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020vv) *Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/dysgu-seiliedig-ar-waith-phrentisiaethau-coronafeirws [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020ww) *Pecyn cymorth iechyd meddwl pobl ifanc.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/e53adf44-76cb-4635-b6c2-62116bb63a9a/cy [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020xx) *Canllawiau gwasanaethau gwaith ieuenctid: coronafeirws.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/canllawiau-gwasanaethau-gwaith-ieuenctid-coronafeirws [Defnyddiwyd 7 Medi]

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth y DU (2020) *Statement from the UK Chief Medical Officers on schools and childcare reopening.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/news/statement-from-the-uk-chief-medical-officers-on-schools-and-childcare-reopening [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Millards, W., Bowern-Viner, K., Bards, S. a Menzies, L. (2019) *More Than a Job's Worth: Making Careers Education Age-Appropriate.* Founders4Schools. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://cfey.org/wp-content/uploads/2019/04/Making-Careers-Education-Age-Appropriate-digi.pdf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

OECD (2020) *Coronavirus special edition: Back to school.* [Ar-lein]. Ar gael ar: http://www.oecd.org/education/ceri/Spotlight-21-Coronavirus-special-edition-Back-to-school.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Parentkind (2020a) *Coronavirus: Third Parent Survey Results: Wales responses – May 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.parentkind.org.uk/uploads/files/1/News/Coronavirus%202/CV19%20infographic%20Wales.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Parentkind (2020b) *Coronavirus: Third Parent Survey Results: Wales responses –2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.parentkind.org.uk/uploads/files/1/CV19%203rd%20survey%20infographic%20Wales.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2020a) *Atal pob arolygiad ac ymweliad.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/atal-pob-arolygiad-ac-ymweliad [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2020b) *Neges gan Meilyr Rowlands.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.youtube.com/watch?v=ERDh-URspTI&feature=youtu.be [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2020c) *Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/blog/ein-cefnogaeth-i-addysg-hyfforddiant-cymru-yn-yr-hinsawdd-gyfredol [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Prydain Fawr (2002) Deddf Addysg 2002. Llundain: Y Llyfrfa.

Quigley, A. (2018) *Closing the Vocabulary Gap.* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. [Ar-lein]. Ar gael ar: http://fdslive.oup.com/www.oup.com/oxed/Oxford-Language-Report.PDF?region=uk [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

SAGE (2020) *Thirty-first SAGE meeting on Covid-19, 1st May 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/888806/S0401_Thirty-first_SAGE_meeting_on_Covid-19_.pdf [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

# Cyfeiriadau

Sefydliad Bevan (2020) *Free School Meals and Coronavirus.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/04/State-of-Wales-FSM.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2018a) *Meta-cognition and Self-regulated Learning: Guidance Report.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Metacognition/EEF_Metacognition_and_self-regulated_learning.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2018b) *Preparing for Literacy: Improving communication, language and literacy in the early years: Guidance Report.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://educationendowmentfoundation.org.uk/zip/?t=EEF-Guidance-preparing-for-literacy1-05-2020&z=2101|2040 [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020a) *Remote Learning: Rapid Evidence Assessment.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020b) *Support resources for schools and parents.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://educationendowmentfoundation.org.uk/covid-19-resources/support-resources-for-schools/ [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Sefydliad Iechyd y Byd (2020a) *Pneumonia of unknown cause – China.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.who.int/csr/don/05-january-2020-pneumonia-of-unkown-cause-china/en/ [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Sefydliad Iechyd y Byd (2020b) *Timeline – COVID-19.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.who.int/news-room/detail/27-04-2020-who-timeline---covid-19 [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2020]

Sibieta, L. (2020) *Teacher shortages in England: Analysis and pay options.* [Ar-lein]. Llundain: Education Policy Institute. Ar gael ar: https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/Teacher-shortages-and-pay_2020_EPI.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. a Wheater, R. (2019) *Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2018 National report.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/achievement-15-year-olds-program-international-student-assessment-pisa-national-report-2018_0.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

UCAS (2020) *UCAS Teacher Training Statistical Release*. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ucas.com/data-and-analysis/ucas-teacher-training-statistical-releases [Defnyddiwyd 1 Medi 2020]

Y Cenhedloedd Unedig (1989) *Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2020]

# Cyfeiriadau


Y Gweinidog Addysg (2020a) *Datganiad Cabinet: Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi data ynghylch dyfarniadau cymwysterau oherwydd y coronafeirws.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newidiadau-ir-trefniadau-ar-gyfer-cyhoeddi-data-ynghylch-dyfarniadau [Defnyddiwyd 7 Medi]

Y Gweinidog Addysg (2020b) *Datganiad Cabinet: Meini prawf ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer plant sy'n agored i niwed, neu y mae eu rhieni'n hanfodol ar gyfer ymateb i COVID-19* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-meini-prawf-ar-gyfer-defnyddior-ddarpariaeth-barhaus-ar-gyfer-plant-syn [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020c) *Datganiad Cabinet: Cyflwyno Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyflwyno-bil-cwricwlwm-ac-asesu-cymru [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020d) *Datganiad Cabinet: Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer 2021.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-annibynnol-or-trefniadau-ar-gyfer-dyfarnu-graddau-cyfres [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020e) *Datganiad Cabinet: Datganiad Ysgrifenedig ar gyfres Arholiadau'r Haf 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadaur-haf [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020f) *Datganiad Cabinet: Datganiad Ysgrifenedig: Diwrnod Canlyniadau Cymru 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwrnod-canlyniadau-cymru-2020. [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020g) Coronafeirws: neges gwyliau'r Pasg. [Ar-lein], Ar gael ar: https://llyw.cymru/coronafeirws-neges-gwyliaur-pasg [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020h) *Coronafeirws: llythyr at ein Gweithlu Anghenion Addysgol Arbennig.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/coronafeirws-llythyr-ein-gweithlu-anghenion-addysgol-arbennig [Defnyddiwyd 14 Mai 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020i) *Llythyr i sefydliadau Addysg Uwch Cymru – 27 Mawrth 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/llythyr-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020j) *Diweddariad gan y Gweinidog Addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.youtube.com/watch?v=U3BxOCg2jLU&feature=youtu.be [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020k) *Datganiad i'r Wasg: Neges y Gweinidog Addysg i holl staff ysgolion Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/neges-y-gweinidog-addysg-i-holl-staff-ysgolion-cymru [Defnyddiwyd 15 Mehefin 2020]

# Cyfeiriadau



Y Gweinidog Addysg (2020l) *Datganiad i'r Wasg: Dim newid i sefyllfa'r ysgolion ar 1 Mehefin, meddai'r Gweinidog Addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/dim-newid-i-sefyllfar-ysgolion-ar-1-mehefin-meddair-gweinidog-addysg [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020m) *Datganiad i'r Wasg: Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar Lefel A/UG a Chanlyniadau Uwch Gymhwyster Bagloriaeth Cymru 2020.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-lefel-aug-chanlyniadau-uwch-gymhwyster [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020n) *Datganiad i'r Wasg: Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020o) *Datganiad i'r Wasg: Datganiad gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-gan-kirsty-williams-y-gweinidog-addysg [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020p) *Datganiad Ysgrifenedig: Creu Hyblygrwydd i Ysgolion a Lleoliadau – Datgymhwyso'r Cwricwlwm Sylfaenol.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-creu-hyblygrwydd-i-ysgolion-lleoliadau-datgymhwysor-cwricwlwm-sylfaenol [Defnyddiwyd 25 Mehefin 2020]

Y Gweinidog Addysg (2020q) *Datganiad Ysgrifenedig: Derbyniadau Addysg Uwch.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-derbyniadau-addysg-uwch [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg (2020) *Datganiad ar gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ar-gorchuddion-wyneb-mewn-ysgolion [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth i Lywodraeth Leol ar gyfer gweddill 2020-21 at ddibenion COVID-19.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-i-lywodraeth-leol-ar-gyfer-gweddill-2020-21-ddibenion-covid-19 [Defnyddiwyd 21 Awst 2020]

Ymddiriedolaeth Sutton (2020a) *COVID-19 and Social Mobility Impact Brief #3: Apprenticeships.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2020/05/Covid-19-Impacts-Apprenticeships.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Ymddiriedolaeth Sutton (2020b) *School Closures – Parent Polling.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2020/04/Parent-Polling.pdf [Defnyddiwyd 7 Medi 2020]

Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2020) *Children and young people's reading in 2019.* [Ar-lein]. Ar gael ar: https://cdn.literacytrust.org.uk/media/documents/Reading_trends_in_2019_-_Final.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2020]

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 1**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad | Date: 04 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Adroddiad Hawliau Plant: y camau nesaf**

Annwyl Julie,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2020 lle gwnaethoch ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar Hawliau Plant yng Nghymru.

Rwy'n ysgrifennu er mwyn:

- rhoi gwybod i chi am yr ymgynghoriad a gynhaliom â rhanddeiliaid ar ymateb Llywodraeth Cymru, i lywio ein paratoadau ar gyfer y ddadl sydd i'w chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn;
- gofyn am rywfaint o wybodaeth gennych yn deillio o'r ymatebion a gawsom; a
- gofyn am ragor o wybodaeth gennych ynghylch un o'r argymhellion a wrthodwyd.

Gofynnir am y wybodaeth hon i lywio ein gwaith parhaus ar hawliau plant a'n gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Byddwch yn ymwybodol bod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil hwnnw wedi'i drefnu ar gyfer 15 Rhagfyr 2020. Felly, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth benodol hon cyn y dyddiad hwnnw. Mae manylion yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael isod.

**Ymgynghoriad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad Hawliau Plant**

Yn dilyn eich ymateb i'n hargymhellion, gofynnom am adborth gan randdeiliaid, gyda'r bwriad o'i ddefnyddio i arwain y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn. O ystyried faint o amser sydd ers i'r Pwyllgor glywed tystiolaeth, fe wnaethom ofyn hefyd am unrhyw wybodaeth newydd arwyddocaol mewn perthynas â hawliau plant nad ydynt o bosibl yn cael eu cwmpasu yn yr argymhellion a wnaethom. Mae'r ymatebion a gawsom wedi'u cyhoeddi ar **wefan y Pwyllgor.**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd, byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu copi o'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â:

- yr adolygiad a'r newidiadau a wnaed i fodel cyllido ar sail gweithgaredd Llywodraeth Cymru; a
- dyrannu cyllid i Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2020-2025 Llywodraeth Cymru, fel y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth gan **Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru**.

**Rhagor o wybodaeth am Argymhelliad 15 yr adroddiad Hawliau Plant:**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, fe wnaethoch wrthod ein hargymhelliad y dylai pob corff cyhoeddus datganoledig gael eu gosod o dan ddyletswydd benodol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dywedoch bod angen aros am ganlyniadau'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, sydd ar y gweill ym mis Chwefror 2021.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am gylch gorchwyl yr ymchwil hon a nodi a fydd yr ymchwil yn ystyried yn benodol rinweddau a dichonoldeb gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r Confensiwn.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi trafod dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn yn fanwl yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu yng Nghyfnod 1 ac mae wedi gwneud yr argymhellion a ganlyn:

> "That the Welsh Government amend the Bill to include, on its face, a duty to have due regard to the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC). Given their respective roles in relation to the Curriculum for Wales, this duty should be placed on all persons listed in section 66(3) of the Bill when exercising any of their functions conferred by or under the Bill."

Y personau a restrir yn 66(3) yw:

(a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
(d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
(e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
(f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

(g) awdurdod lleol yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro a fydd cylch gorchwyl yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd i'w hadrodd ym mis Chwefror 2021 yn ystyried yn fanwl unrhyw beth sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn. **Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 14 Rhagfyr 2020 ar yr hwyraf er mwyn llywio'r ddadl Cyfnod 1.**

O gofio'r diddordeb cyffredin yn hyn o beth, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Addysg.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Cc Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 2**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

At|To: David Jones, Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Dyddiad | Date: 10 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019 - 20**

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019-20 yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020. Diolch i chi am eich presenoldeb yn y cyfarfod hwn, mewn amser sy'n parhau'n amser prysur i Gymwysterau Cymru.

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith caled staff Cymwysterau Cymru, ac rydym yn cydnabod bod heriau sylweddol yn parhau nid yn unig i'r rheoleiddiwr, ond i ddysgwyr ac athrawon yng Nghymru wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer cynnal asesiadau yn 2021.

Rydym o'r un farn ag a nodwyd gennych yn y Pwyllgor bod angen i'r sector addysg yn ei ehangder llawn ddod at ei gilydd i ddarparu datrysiad i ddysgwyr. Fel Pwyllgor, byddwn yn ystyried canlyniadau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Darparu pan fyddant ar gael, ac yn gweithredu penderfyniadau'r Gweinidog dros y gwanwyn.

Cododd eich sesiwn dystiolaeth gyda ni ddau fater yn benodol yr ydym yn eu trafod isod.

Yn gyntaf, o ran mater dealltwriaeth y cyhoedd a chyfathrebu. Dywedasoch wrthym yn glir mai un o'r prif wersi a ddysgwyd gennych yn 2020 oedd bod angen rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r cynlluniau yn y pen draw ar gyfer asesu yn 2021. Mae hyn yng nghyd-destun llais cryfach gan ddysgwyr. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn ac yn croesawu eich didwylledd adeiladol ar y pwnc. Gwnaethom hefyd nodi canfyddiadau'r archwiliad mewnol o'ch gweithgarwch cyfathrebu, a mynegwyd ein barn ynghylch pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol.

Felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi mewn gohebiaeth atom y camau yr ydych yn eu cymryd mewn cysylltiad â'r gwersi a ddysgwyd am ddealltwriaeth y cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a'r camau yr ydych yn eu cymryd o ran canfyddiadau eich archwiliad mewnol yn ymwneud â chyfathrebu.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Fel rhan o hyn, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi manylion am sut y byddwch yn sicrhau gweledeedd ac eglurder negeseuon, ac yn ymgysylltu ynghylch cymwysterau galwedigaethol, ac yn cyfleu eich penderfyniadau, eich rhesymu a'ch gweithgarwch yn y maes mwy cymhleth hwn. Wrth ystyried y flwyddyn nesaf, credwn y byddai'n ddefnyddiol i'n pwyllgor olynol pe gallai eich Adroddiad Blynyddol nodi cynnydd yn ôl pob un o'r materion hyn, a'ch amcanion ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig â dysgwyr.

Yn ail, yn eich tystiolaeth i ni, gwnaethoch ddadlau y bydd angen "adfer safonau" er mwyn sicrhau bod cymwysterau yn parhau i weithredu fel y mae rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl. Er mai mater ar gyfer y dyfodol agos yw hwn yn hytrach nag yn awr, rydym o'r farn y bydd angen ei ystyried a myfyrio yn ei gylch yn ofalus. Yn hynny o beth, credwn y byddai hefyd o gymorth i'n pwyllgor olynol pe bai eich Adroddiad Blynyddol nesaf yn adrodd ar hyn, a rhoesoch farn, fel y rheolydd annibynnol, ar y mater pwysig hwn.

Diolch unwaith eto, i chi a thîm Cymwysterau Cymru am eich ymgysylltiad â'n gwaith yn ystod 2020 - edrychwn ymlaen at weithio gyda chi wrth inni nesáu at etholiad y Senedd, wrth inni ddwyn ein gwaith craffu fel Pwyllgor i ben.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 10 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Ymchwiliad i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc**

Annwyl Eluned,

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 26 Tachwedd fel rhan o'r ymchwiliad rydym yn parhau i'w gynnal i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

Fel y byddwch eisoes yn gwybod, mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth sylweddol i ni.

Fel rhan o'r gwaith rydym yn parhau i'w wneud, rydym wedi nodi tystiolaeth y gallai plant a phobl ifanc ddioddef yn fwy oherwydd y difrod cyfochrog a'r canlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau COVID-19 nag oherwydd y feirws ei hun. O gofio hynny, rydym yn pryderu'n fawr am effaith negyddol bosibl y pandemig ar iechyd meddwl plant, yn enwedig ar adeg pan fo'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill o dan bwysau sylweddol.

Rydym yn parhau i bryderu ynghylch y diffyg cyswllt posibl rhwng uchelgais Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd o ran cymorth iechyd meddwl, a'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym (a phobl eraill) am eu profiadau ar lawr gwlad.

Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o rôl allweddol gwasanaethau cymdeithasol wrth gefnogi a hyrwyddo mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i blant yn ystod yr ymateb i COVID-19, ac rydym yn awyddus i bwysleisio y dylai Gweinidogion Cymru a phob rhan o Lywodraeth Cymru gydweithio i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar lefel strategol.

Yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rydym wedi amlinellu'r prif bryderon rydym wedi'u nodi sy'n berthnasol i'ch portffolio chi. Rydym yn bwriadu dychwelyd at y materion hyn yn gynnar yn 2021. Erbyn hynny, byddwn wedi cael cyfle i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad *Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach* a'r ddadl gysylltiedig yn y Cyfarfod Llawn.

Mae'r atodiad hefyd yn cynnwys cais am ragor o wybodaeth am y trefniadau rhwng y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i fonitro capasiti gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig.

Hyderaf fod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at ddarllen eich ymateb. Oherwydd diddordeb y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn y materion hyn, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y pwyllgor hwnnw.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Copi at Dai Lloyd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad A: Ymchwiliad i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

### Materion allweddol fel ym mis Tachwedd 2020

Isod, amlinellir y prif feysydd sydd o ddiddordeb i ni ar hyn o bryd yn ein hymchwiliad fel ag y maent yn berthnasol i'ch portffolio. Nid rhestr gyflawn mohoni, ond rydym yn bwriadu iddi bwysleisio'r meysydd hynny lle mae angen rhagor o sicrwydd neu lle rydym yn bwriadu monitro cynnydd.

### Gwasanaethau iechyd meddwl

Mae ein hadroddiad *Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach* yn nodi bod yn rhaid i reoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc fod yn flaenoriaeth glir ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus. Hefyd, mae'n nodi bod yn rhaid blaenoriaethu ymdrechion i gynnal—ac, mewn rhai meysydd, gynyddu—momentwm y gwaith o weithredu argymhellion *Cadernid Meddwl* rhwng nawr a diwedd y Senedd hon.

Mae iechyd meddwl hefyd wedi bod yn fater allweddol yn y dystiolaeth ar COVID-19 sydd wedi dod i law gan blant a phobl ifanc.

Hefyd, mewn tystiolaeth lafar, awgrymodd y Comisiynydd Plant fod cymorth o ran iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn ystod y misoedd diwethaf wedi gweld llwyddiannau a methiannau. Soniodd am y pryderon a fynegwyd iddi ynghylch diffyg gwybodaeth ymhlith plant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr am sut i gael mynediad at wasanaethau. Ar ôl hynny, gwnaethom ysgrifennu at bob bwrdd iechyd i ofyn am sicrwydd ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig. Cafwyd ymatebion gan bob un o'r saith bwrdd iechyd mewn ymgais i dawelu'n meddyliau ar y mater hwn.

Rydym yn nodi'ch tystiolaeth ar y materion a ganlyn:

- bod gwasanaethau iechyd meddwl yn wasanaethau hanfodol; ac
- na ddylai'r gwasanaethau a ddarparwyd yn y misoedd diwethaf fod yn wahanol i'r gwasanaethau arferol, heblaw'r ffaith eu bod yn cael eu cynnig ar-lein.

Rydym yn croesawu'ch ymdrechion i gasglu rhagor o wybodaeth am y diffyg cyswllt posibl rhwng y data rydych yn eu casglu a phrofiadau'r unigolion sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau.

> **Fel rhan o'n gwaith ar *Cadernid Meddwl*, byddwn yn parhau i fonitro mynediad at wasanaethau ac yn parhau i gasglu tystiolaeth am brofiadau ar lawr gwlad.**

### Monitro capasiti gwasanaethau iechyd meddwl

Gwnaethom ofyn i chi am y gwaith sy'n cael ei wneud i fonitro achosion sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl ac i gael sicrwydd ynghylch capasiti gwasanaethau i ateb y galw. Cawsom wybod gennych y byddwch yn sefydlu grŵp newydd i edrych ar effaith COVID-19 ar iechyd meddwl.

Rydym yn ymwybodol bod ‘offeryn monitro iechyd meddwl COVID-19’ wedi’i ddatblygu i roi sicrwydd ynghylch capasiti gwasanaethau i gyflawni eu swyddogaethau allweddol yn ystod y pandemig. Ar 13 Mai 2020, cafwyd y datganiad a ganlyn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyfarfod Llawn:

> Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd gyflwyno gwybodaeth fonitro bob wythnos, a chaiff hyn ei hystyried gan ein grŵp digwyddiadau iechyd meddwl. Mae'r wybodaeth yn rhoi darlun byw o gapasiti gwasanaethau iechyd meddwl i'n galluogi i weld lle mae angen cymorth, cyngor neu arweiniad ychwanegol. Er y bydd modelau gwasanaeth wedi addasu yn ystod y pandemig, mae byrddau iechyd a phartneriaid wedi dweud eu bod wedi parhau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn.

**Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi manylion y trefniadau sydd yn eu lle i fonitro achosion sy’n cael eu cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl a chapasiti’r gwasanaethau hynny i ateb y galw, gan gynnwys gwybodaeth am rôl y Grŵp Digwyddiadau Iechyd Meddwl a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth ychwanegol am y grŵp newydd y byddwch yn ei sefydlu, fel y dywedoch yn eich tystiolaeth lafar.**

**Fel rhan o’r gwaith ar *Cadernid Meddwl*, byddwn yn parhau i fonitro mynediad at wasanaethau ac yn parhau i gasglu tystiolaeth ar brofiadau ar lawr gwlad.**

**Iechyd meddwl amenedigol**

Ers cyhoeddi ein hadroddiad ar ‘Iechyd Meddwl Amenedigol yn Nghymru’ ym mis Hydref 2017, rydym wedi gwneud gwaith craffu dilynol cyson, gan alw am gynnydd yn y maes hwn. Mae’n glir bod y pandemig COVID-19 wedi amharu ar wasanaethau iechyd.

Rydym yn rhannu pryderon y Comisiynydd Plant y gallai adleoli ymwelwyr iechyd gael effaith andwyol ar iechyd meddwl mamol. Dywedoch wrthym fod ymwelwyr iechyd wedi’u hadleoli yn gynnar yn y pandemig ond bod hyn bellach wedi dod i ben.

Nodwn o’ch tystiolaeth fod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn y gymuned yn parhau i gynnig cymorth a’ch bod wedi gofyn am wybodaeth gan fyrddau iechyd, y gwnaethoch gynnig ei rhannu â ni ym mis Ionawr 2021.

Rydym yn croesawu’n fawr y cynnydd a fu yn y gwaith o ddatblygu uned dros dro â chwe gwely ar gyfer mamau a babanod yn Nhonnau, yn ogystal â’r newyddion y disgwylir i’r uned hon fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2021. Hefyd, dywedoch wrthym fod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynnal trafodaethau â’r GIG yng ngogledd-orllewin Lloegr i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol i gleifion mewnol yn yr ardal honno.

**Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y gwaith y mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei wneud o ran trafodaethau â’r GIG yng ngogledd-orllewin Lloegr i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol i**

**gleifion mewnol yn yr ardal honno. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn, y mathau o wasanaethau sy'n cael eu trafod a'r poblogaethau y maent yn gobeithio eu gwasanaethu.**

**Fel rhan o'n gwaith ar iechyd meddwl amenedigol, byddwn yn parhau i fonitro mynediad at y gwasanaethau hyn ac yn parhau i gasglu tystiolaeth ar brofiadau ar lawr gwlad.**

**Iechyd meddwl dysgwyr**

Byddwch eisoes yn gwybod bod iechyd meddwl dysgwyr yn flaenoriaeth sylweddol i ni. Mae hyn yn cynnwys effaith bosibl eu lleoliadau addysgol arnynt, yn ogystal â'r cyfleoedd pwysig sy'n bodoli i roi'r cymorth angenrheidiol i ddysgwyr. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i nodi'n pryderon yn y maes hwn.

Er gwybodaeth i chi, rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021, byddwn yn clywed yn uniongyrchol gan ddysgwyr mewn lleoliadau addysg uwch ynghylch effaith barhaus yr ymateb i COVID-19 ar eu profiadau dysgu, yn ogystal ag ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Caiff ein canfyddiadau eu cyhoeddi maes o law, gan helpu i lywio cam nesaf ein hymchwiliad.

Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad clir gan y Gweinidog Addysg i ddwyn yr agenda hon yn ei blaen, fel y nodwyd ganddi yn ei llythyr atom ym mis Awst 2020. Yn y llythyr hwnnw, mae'r Gweinidog yn nodi pwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol ein plant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Hefyd, ailadroddodd y Gweinidog ei nod o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc o ran eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl yn unol â'r dull ysgol gyfan.

**Byddwn yn parhau i fonitro'r mater pwysig hwn fel rhan o'n hymchwiliad i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.**

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee



Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 10 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Ymchwiliad i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc**

Annwyl Kirsty,

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 26 Tachwedd fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at feysydd allweddol sy'n peri pryder i ni sy'n berthnasol i'ch portffolio. Rydym yn bwriadu edrych arnyn nhw eto yn gynnar yn 2021 pan allwn adolygu'r sefyllfa, gan ddefnyddio gwybodaeth newydd yr ydym yn ei disgwyl erbyn diwedd eleni (y cyfeirir ati yn yr atodiad i'r llythyr hwn).

Ysgrifennaf hefyd i:

- ofyn am ragor o wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd o ran bod gan bob disgybl fynediad i'r offer a'r seilwaith digidol cywir fel rhan o ddysgu cyfunol;

- gofyn am eglurhad ar y rhyngwyneb rhwng Profi, Olrhain a Diogelu ac ysgolion a pha mor gyson y rhoddir unrhyw gyngor ledled Cymru;

- gofyn am rywfaint o wybodaeth ynghylch dyfnder a graddau'r ymgynghoriad â'r sector yn Lloegr o ran eich penderfyniad ar y dull o ddyfarnu Safon Uwch yn 2021;

- gofyn am ragor o wybodaeth am yr ystyriaethau sy'n cael eu rhoi i'r angen i "adfer safonau" yn y system cymwysterau, ar ôl cyfres arholiadau 2021;

- gofyn am eglurhad ar y defnydd arfaethedig o £400,000 sydd wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol ar gyfer 2020-21 ar gyfer cymorth i deuluoedd sy'n addysgu gartref, a sut y caiff yr effaith hon ei monitro; a

- gofyn am wybodaeth ychwanegol ar yr amserlenni ar gyfer newidiadau i'r gofyniad i athrawon mewn ysgolion annibynnol i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddwch eisoes yn ymwybodol bod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth arwyddocaol i ni. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y gallai eu lleoliadau addysgol ei chael arnynt, a'r cyfleoedd pwysig sy'n bodoli i roi cymorth hanfodol i ddysgwyr.

Rwyf am eich hysbysu, yn ystod mis Rhagfyr 2020 a Chwefror 2021, y byddwn yn gwneud gwaith i glywed yn uniongyrchol gan ddysgwyr mewn lleoliadau addysg uwch am yr effaith barhaus y mae'r ymateb i

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

COVID-19 yn ei chael ar eu profiadau dysgu a'u hiechyd meddwl a llesiant. Cyhoeddir ein canfyddiadau maes o law a byddant hefyd yn llywio cam nesaf yr ymchwiliad hwn.

Hyderaf fod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i chi, a diolch ichi am eich mewnbwn parhaus i'n gwaith yn y maes hwn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Ymchwiliad i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

**Materion allweddol ym mis Tachwedd 2020**

Nodir isod ein meysydd diddordeb allweddol yn y cam hwn o'n hymchwiliad fel sy'n berthnasol i'ch portffolio. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond y bwriad yw tynnu sylw at le rydym wedi nodi bod angen mwy o sicrwydd neu lle rydym yn bwriadu monitro cynnydd.

1. **Asesiadau o effaith**

Yn ein hadroddiad interim ym mis Gorffennaf 2020 ar effaith COVID-19, gwnaethom nodi ein bod yn credu bod asesu effaith mesurau i reoli'r pandemig ar hawliau plant yn hanfodol. Rydym yn cytuno â thystiolaeth ddiweddar y Comisiynydd Plant a oedd yn dweud bod y cyflymder y mae angen gwneud penderfyniadau yn golygu bod angen asesiadau o effaith nawr yn fwy nag erioed i amddiffyn ein grwpiau mwyaf bregus. Rydym yn falch o nodi'r canlynol yn ei thystiolaeth:

- mae'r sefyllfa wedi gwella yn hyn o beth; ac
- roedd y wybodaeth am yr effaith ar hawliau plant a wnaed mewn perthynas â'r penderfyniad ynghylch pa grwpiau blwyddyn a fyddai'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod atal byr dros hanner tymor mis Hydref yn defnyddio llawer o wahanol ffynonellau tystiolaeth ac nad oedd yn gyfiawnhad ôl-weithredol.

**Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd asesiadau o effaith sy'n llywio penderfyniadau sy'n cael effaith mor sylweddol ar hawliau plant.**

2. **Dysgu cyfunol**

Nodwn eich uchelgais i gadw ysgolion ar agor i ddisgyblion lle bynnag y bo modd ond rydym hefyd yn cydnabod yr effaith sylweddol pan na all hyn ddigwydd i bob disgybl neu grŵp blwyddyn penodol. Clywsom farn y Comisiynydd Plant a oedd yn dweud ei bod hi'n credu, ar y cyfan, bod y cynnig addysg i blant yn ystod tymor yr haf yn benodol yn gymysg iawn gyda rhai plant yn sicr yn teimlo eu bod wedi colli allan ar gynnig addysg ragweithiol gan eu hysgol. Rydym yn cytuno â'r Comisiynydd nad ydym am gael unrhyw fath o loteri cod post; rydym am i blant, lle bynnag maen nhw, i gael mynediad i'w hawliau.

Dywedodd cynrychiolwyr llywodraeth leol a chonsortia fod ysgolion y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt wedi symud yn gyflym yn nhymor yr hydref i gynnig dysgu byw o bell i ddisgyblion. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan randdeiliaid uchelgeisiau uchel hefyd ynghylch yr hyn a gyflwynir i ddisgyblion o ran dysgu cyfunol. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn hyderus bod yr uchelgeisiau hyn yn cael eu trosi i ddarpariaeth gyson ac o ansawdd ar lawr gwlad. Ni all disgyblion yng Nghymru fforddio colli mwy o amser addysgu a dysgu.

Byddwch yn cofio'r adolygiad a gomisiynwyd gennym yn gynharach eleni gan Dr Sofya Lyakhova o Brifysgol Abertawe, ac roeddem yn falch o weld o'ch llythyr ar 5 Hydref 2020 ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith o gynnal parhad dysgu. Nodwn hefyd fod Estyn yn bwriadu cyhoeddi canlyniad ei adolygiad ar ddysgu cyfunol yn y dyfodol agos.

Rhaid rhoi sylw i anghenion penodol dysgwyr bregus a'r rhai ag anghenion ychwanegol wrth ystyried sut i gyflwyno gwersi byw neu ddysgu cyfunol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

Un o'r prif bethau rydym wedi canolbwyntio arno yn ein gwaith craffu parhaus yw sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at galedwedd digidol a chysylltedd er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n llawn â'u haddysg. Rhaid bod y cynnig yn gyson ar gyfer pob disgybl.

**Byddem yn ddiolchgar am wybodaeth bellach ynghylch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn eu cymryd a beth y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran bod gan bob disgybl fynediad i'r offer a'r seilwaith digidol cywir. Mae pob dysgwr sydd â mynediad at yr offer cywir yn sylfaenol i lwyddiant dysgu cyfunol ac rydym yn ceisio sicrwydd bod y mater hwn yn cael ei fonitro'n agos ar bob lefel fel y gellir gwneud ymyriadau a newidiadau pellach yn gyflym ac yn ôl yr angen.**

**Byddwn yn edrych ar hyn eto a'r materion eraill sy'n ymwneud â dysgu cyfunol pan gyhoeddir canfyddiadau adroddiad Estyn ar ddysgu cyfunol yn ddiweddarach y mis hwn.**

## 3. Rhaglen dysgu carlam

Rydym eisoes wedi trafod â chi ein pryderon ynghylch effaith colli amser addysgu ar y cwricwlwm a chymwysterau yn 2020/21. Ar y sail hon rydym wedi gofyn am sicrwydd y bydd y dyraniad o £29 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y 'rhaglen dysgu carlam' yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol yn ôl y bwriad, i greu swyddi addysgu ychwanegol.

Ysgrifennom atoch am fanylion ynghylch faint o swyddi newydd sydd wedi'u creu a sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o'r arian hwn. Rydym yn gwerthfawrogi eich ymateb cyflym ac yn croesawu eich barn mai "diben y cyllid hwn yw creu a rhyddhau capasiti ychwanegol yn ein hysgolion".

Nodwn nad oes gennych chi "set lawn o ddata ar nifer yr athrawon a staff eraill sydd wedi'u recriwtio" a'ch bod yn "cydweithio ag awdurdodau lleol i ddeall sut y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r capasiti ychwanegol hwn a natur y cymorth sy'n cael ei greu ganddynt". Mae'n hanfodol bod ysgolion yn defnyddio'r grant i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

**Byddwn yn craffu'n ofalus i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio yn unol â'ch bwriadau: "i greu swyddi addysgu newydd, cefnogi anghenion dysgwyr a lliniaru effaith colli amser addysgu".**

## 4. Cysylltiadau rhwng Profi, Olrhain, Diogelu ac ysgolion

Rydym yn nodi'r dystiolaeth gennych chi fod yna rywfaint o wahaniaethu o ran sut mae timau profi ac olrhain lleol yn cyfathrebu ac yn cynghori ysgolion ar ddysgwyr i hunanynysu, a bod angen sicrhau bod eu cyfarwyddiadau yn gymesur. Nodwn yn benodol eich tystiolaeth ynghylch y sefyllfa y gall penaethiaid fod ynddi pan gânt eu cynghori bod yn rhaid i ddysgwyr hunanynysu.

Ers eich sesiwn dystiolaeth, rydym yn ymwybodol o adroddiadau cynyddol bod yna wahaniaeth rhwng sut mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ymateb i achosion neu achosion posibl mewn ysgolion. Mae gofyn i ddisgyblion hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar eu haddysg, yn enwedig pan fo'n berthnasol i grwpiau blwyddyn cyfan. Mae hyn o fewn y cyd-destun o'r amrywiad sy'n cael ei nodi fwyfwy yn narpariaeth cyfleoedd 'dysgu byw' i ddisgyblion nad ydynt yn gallu bod ar safle'r ysgol. Rydym yn parhau i fod yn bryderus bod hawliau plant i gael mynediad i'w haddysg yn wahanol ledled Cymru.

**Byddem yn ddiolchgar am sicrwydd ar y rhyngwyneb rhwng Profi, Olrhain, Diogelu ac ysgolion ac unrhyw wybodaeth a allwch ei rhoi ynghylch pa mor gyson yw'r cyngor sy'n cael ei roi ledled**

**Cymru. Yn benodol, a allwch chi ddarparu gwybodaeth i ni am sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r sefyllfa'n gweithio'n ymarferol o ran staff a dysgwyr yn cael eu cynghori i hunanynysu naill ai gan y tîm Profi, Olrhain, Diogelu lleol neu gan ap COVID-19 y GIG.**

## 5. Arholiadau ac Asesiadau 2020 a 2021

Rydym wedi casglu cryn dipyn o dystiolaeth ar y mater hwn ac wedi gallu adolygu canfyddiadau adroddiad dros dro 'Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021'. Mae ein gwaith hefyd wedi cael ei lywio gan y cyngor a roddwyd gan Cymwysterau Cymru i chi, y pryderon a leisiodd wrthym am y modd y gellir cyflawni'r cynigion newydd, a'i farn bod angen meddwl llawer mewn modd newydd yn gyflym erbyn haf 2021 os yw'r dull a ddewiswyd am fod yn llwyddiannus. Rydym hefyd yn nodi'r pwyslais y mae Cymwysterau Cymru yn ei roi ar ei gyfrifoldebau statudol a bod yn rhaid iddo weithredu o fewn y fframwaith hwnnw.

Rydym yn croesawu'n fawr y dystiolaeth a glywsom am awydd rhanddeiliaid i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb. Rydym hefyd yn croesawu'r pwyslais ar sicrhau bod y camau nesaf yn deg ac yn gyfartal i bob dysgwr: yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Rydym yn pryderu am y posibilrwydd o golli amser addysgu a dysgu yn barhaus ac effaith hynny ar y carfannau sy'n dilyn hyfforddiant TGAU a Safon Uwch ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod yr anghydraddoldebau presennol ar draws yr holl grwpiau blwyddyn ysgol wedi'u hatgyfnerthu o ran plant o deuluoedd incwm isel, plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a phlant sy'n ystyried eu hunain yn anabl. Rhaid i unrhyw ddull arholi ar gyfer 2021 ac ar ôl hynny liniaru yn erbyn hyn. O'r herwydd, rydym yn croesawu eich datganiad y dylai blaenoriaethau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru fod "yn ganolog" ar y mater hwn.

**Byddwn yn edrych unwaith eto at fater arholiadau ac asesiadau pan gyhoeddir adroddiad terfynol yr 'Adolygiad Annibynnol' yn ddiweddarach y mis hwn.**

Rydym yn dal i bryderu am ba mor weladwy yw materion sy'n ymwneud ag asesiadau cymwysterau galwedigaethol, a'r diffyg sicrwydd cymharol y mae sefydliadau addysg bellach a'u dysgwyr yn eu hwynebu o gymharu â'r cyfeiriad gweinidogol clir sy'n ymwneud ag asesiad addysg gyffredinol. Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym ei fod yn barod i gael sgwrs â chyrff dyfarnu'r DU ar gael trefniadau asesu gwahanol ar gyfer dysgwyr Cymru tra'n sicrhau canlyniadau dilys a dibynadwy, sef yr hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, ond y byddai angen i'r sgyrsiau hyn ddigwydd ar ôl i'r penderfyniadau gweithredol ar gyfer asesiad addysg gyffredinol gael eu gwneud.

**Byddwn yn edrych eto ar fater tegwch rhwng cymwysterau addysg alwedigaethol ac addysg gyffredinol, a pha mor weladwy yw'r materion sy'n wynebu dysgwyr a sefydliadau addysg bellach, yn y flwyddyn newydd.**

## 6. Tystiolaeth a glywsom gan Cymwysterau Cymru

Ar 3 Rhagfyr clywsom dystiolaeth gan Cymwysterau Cymru fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar ei Adroddiad Blynyddol. Hoffem dynnu sylw Llywodraeth Cymru at dri mater a ddaeth i'r amlwg yn y sesiwn dystiolaeth:

i. Eich penderfyniad na fydd arholiadau Safon Uwch yn cael eu cynnal yn ystod haf 2021.

Lloegr yw lleoliad astudio 30 y cant o ddysgwyr addysg uwch Cymru, tra bod dysgwyr Cymru yn cynrychioli 2 y cant yn unig o gyfanswm y myfyrwyr mewn sefydliadau yn Lloegr yn 2018/19.

**O ran eich penderfyniad ar y dull o ddyfarnu Safon Uwch yn 2021, byddem yn ddiolchgar am sicrwydd pellach ynghylch dyfnder a graddau'r ymgynghoriad â'r sector yn Lloegr. Yn benodol, rydym am ddeall faint yr ymgysylltwyd â sefydliadau yn Lloegr sy'n cynnig rhaglenni cystadleuol iawn i fyfyrwyr y DU a rhyngwladol, a barn y sefydliadau hynny. Nid ydym am weld myfyrwyr Cymru o dan anfantais o gymharu â'u cymheiriaid eraill yn y DU.**

ii. Daeth yn amlwg yn ystod y sesiwn dystiolaeth mai un wers allweddol o gyfres arholiadau haf 2020 oedd yr angen i sicrhau dealltwriaeth y cyhoedd o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chymwysterau.

**Byddwn yn monitro'n agos y gwaith ymgysylltu a chyfathrebu o ran argymhellion y Grŵp Dylunio a Chyflenwi, a sut y caiff y penderfyniadau a wnewch eu cyfleu i'r cyhoedd.**

iii. Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym, gan edrych y tu hwnt i gyfres arholiadau 2021, y bydd angen adennill safonau yn y system gymwysterau. Roedd yn dadlau bod risg fel arall nad yw cymwysterau bellach yn gweithredu fel offer dilyniant effeithiol nac yn gwahaniaethu dysgwyr.

**O ran sylw Cymwysterau Cymru bod angen adennill safonau yn y system gymwysterau, byddem yn ddiolchgar am sicrwydd bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y mater hwn.**

## 7. Addysg Uwch

Ers mis Medi 2020, mae llawer o bobl ifanc wedi gorfod wynebu heriau o ddechrau–neu ddychwelyd–i'r brifysgol. I fyfyrwyr newydd, mae hyn wedi'i gyplysu â'r pwysau ychwanegol o fod i ffwrdd o'u rhwydweithiau cymorth cartref am y tro cyntaf. Rydym yn falch o glywed adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch sgwrs barhaus gyda chi ynghylch llesiant myfyrwyr.

Nodwn agwedd y pedair gwlad at gyfnod gwyliau'r Nadolig ar gyfer myfyrwyr prifysgol.

**Rydym yn awyddus i weld y dull hwn sydd wedi'i gynllunio yn llwyddo, ac i weld dull wedi'i gynllunio ar gyfer dychwelyd myfyrwyr yn ddiogel ar ôl y gwyliau.**

Yn ogystal â'r rhai sy'n gallu dychwelyd adref, mae'n rhaid cefnogi'r rhai nad ydyn nhw efallai yn y sefyllfa hon (fel myfyrwyr rhyngwladol a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal o'r blaen).

Mae'n bwysig bod rheolau ymgasglu mewn cartrefi yn cael eu hystyried yn ofalus a bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i amddiffyn llesiant y myfyrwyr hynny a fydd yn aros yn eu lleoliad prifysgol dros gyfnod y Nadolig.

Dywedwyd wrthym nad yw rhai myfyrwyr yn awyddus o i gael profion asymptomatig oherwydd yr anfanteision ariannol i fyfyrwyr sy'n gweithio os ydynt yn profi'n bositif. Rhaid inni sicrhau bod pob dysgwr yn cael cefnogaeth i hunanynysu pan fydd angen iddynt wneud hynny.

**Byddwn yn cadw golwg gofalus dros y defnydd o'r cyllid caledi a ryddhawyd i brifysgolion gan CCAUC. Byddwn yn monitro effaith y rhaglen brofi asymptomatig ym mhrifysgolion Cymru a byddem yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth yn y flwyddyn newydd am: y galw am brofi ar gyfer cyfnod gwyliau'r Nadolig; y gallu i brofi; a data sy'n ymwneud â phrofion positif a gofyniad i fyfyriwr hunanynysu.**

Rhaid taro cydbwysedd anodd rhwng buddion addysgu wyneb yn wyneb a diogelwch myfyrwyr. Dylid ond gofyn i fyfyrwyr fynychu'r campws ar gyfer dysgu byw pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag,

clywsom hefyd gan y sector bod llesiant a gweithgarwch cymdeithasol yn cael effaith ar ddysgu yn ogystal â'r buddion disgwyliedig ar gyfer iechyd meddwl myfyrwyr. Clywsom nad yw sefydliadau yn aml yn teimlo fod ganddynt rym gan ganllawiau Llywodraeth Cymru i hwyluso digwyddiadau cymdeithasol diogel ar y campws er budd iechyd meddwl a dysgu myfyrwyr.

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chanllawiau i'r sector i sicrhau ei bod yn gliriach bod sefydliadau yn gallu–ac â'r grym–i drefnu neu hwyluso gweithgareddau cymdeithasol cyfreithlon, diogel a diogel o ran COVID ar y campws, ac i gydnabod y cysylltiad rhwng dysgu a llesiant.**

Rydym yn cydnabod gwaith caled ac ymdrechion prifysgolion Cymru, eu staff a'u myfyrwyr yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn gyfnod anodd iawn, yn enwedig i bobl sy'n newydd i'r brifysgol.

## 8. Blaenoriaethu Llywodraeth Cymru ac adleoli swyddogion

Rydym yn rhannu pryderon y Comisiynydd Plant ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â dau fater addysg ac amddiffyn allweddol yn y Senedd bresennol oherwydd yr angen i ailflaenoriaethu meysydd gwaith ac adleoli swyddogion oherwydd pandemig COVID-19.

- **Addysg yn y cartref**

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi na fydd yn cwblhau ei gwaith arfaethedig i gyhoeddi canllawiau a rheoliadau statudol sy'n ymwneud â phlant a addysgir gartref o fewn tymor y Senedd hon. Nodwn yn eich datganiad nad oes gennych y capasiti ar hyn o bryd ac rydym yn cydnabod bod capasiti yn dynn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn sgil y pandemig. Serch hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd glir i gynnal hawliau pob plentyn i addysg a diogelwch o safon. Gwyddom fod nifer y plant a addysgir gartref yn cynyddu oherwydd y pandemig COVID-19 ac fe wnaethoch chi gyfeirio at hyn yn eich tystiolaeth atom. O'r herwydd, rydym yn siomedig iawn na fydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

Nodwn fod y Comisiynydd Plant yn defnyddio ei phwerau statudol i adolygu gweithredoedd Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Byddwn yn edrych eto ar y mater hwn pan gyhoeddir adroddiad yr adolygiad hwnnw.

Rydym hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £400,000 i awdurdodau lleol ar gyfer 2020-21 ddarparu cefnogaeth i deuluoedd sy'n addysgu gartref a bod hyn wedi'i ddyrannu ar sail pro rata, yn seiliedig ar nifer y plant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu gartref yn yr awdurdod.

**Byddwn yn edrych eto ar y mater hwn pan gyhoeddir adroddiad adolygiad y Comisiynydd Plant o weithredoedd Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.**

**Byddem yn croesawu eglurhad ar y dyraniad o £400K i gefnogi disgyblion a addysgir gartref fel y cyfeirir atynt yn eich tystiolaeth lafar. Byddem yn ddiolchgar am wybodaeth am beth oedd ei fwriad yn benodol, sut y bydd ei effaith yn cael ei monitro ac ai'r bwriad yw mai un dyraniad ydyw ar gyfer 2020-21 yn unig.**

- **Gofynion cofrestru ar gyfer athrawon mewn ysgolion annibynnol**

Cefnogwn argymhelliad y Comisiynydd Plant fod angen diwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol i gynnwys gofyniad bod yr holl staff addysgu a phob arweinydd ysgol mewn lleoliadau annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Nodwn, ym mis Mawrth, eich bod wedi diweddaru'r Senedd fod swyddogion wedi cael cyfarwyddyd i roi cyngor ar wneud diwygiadau deddfwriaethol mewn perthynas â'r rhai sy'n gweithio yn y sector ysgolion

annibynnol. Fodd bynnag, fe wnaethoch chi gyhoeddi wedyn bod penderfyniad wedi’i wneud i beidio â bwrw ymlaen â hyn yn y Senedd hon.

Nodwn eich tystiolaeth lafar i ni eich bod yn gobeithio y bydd ysgolion ac athrawon yn bwrw ymlaen â’r cofrestru yn wirfoddol. Nodwn hefyd y cyhoeddiad a wnaed ar ôl eich sesiwn dystiolaeth gyda ni bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Comisiynydd wedi hynny, a bod gwaith ar gwmpas posibl y newidiadau rheoliadol yn mynd rhagddo a’r graddau y byddai’r newidiadau hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.

**Rydym yn croesawu’r ffaith eich bod yn derbyn argymhelliad y Comisiynydd Plant a byddwn yn monitro’r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu hyn.**

**Byddem yn ddiolchgar am eglurhad o’r amserlen ar gyfer rhoi gofyniad i athrawon mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, yng ngoleuni ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant. Yn benodol, rydym yn chwilio am sicrwydd y bydd hyn yn cael ei gyflawni o fewn tymor y Senedd hon.**

**9. Iechyd meddwl a llesiant dysgwyr**

Bydd yr holl faterion yr ydym wedi tynnu sylw atynt yn yr atodiad hwn yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant dysgwyr.

Rydym yn cydnabod eich ymrwymiad clir i fwrw ymlaen â’r agenda hon, fel y nodir yn eich llythyr atom ym mis Awst 2020:

> Nawr yn fwy nag erioed, gellir gweld pwysigrwydd cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol ein plant a’n pobl ifanc. Mae’r pandemig a’r cyfyngiadau symud o ganlyniad iddo wedi effeithio arnom i gyd, ond yn enwedig ar ein plant a’n pobl ifanc sydd wedi gorfod mynd am fisoedd heb weld ffrindiau ac aelodau agos o’r teulu; sydd wedi gweld y ffordd y cânt eu haddysgu yn newid y tu hwnt i bob deall; ac sydd, yn achos rhai, wedi gorfod ymdopi â phrofedigaeth anwyliaid.
>
> Ein nod yw diwallu anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn modd amserol ac effeithiol, yn unol â’n dull ysgol gyfan, ond rydym yn cydnabod bod mwy o le i wella profiadau a deilliannau bob amser.

Rydym hefyd yn nodi’ch llythyr atom ar 17 Tachwedd lle rydych chi’n rhoi mwy o fanylion am y buddsoddiad o £5m y mae Llywodraeth Cymru wedi’i wneud i gefnogi llesiant dysgwyr fel rhan o’r Dull Ysgol Gyfan tuag at Iechyd Meddwl ac Iechyd Emosiynol.

Yn ychwanegol at ein gwaith dilynol ar ein hadroddiadau Cadernid Meddwl, a’n pwyslais ar ddull ysgol gyfan a system gyfan, rydym hefyd yn ystyried gwaith parhaus y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar iechyd meddwl, gan gynnwys yr effaith ar fyfyrwyr. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg i nodi ein pryderon.

Wrth edrych ymlaen at 2021, rydym yn cytuno â’r Comisiynydd Plant y dylai hon fod yn flwyddyn o ddysg, nid yn flwyddyn o bryderon. Bydd darparu sicrwydd a thegwch i ddysgwyr yn hollbwysig er mwyn iddynt gyflawni eu potensial.

**Byddwn yn parhau i fonitro’r mater pwysig hwn fel rhan o’n hymchwiliad parhaus i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.**

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 5**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

14 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne

**Adroddiad Archwilio Cymru: Darparu Prydau Ysgol Am Ddim yn ystod y Cyfyngiadau**

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei Adroddiad ar 24 Tachwedd sy'n edrych ar sut yr aeth cynghorau i'r afael â'r her o barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cenedlaethol yng ngwanwyn a haf 2020, pan oedd ysgolion ar gau ar gyfer dosbarthiadau arferol.

Gwnaeth Archwilio Cymru y gwaith hwn fel rhan o'i brosiect dysgu COVID-19. Y nod oedd canfod sut y gwnaeth cynghorau addasu eu gwasanaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau, ac yn arbennig a oes unrhyw bwyntiau dysgu o ganlyniad i'r profiad hwn i gynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach.

Nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ganfyddiadau'r Adroddiad ar 7 Rhagfyr ac rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am yr Adroddiad. Efallai y bydd angen i chi ei drafod fel rhan o waith eich Pwyllgor.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 6**

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne,

Yn ystod proses graffu eich Pwyllgor ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed penderfyniad i roi diweddariadau cyson ar y Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Y llythyr hwn yw'r degfed diweddariad.

**1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol**

Ysgrifennais atoch chi a rhanddeiliaid allweddol eraill yn gynnar yn nhymor yr hydref mewn cysylltiad â chynlluniau i osod y Cod ADY diwygiedig a'r rheoliadau gweithredol; bydd y rhain bellach yn cael eu gosod gerbron y Senedd ddiwedd mis Chwefror 2021.

Gosodais ddwy set bwysig o reoliadau cyn gosod y Cod ym mis Tachwedd. Yn gyntaf, drafft o Reoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020 mewn perthynas â rôl statudol Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r rôl statudol hon yn ein hysgolion ac yn ein Sefydliadau Addysg Bellach, ochr yn ochr â'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA) o fewn ein byrddau iechyd; a'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar mewn awdurdodau lleol yn allweddol i lwyddiant y system ADY newydd. Bydd y ddyletswydd i ddynodi'r rolau hyn yn dechrau ar 4 Ionawr. Cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi canllawiau anstatudol er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer unigolion yn y rolau hyn, er mwyn iddynt baratoi eu lleoliadau ar gyfer cychwyn y system ADY newydd fesul cam o fis Medi 2021.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020](#) sy'n cadarnhau ein bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu lleoliadau ôl-16 arbenigol i awdurdodau lleol yn y dyfodol. Mae'r rheoliadau hyn yn cyflawni'r ddarpariaeth o fewn y Ddeddf ADY bod rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Maent hefyd yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn bod ar y rhestr. Dim ond os yw wedi ei gynnwys ar y rhestr y caniateir i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc ag ADY mewn Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol, ac felly bydd hynny yn rhoi peth sicrwydd mewn perthynas â'r sefydliadau a ddewisir.

Yn ychwanegol at ymgynghori ar y Cod ADY drafft, roddem wedi ymgynghori ar y cynllun gweithredu drafft. Yr ymateb cryfaf o bell ffordd gan randdeiliaid oedd y dylem ganolbwyntio ar symud yn raddol o'r hen system AAA i'r system ADY newydd. Bydd y cynllun gweithredu diwygiedig yn adlewyrchu hyn yn ogystal â rhoi rhagor o fanylion am y carfannau o ddysgwyr a fydd yn pontio yn ystod y tair blynedd academaidd o weithredu, o fis Medi 2021 ymlaen.

Mae fy swyddogion yn parhau i drafod â rhanddeiliaid i sicrhau bod y Cod a'r rheoliadau diwygiedig yn diwallu eu hanghenion; gan weithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf a'r pwerau y mae'n eu rhoi i ni ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

**2. Cymorth wrth weithredu / pontio**

Mae'r Arweinwyr Trawsnewid ADY wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu rhanbarthol ac addysg bellach ar gyfer 2020-21 yn gynharach eleni. Mae'r cynlluniau'n nodi blaenoriaethau strategol rhanbarthol lefel uchel ar gyfer diwygio ADY. Mae'r Arweinwyr Trawsnewid yn parhau i gyfarfod â swyddogion yn wythnosol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'u cynlluniau rhanbarthol ac addysg bellach ac amlygu, trafod a datrys unrhyw faterion.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid gan gynnwys Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), i ddiweddaru ac addasu taflenni ffeithiau sy'n bodoli eisoes ar fathau o ADY fel y gall y rhai sydd yn y rolau statudol ac ymarferwyr mewn amrywiaeth o leoliadau addysg eu defnyddio i'w helpu i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldeb mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

**3. Datblygu'r gweithlu**

Rhan ganolog o weithgarwch diwygio ADY a datblygu'r gweithlu yw'r rhaglen dysgu ADY, a fydd yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach i'w galluogi i wireddu uchelgais y ddeddfwriaeth ADY ar gyfer dysgwyr ledled Cymru.

Mae rhan o'r rhaglen waith hon yn cynnwys datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), darpar CADYau ac athrawon a darlithwyr coleg â diddordeb yn y maes.

Rydym yn gweithio gyda'n Harweinwyr Trawsnewid ADY, prifysgolion Cymru, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu llwybr cydnabyddedig ac achrededig ar gyfer y cynnig dysgu proffesiynol ADY. Bydd y rhain ar gael o fis Medi 2021.

Bydd yr opsiwn dysgu cydnabyddedig yn rhaglen ddysgu fanwl, ar-lein, ffurfiol a fydd yn gofyn am tua 20 awr o amser ymarferwyr i'w gwblhau. Bydd ar gael drwy blatfform dysgu digidol Hwb Llywodraeth Cymru a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Bydd yn rhad ac am ddim i ymarferwyr gael mynediad iddo.

Yn y flwyddyn newydd, rydym yn bwriadu recriwtio arbenigwyr dysgu ar-lein a fydd yn gweithio gyda'r Arweinwyr Trawsnewid ADY i ysgrifennu'r rhaglen ddysgu ADY gydnabyddedig. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal ymarfer caffael i ddod o hyd i gwmni i ddatblygu cynnwys aml-gyfrwng i'w rhoi yn y rhaglen ddysgu gyda'r bwriad o'i wneud mor ddiddorol ac effeithiol â phosibl i'r dysgwr.


Bydd yr opsiwn dysgu proffesiynol ADY arall yn llwybr achrededig. Bydd y modiwlau ADY achrededig ar gael ar sail annibynnol neu fel rhan o’r cymhwyster newydd, sef Gradd Meistr Genedlaethol mewn Addysg ar gyfer Cymru gyfan, sef MA Addysg Genedlaethol (Cymru).

Yn ogystal â'r rhaglen dysgu proffesiynol ADY, rydym yn darparu cyllid ar gyfer darpar CADYau mewn ysgolion a lleoliadau i ymgymryd â'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer datblygu Rhaglen Arweinyddiaeth Ganol Addysg Bellach. Bydd y Rhaglen Arweinyddiaeth Ganol yn cefnogi ein darpar CADYau i ddatblygu ymhellach y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau sydd eu hangen i fod yn arweinydd canol sy'n perfformio'n dda.

**4. Codi ymwybyddiaeth**

Mae Arweinwyr Trawsnewid ADY Rhanbarthol wedi cyflwyno cynlluniau cyfathrebu sy'n nodi sut y bydd eu rhanbarthau'n rhoi gwybod am y gwaith o ddatblygu'r rhaglen drawsnewid ADY ac yn cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith hwnnw. Bydd y strategaethau cyfathrebu hyn yn helpu plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid ehangach i gael ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwaith diwygio ADY a sicrhau bod negeseuon cyson a chywir yn cael eu rhannu ledled Cymru. Yn ogystal, mae'r Arweinwyr Trawsnewid ADY wedi cyflwyno cynlluniau hyfforddi rhanbarthol i gefnogi ymarferwyr drwy wella eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu a'u mynediad iddynt, ac mae’r hyfforddiant yn parhau i gael ei ddarparu ar sail ranbarthol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Eitem 4.7

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 7**

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne

Yn fy llythyr atoch ar 19 Tachwedd, ymrwymais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am broses o benodi Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).


Gan na fyddaf yn sefyll yn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf, ac o ystyried arwyddocâd y penodiad hwn, roeddwn yn teimlo ei bod yn briodol i'm holynydd arwain y broses i benodi Cadeirydd newydd parhaol Cyngor CCAUC.

Felly, rwyf wedi penderfynu penodi Rob Humphreys yn Gadeirydd dros dro, sy'n aelod o'r Cyngor ar hyn o bryd. Bydd Mr Humphreys yn gwasanaethu o 5 Ionawr 2021 tan 4 Ionawr 2022 neu hyd nes y penodir Cadeirydd parhaol, pa un bynnag sydd gyntaf.

Mae Mr Humphreys wedi bod yn Aelod o Gyngor CCAUC ers 15 Mehefin 2018. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru ac mae wedi gwasanaethu ar nifer o adolygiadau a chomisiynau addysg mawr, gan gynnwys adolygiadau Diamond a Rees a'r Comisiwn Annibynnol ar Goleg y Dyfodol. Mae ei wybodaeth, ei brofiad a'i ymrwymiad i addysg uwch, dysgu gydol oes a rôl ddinesig a diwylliannol y sector yng Nghymru heb ei ail. Mae ei brofiad fel aelod o'r Cyngor a chadeirydd Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr CCAUC yn ei wneud yn ymgeisydd ardderchog i wasanaethu fel Cadeirydd dros dro.

Rwy’n rhagweld y bydd y broses benodi'n cael ei chynnal eto, dan Weinidog newydd, yn dilyn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JM/4292/20

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr 2020 yn fy hysbysu o'r ymgynghoriad diweddar a gynhalioch â rhanddeiliaid ar ymateb Llywodraeth Cymru i'ch ymholiad a'ch adroddiad ar Hawliau Plant yng Nghymru.

Gofynnoch am gopi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yng nghyswllt:

- yr adolygiad a'r newidiadau a wnaed i Fodel Cyllido ar sail Gweithgareddau Llywodraeth Cymru; a
- dyrannu cyllid i Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2020-2025 Llywodraeth Cymru, fel y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth gan Ysbyty Plant Noah's Ark

Mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu, o fewn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cwblhau Asesiad Effaith Integredig mewn cysylltiad â'r dull cyllido newydd, a oedd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Fodd bynnag, bu peth oedi o ran cyhoeddi'r Asesiad o ganlyniad i bwysau yn ymwneud â COVID yn y Tîm Ymchwil a Datblygu. Y bwriad yw blaenoriaethu'r dasg hon erbyn diwedd mis Ionawr.

Drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (cangen allanol yr Is-adran Ymchwil a Datblygu) mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn ymchwil sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc o fewn y Seilwaith Datblygu Ymchwil sy'n rhan o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW RDI). Er enghraifft, rydym yn ariannu'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), sy'n canolbwyntio ar ymchwil gofal cymdeithasol plant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, a'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) a'r ganolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd. Mae'r ganolfan honno'n canolbwyntio ar lesiant ac ymddygiad iechyd plant a phobl ifanc ac mae'n ymgorffori'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN). Yn ogystal â hyn, mae ein Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd fel un o'i dwy ffrwd waith graidd ac mae'n rhedeg y Rhwydwaith Iechyd a Chyrhaeddiad Disgyblion mewn Addysg Gynradd (HAPPEN).

Hefyd fel rhan o RDI HCRW, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o grwpiau seilwaith datblygu ymchwil eraill, megis unedau treialon clinigol, economegwyr iechyd a'r grŵp Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), i gydweithio â grwpiau ymchwil sy'n ceisio ennill

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyllid ymchwil gan gyllidwyr ymchwil o ansawdd uchel (cyhoeddus, elusennol a masnachol) o bob rhan o'r DU a thu hwnt.

Yn ogystal â hyn, ac mewn perthynas â chapasiti ymchwil mewn ymchwil bediatrig, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu cyllid ar gyfer un sesiwn yr wythnos (0.1wte) o amser y Dr Phillip Connor fel ein Harweinydd Arbenigol ar gyfer ymchwil bediatrig. Mae'r rôl yn un sy’n hyrwyddo ymchwil bediatrig drwy greu rhwydweithiau a all helpu i adeiladu màs critigol mewn ymchwilwyr (a elwir yn brif ymchwilwyr) a chefnogi’r nifer sy’n manteisio ar astudiaethau ledled Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle i’r Dr Connor ymgymryd â rôl arweiniol genedlaethol i ddatblygu ymchwil bediatrig yn benodol. Mae hefyd yn rhoi aelodaeth o Grŵp Arbenigol perthnasol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd y DU, a ddylai gryfhau ei allu i ddod â threialon i Gymru. Mae tua 30 o arweinwyr arbenigol yng Nghymru ar draws ystod eang o themâu neu feysydd clefydau. Mae'r ymrwymiad amser y Dr Connor i’r sesiynau hyn (un sesiwn yr wythnos) yn debyg i swyddi yn y 29 o feysydd pwnc a chlefydau eraill ac mae'n debyg i rolau a ariennir yn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (y sefydliad cyfatebol yn Lloegr).

Gwnaethoch hefyd ofyn am gylch gorchwyl yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru y cyfeiriais ato yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Hawliau Plant.

Mae manyleb yr ymchwil yn nodi'r nodau a'r amcanion a ganlyn:

- Datblygu dealltwriaeth glir o ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol i benderfynu a yw'r rhain yn berthnasol i ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ac i ba raddau

- Edrych a oes tystiolaeth y byddai gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol yn cryfhau ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

- Edrych a oes tystiolaeth y byddai cyflwyno deddfwriaeth a phwerau newydd, gan gynnwys ymgorffori confensiynau pellach gan y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru a/neu'r posibilrwydd o gael Ddeddf Hawliau Dynol i Gymru, yn cryfhau ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Cynnwys asesiad i weld a fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a phwerau newydd yn tanseilio a/neu'n ychwanegu rhagor o gymhlethdod i'r fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru

- Cymharu’r opsiynau o wneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol â chyflwyno deddfwriaeth a phwerau newydd, o ran cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Cynnwys argymhellion seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Dylid ystyried y nodau a'r amcanion hyn yng nghyd-destun deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth Gymreig er mwyn penderfynu pa agweddau ar gydraddoldeb a hawliau dynol sy'n ddibynnol ar ddeddfwriaeth ehangach.

Ni fydd yr ymchwil yn ystyried yn benodol rinweddau a dichonoldeb gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r

Plentyn ond bydd yn ystyried a ddylid gosod rhwymedigaethau hawliau dynol ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru.

O ran y Bil Cwricwlwm ac Asesu, rwy'n ymwybodol eich bod wedi cael gohebiaeth gan Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, dyddiedig 5 Tachwedd.

Bydd ein hymgynghoriad ar y Cynllun drafft ar Hawliau Plant (sydd i fod i fynd yn fyw cyn toriad mis Rhagfyr) yn cyfeirio at ein strategaeth ddiweddaraf ar godi ymwybyddiaeth. Rydym wir yn gweld y cwricwlwm fel rhan o'n strategaeth hirdymor ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r UNCRC.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 4.9

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 9**

Drwy e-bost

At Lynne Neagle AS,
Cadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne,

*Parthed: Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019-20*

Yn dilyn eich llythyr diweddar yn gofyn am wybodaeth am y camau gweithredu o'n hadroddiad blynyddol 2019-20, dyma ein hymateb.

Mae ein dull rheoleiddio'n eangfrydig, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio i gryfhau ein gallu i hybu hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

## 1. Dealltwriaeth y cyhoedd a chyfathrebu

1.1 Drwy gydol 2021 byddwn yn parhau i ddarparu gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltiol amserol â rhanddeiliaid. Fel y dywedasom yn y pwyllgor, fel rhan o'n rôl fel rheoleiddiwr annibynnol mae angen i ni sicrhau bod dealltwriaeth gyhoeddus glir o'r system gymwysterau. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion, colegau a rhanddeiliaid eraill ac yn darparu sesiynau briffio a gwybodaeth rheolaidd i gefnogi athrawon, swyddogion arholiadau a dysgwyr. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Cyfathrebu a Pholisi Llywodraeth Cymru a CBAC yn ein priod rolau fel bod dull cydgysylltiedig o gyfathrebu ag athrawon, dysgwyr a rhieni ynglŷn â chyfres arholiadau 2021. Byddwn yn cynnwys ein cynnydd o ran y rhan bwysig hon o'n gwaith yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2020-21.

1.2 Rydym yn gweithredu ar y cyd ac yn defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid fel y bo'n briodol. Mae gennym amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Mae ymgysylltu â nhw yn hanfodol i lywio ein penderfyniadau. Mae gennym nifer o grwpiau rhanddeiliaid sefydledig sy'n rhoi cipolwg a chyngor i Cymwysterau Cymru ar amrywiaeth o faterion. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys ein Grŵp Cyfeirio Penaethiaid Ysgolion, Y Grŵp Undebau Athrawon a Sefydliadau Cynrychioliadol a grŵp Rhanddeiliaid 2021 a sefydlwyd yn fwy diweddar. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n barhaus ag Estyn, CCAC, CLILC a'r consortia addysg.

1.3 Rydym wedi dysgu llawer o'n profiad yn ystod haf 2020. Cafwyd 2,079 o ymatebion gan ddysgwyr yn unig i'n hymgynghoriad â'r cyhoedd. Ond rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor. Yn ystod chwarter cyntaf 2021, gan weithio gyda'r

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222
www.cymwysteraucymru.org

Comisiynydd Plant, byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori Dysgwyr o 14 o bobl ifanc a fydd yn ein helpu i wrando a dysgu am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
Bydd yr Aelodau i gyd mewn addysg ac yn astudio ystod o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol ac yn dod o amrywiaeth o leoliadau addysg gan gynnwys addysg bellach, ysgolion, ymgeiswyr allanol, dysgwyr cyfrwng Cymraeg a dysgwyr ag ADY. Bydd aelodau'n cael eu recriwtio o bob rhan o Gymru.

1.4 Byddwn yn parhau i gyhoeddi tystiolaeth ystadegol, adroddiadau ymchwil a chynnal ein harolwg rhanddeiliaid blynyddol sy'n ein galluogi i ddeall barn pobl am gymwysterau. Mae'r arolwg blynyddol hwn yn ein galluogi i fesur unrhyw amrywiadau yn agweddau'r cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth i gefnogi ein gwaith.

1.5 Rhwng 19 Ionawr a 31 Mawrth 2021, byddwn yn ymgynghori ynghylch pa brif gymwysterau ddylai fod ar gael fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn gweithredu ar y cyd ac yn defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid fel y bo'n briodol. Rydym wedi trefnu cyfres o weminarau wedi'u hanelu at ymarferwyr ac ysgolion ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Youth Cymru a fydd yn cynnal grwpiau ffocws gyda'u rhwydwaith sefydledig o blant a phobl ifanc. Wrth gydnabod llais pwysig rhieni a gofalwyr rydym hefyd yn gweithio gyda Parentkind a fydd yn cynnal grwpiau ffocws gyda'u haelodau ar y cynigion ymgynghori ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

## 2. Dyfarnu yn Haf 2021

2.1 Byddwn yn cynhyrchu cyfathrebiadau clir, llawn gwybodaeth, amserol ac wedi'u targedu ac yn adolygu effaith ein cyfathrebu'n rheolaidd ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella ein dull gweithredu. Wrth gydnabod pwysigrwydd barn y cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am weithgarwch a chynlluniau Cymwysterau Cymru.

2.2 Rydym yn bwriadu defnyddio dull wedi'i dargedu i ymgysylltu â dysgwyr ar gyfryngau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn lansio ymarfer tri mis drwy Instagram wedi'i dargedu at ddysgwyr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n ehangach drwy'r cyfryngau cymdeithasol i helpu i egluro'r hyn sy'n digwydd gydag asesiadau yn 2021.

## 3. Cymwysterau Galwedigaethol

3.1 Rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol i drafod y materion sy'n wynebu'r sectorau dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach wrth gyflwyno cymwysterau yn 2021. Mae'r grŵp eisoes yn chwarae rhan allweddol wrth gasglu a rhannu adborth gan y sector ehangach, lledaenu gwybodaeth a llywio ein penderfyniadau. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ColegauCymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r sector drwy fynychu grwpiau fel rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ColegauCymru a'u Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd yn ôl y gofyn.

3.2 Mae'r trafodaethau hyn gyda rhanddeiliaid wedi ein cefnogi ni a'r cyrff dyfarnu i wneud addasiadau pellach i gymwysterau a gyhoeddwyd cyn gwyliau'r Nadolig. Mae'r addasiadau hyn yn lleihau'r baich asesu ar ddysgwyr a chanolfannau yn sylweddol dros y flwyddyn i ddod.

3.3 Gwnaethom ymestyn yr addasiadau ar gyfer cymwysterau Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru, Lefelau 1-3, a oedd i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr, tan 31 Awst 2021.
Disgwyliwn i'r estyniad i gynorthwyo llawer o ddysgwyr i gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth yn llwyddiannus dros y misoedd nesaf a lliniaru rhywfaint o'r pwysau ar ddysgwyr a chanolfannau.

3.4 Rydym hefyd wedi ymestyn yr addasiadau ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd o fis Rhagfyr tan 31 Awst 2021. Buom yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gytuno ar yr addasiadau hyn i sicrhau eu bod yn cefnogi'n llawn yr addasiadau i'r cymwysterau hyn sy'n chwarae rhan bwysig o ran bodloni gofynion y gweithlu.

3.5 Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol Estynedig ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd i gyrff dyfarnu addasu eu cymwysterau i liniaru effaith y pandemig ar ddysgwyr. Rydym yn annog cyrff dyfarnu i ddefnyddio'r hyblygrwydd llawn sydd ar gael iddynt o dan y fframwaith.

3.6 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr yn y DU ar gymwysterau tair gwlad i sicrhau bod anghenion dysgwyr yng Nghymru yn cael eu hystyried a bod penderfyniadau a dulliau cyfathrebu'n cael eu halinio. Yn dilyn cyhoeddiad yr Adran Addysg yn Lloegr ar 3 Rhagfyr, mae cyrff dyfarnu yn ystyried pa addasiadau pellach a allai fod yn briodol ar gyfer eu cymwysterau a byddant yn rhoi rhagor o fanylion i ganolfannau ym mis Ionawr.

3.7 Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cymeradwy i Gymru yn unig, yn ogystal â'r addasiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cymwysterau tair gwlad, rydym wedi gofyn i CBAC ystyried a allai unrhyw ran o'r dulliau a nodir mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol Cymeradwy yn haf 2021 fod yn briodol hefyd.

3.8 Bydd cyrff dyfarnu a rheoleiddwyr yn parhau i ymateb i'r adborth gan ganolfannau, y sefyllfa iechyd cyhoeddus sy'n datblygu, ac unrhyw benderfyniadau polisi gan y llywodraeth. Efallai y bydd addasiadau pellach yn bosibl mewn rhai cymwysterau, ond efallai na fydd hyn yn wir am lawer o gymwysterau sy'n cadarnhau cymhwysedd proffesiynol lle byddai unrhyw newidiadau pellach yn tanseilio dilysrwydd a phwrpas y cymwysterau.

## 4. Gwelliant parhaus yn ein dulliau cyfathrebu

4.1 Rydym yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n gwaith i asesu'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu.

4.2 Mae ein harchwilwyr mewnol wedi dilyn hynt y gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yr wythnos hon ac rydym yn falch o adrodd y bu cynnydd yn y meysydd a amlinellwyd ar gyfer gwella. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys diweddaru'r Strategaeth Gyfathrebu a gweithredu cynllun cyfathrebu mewnol a phroses olrhain o fewn y tîm cyfathrebu.

4.3 Byddwn yn parhau i fonitro a gwella ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu fel blaenoriaeth. Bydd yr archwilwyr yn dychwelyd ym mis Mawrth 2021 i werthuso effaith a chynnydd gweithrediadau ymhellach, a byddwn yn adrodd ar y cynnydd yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

## 5. Adfer safonau

5.1 Rydym nawr yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer 2021. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn gweithio gyda CBAC, cyrff dyfarnu eraill a'n cyd-reoleiddwyr i sefydlu llwybr sy'n adfer safonau ar ôl COVID. Ar wahân i'r gwaith technegol y bydd angen ei gwblhau, deallwn y bydd angen i ni hefyd gynnwys gwaith i sicrhau dealltwriaeth y cyhoedd o unrhyw ddulliau gweithredu, yn ogystal â derbynioldeb cyhoeddus yr egwyddorion. Ni fydd y rhain yn bethau syml i'w cyflawni a bydd angen i ni barhau i ystyried barn rhanddeiliaid fel rhan bwysig o'r broses hon. Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

5.2 Bydd ein penderfyniadau yn parhau i ystyried cymwysterau tebyg, gan gynnal llwybr cyffredin gydag awdurdodaethau eraill y DU (neu a ddyfarnwyd yn Ewrop neu rywle arall) fel ein bod yn parhau yn unol â disgwyliadau dysgwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau o ran addysg a hyfforddiant.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus, a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn 2021.

Yn gywir,





David B Jones OBE DL
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 10**

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am graffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

Byddaf yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Yn ystod y ddadl byddaf hefyd yn ymateb i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y ddau Bwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 11**

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Lynne Neagle MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobol Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Ionawr 2021

Annwyl Lynne

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi imi gysylltu gyda'r Prif Weinidog y tymor diwethaf i fynegi fy mwriad i ymddeol o'm swydd fel Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ddiwedd mis Awst 2021.

Bu'n bleser ac yn anrhydedd mawr arwain Estyn ac rwyf wedi mwynhau gweithio gyda chi a chyda aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Rwy'n edrych ymlaen at ymddangos o flaen y Pwyllgor PPIA yr wythnos nesaf, ac i barhau i weithio gyda chi am weddill fy amser yn fy swydd.

Cofion cynnes

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael yr un flaenoriaeth â gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in Welsh will be given equal priority to correspondence received in English.

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon